# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 29 Chwefror 2012
Wednesday, 29 February 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer

3 Cwestiynau i Weinidog yr Amglychedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

16 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

49 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Mewnfuddsoddiad yng Nghymru
Welsh Conservatives Debate: Inward Investment in Wales

81 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Cadair Olwyn
Welsh Conservatives Debate: Wheelchair Services

107 Dadl Plaid Cymru: Ysbytai Cyffredinol Dosbarth
Plaid Cymru Debate: District General Hospitals

139 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

147 Dadl Fer: Cuts Watch Cymru
Short Debate: Cuts Watch Cymru


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
## Election of Temporary Deputy Presiding Officer

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations.

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, rwyf yn gwahodd enwebiadau.

**Peter Black:** I nominate Rhodri Glyn Thomas.

**Peter Black:** Rwyf yn enwebu Rhodri Glyn Thomas.

**The Presiding Officer:** I therefore declare that Rhodri Glyn Thomas is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting.

**Y Llywydd:** Rwyf yn datgan felly bod Rhodri Glyn Thomas wedi cael ei ethol yn Ddirprwy Lywydd ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw.

## Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
## Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

### Cyfyngiadau Cynllunio

### Planning Restrictions

***1. Eluned Parrott:*** *A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i leihau'r cyfyngiadau cynllunio i fusnesau sy'n bwriadu adeiladu unedau ynni adnewyddadwy ar eu heiddo. OAQ(4)0099(ESD)*

***1. Eluned Parrott:*** *Does the Minister have any plans to reduce planning restrictions for businesses proposing to build renewable energy units on their premises. OAQ(4)0099(ESD)*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** The planning system should, wherever possible, facilitate businesses to install renewable energy equipment on their premises. In 2010, we undertook a consultation exercise on proposals to allow the installation of a wide range of microgeneration equipment on non-domestic properties without the need for planning permission. We are now addressing the technical issues arising from this consultation with the other Government administrations in the UK.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai'r system gynllunio gynorthwyo busnesau i osod offer ynni adnewyddadwy ar eu heiddo. Yn 2010, cynaliasom ymarfer ymgynghori ar gynigion i ganiatáu gosod amrywiaeth eang o offer microgynhyrchu ar eiddo annomestig heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Rydym yn awr yn mynd i'r afael â'r materion technegol sy'n codi o'r ymgynghoriad hwn â gweinyddiaethau Llywodraethau eraill yn y DU.

**Eluned Parrot:** Thank you for that full answer. Many of our energy-intensive industries, and many that are not, are seeking to reduce their carbon footprint through

**Eluned Parrott:** Diolch ichi am yr ateb llawn hwnnw. Mae nifer o'n diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, a nifer o ddiwydiannau nad ydynt yn gwneud hynny,

renewable energy, but they come up against what they consider to be excessive bureaucracy. What action do you anticipate being able to take to speed up the decision-making process for green energy investments?

yn ceisio lleihau eu hôl troed carbon drwy gyfrwng ynni adnewyddadwy. Ond, maent yn wynebu'r hyn y maent yn ei ystyried yn fiwrocratiaeth ormodol. Pa gamau yr ydych yn rhagweld y bydd modd eu cymryd er mwyn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer buddsoddiadau ynni gwyrdd?

**John Griffiths:** We are currently taking forward some work on how the consenting process has worked for energy-related planning applications. When the consultants complete that work, it will give us some important lessons in looking at actual planning applications and the barriers, difficulties and issues involved in taking those forward. So, that work will be important. More generally, through the low-carbon revolution, we have policies and strategies in place to look at issues in the round in taking forward that sort of development.

**John Griffiths:** Rydym wrthi'n bwrw ymlaen â gwaith sy'n ystyried sut y mae'r broses gydsynio wedi gweithio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag ynni. Pan fydd yr ymgynghorwyr yn cwblhau'r gwaith hwnnw, bydd yn rhoi gwersi pwysig inni o ran edrych ar geisiadau cynllunio gwirioneddol a'r rhwystrau, yr anawsterau a'r problemau sy'n gysylltiedig â mynd â'r rheini rhagddynt. Felly, bydd y gwaith hwnnw'n bwysig. Yn fwy cyffredinol, yn sgîl y chwyldro carbon isel, mae gennym bolisïau a strategaethau ar waith ar gyfer edrych ar faterion sy'n ymwneud â mynd â'r math hwnnw o ddatblygiad rhagddo.

**Simon Thomas:** Wrth i chi ymwneud â'r materion technegol ynghylch gosod unedau o'r fath ar eiddo busnesau, a fyddwch yn ystyried llacio'r rheolau mewn parciau cenedlaethol hefyd? Mae nifer o fusnesau yn y parciau cenedlaethol a fyddai'n hoffi datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy, ond maent yn canfod problemau difrifol hyd yn oed o ran gosod paneli haul, er enghraifft. Os ydym ni wir am weld y parciau cenedlaethol yn arddangos cynaliadwyedd yng Nghymru, oni fyddai'n gwneud synnwyr i'w gwneud hi'n haws i gynlluniau ynni adnewyddadwy fod yn rhan o'r busnesau yn y parciau hynny?

**Simon Thomas:** As you deal with the technical issues relating to installing such units on business premises, will you consider relaxing the rules in national parks too? A number of businesses within the national parks would like to develop renewable energy schemes, but they encounter serious problems just in trying to install solar panels, for example. If we are truly to see the national parks as a beacon of sustainability in Wales, would it not make sense to make it easier for renewable energy schemes to be taken up by businesses in those parks?

**John Griffiths:** We have quite an amount of work going on at the moment in terms of how the planning process works. That includes the experience of the national parks and energy projects, as I said earlier. We will evaluate all of that evidence in determining the best way forward.

**John Griffiths:** Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o ran sut mae'r broses gynllunio'n gweithio. Mae hynny'n cynnwys profiad y parciau cenedlaethol a phrosiectau ynni, fel y dywedais yn gynharach. Byddwn yn gwerthuso'r dystiolaeth honno i gyd wrth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

**Safonau BREEAM**

**BREEAM Standards**

***2. Julie Morgan:*** *A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd adeiladau newydd sy'n cael eu hariannu o bwrs y wlad yn parhau i*

***2. Julie Morgan:*** *Will the Minister confirm that new publicly funded buildings in Wales will continue to aim to meet the globally*

*geisio bodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni BREEAM sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang. OAQ(4)0095(ESD)*

*recognised BREEAM standards for energy efficiency. OAQ(4)0095(ESD)*

**John Griffiths:** We continue to require new buildings promoted or supported by us or our sponsored bodies to meet BREEAM standards. Nationally recognised quality assured standards such as BREEAM provide a consistent and common framework against which the sustainability of most types of new buildings can be assessed.

**John Griffiths:** Rydym yn parhau i fynnu bod adeiladau newydd sy'n cael eu hyrwyddo neu'u cefnogi gennym ni neu gan gyrff sy'n cael eu noddi gennym yn bodloni safonau BREEAM. Mae safonau sicrhau ansawdd sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, fel BREEAM, yn darparu fframwaith cyson a chyffredin y gellir ei ddefnyddio i asesu cynaliadwyedd y rhan fwyaf o adeiladau newydd.

**Julie Morgan:** Thank you for that reassuring reply. In view of the fact that the UK coalition Government has been considering removing the requirement for all new-build schools in England to meet strict BREEAM green standards, do you agree that the application of BREEAM environmental standards are essential for new public buildings in Wales because of the environmental implication?

**Julie Morgan:** Diolch am yr ymateb calonogol hwnnw. Yn wyneb y ffaith bod Llywodraeth glymblaid y DU wedi bod yn ystyried cael gwared ar y gofyniad y dylai pob ysgol sy'n cael ei hadeiladu o'r newydd yn Lloegr fodloni safonau gwyrdd llym BREEAM, a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol bod adeiladau cyhoeddus newydd yng Nghymru yn cadw at safonau amgylcheddol BREEAM oherwydd y goblygiadau amgylcheddol?

**John Griffiths:** I very much agree with you. It is vitally important that public buildings fulfil a leadership role. In achieving high environmental performance and standards, we can help to build experience and understanding of how to achieve those high standards for all sectors in taking forward the leadership role in the public sector. I am happy to say that the buildings covered by our policy include local authority buildings such as schools, and that it extends to the twenty-first century schools programme.

**John Griffiths:** Rwyf yn cytuno â chi. Mae'n hollbwysig bod adeiladau cyhoeddus yn arwain y ffordd yn hyn o beth. Wrth sicrhau perfformiad amgylcheddol uchel a bodloni safonau, gallwn helpu i feithrin profiad a dealltwriaeth er mwyn gweld sut y gall pob sector sicrhau'r safonau uchel hynny wrth arwain y ffordd yn y sector cyhoeddus. Rwyf yn falch o ddweud bod yr adeiladau a gwmpesir yn ein polisi yn cynnwys adeiladau awdurdod lleol fel ysgolion, a'i fod yn ymestyn i raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

**Paul Davies:** Minister, I have already written to you regarding proposals to build a new religious and community centre at Withybush in my constituency. I have already informed you that the congregation had to pay to establish a scoring assessment model in their BREEAM assessment, because one did not exist for this particular application. I am told that, in future, buildings of this type will not require this fee to be paid now that an assessment is in place. Given the circumstances, will the Minister tell us what the Welsh Government is doing to ensure that future first-time applicants do not have to pay

**Paul Davies:** Weinidog, rwyf eisoes wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â chynigion i adeiladu canolfan grefyddol a chymunedol newydd yn Llwynhelyg yn fy etholaeth. Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod ichi y bu'n rhaid i'r bobl a fyddai'n defnyddio'r adeilad dalu i sefydlu model asesu ar sail sgôr yn eu hasesiad BREEAM gan nad oedd un yn bodoli ar gyfer y cais penodol hwn. Dywedir wrthyf na fydd angen talu'r ffi hon ar gyfer adeiladau fel y rhain yn y dyfodol gan fod asesiad ar gael erbyn hyn. O ystyried yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru yn ei

this fee when no assessment model is in place?

wneud i sicrhau nad yw'r rheini sy'n ymgeisio am y tro cyntaf yn y dyfodol yn gorfod talu'r ffi hon pan nad oes model asesu ar gael?

**John Griffiths:** It is important that when we take forward the increased standards that are rightly part of our policies, we do so in a way that understands the different circumstances of particular organisations and sectors in Wales. I am pleased whenever we can arrive at a situation that makes it easier and less costly for church groups or others to take forward work to meet the required standards. We will, of course, disseminate that information and ensure that new applicants are aware of those circumstances.

**John Griffiths:** Pan fyddwn yn bwrw ymlaen â'r safonau uwch sydd, yn briodol iawn, yn rhan o'n polisïau, mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n deall gwahanol amgylchiadau sefydliadau a sectorau penodol yng Nghymru. Mae’n destun balchder imi pryd bynnag y bo modd inni gyrraedd sefyllfa sy'n ei gwneud yn haws ac yn llai costus i grwpiau eglwysi neu grwpiau eraill i fwrw ymlaen â gwaith i fodloni’r safonau gofynnol. Byddwn, wrth gwrs, yn rhannu'r wybodaeth honno ac yn sicrhau bod yr ymgeiswyr newydd yn ymwybodol o'r amgylchiadau hynny.

**Alun Ffred Jones:** A yw’r Llywodraeth wedi cynnal asesiad o enillion amgylcheddol trwy arbed allyriadau carbon yn erbyn y gost ychwanegol o godi adeiladau i safon BREEAM?

**Alun Ffred Jones:** Has the Government assessed the environmental gains achieved by reducing carbon emissions by setting those against the additional cost of constructing buildings to the BREEAM standard?

**John Griffiths:** We constantly evaluate and monitor the impact of these BREEAM standards in conjunction with the Building Research Establishment. We will continue to do that, because it is part of ensuring that we, as a Government, have an evidence-based approach in taking forward this particular policy.

**John Griffiths:** Rydym yn mynd ati'n gyson i werthuso ac i fonitro effaith y safonau BREEAM hyn ar y cyd â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Byddwn yn parhau i wneud hynny, oherwydd mae'n rhan o'r gwaith o sicrhau bod gennym ni, fel Llywodraeth, ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd â'r polisi penodol hwn rhagddo.

### Parciau Cenedlaethol Cymru

### Wales’s National Park

***3. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Parciau Cenedlaethol Cymru. OAQ(4)0091(ESD)*

***3. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on the future of Wales’ National Parks. OAQ(4)0091(ESD)*

**John Griffiths:** The national parks are very important environmental, economic and social assets for Wales. They contain the highest quality landscape and act as magnets for tourism. In taking forward ‘Sustaining a Living Wales’, the Welsh Government remains committed to their continued protection and sustainable management.

**John Griffiths:** Mae'r parciau cenedlaethol yn asedau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol hollbwysig i Gymru. Maent yn cynnwys tirwedd o'r ansawdd gorau ac yn denu twristiaid. Wrth fynd â ‘Cynnal Cymru Fyw’ rhagddo, mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i ddal ati i'w gwarchod a'u rheoli'n gynaliadwy.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. You will be aware that one of the biggest complaints in national park areas is the lack of democratic accountability of some members of national park authorities. What consideration has the Welsh Government

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol mai un o'r cwynion mwyaf yn ardaloedd y parciau cenedlaethol yw diffyg atebolrwydd democrataidd ambell aelod o awdurdodau’r parciau cenedlaethol. Pa ystyriaeth y mae

given to the possibility of having directly elected members to national park authorities, perhaps through the existing ward members of local councils in those national park areas or through a system of elections to national park authorities in their own right? You will be aware that some steps have been taken in Scotland on this matter. Would you consider doing something similar in Wales?

Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r posibilrwydd o gael aelodau wedi'u hethol yn uniongyrchol ar awdurdodau parciau cenedlaethol, drwy aelodau presennol wardiau cynghorau lleol yn yr ardaloedd hynny efallai, neu drwy system etholiadau ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu hawl eu hunain? Byddwch yn ymwybodol bod rhai camau wedi eu cymryd yn yr Alban ar y mater hwn. A fyddech yn ystyried gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru?

**John Griffiths:** I am happy to assure Darren Millar that we keep these matters under constant review. We are taking a keen interest in what has happened in Scotland and in some pilot schemes on direct election that will be held in England very shortly. We are, therefore, always open to ideas and we want to keep abreast of the most recent developments. We consulted on the possibility of direct elections a few years ago. The responses were not supportive of that development at that time. However, these matters are kept under review.

**John Griffiths:** Rwyf yn falch o allu sicrhau Darren Millar ein bod yn adolygu'r materion hyn yn gyson. Rydym yn edrych â diddordeb ar yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban ac mewn rhai cynlluniau peilot ar etholiadau uniongyrchol a fydd yn cael eu cynnal yn Lloegr yn fuan iawn. Rydym felly bob amser yn fodlon derbyn syniadau ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Buom yn ymgynghori ar bosibilrwydd etholiadau uniongyrchol ychydig flynyddoedd yn ôl. Nid oedd yr ymatebion yn gefnogol i'r datblygiad hwnnw ar yr adeg honno. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn cael eu hadolygu'n gyson.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae'r atodiad i'ch rhaglen lywodraethu'n dweud bod

'datganiad polisi newydd ar dirweddau sydd wedi'u gwarchod trwy statud wrthi'n cael ei baratoi...Fe'i adlewyrchir yn rhaglenni gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol'.

Pryd bydd y datganiad polisi newydd hwn yn cael ei gyhoeddi, a sut bydd y Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw', a fydd hefyd yn dod ag oblygiadau i'r Bil amgylchedd a'r Bil cynllunio arfaethedig, yn dylanwadu ar y datganiad polisi hwnnw?

**Llyr Huws Gruffydd:** The annex to your programme for government states that

'A new policy statement for the statutory protected landscapes is being prepared, and will…be reflected in the work programmes of the National Park Authorities'.

When will this new policy statement be published, and how will the 'Sustaining a Living Wales' Green Paper, which will also have implications for the proposed environment and planning Bills, influence that policy statement?

**John Griffiths:** One of the most important aspects of taking forward the single environmental body is to integrate policy and work, here in the Assembly and with our outside partners, as effectively as possible. That is mirrored in 'Sustaining a Living Wales'. As part of that, we want to bring together important developments, such as our policy statement for Wales's protected landscapes. We are carrying that work out in partnership with the Countryside Council for

**John Griffiths:** Un o'r agweddau pwysicaf sy'n gysylltiedig â mynd â'r un corff amgylcheddol rhagddo yw integreiddio polisi a gwaith, yma yn y Cynulliad, a chyda'n partneriaid allanol, yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn 'Cynnal Cymru Fyw'. Fel rhan o hynny, rydym am ddod â datblygiadau pwysig at ei gilydd, fel ein datganiad polisi ar gyfer tirweddau gwarchodedig Cymru. Rydym yn gwneud y gwaith hwnnw ar y cyd

Wales. The park authorities play a part as well of course. We will take all of that together in an integrated way in line with the general direction of policy travel.

â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gan awdurdodau'r parciau rôl hefyd wrth gwrs. Byddwn yn ystyried hynny oll gyda'i gilydd mewn ffordd gyfannol ochr yn ochr â chyfeiriad cyffredinol y polisi.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***4. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0097(ESD)*

***4. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on his priorities for the next 12 months. OAQ(4)0097(ESD)*

**John Griffiths:** I am committed to fulfilling the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. These include putting sustainable development at the heart of Government and integrating the way in which we manage and regulate our use of land, sea, air and water.

**John Griffiths:** Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy o fewn y Llywodraeth ac integreiddio'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn rheoleiddio'r modd yr ydym yn defnyddio tir, môr, aer a dŵr.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that response. I am sure that one of his priorities as the Minister responsible is the eradication of bovine TB because it is clearly a priority for farmers in Pembrokeshire and throughout Wales. Your colleague the Leader of the House has told us that we are to receive a statement in March, but, according to the Assembly's forward business agenda, it is yet to be added. Can the Minister confirm whether we will receive a statement on this issue in March and whether he will publish the report from the science review panel as soon as possible?

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Rwyf yn siŵr mai un o'i flaenoriaethau fel y Gweinidog cyfrifol yw dileu TB mewn gwartheg gan fod hynny'n amlwg yn flaenoriaeth i ffermwyr yn sir Benfro a ledled Cymru. Mae eich cyd-Weinidog, Arweinydd y Tŷ, wedi dweud wrthym y byddwn yn cael datganiad ym mis Mawrth, ond, yn ôl agenda busnes y Cynulliad ar gyfer y dyfodol, nid yw wedi cael ei hychwanegu eto. A all y Gweinidog gadarnhau a fyddwn yn cael datganiad ar y mater hwn ym mis Mawrth ac a fydd yn cyhoeddi adroddiad y panel adolygu gwyddoniaeth cyn gynted ag y bo modd?

**John Griffiths:** I understand Members' concern about these very important matters, and I am happy to confirm that I intend to make a statement to Plenary in March and that the science review document will be published.

**John Griffiths:** Rwyf yn deall pryderon yr Aelodau am y materion hollbwysig hyn, ac rwyf yn falch o gadarnhau fy mod yn bwriadu gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth ac y bydd y ddogfen adolygu gwyddoniaeth yn cael ei chyhoeddi.

**Christine Chapman:** Minister, the RSPB's bird crime report for 2010 shows that 11 of 27 incidents relating to birds of prey took place in Rhondda Cynon Taf. Five of these related to peregrine falcons, including four nest robberies of eggs. The RSPB also refers to the 'persistent problem' of the illegal poisoning of peregrines in south Wales, all of which endangers already vulnerable species

**Christine Chapman:** Weinidog, mae adroddiad yr RSPB ar droseddau'n ymwneud ag adar yn dangos bod 11 o 27 o ddigwyddiadau'n ymwneud ag adar ysglyfaethus wedi digwydd yn Rhondda Cynon Taf. Roedd pump o'r rhain yn ymwneud â hebogiaid tramor, gan gynnwys pedwar achos o ladrata wyau o nythod. Mae'r RSPB hefyd yn cyfeirio at y 'broblem

and is contrary to the principles of sustainability and biodiversity we are trying to promote in this Assembly. In view of the problems faced by peregrines and other species in south Wales, what are the Welsh Government's priorities for tackling persecution of birds of prey?

barhaus' o wenwyno hebogiaid tramor yn anghyfreithlon yn y de, sy'n peryglu rhywogaethau sydd eisoes yn agored i niwed, ac yn mynd yn groes i'r egwyddorion cynaliadwyedd a bioamrywiaeth yr ydym yn ceisio'u hyrwyddo yn y Cynulliad hwn. O ystyried y problemau y mae hebogiaid tramor a rhywogaethau eraill yn eu hwynebu yn y de, beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag erlid adar ysglyfaethus?

**John Griffiths:** I thank Christine Chapman for this important question. Of course, we take environmental crime and these sorts of incidents very seriously indeed. We have Welsh Government wildlife advisers, who work very closely with the police and organisations such as the RSPB carrying out operations to target people suspected of taking part in this sort of criminal activity. There is a police investigation ongoing with regard to these matters. It would not be appropriate for me to say anything further regarding a particular investigation, but we are very concerned about these matters and we will continue our partnership approach.

**John Griffiths:** Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn pwysig hwn. Wrth gwrs, rydym yn rhoi sylw o ddifrif i droseddau amgylcheddol a digwyddiadau fel y rhain. Mae gan Lywodraeth Cymru ymgynghorwyr bywyd gwyllt sy'n gweithio'n agos iawn gyda'r heddlu a mudiadau fel yr RSPB i gynnal ymgyrchoedd er mwyn targedu pobl y ceir amheuaeth eu bod yn cymryd rhan yn y math hwn o weithgaredd troseddol. Mae'r heddlu wrthi'n cynnal ymchwiliad yng nghyswllt y materion hyn. Ni fyddai'n briodol imi ddweud dim byd pellach ynglŷn ag ymchwiliad penodol, ond rydym yn bryderus iawn am y materion hyn a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth.

**Llyr Huws Gruffydd:** Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol bod cryn ddadlau a thrafod wedi bod ynghylch cynlluniau datblygu lleol yng ngogledd Cymru a nifer arfaethedig y tai sydd, y byddai rhai yn dweud, yn cael eu gorfodi ar awdurdodau lleol. A fyddech yn cydnabod bod y ffaith bod yr arolygydd cynllunio wedi mynd yn ôl at gynghorau Wrecsam, Conwy a Dinbych i ddweud wrthynt fod yn rhaid iddynt godi mwy o dai yn profi bod y broses yn un o'r top i lawr ac nid yn un organig sy'n ymateb i anghenion lleol?

**Llyr Huws Gruffydd:** Minister, you will be aware that there has been quite some discussion and debate about local development plans in north Wales and the number of houses it is proposed to be built, which some would say are being forced on local authorities. Do you recognise that the fact that the planning inspector has gone back to Wrexham, Conwy and Denbighshire councils to state that they have to build more houses proves that this is a top-down process and not an organic one that responds to local need?

**John Griffiths:** No, I do not accept that at all. It is the case that local authorities are able to provide their own evidence with regard to housing demand and the required supply. Obviously, that must be robust evidence and local government plans are rightly subject to important scrutiny, including by the inspector. There is a robust process to be gone through, but if local authorities carry out their work effectively and provide robust evidence, they are able to depart from the figures we assessed as suitable for housing

**John Griffiths:** Na, nid wyf yn derbyn hynny o gwbl. Mae'n wir fod awdurdodau lleol yn gallu darparu eu tystiolaeth eu hunain o ran y galw am dai a'r cyflenwad gofynnol. Yn amlwg, mae'n rhaid i'r dystiolaeth honno fod yn gadarn ac mae'n rhaid i gynlluniau llywodraeth leol, yn gywir ddigon, fod yn destun craffu pwysig, gan gynnwys gan yr arolygydd. Ceir proses gadarn i'w dilyn, ond os bydd awdurdodau lleol yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn darparu tystiolaeth gadarn, gallant fynd yn groes i'r ffigurau a

need. So, there are opportunities for local authorities to accurately reflect local circumstances and ensure that that is carried through in the local development plan process.

aseswyd gennym ni fel rhai addas ar gyfer yr angen o ran tai. Felly, ceir cyfleoedd i awdurdodau lleol adlewyrchu amgylchiadau lleol yn gywir i sicrhau bod hynny'n mynd rhagddo ym mhroses y cynllun datblygu lleol.

1.45 p.m.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwy’n ofni, Weinidog, nad dyna’r teimlad ymhlith yr awdurdodau lleol na’r cymunedau lleol yn y gogledd ac yn rhannau eraill o Gymru. Credaf y byddai’n help petaech, fel Llywodraeth, yn gwrando’n fwy ar y sylwadau yn hytrach na bod mewn sefyllfa lle rydych yn cuddio y tu ôl i’r Arolygiaeth Gynllunio.

**Llyr Huws Gruffydd:** I am afraid, Minister, that that is not the feeling among local authorities or local communities in the north or other parts of Wales. I think that it would be of assistance if you, as a Government, were to listen more to those comments rather than being in a situation where you are hiding behind the Planning Inspectorate.

Dywedodd Carwyn Jones yma ddoe y byddai cyfle i edrych ar rai o’r materion hyn yng nghyd-destun y Bil cynllunio. A allwch gadarnhau y bydd y Bil cynllunio yn rhoi cyfle i adolygu’r broses cynlluniau datblygu lleol yn llawn? Os felly, a allwch gadarnhau bod rheswm dilys dros oedi rhag ofn inni gloi i mewn rhai o’r gwendidau sylfaenol hyn sydd yn y system bresennol ar gyfer y dyfodol?

Carwyn Jones said here yesterday that there would be an opportunity to look at some of these issues in the context of the planning Bill. Can you confirm that the planning Bill will offer an opportunity to fully review the local development plan process? If it will, can you confirm that there is a valid reason for the delay in case we lock in some of the fundamental weaknesses of the current system for the future?

**John Griffiths:** There is a lot of work going on with regard to the planning system at the moment. There have been opportunities to feed in to the independent advisory group on a whole host of issues to do with the structure and delivery of the planning system in Wales. There will opportunities to feed in in terms of the legislative process and a White Paper. There will be ample opportunity to make whatever points are felt to be relevant. If it is a matter of facing up to responsibilities, there are many local authorities in Wales that have not faced up to their responsibilities with regard to their local development plans. Those plans are absolutely vital in shaping what happens in terms of land use locally. Yet, many local authorities have not carried out the necessary work and do not have up-to-date plans in place. If it is a matter of levels of Government facing up to their responsibilities, there are questions for local authorities across Wales.

**John Griffiths:** Mae llawer o waith yn mynd rhagddo yng nghyswllt y system gynllunio ar hyn o bryd. Bu cyfleoedd i gyfrannu at y grŵp cynghori annibynnol ar lu o faterion yn ymwneud â strwythur y system gynllunio yng Nghymru a'r modd y mae'n cael ei chyflwyno. Bydd cyfleoedd i gyflwyno sylwadau yng nghyswllt y broses ddeddfwriaethol a’r Papur Gwyn. Bydd digon o gyfleoedd i gyflwyno pa bwyntiau bynnag y teimlir sy’n berthnasol. Os yw'n fater o wynebu cyfrifoldebau, ceir llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt wedi wynebu eu cyfrifoldebau yng nghyswllt eu cynlluniau datblygu lleol. Mae'r cynlluniau hynny’n gwbl hanfodol wrth siapio'r hyn sy'n digwydd o ran defnyddio tir yn lleol. Serch hynny, nid yw llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud y gwaith angenrheidiol ac nid oes ganddynt gynlluniau cyfredol. Os yw'n fater o lefelau o'r Llywodraeth yn wynebu eu cyfrifoldebau, ceir cwestiynau ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Aled Roberts:** Weinidog, mae’n anodd credu bod pob un o gynghorau’r gogledd yn anghytuno â safbwynt yr arolygwyr. Rydych yn dweud bod rhaid i dystiolaeth yr awdurdodau lleol fod yn gadarn. A yw tystiolaeth y Llywodraeth ei hun yn gadarn? O ran yr asesiad o’r galw am dai, mae’r rhan fwyaf o’r ceisiadau ynglŷn â’r galw wedi’u gwneud yn ystod y degawd diwethaf. Os yw’r galw wedi bod yn ormodol dros y degawd hwnnw, pa fath o asesiad a ydych yn ei gydnabod fel Llywodraeth?

**Aled Roberts:** Minister, it is hard to believe that each one of the north Wales councils disagrees with the position of the inspectorate. You say that the local authority evidence has to be firm. Is the Government’s evidence itself firm? As regards the assessment of housing need, most applications regarding the demand have been made during the past decade. If the demand has been excessive over the past decade, what kind of assessment do you recognise as a Government?

**John Griffiths:** The point is that if local authorities feel that the figures coming from the Welsh Government are not robust and appropriate, it is within their powers to carry out their own work and put forward their own figures. That is part of the local development plan process. If local authorities feel that they should do that work, it is an option that is open to them.

**John Griffiths:** Y pwynt yw, os yw awdurdodau lleol yn teimlo nad yw'r ffigurau sy'n dod gan Lywodraeth Cymru yn gadarn nac yn briodol, gallant wneud eu gwaith eu hunain a chyflwyno eu ffigurau eu hunain. Mae hynny'n rhan o broses y cynlluniau datblygu lleol. Os bydd awdurdodau lleol yn teimlo y dylent wneud y gwaith hwnnw, mae'n opsiwn sydd ar gael iddynt.

**Kenneth Skates:** Minister, statistics last month showed that the county of Wrexham achieved more than 50% in its recycling rates, which is the first time that it has been placed in the top-six areas in Wales for recycled municipal waste. In addition, national statistics show that Wales has achieved the highest quarterly recycling rate ever recorded of any UK nation, with an overall reduction of 5% in waste on the same period a year earlier. Although they are among the toughest recycling targets of any UK nation, will you reaffirm this Welsh Labour Government’s commitment to setting a target of 70% recycling in areas such as Wrexham by 2025 and a target of zero waste that is not recyclable by 2050?

**Kenneth Skates:** Weinidog, yn ôl ystadegau'r mis diwethaf, roedd sir Wrecsam wedi cyflawni mwy na 50 y cant yn ei chyfraddau ailgylchu. Dyma'r tro cyntaf i'r sir gael ei henwi'n un o'r chwe ardal sydd ar y brig yng Nghymru o ran ailgylchu gwastraff trefol. Yn ogystal, mae ystadegau gwladol yn dangos bod Cymru wedi llwyddo i gael y gyfradd ailgylchu chwarterol uchaf a gofnodwyd erioed o blith gwledydd y DU, ar ôl iddi leihau gwastraff 5 y cant o’i gymharu â’r un cyfnod flwyddyn yn gynharach. Er eu bod ymhlith y targedau ailgylchu anoddaf y mae unrhyw wlad yn y DU wedi’u cael, a wnewch gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i osod targed i ailgylchu 70 y cant mewn ardaloedd fel Wrecsam erbyn 2025, a tharged o ddim gwastraff nad oes modd ei ailgylchu erbyn 2050?

**John Griffiths:** I thank Ken Skates for that question. I am happy to reaffirm the Welsh Government’s commitment to those targets. It is instructive to look at where we were when devolution in Wales began, when we had single-figure recycling rates for household waste. We have now made so much progress that we are on target to reach the 52% figure for 2012-13. As Ken Skates has demonstrated with the statistics that he mentioned, this is an impressive rate of progress, and I look forward to continuing to

**John Griffiths:** Diolch i Ken Skates am y cwestiwn hwnnw. Mae'n bleser gennyf gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r targedau hynny. Mae'n addysgiadol edrych ar ein sefyllfa yn ystod dyddiau cyntaf datganoli yng Nghymru, pan oedd ein cyfraddau ailgylchu ar gyfer gwastraff cartref yn un ffigur. Erbyn hyn, cymaint fu ein cynnydd, rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y ffigur 52 y cant ar gyfer 2012-13. Fel mae Ken Skates wedi'i ddangos gyda'r ystadegau y soniodd amdanynt, mae hyn yn

work with local authorities across Wales to make further progress.

gynnydd trawiadol, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau cynnydd pellach.

**Cynllunio Datblygu Lleol**

**Local Development Planning**

*5.* ***Bethan Jenkins****: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio datblygu lleol o ran rhoi caniatâd ar gyfer siopau bwyd brys newydd. OAQ(4)0090(ESD)*

*5.* ***Bethan Jenkins:*** *Will the Minister make a statement on local development planning in relation to permissions for new fast food outlets. OAQ(4)0090(ESD)*

**John Griffiths:** New fast-food outlets require planning permission and applications should be determined in accordance with local development plan policies. The Town and Country Planning (Use Classes) Order 1987 allows fast-food outlets to change use to shops without the need for planning permission, but not vice versa.

**John Griffiths:** Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer siopau bwyd brys newydd, a dylai'r ceisiadau gael eu pennu yn unol â pholisïau cynlluniau datblygu lleol. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 yn caniatáu i siopau bwyd brys newid eu defnydd yn siopau heb ganiatâd cynllunio, ond nid i'r gwrthwyneb.

**Bethan Jenkins:** Thank you for that answer, Minister. From the research that I have carried out in this area, there is currently no requirement for fast-food outlets or chains to carry out any sort of healthy living environment or sustainable impact assessment when they want to open in, for example, a retail park or a town centre. This is relevant in places like Swansea, where one retail park has seven different fast-food chains within a minute of one another and, currently, McDonald’s is proposing a new chain store in that area. Will the Welsh Government consider introducing a policy requiring fast-food operators to demonstrate how they will address issues such as healthy eating and environmental concerns when applying to open a shop in those particular areas? Will you also consider limiting the number of such developments, as is happening in England in relation to schools?

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. O edrych ar y gwaith ymchwil yr wyf wedi ei wneud yn y maes hwn, nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i gadwyni na siopau bwyd brys gynnal unrhyw fath o asesiad effaith ar gynaliadwyedd nac asesiad amgylchedd byw'n iach pan maent yn dymuno agor mewn parc manwerthu neu yng nghanol tref er enghraifft. Mae hyn yn berthnasol mewn lleoedd fel Abertawe. Mae gan un parc manwerthu saith o wahanol gadwyni bwyd brys o fewn munud i'w gilydd ac, ar hyn o bryd, mae gan McDonalds gynlluniau i agor siop gadwyn newydd yn yr ardal honno. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr bwyd brys ddangos sut y byddant yn rhoi sylw i faterion megis bwyta'n iach a phryderon amgylcheddol wrth wneud cais i agor siop yn yr ardaloedd penodol hynny? A wnewch hefyd ystyried cyfyngu ar nifer y datblygiadau o'r fath, fel sy'n digwydd yn Lloegr yng nghyswllt ysgolion?

**John Griffiths:** As I have said a number of times already today, there is a lot of work going on around the planning system at the moment and there will be a lot of opportunities to feed in views on the matters that Bethan Jenkins mentions, as well as many others. I look forward to Members feeding in those views as this process goes forward.

**John Griffiths:** Fel yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith yn barod heddiw, mae llawer o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o ran y system gynllunio, a bydd llawer o gyfleoedd i gyflwyno sylwadau ynghylch y materion y mae Bethan Jenkins yn sôn amdanynt, ac ynghylch nifer o faterion eraill hefyd. Edrychaf ymlaen at weld yr Aelodau'n cyflwyno'r safbwyntiau hynny wrth i'r broses

hon fynd rhagddi.

**Mike Hedges:** Does the Minister agree that the local development plans need to be carefully constructed by local authorities in Wales so that they meet the needs and aspirations of local people in their area?

**Mike Hedges:** A yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen i awdurdodau lleol Cymru lunio'r cynlluniau datblygu lleol yn ofalus er mwyn iddynt ddiwallu anghenion a dyheadau pobl leol yn eu hardaloedd?

**John Griffiths:** Yes, I very much agree. I said earlier, in answering other Members' questions, that local authorities have an important responsibility in terms of their local development plans. They do, after all, look 15 years ahead and they are about a strategic framework for engaging communities locally and helping to shape the environment for the future. So, I think that they are very important documents indeed and local authorities need to show real commitment to having up-to-date local development plans in place.

**John Griffiths:** Ydw, rwyf yn cytuno'n fawr. Fel y dywedais yn gynharach, wrth ateb cwestiynau Aelodau eraill, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb pwysig o ran eu cynlluniau datblygu lleol. Wedi'r cyfan, maent yn edrych ar 15 mlynedd i'r dyfodol ac yn ymwneud â fframwaith strategol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau yn lleol a helpu i siapio'r amgylchedd ar gyfer y dyfodol. Felly, rwyf yn meddwl eu bod yn ddogfennau pwysig iawn yn wir, ac mae angen i awdurdodau lleol ddangos ymrwymiad gwirioneddol i gael cynlluniau datblygu lleol cyfredol.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** As someone who looks the picture of health and frequents quite a few fast-food restaurants on my travels, one issue that is raised by many of my constituents is the litter that many fast-food outlets sadly generate, especially the drive-through type. Are you confident, Minister, that the current rules and regulations afford planning authorities sufficient powers to sanction such outlets or to put safeguards into the original planning permissions so that they take responsibility for the litter that is generated in the immediate and surrounding areas?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Fel rhywun sy'n bictiwr o iechyd ac sy'n ymweld â sawl bwyty bwyd brys wrth deithio o le i le, un mater sy'n cael ei godi gan lawer o'm hetholwyr yw'r sbwriel y mae llawer o siopau bwyd brys, yn anffodus, yn ei gynhyrchu, yn enwedig y rheini sy'n cynnig gwasanaeth gweini yn y car. A ydych yn hyderus, Weinidog, fod y rheolau a'r rheoliadau presennol yn rhoi digon o bwerau i awdurdodau cynllunio gosbi siopau o'r fath neu gynnwys camau diogelu yn y caniatâd cynllunio gwreiddiol er mwyn iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb dros y sbwriel sy'n cael ei greu yn yr ardaloedd cyfagos?

**John Griffiths:** These are important matters that many people feel strongly about. I think that there are some local arrangements in place, on a voluntary basis, where fast-food outlets take a greater degree of responsibility for litter from their premises than is generally the case. As I said earlier, we are very keen to have ideas fed into our ongoing processes in looking at planning issues. Again, these are matters that can be rightly considered in that process.

**John Griffiths:** Mae'r rhain yn faterion pwysig y mae gan lawer o bobl deimladau cryf yn eu cylch. Rwyf yn meddwl bod rhai trefniadau lleol ar waith, ar sail wirfoddol, lle mae siopau bwyd brys yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros sbwriel sy'n dod o'u safle nag sy'n gyffredinol yn wir. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn awyddus iawn i gael syniadau i gyfrannu at ein prosesau parhaus i edrych ar faterion cynllunio. Unwaith eto, mae'r rhain yn faterion y gellir eu hystyried yn briodol yn y broses honno.

### Safleoedd Hanesyddol

### Historical Sites

***6. Peter Black:*** *Pa ystyriaeth y mae'r*

***6. Peter Black:*** *What consideration does the*

*Gweinidog yn ei rhoi i safleoedd hanesyddol wrth bennu polisi cynllunio. OAQ(4)0093(ESD)*

*Minister give to historical sites when setting planning policy. OAQ(4)0093(ESD)*

**John Griffiths:** 'Planning Policy Wales' recognises the importance of protecting the historic environment and seeks to ensure that local planning authorities have in place adequate policies in their development plans to ensure that the historic environment is conserved, while at the same time ensuring that it accommodates, and remains responsive to, current day needs.

**John Griffiths:** Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n ceisio sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol bolisïau digonol ar waith yn eu cynlluniau datblygu i wneud yn siŵr bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei gadw, ac i wneud yn siŵr ar yr un pryd ei fod yn darparu ar gyfer anghenion presennol ac yn parhau i ymateb i'r rheini.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. You will be aware of the controversy surrounding the proposed demolition of the Custom House and Royal Buildings in Port Talbot. When you come to look at your planning Bill, will you consider putting a duty on local planning authorities to take account of wider historical and heritage considerations beyond mere listing when considering planning applications?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r ddadl ynghylch y bwriad i ddymchwel adeilad Custom House a'r Adeiladau Brenhinol ym Mhort Talbot. Pan fydd yn amser ichi edrych ar eich Bil cynllunio, a wnewch ystyried ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i roi sylw i ystyriaethau hanes a threftadaeth ehangach y tu hwnt i ddim ond rhestru wrth ystyried ceisiadau cynllunio?

**John Griffiths:** As ever, I am not able to comment on any particular application or matter. However, I can say that 'Planning Policy Wales', in chapter 6, deals with conservation of the historic environment. In association with Cadw in Wales, we seek to ensure that the necessary protections and policies are in place. In terms of the Bill, I am keen to see ideas coming forward as part of the process and the matters that the Member mentions will be considered.

**John Griffiths:** Yn ôl yr arfer, nid wyf yn gallu gwneud sylwadau ar unrhyw gais neu fater penodol. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod 'Polisi Cynllunio Cymru', ym mhennod 6, yn ymdrin â gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mewn cydweithrediad â Cadw yng Nghymru, rydym yn ceisio sicrhau bod y camau diogelu a'r polisïau angenrheidiol ar waith. O ran y Bil, rwyf yn awyddus i weld syniadau'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses, a bydd y materion y mae'r Aelod yn sôn amdanynt yn cael eu hystyried.

**William Graham:** Minister, you will be well aware that, in England, 'Planning Policy Statement 5: Planning for the Historic Environment' provides a holistic and sustainable approach to the historic environment. Are you minded to consider a heritage protection Bill or to publish a technical advice note that defines historic assets, and particularly historic battle sites, in Wales?

**William Graham:** Weinidog, byddwch yn gwbl ymwybodol bod 'Datganiad Cynllunio Polisi 5: Cynllunio ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol' yn Lloegr yn cynnig agwedd gyfannol a chynaliadwy at yr amgylchedd hanesyddol. A ydych yn bwriadu ystyried Bil gwarchod treftadaeth neu gyhoeddi nodyn cynghori technegol sy'n diffinio asedau hanesyddol, ac yn enwedig safleoedd brwydrau hanesyddol, yng Nghymru?

**John Griffiths:** Again, the planning legislation that we are taking forward could deal with a number of matters that are concerned with these issues, and I would be happy to ensure that any matters that

**John Griffiths:** Unwaith eto, byddai'r ddeddfwriaeth cynllunio rydym yn bwrw ymlaen â hi yn gallu ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r pethau hyn, a byddwn yn fodlon sicrhau bod unrhyw faterion y mae'r

Members feel should be considered as part of the process are properly considered.

Aelodau'n teimlo y dylid eu hystyried fel rhan o'r broses yn cael eu hystyried yn briodol.

**Un Corff Amgylcheddol**

**Single Environment Body**

***7. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses ymgynghori ar gyfer un corff amgylcheddol. OAQ(4)0088(ESD)*

***7. Janet Finch-Saunders:*** *Will the Minister make a statement on the consultation process for the single environment body. OAQ(4)0088(ESD)*

**John Griffiths:** A public consultation was launched on 9 February to seek views on the proposed arrangements for establishing and directing a new body with responsibility for managing Wales's natural resources; it will close on 2 May. An update on the consultation will be provided in Plenary later this year.

**John Griffiths:** Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio ar 9 Chwefror i ofyn am safbwyntiau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu a chyfeirio corff newydd â chyfrifoldeb dros reoli adnoddau naturiol Cymru; bydd yn dod i ben ar 2 Mai. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad yn cael ei darparu mewn Cyfarfod Llawn yn nes ymlaen eleni.

**Janet Finch-Saunders:** The Minister will be aware of the considerable opposition from the key forestry and timber stakeholders to the proposed merger into a single body and the genuine concern that his Government's approach will damage one of Wales's most successful and sustainable industries. Can the Minister clarify why his Government made its decision on the business case for a single body before it had even begun to consult on the new environment framework and, given that the representations made by forestry industries were all but ignored during the development of the business case, what assurances can he provide that his Government will listen to their concerns during the consultation process?

**Janet Finch-Saunders:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod rhanddeiliaid allweddol yn y maes coedwigaeth a phren yn gwrthwynebu'n chwyrn y cynnig i uno yn un corff. Bydd hefyd yn gwybod am y gwir bryder y bydd dull gweithredu ei Lywodraeth yn amharu ar un o ddiwydiannau mwyaf llwyddiannus a chynaliadwy Cymru. A all y Gweinidog egluro pam y gwnaeth ei Lywodraeth ei phenderfyniad ar yr achos busnes dros un corff cyn iddi hyd yn oed ddechrau ymgynghori ar y fframwaith amgylcheddol newydd ac, wrth ystyried bod sylwadau'r diwydiannau coedwigaeth wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr bron wrth ddatblygu'r achos busnes, pa sicrwydd y gall ei roi y bydd ei Lywodraeth yn gwrando ar eu pryderon yn ystod y broses ymgynghori?

**John Griffiths:** We certainly have not ignored any views; I have had meetings and visits with forestry interests and operators in Wales over recent months. Some of those meetings have been quite productive. Once we explain that the Forestry Commission's activities that are currently taking place and the private timber interests in Wales have an important part in taking forward the single environment body and 'Sustaining a Living Wales', a lot of what are perhaps misapprehensions quickly dissipate.

**John Griffiths:** Yn sicr nid ydym wedi anwybyddu unrhyw safbwyntiau; dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi cael cyfarfodydd ac ymweliadau gyda gweithredwyr a'r rheini sydd â diddordeb yn y maes coedwigaeth yng Nghymru. Mae rhai o'r cyfarfodydd hynny wedi bod yn bur gynhyrchiol. Mae llawer o'r hyn sydd efallai'n gamddealltwriaeth yn diflannu'n gyflym ar ôl inni egluro bod gan weithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a'r buddiannau pren preifat yng Nghymru ran bwysig i'w chwarae o ran mynd â'r un corff amgylcheddol a 'Cynnal Cymru Fyw' rhagddynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwyf wedi gwrando ar eich ateb, ond a wnewch chi dderbyn bod y cyhoedd, ac yn benodol rhai cyrff a mudiadau sydd yn rhan o brosesau ymgynghori, yn teimlo weithiau mai proses o'r Llywodraeth yn cyflwyno ei strategaeth yw yn hytrach na phroses o ymgynghori llawn? A wnewch chi dderbyn, yn y cyd-destun hwnnw, fod pryderon wedi cael eu codi gan y sector coedwigaeth ynglŷn ag uno'r cyrff hyn? A wnewch chi ymrwymo'r prynhawn yma i ystyried y pryderon hynny, edrych arnynt a sicrhau bod pob un ohonynt yn cael sylw dyladwy?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I listened to your response, but will you accept that the public, and specifically some bodies and organisations that are part of consultation processes, sometimes feel that it is a process in which the Government presents its strategy, rather than a full consultation process? Will you accept, in that context, that concerns have been raised by the forestry sector about the merger of these organisations? Will you give a commitment this afternoon that you will consider those concerns, look at them and ensure that every one receives due attention?

**John Griffiths:** We have ongoing consultations on the single environment body and 'Sustaining a Living Wales'. They are genuine consultation exercises to which a variety of organisations and individuals will feed in views, I am sure. I am also sure that forestry matters will be prominent among them. I am happy to give assurances that we will look carefully at all contributions to the consultation process.

**John Griffiths:** Mae gennym ymgynghoriadau parhaus ynghylch yr un corff amgylcheddol a 'Cynnal Cymru Fyw'. Maent yn ymarferion ymgynghori dilys y bydd pob math o sefydliadau ac unigolion yn cyflwyno sylwadau ar eu cyfer rwyf yn siŵr. Rwyf hefyd yn sicr y bydd materion sy'n ymwneud â choedwigaeth yn cael lle amlwg ynddynt. Rwyf yn fodlon eich sicrhau y byddwn yn edrych yn ofalus ar bob cyfraniad at y broses ymgynghori.

**Coedlannau**

**Woodland Cover**

***8. Aled Roberts:*** *A yw'r Gweinidog wedi datblygu unrhyw dargedau dros dro yn ymwneud â'i nod o gael 100,000 hectar yn fwy o goedlannau erbyn 2030. OAQ(4)0092(ESD)*

***8. Aled Roberts:*** *Has the Minister developed any interim targets for his aim of increasing woodland cover by 100,000 ha. by 2030. OAQ(4)0092(ESD)*

**John Griffiths:** Bydd y datblygiadau tuag at ein nod hirdymor o gael rhagor o goetiroedd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.

**John Griffiths:** Progress in working towards our long-term aim of increased woodland cover will be continually monitored and reviewed.

**Aled Roberts:** Diolch am hynny. Os ydych yn dweud y byddant yn cael eu monitro a'u datblygu'n barhaus, a ydych yn fodlon gyda'r ffigur a roddwyd mewn ateb ysgrifenedig mai 897 hectar yn unig sydd wedi cael eu cytuno ar hyn o bryd ac mai 299 hectar yn unig sydd wedi cael eu plannu? Mae hynny ers mis Hydref 2010. A ydych yn fodlon gyda'r ffordd mae hyn yn cael ei ddatblygu?

**Aled Roberts:** Thank you for that. If you say that they will be continually monitored and developed, are you satisfied with the figure that was given in a written answer that only 897 ha have been agreed at present and that only 299 ha have been planted? That is since October 2010. Are you satisfied with the way in which this is being developed?

**John Griffiths:** I am hopeful that we will see some important new developments of woodland in Wales in the months to come. We will carefully monitor the position, and if we need to consider new steps to increase the rate of woodland covering Wales, that will be done.

**John Griffiths:** Rwyf yn gobeithio y byddwn yn gweld coedlannau newydd pwysig yn cael eu datblygu yng Nghymru dros y misoedd nesaf. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus, ac os bydd angen inni ystyried camau newydd i gynyddu cyfran y coedlannau yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny.

2.00 p.m.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I am pleased to hear that, because, as we have heard in earlier questions, the Welsh forestry industry is a vital part of Wales's sustainable economy and forestry contributes more to the gross value added in Wales than in any other region of the UK. At the moment, your Government's support for new tree-planting is through the Glastir woodland creation and management grant scheme, which permanently removes productive woodland from commercial management, making it entirely dependent on grant support in the future. Do you recognise that focusing support solely on biodiversity risks undermining the ability of commercial forestry to contribute to Wales's sustainable economy in the longer term?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, rwyf yn falch o glywed hynny, oherwydd, fel rydym wedi'i glywed mewn cwestiynau cynharach, mae diwydiant coedwigaeth Cymru yn rhan hanfodol o economi gynaliadwy Cymru ac mae coedwigaeth yn cyfrannu mwy at y gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Ar hyn o bryd, mae cefnogaeth eich Llywodraeth ar gyfer plannu coed newydd yn dod drwy gynllun grantiau creu a rheoli coetir Glastir, sy'n tynnu coedlannau cynhyrchiol o reolaeth fasnachol yn barhaol, gan eu gwneud yn gwbl ddibynnol ar gymorth grant yn y dyfodol. A ydych yn cydnabod bod canolbwyntio'r cymorth ar fioamrywiaeth yn unig yn golygu y byddai modd tanseilio gallu coedwigaeth fasnachol i gyfrannu at economi gynaliadwy Cymru yn y tymor hwy?

**John Griffiths:** I recognise that forestry woodland in Wales has much to offer in relation to sustainable development and that those are economic, social and environmental benefits. We have a variety of policies in place to ensure that the rounded benefits that woodland can bring to Wales come to fruition.

**John Griffiths:** Rwyf yn cydnabod bod gan goedlannau coedwigaeth yng Nghymru lawer i'w gynnig mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a bod y rheini yn fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gennym amrywiaeth o bolisïau ar waith i sicrhau bod manteision llawn coedlannau yn dwyn ffrwyth i Gymru.

**Antoinette Sandbach:** Obviously, commercially managed forestry offers Wales an effective means of capturing carbon, through timber as well as through biomass, which provides up to 10 times as many jobs as other renewable energy sources. Do you recognise that your policies may undermine commercially managed forestry and would, therefore, weaken Wales's ability to build a sustainable economy and achieve both its goals for carbon emissions? Are you able to look at a similar scheme to Glastir for amenity woodlands, as it were, for the commercial forestry sector?

**Antoinette Sandbach:** Yn amlwg, mae coedwigaeth sy'n cael ei rheoli'n fasnachol yn rhoi ffordd effeithiol i Gymru ddal carbon, drwy'r pren yn ogystal â drwy fiomas, sy'n darparu hyd at 10 gwaith cynifer o swyddi â ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill. A ydych yn cydnabod y gallai eich polisïau danseilio coedwigoedd a reolir yn fasnachol ac y byddent, felly, yn gwanhau gallu Cymru i feithrin economi gynaliadwy a chyrraedd ei dwy nod ar gyfer allyriadau carbon? A ydych yn gallu edrych ar gynllun tebyg i Glastir ar gyfer coetiroedd amwynder, fel petai, ar gyfer y sector coedwigaeth fasnachol?

**John Griffiths:** We are committed to

**John Griffiths:** Rydym wedi ymrwymo i

ensuring that the work that goes on around the single environment body and sustaining a living Wales protects—and indeed enhances—private timber operations in Wales and the advantages that they bring to Wales, economically and otherwise. That would be an important part of the on-going process.

sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yng nghyswllt yr un corff amgylcheddol a chynnal Cymru fyw yn amddiffyn—ac yn wir yn gwella—gweithrediadau pren preifat yng Nghymru a manteision hynny i Gymru, yn economaidd ac fel arall. Byddai hynny'n rhan bwysig o'r broses barhaus.

**Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**

**Canal and River Trust**

***9. Nick Ramsay:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Dyfrffyrdd Prydain ynghylch ffurfio'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd newydd. OAQ(4)0087(ESD)*

***9. Nick Ramsay:*** *What discussions has the Minister had with British Waterways about the formation of the new Canal and River Trust. OAQ(4)0087(ESD)*

**John Griffiths:** I have met with British Waterways on a number of occasions to discuss a range of issues, including their change to a canal and river trust.

**John Griffiths:** Rwyf wedi cael cyfarfod â Dyfrffyrdd Prydain droeon i drafod nifer o faterion, gan gynnwys y ffaith ei fod yn newid i ymddiriedolaeth camlesi ac afonydd.

**Nick Ramsay:** Thank you, Minister, for that answer. I am sure that you will agree with me that the transition from British Waterways to the new Glandwr Cymru Canal and River Trust represents a sea change as to how waterways in Wales will be dealt with in the future. I am pleased to hear that you have had meetings with Glandwr Cymru. When will your next meeting be with the new trust and how do you intend to work as closely as possible with it? Although it covers an area not specifically devolved, it has a big impact on the economy of Wales, on tourism and on energy issues such as hydropower.

**Nick Ramsay:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod newid o Ddyfrffyrdd Prydain i Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd newydd Glandwr Cymru yn golygu cryn newid o ran sut y byddwn yn ymdrin â dyfrffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol. Rwyf yn falch o glywed eich bod wedi cael cyfarfodydd â Glandwr Cymru. Pryd y bydd eich cyfarfod nesaf gyda'r ymddiriedolaeth newydd, a sut ydych yn bwriadu gweithio mor agos â phosibl â hi? Er ei bod yn ymdrin â maes nad yw wedi'i ddatganoli'n benodol, mae'n cael effaith fawr ar economi Cymru, ar dwristiaeth ac ar faterion sy'n ymwneud ag ynni, fel ynni dŵr.

**John Griffiths:** I am happy to agree with Nick Ramsay that the canals of Wales offer many opportunities to enhance people's quality of life and they offer economic and visitor attraction advantages to Wales. We must ensure that we work with the new Canal and River Trust to make sure that Government, in its activities and policies, understands the new organisation's ambitions. The two complement each other.

**John Griffiths:** Rwyf yn fodlon cytuno â Nick Ramsay bod camlesi Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd i wella ansawdd bywyd pobl. Maent hefyd yn cynnig manteision economaidd a manteision o ran denu twristiaid i Gymru. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd newydd i wneud yn siŵr bod y Llywodraeth, yn ei gweithgareddau a'i pholisïau, yn deall dyheadau'r sefydliad

The Presiding Officer often congratulates me for my leisure use of canals in her constituency, so these are matters that are dear to my heart.

newydd. Mae'r naill yn cyd-fynd â'r llall. Bydd y Llywydd yn aml yn fy llongyfarch oherwydd fy mod yn defnyddio'r camlesi yn ei hetholaeth am resymau hamdden, felly mae'r rhain yn faterion sy'n agos iawn at fy nghalon.

**Vaughan Gething:** Minister, as you know, the creation of the Canal and River Trust is a follow-on from activity in the previous Parliament and the all-party group's work on that matter, which was chaired by my constituency colleague Alun Michael. I am interested in how your discussions with British Waterways, Minister, have related to the role and impact of Wales in the emerging governance and management models for canals in Wales.

**Vaughan Gething:** Weinidog, fel y gwyddoch, mae creu'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn dilyn ymlaen o weithgarwch yn y Senedd flaenorol a gwaith y grŵp hollbleidiol ar y mater hwnnw. Cafodd y grŵp hwnnw ei gadeirio gan Aelod Seneddol fy etholaeth, Alun Michael. Carwn wybod, Weinidog, sut y mae eich trafodaethau â Dyfrffyrdd Prydain wedi ymwneud â swyddogaeth ac effaith Cymru yn y modelau llywodraethu a rheoli sy'n ymddangos ar gyfer camlesi yng Nghymru.

**John Griffiths:** The new organisation is keen to understand Welsh Government policy. We have had discussions around some developments that the new trust would like to take forward in Wales, which I am sure we will discuss in future meetings. There is a great deal of synergy between our policy and the aims of the new organisation, and I am sure that we will have fruitful discussions and joint action.

**John Griffiths:** Mae'r sefydliad newydd yn awyddus i ddeall polisi Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cael trafodaethau ynghylch rhai datblygiadau y byddai'r ymddiriedolaeth newydd yn hoffi eu datblygu yng Nghymru. Rwyf yn siŵr y byddwn yn trafod y rhain mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Ceir llawer iawn o synergedd rhwng ein polisi ni a nodau'r sefydliad newydd, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn cael trafodaethau ffrwythlon ac yn gweithredu ar y cyd.

**Simon Thomas:** Weinidog, wrth groesawu sefydlu Glandwr Cymru, byddwch hefyd yn ymwybodol bod cynnig i ddefnyddio camlesi i symud dŵr o un rhan o Brydain i rannau eraill ar yr agenda i'w drafod eto, yn enwedig gyda sychder yn ne-ddwyrain Lloegr. Pa drafodaethau rydych wedi eu cael â Glandwr Cymru, neu'n wir â Llywodraeth San Steffan, ynglŷn â symud dŵr o Gymru yn y modd hwn? A ydych yn meddwl ei bod yn briodol bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud heb na chaniatâd na chefnogaeth Llywodraeth Cymru?

**Simon Thomas:** Minister, in welcoming the extablishment of Glandwr Cymru, you will also be aware that proposals to use canals to move water from one part of Britain to another are back on the agenda, especially given the drought in south-east England. What discussions have you had with Glandwr Cymru, or indeed with the Westminster Government, on moving water from Wales in this way? Do you think that it is appropriate that such decisions are made without the permission or support of the Welsh Government?

**John Griffiths:** I will be making a statement on water policy in Wales in the coming months. Water is an important resource to be used here in Wales in all sorts of ways. Wales

**John Griffiths:** Byddaf yn gwneud datganiad am bolisi dŵr yng Nghymru dros y misoedd nesaf. Mae dŵr yn adnodd pwysig i'w ddefnyddio yma yng Nghymru mewn

places a great value on its water, and rightly so.

nifer o ffyrdd gwahanol. Mae Cymru yn rhoi cryn werth ar ei dŵr, ac mae hynny'n gwbl briodol.

**Polisi Gorfodi ac Erlyn**

**Enforcement and Prosecution Policy**

***10. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi gorfodi ac erlyn Asiantaeth Amgylchedd Cymru. OAQ(4)0086(ESD)*

***10. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the Minister make a statement on the Environment Agency Wales' enforcement and prosecution policy. OAQ(4)0086(ESD)*

**John Griffiths:** Mae rôl Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o gymryd camau gorfodi ac o erlyn yn rhan bwysig o'r broses o ddiogelu ein hamgylchedd a sicrhau datblygu cynaliadwy.

**John Griffiths:** Environment Agency Wales's role in taking enforcement action and pursuing prosecution is an important part of protecting our environment and achieving sustainable development.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi cysylltu â chi a'ch rhagflaenydd ar fater yn ymwneud â chwmni yn fy etholaeth y daeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ag achos yn ei erbyn dan gyhuddiad o dderbyniadau o weithred droseddol. Wedi tair blynedd, cliriwyd y cwmni o bob cyhuddiad yn ei erbyn. Yr hyn sydd yn fy mhoeni yw bod y barnwr, yng nghyd-destun y prif gyhuddiad, wedi taflu'r achos allan oherwydd diffyg tystiolaeth. Weinidog, a wnewch chi gytuno i gwrdd â'r cwmni hwn, er mwyn iddo gyflwyno yn uniongyrchol i chi'r hyn a ddigwyddodd iddo yn ystod y broses hon, ac a wnewch hefyd ymchwilio i'r ffordd mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweithredu o ran gorfodi ac erlyn? Rwy'n ymwybodol bod gan Aelodau eraill yn y Siambr hon achosion yn eu hetholaethau hwy.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you will be aware that I have contacted you and your predecessor on a matter involving a company in my constituency against which Environment Agency Wales brought a case under the allegation of profiting from criminal acts. After three years, the company was cleared of all allegations. What concerns me is that the judge, in the context of the main allegation, threw the matter out of court because of lack of evidence. Minister, will you agree to meet with this company so that it can directly tell you about what happened to it during this process, and will you look into the manner in which Environment Agency Wales operates in terms of enforcement and prosecution? I am aware that other Members have cases in their constituencies.

**John Griffiths:** It would not be appropriate for me to become involved in or, indeed, to comment on any individual case. What I can say is that, in general terms, the Environment Agency has a good record when it comes to prosecutions and the success of those prosecutions. Whenever there are particular problems, the Environment Agency undertakes diligent and detailed reviews to learn from any experience gained. I am sure

**John Griffiths:** Ni fyddai'n briodol i mi ymwneud ag unrhyw achos unigol nac, yn wir, wneud sylwadau arno. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd enw da yn gyffredinol o ran erlyniadau a llwyddiant yr erlyniadau hynny. Pryd bynnag y ceir problemau penodol, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal adolygiadau dyfal a manwl i ddysgu o unrhyw brofiad a geir. Rwyf yn siŵr bod

that the Environment Agency is keen, in general, to ensure that it takes forward its prosecution and enforcement powers as effectively as possible.

Asiantaeth yr Amgylchedd yn awyddus, yn gyffredinol, i sicrhau ei bod yn symud ei phwerau erlyn a gorfodi ymlaen mor effeithiol â phosibl.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I am a bit concerned to hear that you are not prepared to comment on any individual cases, because the Environment Agency in north Wales has brought a successful prosecution against the former operators of the fish farm at Penmon in Anglesey for discharging trade effluent and chemicals into the sea in an area of outstanding natural beauty. That fish farm was in receipt of a substantial amount of funds from the Welsh Government. What assessment has been made of the performance of the wetland water treatment system, which, among many other works at the site, was paid for with Welsh Government-administered funding? Also, will you congratulate the Environment Agency for its action in that case?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae clywed nad ydych yn barod i gyflwyno sylwadau ar unrhyw achosion unigol yn fy mhoeni braidd, oherwydd mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn y gogledd wedi llwyddo gyda'u herlyniad yn erbyn cyn weithredwyr y fferm bysgod ym Mhenmon ar Ynys Môn, am ryddhau elifion masnach a chemegau i'r môr mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Roedd y fferm bysgod honno'n cael llawer iawn o arian gan Lywodraeth Cymru. Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o berfformiad y system ar gyfer trin dŵr gwlyptir? Cyllid a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi talu am hyn, ynghyd â nifer o weithfeydd eraill ar y safle. Hefyd, a wnewch longyfarch Asiantaeth yr Amgylchedd am y camau a gymerodd yn yr achos hwnnw?

**John Griffiths:** I reiterate what I said earlier: it is not appropriate for me to discuss individual cases involving enforcement and prosecution. What I can say generally, however, is that it is important that the Environment Agency secures a better environment in Wales by using its powers. Whenever there are particular lessons to be learned from developments, the Welsh Government and the Environment Agency are very keen to learn them.

**John Griffiths:** Rwyf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn gynharach: nid yw'n briodol imi drafod achosion unigol sy'n ymwneud â gorfodi ac erlyn. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yn gyffredinol yw ei bod yn bwysig bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn sicrhau amgylchedd gwell yng Nghymru drwy ddefnyddio ei phwerau. Pryd bynnag y bydd gwersi penodol i'w dysgu o ddatblygiadau, mae Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn awyddus iawn i ddysgu'r gwersi hynny.

**Apêl Cynllunio**

**Planning Appeal**

***11. Eluned Parrott:*** *Pa feini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu pryd y dylai un o Weinidogion Cymru benderfynu ar apêl cynllunio. OAQ(4)0096(ESD)*

***11. Eluned Parrott:*** *What criteria does the Welsh Government use to decide when a planning appeal should be decided by a Welsh Minister. OAQ(4)0096(ESD)*

**John Griffiths:** The criteria used to decide when a planning appeal should be decided by

**John Griffiths:** Mae pennod 3 'Polisi Cynllunio Cymru' yn datgan y meini prawf

a Welsh Minister rather than a planning inspector are set out in chapter 3 of 'Planning Policy Wales'.

i'w defnyddio i benderfynu pryd y dylai un o Weinidogion Cymru benderfynu ar apêl cynllunio, yn hytrach nag arolygydd cynllunio.

**Eluned Parrot:** I notice that, in chapter 3, paragraph 11.2 of 'Planning Policy Wales', you have powers to recover such applications, and take responsibility for a decision if it is deemed to be a highly contentious issue. Given the outcry surrounding fracking applications and the lack of specific regulation in this field, will you now call in the appeal over the fracking test drilling application at Llandow?

**Eluned Parrot:** Sylwaf, ym mhennod 3, paragraff 11.2 'Polisi Cynllunio Cymru', fod gennych bwerau i adfer ceisiadau o'r fath ac i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros benderfyniad os pennir ei fod yn fater dadleuol iawn. O ystyried y protestiadau ynghylch ceisiadau ffracio a'r diffyg rheoliadau penodol yn y maes hwn, a wnewch yn awr alw'r apêl i mewn dros y cais prawf drilio ffracio yn Llandŵ?

**John Griffiths:** I am not able to discuss any particular matters such as the Member mentions, but I am sure that Eluned Parrott would be aware that there is work ongoing at a UK level to look at issues around fracking. The Welsh Government is part of that work.

**John Griffiths:** Ni allaf drafod unrhyw faterion penodol fel y rheini y mae'r Aelod yn sôn amdanynt, ond rwyf yn siŵr y byddai Eluned Parrott yn ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel y DU i edrych ar faterion sy'n ymwneud â ffracio. Mae Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith hwnnw.

**Jenny Rathbone:** Fully understanding your inability to discuss particular issues, does the Welsh Government have any powers to prevent councils being plagued by persistent reapplications from companies with deep pockets that refuse to take the answer 'No' from local communities?

**Jenny Rathbone:** Gan ddeall yn iawn na allwch drafod materion penodol, a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i atal cynghorau rhag cael eu plagio gan ail geisiadau cyson gan gwmnïau cyfoethog sy'n gwrthod derbyn yr ateb 'Na' gan gymunedau lleol?

**John Griffiths:** I thank Jenny Rathbone for that question. There are powers within the Town and Country Planning Act 1990 that, in those sorts of circumstances, enable local planning authorities to decline to determine an application for planning permission that they consider to be a repeat application for the development of a particular area of land.

**John Griffiths:** Rwyf yn diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn hwnnw. Ceir pwerau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol, yn y math hynny o amgylchiadau, i wrthod penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio maent yn ystyried sy'n ailadrodd cais blaenorol i ddatblygu ardal benodol o dir.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, colleagues from across the Chamber have today, yet again, reiterated their concern in relation to the Welsh Government's handling of the local development plan process. There are unrealistic housing projections imposed by Welsh Government officials, constant pressure on local authority officers and members to agree to these figures, constrained timescales, and threats of financial penalties to already cash-strapped

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, unwaith eto heddiw mae cyd-Aelodau o bob rhan o'r Siambr wedi ailadrodd eu pryder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r broses cynllun datblygu lleol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn pennu amcanestyniadau tai afrealistig, rhoddir pwysau cyson ar swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol i gytuno ar y ffigurau hyn, ceir amserlenni tynn, a cheir bygythiadau o gosbau ariannol i awdurdodau lleol sydd

local authorities for not doing so. In Conwy alone, there have been 20,000 objections. Minister, will you look again into this matter with some urgency and perhaps look at calling in the current LDP process with a view to restoring some confidence in the whole planning system in Wales and to restoring the true meaning of 'local' in the local development plan?

eisoes yn brin o arian am beidio â gwneud hynny. Yng Nghonwy yn unig, bu 20,000 o wrthwynebiadau. Weinidog, a wnewch edrych eto ar y mater hwn ar frys ac efallai ystyried galw'r broses cynllun datblygu lleol presennol i mewn gyda golwg ar adfer rhywfaint o hyder yn y system gynllunio drwyddi draw yng Nghymru, ac adfer gwir ystyr 'lleol' yn y cynllun datblygu lleol?

**John Griffiths:** Planning is always contentious. As all Members here would know, there are many different views about what should be allowed and what should not be allowed in planning generally, and in housing as part of that. There is confidence in the planning system in Wales. The local development plan as the bedrock of that planning system is a very important part of it, and there is a great responsibility on local authorities to take forward their local development plans effectively and have an up to date plan in place. If they consider that the figures being used by Welsh Government on housing provision are inappropriate, they can carry out their own work and put their own figures into those local development plans.

**John Griffiths:** Mae cynllunio bob amser yn fater dadleuol. Fel y byddai'r holl Aelodau yma'n gwybod, ceir nifer o safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn y dylid ei ganiatáu a'r hyn na ddylid ei ganiatáu mewn cynllunio yn gyffredinol, ac mewn materion tai fel rhan o hynny. Ceir hyder yn y system gynllunio yng Nghymru. Y cynllun datblygu lleol yw sylfaen y system gynllunio honno ac mae'n rhan bwysig iawn ohoni. Rhoddir llawer o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol yn effeithiol, ac i sicrhau bod ganddynt gynllun diweddar ar waith. Os ydynt o'r farn bod y ffigurau sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaeth tai yn amhriodol, gallant wneud eu gwaith eu hunain a chynnwys eu ffigurau eu hunain yn y cynlluniau datblygu lleol hynny.

**Bethan Jenkins:** Minister, Neath Port Talbot County Borough Council has told me that its officers have now met with agents for Oak Regeneration, the owners of the East Pit opencast site at Cwmllynfell, who have indicated their intention to apply for additional time for coaling beyond the expiry date of the current licence in December 2012. The indications are that the proposals will be submitted in parallel to both Neath Port Talbot and Carmarthenshire councils later this year. Will you call in this application, given its contentious nature?

**Bethan Jenkins:** Weinidog, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dweud wrthyf fod ei swyddogion nawr wedi cael cyfarfod ag asiantau ar ran Oak Regeneration, perchnogion safle glo brig East Pit yng Nghwmllynfell, sydd wedi dweud eu bod yn bwriadu gwneud cais am amser ychwanegol i godi glo y tu hwnt i'r dyddiad y daw'r drwydded gyfredol i ben, sef mis Rhagfyr 2012. Mae'n debyg y caiff y cynigion eu cyflwyno ochr yn ochr i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin yn nes ymlaen eleni. A wnewch alw'r cais hwn i mewn gan ei fod yn ddadleuol?

**John Griffiths:** I think that the Member may anticipate my answer, which is that I am unable to comment on any particular planning matter.

**John Griffiths:** Rwyf yn meddwl y gall yr Aelod ragweld fy ateb, sef na allaf gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater cynllunio penodol.

**Un Corff Amgylcheddol**

**Single Environment Body**

***12. Angela Burns:*** *A wnaiff y Gweinidog*

***12. Angela Burns:*** *Will the Minister provide*

*roi'r wybodaeth ddiweddaraf am greu un corff amgylcheddol ar gyfer Cymru. OAQ(4)0098(ESD)*

*an update on the creation of a single environment body for Wales. OAQ(4)0098(ESD)*

**John Griffiths:** The proposed new single environment body will bring together the functions of the Countryside Council for Wales, the Environment Agency Wales and the Forestry Commission Wales. A public consultation was launched on 9 February to seek views on these proposals. It will close on 2 May this year.

**John Griffiths:** Bydd yr un corff amgylcheddol newydd arfaethedig yn dod â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio ar 9 Chwefror i ofyn am sylwadau ar y cynigion hyn. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 2 Mai eleni.

**Angela Burns:** I heard your earlier answer on the consultation. I wanted to bring to your attention the concerns of the fishery industry with regard to the whole process. As you know, we have some of the best sewin fisheries in Europe, worth £150 million to our economic vibrancy. There is a real concern among many of these fishery groups that their voices are going to be lost in all of this. Even though they are taking part in the consultation, they are such small players compared with all the other agencies involved. I wondered whether you could give them some assurance that their voice will be heard, that their fishing stocks will be protected and that they will be able to move ahead and carry on making this valuable contribution to the economic wellbeing of Wales.

**Angela Burns:** Clywais eich ateb cynharach ynghylch yr ymgynghoriad. Roedd arnaf eisiau tynnu eich sylw at bryderon y diwydiant pysgodfeydd o ran y broses gyfan. Fel y gwyddoch, mae gennym rai o'r pysgodfeydd sewin gorau yn Ewrop, sydd werth £150 miliwn i'n ffyniant economaidd. Ceir gwir bryder ymysg nifer o'r grwpiau pysgodfeydd hyn y caiff eu lleisiau eu colli yn hyn i gyd. Er eu bod yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, maent yn llai o lawer na'r asiantaethau eraill i gyd sy'n ymwneud â hyn. Tybed a allech eu sicrhau y bydd eu llais yn cael ei glywed, y bydd eu stociau pysgota yn cael eu diogelu ac y byddant yn gallu symud ymlaen a pharhau i wneud y cyfraniad gwerthfawr hwn i les economaidd Cymru.

2.15 p.m.

**John Griffiths:** I thank Angela Burns for that supplementary question and I would like to provide that assurance that, of course, fishing interests in Wales will be a big part of taking forward our work around natural resource management and development. That will apply to the single environment body, 'Sustaining a Living Wales', and other very important work around our marine and river environment.

**John Griffiths:** Diolch i Angela Burns am y cwestiwn atodol hwnnw a hoffwn sicrhau y bydd buddiannau pysgota Cymru, wrth gwrs, yn rhan fawr o ddatblygu ein gwaith yng nghyswllt rheoli a datblygu adnoddau naturiol. Bydd hynny'n berthnasol i'r un corff amgylcheddol, 'Cynnal Cymru Fyw', a gwaith arall pwysig iawn sy'n ymwneud â'n hamgylchedd morol a'n hafonydd.

**Rebecca Evans:** Protected sites form the bedrock of protecting key species and

**Rebecca Evans:** Mae safleoedd gwarchodedig yn greiddiol i warchod

important sites for wildlife from harmful development. Will the Minister confirm that the merger of three bodies into a single body will deliver for protected sites?

rhywogaethau allweddol a safleoedd pwysig i fywyd gwyllt rhag datblygiadau niweidiol. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd uno'r tri chorff yn un corff yn cyflenwi ar gyfer safleoedd gwarchodedig?

**John Griffiths:** I thank Rebecca Evans for that question. The responsibility for the designation of protected sites will transfer to the single environment body. As at present, appropriate management of the site will rest with the land manager in partnership with the single body. There will, it is fair to say, be challenges to overcome, but, whenever we are changing organisational boundaries, that is inevitably the case. It is important that we get the culture of the new single body right, and a great deal of work is going on to ensure that that happens.

**John Griffiths:** Rwyf yn diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw. Bydd y cyfrifoldeb dros ddynodi safleoedd gwarchodedig yn cael ei drosglwyddo i'r un corff amgylcheddol. Yn yr un modd â'r sefyllfa bresennol, rheolwr y tir fydd yn gyfrifol am reoli'r safle'n briodol mewn partneriaeth â'r un corff. Mae'n deg dweud y bydd sialensiau i'w goresgyn, ond mae hynny'n siŵr o ddigwydd pryd bynnag y byddwn yn newid ffiniau sefydliadol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod diwylliant yr un corff newydd yn iawn, ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo i sicrhau bod hynny'n digwydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
## Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

### Safon Ansawdd Tai Cymru

### Welsh Quality Housing Standard

***1. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol tuag at fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. OAQ(4)0086(HRH)*

***1. Eluned Parrott:*** *Will the Minister make a statement on the progress being made by local authorities towards meeting the Welsh Quality Housing Standard. OAQ(4)0086(HRH)*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank the Member for South Wales Central for that question. Most local authorities will achieve the Welsh housing quality standard by 2012 or by an acceptable date thereafter. We continue to work closely with local authorities where tenants have rejected stock transfer by providing support to ensure that they maximise the resources available to them.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Bydd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn bodloni safon ansawdd tai Cymru (SATC) erbyn 2012, neu erbyn dyddiad derbyniol ar ôl hynny. Rydym yn dal i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, lle mae tenantiaid wedi gwrthod trosglwyddo stoc, drwy ddarparu cymorth i sicrhau eu bod yn gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

**Eluned Parrott:** Would you join me in congratulating Cardiff Council on meeting the Welsh quality housing standard and being able to put additional investment into building extra council homes as a result of

**Eluned Parrott:** A wnewch ymuno â mi i longyfarch Cyngor Caerdydd am fodloni safon ansawdd tai Cymru, ac am allu rhoi buddsoddiad ychwanegol tuag at adeiladu tai cyngor ychwanegol o ganlyniad i'r arian y

the money that it has saved?

mae wedi'i arbed?

**Huw Lewis:** Reaching the Welsh housing quality standard is the aim of all of us, I am sure, in partnership with the local government community and the very important partnership working that the Welsh Government undertakes with registered social landlords. Across Wales, progress in meeting the Welsh housing quality standard is still rather too slow, Cardiff notwithstanding. I will be taking stock of where we are with the WHQS with that in mind.

**Huw Lewis:** Bodloni safon ansawdd tai Cymru yw nod pob un ohonom, rwyf yn siŵr, mewn partneriaeth â'r gymuned llywodraeth leol a drwy'r gwaith partneriaeth hynod bwysig a wneir gan Lywodraeth Cymru gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ledled Cymru, mae'r cynnydd tuag at fodloni safon ansawdd tai Cymru braidd yn rhy araf o hyd, er gwaethaf Caerdydd. Byddaf yn pwyso a mesur ein sefyllfa o ran SATC gyda hynny mewn cof.

I will take the opportunity to mention in response to your question that I will be introducing a more robust monitoring regime to gather detailed information on landlords’ progress in meeting the WHQS across Wales.

Wrth ymateb i'ch cwestiwn, manteisiaf ar y cyfle i sôn y byddaf yn cyflwyno trefn fonitro fwy cadarn i gasglu gwybodaeth fanwl am gynnydd landlordiaid tuag at fodloni SATC ar draws Cymru.

**Eluned Parrott:** I am sure that that will be welcomed. What additional resources might be available to local authorities that have failed to meet that standard yet to accelerate the process?

**Eluned Parrott:** Rwyf yn siŵr y bydd hynny'n cael ei groesawu. Pa adnoddau ychwanegol allai fod ar gael i awdurdodau lleol sydd wedi methu bodloni'r safon honno hyd yma, er mwyn cyflymu'r broses?

**Huw Lewis:** The key issue here—and I hope that we will be able to sing from the same song sheet on this, both in terms of parties within this Chamber and partnership working between ourselves and local government—is that Wales has to exit the housing revenue account subsidy system. That is well overdue. The system means that, in effect, we lose out to the tune of tens of millions of pounds every year, with Cardiff being the authority that is most badly hit. That will demand co-working and political will across parties and across layers of Government.

**Huw Lewis:** Y mater allweddol yma—ac rwyf yn gobeithio y bydd pob un ohonom yn cydweld ar hynny, o ran y pleidiau yn y Siambr hon a’r gwaith partneriaeth rhyngom ni a llywodraeth leol—yw ei bod yn rhaid i Gymru adael system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Mae'n hen bryd gwneud hynny. O ganlyniad i’r system hon rydym yn colli, i bob pwrpas, degau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn, a Chaerdydd yw'r awdurdod sy'n cael ei tharo galetaf. Bydd hynny'n galw am gydweithio ac ewyllys gwleidyddol ar draws pleidiau ac ar draws haenau’r Llywodraeth.

**Lynne Neagle:** One unintended consequence of the laudable efforts to meet the Welsh housing quality standard in Torfaen has been that leaseholders of Bron Afon Community Housing have been hit with huge bills for improvements that many feel that they do not need. In many cases, those bills have been as

**Lynne Neagle:** Un o ganlyniadau anfwriadol yr ymdrechion canmoladwy i fodloni safon ansawdd tai Cymru yn Nhor-faen yw bod lesddeiliaid Tai Cymunedol Bron Afon wedi cael biliau enfawr am welliannau y mae llawer yn teimlo nad oes arnynt eu hangen. Mewn llawer o achosion, mae'r biliau hynny

high as £15,000 per leaseholder and, although Bron Afon Community Housing has made available a number of options to help leaseholders, all of them involve them taking on substantial debt, which many simply cannot afford. I have made representations to you, along with Bron Afon Community Housing, about the possibility of a leasehold rescue scheme to enable leaseholders to sell their homes back to Bron Afon Community Housing. Is there any update on your consideration of this proposal?

wedi bod mor uchel â £15,000 y lesddeiliad, ac er bod Tai Cymunedol Bron Afon wedi darparu nifer o opsiynau i gynorthwyo lesddeiliaid, mae pob un ohonynt yn golygu mynd i ddyled sylweddol na all llawer ohonynt, yn syml, ei fforddio. Rwyf wedi cyflwyno sylwadau i chi, ynghyd â Thai Cymunedol Bron Afon, ynghylch y posibilrwydd o gynllun achub lesddaliad i alluogi lesddeiliaid i werthu eu cartrefi yn ôl i Dai Cymunedol Bron Afon. A oes unrhyw wybodaeth ddiweddar am eich ystyriaeth o'r cynnig hwn?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Torfaen for that question and acknowledge the hard work that she has done in representing her constituents in this regard. I also pay tribute to Vaughan Gething, the Member for Cardiff South and Penarth, who has made similar representations regarding leaseholders in similar difficulties, although in perhaps slightly different circumstances. I can let the Member know that, as of this week, I have instructed officials to ensure that we get to the bottom of exactly which devolved powers we can look forward to using to help leaseholders throughout Wales. Leasehold is a devolved matter, but there are problems with regard to consumer and land law. We will get to the bottom of this and I hope that we will see progress in this regard in the White Paper that I hope to publish towards the end of May.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Dor-faen am y cwestiwn hwnnw, ac rwyf yn cydnabod y gwaith caled y mae wedi'i wneud wrth gynrychioli ei hetholwyr yn hyn o beth. Rwyf hefyd yn talu teyrnged i Vaughan Gething, yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, sydd wedi gwneud sylwadau tebyg ynghylch lesddeiliaid mewn trafferthion tebyg, er mewn amgylchiadau ychydig yn wahanol o bosibl. Gallaf roi gwybod i’r Aelod fy mod wedi dweud wrth fy swyddogion yr wythnos hon am sicrhau ein bod yn canfod yn union pa bwerau datganoledig y gallwn edrych ymlaen at eu defnyddio i gynorthwyo lesddeiliaid ledled Cymru. Mae lesddaliad yn fater datganoledig, ond ceir problemau o ran defnyddwyr a chyfraith tir. Byddwn yn mynd at wraidd hyn, a gobeithio y byddwn yn gweld cynnydd yn hyn o beth yn y Papur Gwyn rwyf yn gobeithio ei gyhoeddi tua diwedd mis Mai.

**Mark Isherwood:** Last month’s report from the Wales Audit Office on progress in delivering the Welsh housing quality standard stated that the main shortfall was in local authorities where tenants had rejected stock transfer or were yet to vote. To provide reassurance, will you confirm that, in the event of tenants voting for transfer, under the Welsh Government’s rent convergence regime, rents will be moving to the same benchmark levels, that the law applying to eviction is the same for council tenants or housing association tenants, that democratic

**Mark Isherwood:** Yn ôl adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru fis diwethaf ynghylch y cynnydd tuag at fodloni safon ansawdd tai Cymru, yn yr awdurdodau lleol yr oedd y prif ddiffyg lle'r oedd tenantiaid wedi gwrthod trosglwyddo stoc neu heb bleidleisio eto. Er mwyn tawelu meddyliau a wnewch gadarnhau, os bydd tenantiaid yn pleidleisio o blaid trosglwyddo, o dan drefn cydgyfeirio rhenti Llywodraeth Cymru, y bydd rhenti’n symud i’r un lefelau meincnodi, y bydd y gyfraith ynghylch troi allan yr un fath i denantiaid cyngor neu i

accountability will be offered through shareholding tendencies, and that non-profit community interest companies regulated by the Welsh Government would be in the driving seat?

denantiaid cymdeithas dai, y bydd atebolrwydd democrataidd yn cael ei gynnig drwy dueddiadau cyfranddaliaeth, ac y byddai cwmnïau buddiannau cymunedol dielw sy'n cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru yn llywio'r drafodaeth?

**Huw Lewis:** The Member raises a wide range of issues in his question. I can confirm and reiterate that, in relation to those local authority areas where tenants have voted 'no', that does not mean that Welsh Government concern for the quality of the housing stock is somehow switched off. The concern remains, as does the demand that all reach the Welsh housing quality standard. Work will continue to find ways forward to draw down investment to make that a reality.

**Huw Lewis:** Mae'r Aelod yn codi ystod eang o faterion yn ei gwestiwn. Gallaf gadarnhau ac ailadrodd, o ran yr ardaloedd awdurdodau lleol hynny lle mae tenantiaid wedi pleidleisio 'na', nad yw hynny'n golygu nad yw Llywodraeth Cymru yn poeni mwyach am ansawdd y stoc tai. Mae'r pryder yn parhau, fel y mae'r gofyniad bod pawb yn bodloni safon ansawdd tai Cymru. Bydd y gwaith yn parhau er mwyn dod o hyd i ffyrdd ymlaen i ddenu buddsoddiad i gyflawni hynny.

As regards the other points in the Member's question, such as on the specifics of some of the tenant-control issues, perhaps he could write to me so that I can give a fuller and better answer.

O ran y pwyntiau eraill yng nghwestiwn yr Aelod, fel y pwyntiau ynghylch manylion rhai o'r materion tenant-reolaeth, efallai y gallai ysgrifennu ataf er mwyn imi allu rhoi ateb gwell a mwy cyflawn.

**Jocelyn Davies:** A significant proportion of the money that pays for the refurbishment of local authority homes comes from the major repairs allowance. Will you commit to maintaining the budget line at its present level so that tenants have some hope of seeing improvements in the foreseeable future and that the money meant for tenants will not be used to subsidise leaseholders?

**Jocelyn Davies:** Mae cyfran sylweddol o'r arian sy'n talu am adnewyddu cartrefi awdurdodau lleol yn dod o'r lwfans atgyweiriadau mawr. A wnewch ymrwymo i gadw llinell y gyllideb ar ei lefel bresennol er mwyn i denantiaid gael rhywfaint o obaith o weld gwelliannau yn y dyfodol agos, ac na fydd yr arian a fwriedir ar gyfer tenantiaid yn cael ei ddefnyddio i roi cymhorthdal i llesddeiliaid?

**Huw Lewis:** As the Member is no doubt aware, we are currently allocating around £60 million in major repairs allowance directly to local authorities to support the achievement of the WHQS. The budgetary future of the major repairs allowance is debated in the usual way, and I can confirm that it will remain a high priority in my mind and in the mind of the Government.

**Huw Lewis:** Mae'n siŵr bod yr Aelod yn gwybod ein bod wrthi ar hyn o bryd yn dyrannu oddeutu £60 miliwn o'r lwfans atgyweiriadau mawr yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i fodloni SATC. Mae dyfodol cyllidebol y lwfans atgyweiriadau mawr yn cael ei drafod yn y ffordd arferol, a gallaf gadarnhau y bydd yn parhau'n flaenoriaeth uchel yn fy meddwl i ac ym meddwl y Llywodraeth.

**Cefn Mawr**

**Cefn Mawr**

***2. Llyr Huws Gruffydd:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â datblygu treftadaeth ddiwydiannol ardal Cefn Mawr. OAQ(4)0096(HRH)*

***2. Llyr Huws Gruffydd:*** *What discussions has the Minister had in relation to developing the industrial heritage of the Cefn Mawr area. OAQ(4)0096(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for North Wales for that question. My officials in Cadw continue to engage with key stakeholders to develop the industrial heritage of the Cefn Mawr area through its characterisation study. This study has helped identify its unique historical character, which I hope contributes to the area's world heritage status, and will be an effective regeneration tool.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae fy swyddogion yn Cadw yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu treftadaeth ddiwydiannol ardal Cefn Mawr drwy ei hastudiaeth nodweddion. Mae'r astudiaeth hon wedi helpu i nodi cymeriad hanesyddol unigryw'r ardal sydd, gobeithio, yn cyfrannu at statws treftadaeth y byd yr ardal, a bydd yn adnodd adfywio effeithiol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch am yr ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod Cefn Mawr wedi dioddef yn enbyd ers cau Flexsys ac Air Products. Mae'r ddau safle diwydiannol bellach angen eu datblygu—

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response, Minister. You will be aware that Cefn Mawr has suffered terribly since the closure of Flexsys and Air Products. The two industrial sites now need development—

**The Presiding Officer:** Minister, are you not getting any translation? Can you hear it now? I see that you can. Would the Member mind repeating what he just said?

**Y Llywydd:** Weinidog, a ydych yn cael cyfieithiad? A allwch ei glywed yn awr? Gwelaf eich bod yn gallu ei glywed. A fyddai'r Aelod cystal ag ailadrodd yr hyn y mae newydd ei ddweud?

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch am yr ateb, Weinidog. Mae ardal Cefn Mawr wedi dioddef yn enbyd ers cau Flexsys ac Air Products, ac mae'r ddau safle pwysig hynny bellach angen eu datblygu, a dyna fydd yn siapio'r gymuned am y ddegawd nesaf a thu hwnt. Mae'r gymuned leol eisiau gweld cynlluniau sy'n harddu'r ardal ac yn creu swyddi ar gyfer pobl leol, yn ogystal â chysylltu'r pentref â chamlas safle treftadaeth byd-enwog Pontcysyllte, fel yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato. Pa gymorth ymarferol allwch ei roi fel Llywodraeth i'r gymuned hon er mwyn gwireddu'r cynllun i greu swyddi a gwella'r ardal?

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response, Minister. The Cefn Mawr area has suffered terribly since the closure of Flexsys and Air Products, and those two important sites now need development, and that is what will shape the community for the next decade and beyond. The local community wants to see plans that landscape the area and create jobs for local people, in addition to connecting the village with the world famous heritage site of Pontcysyllte aqueduct, as you have already mentioned. What practical assistance can you give as a Government to this community to achieve the plan to create jobs and improve the area?

**Huw Lewis:** I have already outlined Cadw's involvement, but the burden of a great deal of the future planning in terms of what is best done with this area primarily rests with local goverment. I hope that it will take note of the views of local people and also the characterisation study that complements and underlines the historic importance of that area. I have undertaken, at the invitation of Ken Skates, to visit the area within the next few months to take a look myself at what the Welsh Government needs to do in order to

**Huw Lewis:** Rwyf eisoes wedi amlinellu cyfraniad Cadw ond mae baich llawer o waith cynllunio at y dyfodol, o ran beth yw'r peth gorau i'w wneud â'r ardal hon, ar ysgwyddau llywodraeth leol yn bennaf. Gobeithio y bydd yn cymryd sylw o farn pobl leol yn ogystal â'r astudiaeth nodweddion sy'n ategu ac yn tanlinellu pwysigrwydd hanesyddol yr ardal honno. Rwyf wedi addo, yn dilyn gwahoddiad Ken Skates, y byddaf yn ymweld â'r ardal yn ystod y misoedd nesaf i gael gweld fy hun beth y mae angen i

further the aspirations of local people.

Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn hyrwyddo dyheadau pobl leol.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I am slightly disappointed to hear your response to Llyr Huws Gruffydd’s question, because Glandwr Cymru offers great potential to regenerate the area and link Pontcysyllte with Cefn Mawr and then on to Plas Kynaston canal. Have you been working with the Minister for Environment and Sustainable Development to look at the role that canals can play in the regeneration of the area and perhaps in delivering affordable housing in the area, along with the regeneration project?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, rwyf fymryn yn siomedig o glywed eich ymateb i gwestiwn Llyr Huws Gruffydd, oherwydd mae Glandwr Cymru yn cynnig potensial enfawr i adfywio'r ardal ac i gysylltu Pontcysyllte â Chefn Mawr ac yna ymlaen i gamlas Plas Kynaston. A ydych wedi bod yn gweithio gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i edrych ar y rôl y gall camlesi ei chwarae i adfywio'r ardal ac efallai i ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardal, ynghyd â'r prosiect adfywio?

**Huw Lewis:** I do not think that there is any real need, at this point, for the Member to be disappointed by responses or by the way forward on this. There is enormous potential for positive ways forward and good co-working for the people of this area. The advantage of the waterway system in that area is central to the way forward in terms of tourism, and this will also have an impact on what we say and think about housing development in the future.

**Huw Lewis:** Ni chredaf fod unrhyw wir angen i'r Aelod fod yn siomedig ar hyn o bryd ag ymatebion neu'r ffordd ymlaen ar y mater hwn. Ceir potensial enfawr am ffyrdd ymlaen cadarnhaol a chydweithio da i bobl yr ardal hon. Mae mantais y system ddyfrffyrdd yn yr ardal honno yn ganolog i'r ffordd ymlaen o ran twristiaeth, a bydd hyn hefyd yn cael effaith ar yr hyn y byddwn yn ei ddweud ac yn ei feddwl am ddatblygu tai yn y dyfodol.

**Aled Roberts:** Minister, I am sure that we all want to support Ken Skates as the local Member in ensuring that this area is developed. Those of us who are members of the cross-party group on waterways have been impressed by the work undertaken by the Scottish Government in regenerating canal areas. Would your department be willing to undertake preparatory works with Glandwr Cymru, now that it has greater responsibility in the area, to bring some of these plans to fruition, given that it contains a world heritage site and the Clywdian range area of outstanding natural beauty borders the site? There is a real need in the area for regeneration.

**Aled Roberts:** Weinidog, rwyf yn siŵr bod pob un ohonom am gynorthwyo Ken Skates fel yr Aelod lleol i sicrhau bod yr ardal hon yn cael ei datblygu. Mae'r rheini ohonom sy'n aelodau o'r grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd yn edmygu’r gwaith a wneir gan Lywodraeth yr Alban i adfywio ardaloedd camlas. A fyddai eich adran yn fodlon ymgymryd â gwaith paratoadol gyda Glandwr Cymru, gan fod ganddi fwy o gyfrifoldeb yn yr ardal hon erbyn hyn, i sicrhau bod rhai o'r cynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth, o ystyried ei bod yn cynnwys safle treftadaeth y byd a bod ardal o harddwch naturiol eithriadol bryniau Clwyd yn ffinio â’r safle? Mae gwir angen adfywio yn yr ardal.

**Huw Lewis:** ‘Yes’ is the short answer.

**Huw Lewis:** 'Byddai' yw'r ateb byr.

### Amgylchedd Hanesyddol

### Historic Environment

***3. Keith Davies:*** *Sut y bydd y Gweinidog yn datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu ag amgylchedd hanesyddol Cymru. OAQ(4)0087(HRH)*

***3. Keith Davies:*** *How will the Minister develop new ways of engaging with the historic environment of Wales. OAQ(4)0087(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Llanelli for that question. I outlined my priorities for the historic environment in my statement in the Chamber last month. High on my list of priorities is developing new and broader audiences for heritage through living history, the arts, digital media and site interpretation that tell human stories about the past that are relevant today.

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod dros Lanelli am y cwestiwn hwnnw. Amlinellais fy mlaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn fy natganiad yn y Siambr fis diwethaf. Mae datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangach ar gyfer treftadaeth drwy hanes byw, y celfyddydau, cyfryngau digidol a dehongli safleoedd sy'n adrodd hanesion y gorffennol sy'n berthnasol heddiw yn uchel ar fy rhestr o flaenoriaethau.

**Keith Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ogystal â theimlo balchder dros fy ngwlad, rwyf hefyd yn falch o’i threftadaeth. Mae fy etholaeth, Llanelli, yn gartref i nifer o feysydd hanesyddol, megis Castell Cydweli a Thŷ Llanelli. Mae sawl grŵp creadigol wedi eu lleoli yn Llanelli, gyda’u perfformiadau’n ddathliad ac yn deyrnged i ddigwyddiadau hanesyddol. Er enghraifft, flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd perfformiadau gan Goleg Sir Gâr a’r theatr ieuenctid ynglŷn â streic rheilffyrdd 1911. Roedd y perfformiadau’n wych, ac roedd yn ffordd wahanol o godi ymwybyddiaeth hanesyddol. Beth yw’r cynlluniau i gynyddu ymgysylltiad ymysg pobl ifainc? A ydych yn credu y gall dulliau o’r fath chwarae rôl bwysig?

**Keith Davies:** Thank you for that response, Minister. In addition to being proud of my country, I am proud of its heritage. My constituency, Llanelli, is home to a number of historical sites, such as Kidwelly Castle and Llanelly House. Several creative groups are based in Llanelli, and their performances celebrate and mark historic events. For example, last year Coleg Sir Gâr and the youth theatre held performances about the railway strike of 1911. The performances were excellent, and a different way of raising awareness of history. What are the plans to increase engagement among young people? Do you believe that such methods can play an important role?

**Huw Lewis:** I thank the Member for that question, and I congratulate the students of Coleg Sir Gâr on their initiative. The connection of young people in particular with pride of place and the heritage of their community is very important to me and I stress to all our partners, particularly our sponsored bodies, that that should be at the centre of our developments in terms of heritage planning. The methods that Keith Davies has described of engaging young people with their heritage are critical, and I am keen to ensure that, in addition to that, Wales’s heritage is celebrated and promoted through all forms of media. In particular, as I have said, I am very pleased to see that young people have been encouraged to engage with their local history in this way. I take this opportunity to say that tomorrow—St David’s Day—will, as usual, see free

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw, a hoffwn longyfarch myfyrwyr Coleg Sir Gâr ar eu menter. Mae cysylltiad pobl ifanc yn arbennig â balchder a threftadaeth eu cymuned yn bwysig iawn imi, a phwysleisiaf wrth ein holl bartneriaid, yn enwedig ein cyrff a noddir, y dylai hynny fod wrth wraidd ein datblygiadau yng nghyswllt cynlluniau treftadaeth. Mae'r dulliau y mae Keith Davies wedi'u disgrifio o ymgysylltu pobl ifanc â'u treftadaeth yn hollbwysig, ac rwyf yn awyddus i sicrhau y bydd treftadaeth Cymru, yn ychwanegol at hynny, yn cael ei ddathlu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng pob math o gyfryngau. Yn benodol rwyf yn falch iawn, fel y dywedais, o weld fod pobl ifanc wedi cael eu hannog i ymgysylltu â'u hanes lleol fel hyn. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud y bydd pawb yfory—Dydd Gŵyl Dewi—yn cael mynediad am ddim fel arfer i

admission for all to Cadw sites across Wales. That is a great opportunity tomorrow for young people and their families to engage with local history for free.

holl safleoedd Cadw ar hyd a lled Cymru. Mae hwnnw'n gyfle gwych yfory i bobl ifanc a'u teuluoedd ymgysylltu â hanes lleol am ddim.

**Suzy Davies:** Weinidog, rydych yn ymwybodol o’r dadlau mawr ynghylch dymchwel adeilad y Customs House ym Mhort Talbot. Beth a ydych yn ei wneud i gyflymu hynt y Bil treftadaeth er mwyn diogelu adeiladau o bwysigrwydd lleol, fel y Customs House, sydd mewn perygl?

**Suzy Davies:** Minister, you will be aware of the arguments about demolishing the Customs House building in Port Talbot. What are you doing to speed up the progress of the heritage Bill in order to safeguard buildings of local importance, such as the Customs House, that are at risk?

2.30 p.m.

**Huw Lewis:** I have mentioned in the Chamber before that the door is now open in terms of a lengthy consultation process, which will give all of us the chance to come forward with good and constructive ideas about how the historic built environment can be best preserved. ‘Preserved’ is probably the wrong word because preservation is part of a living future for such important pieces of built heritage up and down Wales. I recognise that listing may not be the be-all and end-all of the historical importance of parts of the built environment to very proud communities.

**Huw Lewis:** Rwyf wedi sôn yn y Siambr o'r blaen bod y drws wedi agor yn awr ar broses ymgynghori hir, a fydd yn rhoi cyfle i bob un ohonom gyflwyno syniadau da ac adeiladol am y ffordd orau o gynnal yr amgylchedd adeiledig hanesyddol. Mae'n debyg nad 'cynnal' yw'r gair cywir oherwydd mae cynnal yn rhan o ddyfodol byw ar gyfer darnau mor bwysig o dreftadaeth adeiledig ar hyd a lled Cymru. Rwyf yn cydnabod nad rhestru yw’r peth pwysicaf i gymunedau balch o ran pwysigrwydd hanesyddol rhannau o’r amgylchedd adeiledig.

**Suzy Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw. Yr oeddwn am glywed rhywbeth am gyflymu’r broses. Trof yn awr at dreftadaeth y dyfodol. Mae Cymru’n chwarae rhan yn yr Olympiad diwylliannol, ond sut y byddwch yn ymgysylltu â phobl nad ydynt yn byw’n agos at leoliad y digwyddiadau a drefnwyd? Mae Cymru wledig wedi colli mas unwaith eto.

**Suzy Davies:** Thank you for that response. I wanted to hear something about the speed of bringing the process forward. I will now turn about the heritage of the future. Wales will play a part in the cultural Olympiad, but how will you engage with people who do not live anywhere near the location of events arranged? Rural Wales has lost out once again in this context.

**Huw Lewis:** On the speed of this, the timetable was laid out in my heritage statement in the Chamber the other day and the Bill will be before the Assembly in 2014 or 2015. There is a clear timetable there and I advise the Member to check the Record on that.

**Huw Lewis:** O ran cyflymder y broses, cafodd yr amserlen ei hamlinellu yn fy natganiad treftadaeth yn y Siambr y diwrnod o'r blaen, a bydd y Bil gerbron y Cynulliad yn 2014 neu 2015. Mae honno’n amserlen glir, ac rwyf yn cynghori'r Aelod i ddarllen y Cofnod i weld hynny.

I am not sure that I share your pessimism surrounding the cultural Olympiad either. I am assured by LOCOG, the organisers, that we are talking about a penetration, if you like, in terms of the number of people who can easily access events, of around 95% of the Welsh population. That percentage of people will be within just two or three miles

Nid wyf yn siŵr fy mod yn rhannu eich pesimistiaeth ynghylch yr Olympiad diwylliannol ychwaith. Mae Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, y trefnwyr, yn fy sicrhau ein bod yn sôn am dreiddiad, os mynnwch—o ran nifer y bobl a fydd yn gallu cael mynediad at ddigwyddiadau yn hawdd—o

of a cultural Olympiad event between now and the Olympic games.

tua 95 y cant o boblogaeth Cymru. Bydd y ganran honno o bobl o fewn dim ond dwy neu dair milltir i ddigwyddiad Olympiad ddiwylliannol rhwng nawr a'r gemau Olympaidd.

**Bethan Jenkins:** I make no apologies for returning to the Customs House issue, given its importance to Port Talbot. I have received correspondence from Lynne Rees, a well-known writer from Port Talbot, on the imminent demolition. She writes, in respect of a letter that you sent to her, that you feel unable to intervene because you see this as a local matter, yet the history of this building is inextricably linked to the industrial history of south Wales. The sense of betrayal among the people of Port Talbot is palpable.

**Bethan Jenkins:** Nid wyf am ymddiheuro am ddychwelyd at adeilad Customs House, o ystyried ei bwysigrwydd i Bort Talbot. Rwyf wedi cael gohebiaeth gan Lynne Rees, awdur adnabyddus o Bort Talbot, am y gwaith dymchwel sydd ar fin digwydd. Mewn perthynas â llythyr y gwnaethoch ei anfon ati, mae wedi nodi eich bod yn teimlo na allwch ymyrryd oherwydd eich bod yn ystyried hyn yn fater lleol, ond eto mae hanes yr adeilad hwn yn rhan annatod o hanes diwydiannol y de. Mae'r ymdeimlad o frad yn amlwg ymhlith pobl Port Talbot.

I urge you one final time to do anything within your capability to encourage Cadw or Coastal Housing Group to stop the demolition of the Customs House and Royal Buildings given that the Welsh Government gave Coastal Housing Group grant money to undertake this venture.

Rwyf yn eich annog, am y tro olaf, i wneud unrhyw beth o fewn eich gallu i annog Cadw neu Coastal Housing Group i atal adeilad Customs House a'r Adeiladau Brenhinol rhag cael eu dymchwel, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian grant i Coastal Housing Group i gynnal y fenter hon.

**Huw Lewis:** I understand and recognise the strength of feeling behind these issues. Within my capabilities, I believe that all of the correct procedures have been followed and this is now a matter for Neath Port Talbot County Borough Council.

**Huw Lewis:** Rwyf yn deall ac yn cydnabod y teimladau cryf sydd wrth wraidd y materion hyn. O fewn fy ngallu, credaf fod pob un o'r gweithdrefnau cywir wedi cael eu dilyn a mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw hyn bellach.

**Mynydd Betws**

**Betws Mountain**

***4. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr eitemau o ddiddordeb archeolegol a ddarganfuwyd ar Fynydd Betws, Sir Gaerfyrddin. OAQ(4)0098(HRH)*

***4. Rhodri Glyn Thomas***: *Will the Minister make a statement on the discovery of items of archaeological interest on Betws Mountain, Carmarthenshire. OAQ(4)0098(HRH)*

**Huw Lewis:** My understanding is that a stone row of uncertain date has recently been discovered. There are claims that it is prehistoric, and part of it is affected by the construction of a windfarm, as you know. Following agreement with the local planning authority, the affected section has been excavated with the aim of establishing its date and significance.

**Huw Lewis:** Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae rhes o feini o ddyddiad amhendant wedi cael ei darganfod yn ddiweddar. Ceir honiadau ei bod yn gynhanesyddol, ac mae’r gwaith i adeiladu fferm wynt yn effeithio ar ran ohoni, fel y gwyddoch. Yn dilyn cytundeb â'r awdurdod cynllunio lleol, mae'r rhan y bydd hyn yn effeithio arni wedi cael ei chloddio gyda'r nod o ganfod dyddiad ac arwyddocâd

y rhes o feini.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydych yn gwbl gywir yn y wybodaeth yr ydych wedi'i derbyn am y darganfyddiadau diweddar. Byddwch yn ymwybodol bod Cadw wedi codi nifer o gwestiynau ynglŷn â'r safle yn ystod y broses gynllunio. Gwnaeth ddatganiad fod y safle o werth hanesyddol a chododd cwestiynau am nifer o ddatganiadau amgylcheddol a wnaed yn flaenorol am y safle hwnnw. A wnewch chi sicrhau y caiff datganiad diffiniol ei wneud ynghylch gwerth y darganfyddiad diweddaraf a sut mae'r darganfyddiad hwnnw i'w weld yng nghyd-destun datganiadau blaenorol Cadw ar werth hanesyddol y safle yn ei gyfanrwydd?

**Rhodri Glyn Thomas:** You are entirely right in the information you have received about the recent excavations and finds. You will be aware that Cadw raised several questions about the site during the planning process. It issued a statement saying that the site was one of historical interest and raised questions about a number of the previous environmental statement made about the site. Will you ensure that a definitive statement is made on the value of the recent excavations and finds and how those are viewed in the context of Cadw's previous statements on the historical value of the site as a whole?

**Huw Lewis:** Yes, of course. There are two things to be said here: one is a reminder to all parties concerned that the planning authority here is Carmarthenshire County Council and it is responsible, with advice from the Dyfed Archaeological Trust, for ensuring that this proposed development complies with the archaeological conditions in the planning approval. To bring Members completely up to date, I have learnt today that initial results from the archaeological investigation are now available but inconclusive. The developer has been requested to carry out further survey work with the aim of producing a conclusive result. Unfortunately, my understanding is that, although that is under way immediately and under discussion straight away, the conclusive results are unlikely to be available for about a month.

**Huw Lewis:** Gwnaf, wrth gwrs. Mae dau beth i'w ddweud ynghylch hyn: un ohonynt yw atgoffa pawb dan sylw mai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod cynllunio yn y sefyllfa hon ac mae'n gyfrifol, gyda chyngor gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, am sicrhau bod y datblygiad arfaethedig hwn yn cydymffurfio â'r amodau archeolegol yn y caniatâd cynllunio. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, rwyf wedi cael gwybod heddiw bod canlyniadau cychwynnol yr ymchwiliad archeolegol ar gael yn awr, ond eu bod yn amhendant. Gofynnwyd i'r datblygwr wneud gwaith arolwg pellach gyda'r nod o sicrhau canlyniad terfynol. Yn anffodus, yn ôl yr hyn a ddeallaf, er bod hynny'n cael ei wneud ar unwaith ac yn cael ei drafod ar unwaith, mae'n annhebygol na fydd y canlyniadau terfynol ar gael am tua mis.

**Suzy Davies:** Minister, a few weeks ago I raised with you the issue of a conflict between your policy on heritage landscapes such as Mynydd y Betws and its role in regeneration and the position of the Welsh Government's policy on onshore wind. What discussions have you had with the Minister for Environment and Sustainable Development to square this circle on these competing priorities?

**Suzy Davies:** Weinidog, ychydig wythnosau'n ôl, soniais wrthych nad yw eich polisi chi ar dirweddau treftadaeth fel Mynydd y Betws a'i rôl mewn adfywio yn cyd-fynd â safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ar wynt ar y tir. Pa drafodaethau ydych wedi'u cael gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i sicrhau cysondeb rhwng y blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd?

**Huw Lewis:** Of course, there are tensions between the various demands we make of our landscape and the priorities we have to set out as politicians and social actors across all these areas. Here, we see the acting out, if you like, of the tension between the historic value, potentially, of a piece of archaeology and the need for us to move forward as a country on renewable energy. However, the process is clear and laid out before us, and I believe that the process is being followed correctly.

**Huw Lewis:** Wrth gwrs, ceir tensiynau rhwng ein gwahanol benderfyniadau ynghylch ein tirwedd a'r blaenoriaethau y mae'n rhaid inni eu pennu fel gwleidyddion ac actorion cymdeithasol ar draws yr holl feysydd hyn. Yma rydym yn gweld, os mynnwch, y tensiwn rhwng y gwerth hanesyddol sydd gan ddarn o archaeoleg, o bosibl, a'r angen inni symud ymlaen fel gwlad ar ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae'r broses yn glir ac wedi'i gosod ger ein bron, ac rwyf yn credu bod y broses yn cael ei dilyn yn briodol.

### Cyfleoedd Cyllido ar gyfer Pêl-droed

### Funding Opportunities for Football

***5. Ann Jones:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gyfleoedd cyllido ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. OAQ(4)0099(HRH)*

***5. Ann Jones:** What assessment has the Welsh Government made of funding opportunities for football in Wales. OAQ(4)0099(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for the Vale of Clwyd for that question. Based on discussions with the Football Association of Wales and Sport Wales, the Welsh Government is providing more than £800,000 to support the development of grass-roots football in Wales. This funding is being used by the Welsh Football Trust to improve coach education, train more volunteers to become football leaders, encourage participation among young people and develop talented players.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am y cwestiwn hwnnw. Yn seiliedig ar drafodaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu mwy na £800,000 i gefnogi datblygiad pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru. Mae Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn defnyddio'r cyllid hwn i wella addysg hyfforddwyr, i hyfforddi mwy o wirfoddolwyr i fod yn arweinwyr pêl-droed, i hybu cyfranogiad ymysg pobl ifanc ac i ddatblygu chwaraewyr dawnus.

**Ann Jones:** Thanks very much for that answer, Minister. The successful development of young football players in Wales is crucial to building on the progress currently being made at the national level. In England, the Football Foundation was set up to boost the investment in grass-roots football and is backed by the Premier League, the Football Association itself and the Government. As a result, for every £1 that Government puts in, £5 is invested through partners and match funding from external partnerships. If no equivalent exists in Wales, will you consider introducing such a

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae mynd ati'n llwyddiannus i ddatblygu chwaraewyr pêl-droed ifanc yng Nghymru yn hanfodol er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wneir ar y lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Yn Lloegr, cafodd y Sefydliad Pêl-droed ei sefydlu i roi hwb i'r buddsoddiad mewn pêl-droed ar lawr gwlad, ac mae'n cael ei gefnogi gan yr Uwch Gynghrair, y Gymdeithas Bêl-droed ei hun a'r Llywodraeth. O ganlyniad, am bob £1 y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi, mae £5 yn cael ei fuddsoddi drwy bartneriaid ac arian cyfatebol gan bartneriaethau allanol. Os nad

programme? Will you also join me today in wishing the Welsh team success tonight in what I am sure will be a very emotional match for the Welsh players? I am sure that they will do us proud.

oes rhaglen gyfatebol yn bodoli yng Nghymru, a wnewch ystyried cyflwyno rhaglen o'r fath? A wnewch hefyd ymuno â mi heddiw i ddymuno llwyddiant i dîm Cymru heno, mewn gêm a fydd yn emosiynol iawn rwyf yn siŵr i chwaraewyr Cymru? Rwyf yn siŵr y byddant yn ennyn balchder pob un ohonom.

**Huw Lewis:** I thank Ann Jones for that question. As I mentioned, the Welsh Football Trust is the primary vehicle by which we support the development of grass-roots football in Wales. The FAW and the Welsh Football Trust introduced their Level Playing Field campaign in December 2010, which focused on improving access to playing football for socially excluded young people and improving access to training for volunteers. The idea of the campaign is that it attracts funding via sponsorship through business and from donations. However, the Welsh Football Trust has reported to me that progress has been slow and that it is afraid that the economic climate has not helped. It plans on appointing a new agency to drive forward the campaign, and I have asked officials to keep me informed of progress. I have no doubt that the Member will want to be kept informed of progress. I join her in wishing the Welsh team success in the match this evening. I will be in attendance, and I know that it will be a special occasion enabling us all to pay tribute to the late Gary Speed.

**Huw Lewis:** Diolch i Ann Jones am y cwestiwn hwnnw. Fel y soniais, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yw ein prif gyfrwng i gefnogi datblygiad pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru. Cyflwynodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru eu hymgyrch Maes Chwarae Gwastad ym mis Rhagfyr 2010, a oedd yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol i chwarae pêl-droed, a gwella cyfleoedd gwirfoddolwyr i gael hyfforddiant. Syniad yr ymgyrch yw ei bod yn denu cyllid drwy nawdd, ar ffurf busnes ac ar ffurf rhoddion. Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru wedi dweud mai araf fu’r cynnydd a'i bod yn ofni nad yw'r hinsawdd economaidd wedi helpu. Mae'n bwriadu penodi asiantaeth newydd i fwrw ymlaen â'r ymgyrch, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am y cynnydd a wneir. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn dymuno cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir. Rwyf finnau, fel hithau, yn dymuno pob llwyddiant i dîm Cymru yn y gêm heno. Byddaf yn bresennol, a gwn y bydd yn achlysur arbennig a fydd yn rhoi cyfle i bob un ohonom dalu teyrnged i'r diweddar Gary Speed.

**Mohammad Asghar:** Minister, in February 2007, the Assembly’s Culture, Welsh Language and Sports Committee produced a review of football in Wales. The committee recommended a plan for football funding in Wales that should address how existing resources from all available sources can best

**Mohammad Asghar:** Weinidog, ym mis Chwefror 2007, lluniodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y Cynulliad adolygiad o bêl-droed yng Nghymru. Argymhellodd y pwyllgor gynllun ar gyfer cyllido pêl-droed yng Nghymru, a ddylai fynd i’r afael â’r ffordd orau o

be used and to identify gaps in provision. Will the Minister advise the Assembly what progress has been made on producing this plan so that funding can be used to best effect in the development of football, particularly for primary school children in Wales?

ddefnyddio’r holl adnoddau presennol o bob ffynhonnell sydd ar gael a’u defnyddio i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrth y Cynulliad pa gynnydd sydd wedi'i wneud i lunio'r cynllun hwn er mwyn gallu defnyddio cyllid yn y ffordd orau bosibl wrth ddatblygu pêl-droed, yn enwedig ar gyfer plant ysgolion cynradd yng Nghymru?

**Huw Lewis:** I thank the Member for that question. I believe that, in essence, the main points with regard to an update for Members on grass-roots football development were covered in my answer to Ann Jones. However, as well as the economic climate being much more challenging than it was in 2007, we should also recognise that Welsh football has moved forward considerably during that time. My trip to Wembley on Sunday was certainly an eye-opener in that regard. It was testament to the fantastic place that Welsh football currently finds itself in. I will be working with the Football Association of Wales and Sport Wales to look at all possible options for maximising investment through all possible channels.

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Yn ei hanfod, credaf fod y prif bwyntiau o ran y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am ddatblygu pêl-droed ar lawr gwlad wedi cael eu cynnwys yn fy ateb i Ann Jones. Fodd bynnag, yn ogystal â'r ffaith bod yr hinsawdd economaidd yn anos o lawer nag yr oedd yn 2007, dylem hefyd gydnabod fod pêl-droed Cymru wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd fy nhaith i Wembley ddydd Sul yn sicr yn agoriad llygad yn hynny o beth. Roedd yn brawf o sefyllfa wych pêl-droed Cymru ar hyn o bryd. Byddaf yn gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru i ystyried yr holl opsiynau posibl i sicrhau cymaint o fuddsoddiad â phosibl drwy bob sianel bosibl.

**Alun Ffred Jones:** Er mwyn codi safonau sgiliau pêl-droed ymysg pobl ifanc, fel y cyfeiriodd Ann Jones ato, mae angen caeau pob tywydd o’r safon orau ym mhob rhan o Gymru. Mae cae newydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor yn Nantporth yn adnodd pwysig i’r ardal—a llongyfarchiadau i’r clwb ar ei lwyddiant—ond mae angen cae pob tywydd, ac mae lle ar y safle hwnnw ar gyfer y gogledd-orllewin yn gyffredinol, er mwyn i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd. A fyddech yn fodlon rhoi eich cefnogaeth mewn egwyddor i ddatblygiad o’r fath yn y gogledd-orllewin er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc ymarfer eu sgiliau yn ystod y gaeaf pan fo cymaint o’n caeau mewn cyflwr drwg?

**Alun Ffred Jones:** In order to improve footballing skills among young people, as Ann Jones mentioned, we need all-weather pitches of the highest quality in all parts of Wales. Bangor City Football Club’s new pitch in Nantporth is an important resource to the area—and congratulations to the club on its success—but we also need an all-weather pitch, and there is space on that site for the whole of north-west Wales, so that young people can enhance their footballing skills. Would you be willing to give your support in principle to supporting such a development in north-west Wales, in order to give young people an opportunity to develop their skills during the winter when so many of our pitches are in a poor condition?

**Huw Lewis:** I have seen in several parts of Wales the difference that all-weather pitches make. They are now becoming a basic requirement with regard to what we should see as being accessible to young people across Wales. I would be happy to meet with

**Huw Lewis:** Rwyf wedi gweld y gwahaniaeth y mae caeau pob tywydd yn ei wneud mewn sawl rhan o Gymru. Maent yn ofyniad sylfaenol erbyn hyn o ran yr hyn y dylid ei ystyried yn hygyrch i bobl ifanc ym mhob cwr o Gymru. Byddwn yn fwy na

the Member, maybe on site, to talk about the importance of this being rolled out in north-west Wales in addition to the other parts of the country that currently enjoy that sort of facility.

pharod i gael cyfarfod â'r Aelod, efallai ar y safle, i siarad am bwysigrwydd cyflwyno hyn yn y gogledd-orllewin yn ychwanegol at y rhannau eraill o'r wlad sydd â'r math hwnnw o gyfleuster ar hyn o bryd.

**The Presiding Officer:** It would be helpful if Lynne Neagle would not speak when Huw Lewis is speaking.

**Y Llywydd:** Byddai'n ddefnyddiol pe na byddai Lynne Neagle yn siarad pan mae Huw Lewis yn siarad.

**Huw Lewis:** Thank you, Presiding Officer. I have often felt this. [*Laughter.*]

**Huw Lewis:** Diolch ichi, Lywydd. Rwyf yn teimlo hyn yn aml. [*Chwerthin.*]

**Christine Chapman:** Minister, there has been a significant increase in the number of girls playing football in Wales, making it now the sport with the largest participation of girls. In July, women's football at the Millennium Stadium will kick off the 2012 Olympics. I was pleased to meet with Cynon Valley Blades Football Club in my constituency recently, which is a mixed football team. Would you agree that local clubs, such as this, have a massive impact on girls' football by providing opportunities for them to participate regularly in leagues? Will you continue to encourage this?

**Christine Chapman:** Weinidog, bu cynnydd sylweddol yn nifer y merched sy'n chwarae pêl-droed yng Nghymru, ac erbyn hyn dyma'r gamp sydd â'r nifer mwyaf o ferched yn cymryd rhan ynddi. Fis Gorffennaf, bydd Gemau Olympaidd 2012 yn dechrau gyda phêl-droed menywod yn Stadiwm y Mileniwm. Roeddwn yn falch o gael cyfarfod â Chlwb Pêl-droed Blades Cwm Cynon yn fy etholaeth yn ddiweddar, sef tîm pêl-droed cymysg. A fyddech yn cytuno bod clybiau lleol, fel y clwb hwn, yn cael effaith enfawr ar bêl-droed i ferched drwy gynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn rheolaidd mewn cynghreiriau? A wnewch barhau i annog hyn?

**Huw Lewis:** I thank Christine Chapman for raising this critical issue. Sports historians, no doubt, would home in on the last few years and the successes of Swansea city and Cardiff city teams, which I mentioned, and the progress of the Welsh national team in competitive success in football. If you delve a little deeper, you will find that the biggest shift in football development across Wales over the past three or four years has been the 30% increase in the number of girls and women participating in football. This is nothing less than a tectonic shift with regard to the participation of girls and women in this particular sport. Working with local clubs such as Cynon Valley Blades is something that I want to foster and promote. In addition, I would like to offer our women's national football team my best wishes as it plays in the Algarve cup competition, which starts today.

**Huw Lewis:** Diolch i Christine Chapman am godi'r mater hollbwysig hwn. Rwyf yn siŵr y byddai haneswyr Chwaraeon yn canolbwyntio ar y blynyddoedd diwethaf ac ar lwyddiannau timau Dinas Abertawe a Dinas Caerdydd, y soniais amdanynt, a chynnydd tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru o ran ei lwyddiant mewn cystadlaethau. Os edrychwch yn fanylach, byddwch yn gweld mai'r newid mwyaf mewn datblygu pêl-droed ar draws Cymru dros y tair neu bedair blynedd diwethaf fu'r 30 y cant o gynnydd yn nifer y merched a menywod sy'n cymryd rhan mewn pêl-droed. Nid yw hyn yn ddim llai na newid tectonig o ran cyfranogiad merched a menywod yn y gamp benodol hon. Mae gweithio gyda chlybiau lleol fel Blades Cwm Cynon yn rhywbeth rwyf am ei goleddu a'i hyrwyddo. Hefyd, hoffwn ddymuno'n dda i'n tîm pêl-droed menywod cenedlaethol pan fydd yn chwarae yng nghystadleuaeth cwpan Algarve, sy'n dechrau heddiw.

**The Presiding Officer:** Minister, before we move to the next question, I wonder whether

**Y Llywydd:** Weinidog, cyn inni symud i'r cwestiwn nesaf, tybed a fyddai modd ichi

you could move your keypad out of the well, because it is pushing the button off. Thank you.

symud eich bysellbad, oherwydd mae'n diffodd y botwm. Diolch.

**Huw Lewis:** Sorry, Presiding Officer, I have broken the Chamber. [*Laughter*.]

**Huw Lewis:** Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, rwyf wedi tarfu ar y Siambr. [*Chwerthin.*]

2.45 p.m.

**Materion yn Ymwneud â Chyflenwad Tai**

**Housing Supply Issues**

***6. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae ei adran yn ymgysylltu â Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar faterion yn ymwneud â chyflenwad tai. OAQ(4)0091(HRH)*

***6. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister make a statement on how his department engages with the Minister for Environment and Sustainable Development over housing supply issues. OAQ(4)0091(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for South Wales Central for his question. I work closely with the Minister for Environment and Sustainable Development on housing supply issues. This includes ensuring that the implementation of our legislation, policies and guidance delivers the conditions to encourage the housing supply that we need. The respective departments are working together collaboratively and this is a once-in-a-generation opportunity to work together well on this issue to bring forward both the housing and planning Bills in parallel.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am ei gwestiwn. Rwyf yn gweithio'n agos gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar faterion yn ymwneud â chyflenwad tai. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithredu ein deddfwriaeth, ein polisïau a'n canllawiau yn cyflawni'r amodau i hybu'r cyflenwad tai y mae ei angen arnom. Mae'r adrannau perthnasol yn cydweithio, ac mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gydweithio'n dda ar y mater hwn i gyflwyno'r Biliau tai a chynllunio ar y cyd.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, Minister, for that answer. I am very pleased to hear that there is strong collaboration between the two departments. It is critical, if we are to address the housing shortage, that the planning system reflects substantial pieces of advice and support in the guidance that the Welsh Government offers planning authorities. What would you like to see coming out of the legislation that the Government will be bringing forward? What are the key areas that you think will increase the supply of housing in Wales to address that shortfall? Rather than seeing cosmetic change, we need real, substantial change to allow the planning system to respond to need.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rwyf yn falch iawn o glywed bod llawer o gydweithio rhwng y ddwy adran. Os ydym am fynd i'r afael â'r prinder tai, mae'n hanfodol bod y system gynllunio yn adlewyrchu darnau sylweddol o gyngor a chefnogaeth yn y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i awdurdodau cynllunio. Pa ganlyniad fyddech yn hoffi ei weld yn sgil y ddeddfwriaeth y bydd y Llywodraeth yn ei chyflwyno? Beth yw'r meysydd allweddol rydych yn credu a fydd yn cynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru i fynd i'r afael â'r prinder hwnnw? Yn hytrach na gweld newid arwynebol, mae arnom angen newid sylweddol gwirioneddol er mwyn i'r system gynllunio allu ymateb i'r anghenion.

**Huw Lewis:** Obviously, I cannot put words into the mouth of my colleague the Minister for Environment and Sustainable Development. However, I think that I can safely say that we are not where we want to be in terms of the co-working between those twin regimes of housing development and planning. There is a heavy responsibility upon us as the Welsh Government to get this right, as well as a heavy responsibility, as John Griffiths has mentioned, for local authorities to get their act together on local development plans. If I were to boil down the wish list, as the Member mentioned in his question, I think that we would be aiming for greater simplicity and greater speed when it comes to encouraging the development of housing across Wales.

**Huw Lewis:** Yn amlwg, ni allaf roi geiriau yng ngheg fy nghyd-Weinidog, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Fodd bynnag, credaf y gallaf ddweud yn bendant nad ydym yn y sefyllfa y byddem yn dymuno bod ynddi o ran y cydweithio rhwng y ddwy system hynny ar gyfer cynllunio a datblygu tai. Mae cyfrifoldeb mawr arnom ni fel Llywodraeth Cymru i wneud hyn yn iawn, ac mae cyfrifoldeb mawr, fel y mae John Griffiths wedi sôn, ar awdurdodau lleol i gael trefn ar gynlluniau datblygu lleol. Pe bawn yn gorfod dewis o blith fy rhestr ddymuniadau, fel y soniodd yr Aelod yn ei gwestiwn, credaf y byddem yn anelu at fwy o symlrwydd a chyflymder o ran hybu datblygiad tai ledled Cymru.

**Kenneth Skates:** A recent report by Wrexham County Borough Council warned that it faces a £350,000 overspend on housing homeless people in the county because of changes to the way in which benefits are calculated and other UK Government welfare changes. Officers in the county say that they expect triple the number of people to seek help for homelessness this year compared to three years ago. This comes in addition to a report published last year by Glyndŵr University that said that homeless people aged between 16 and 24 were at greater risk of prostitution, self-harm and addiction as a result of homelessness at this stage in their lives. What is the Welsh Government doing to support front-line homelessness services and to provide specialist housing advice to help homeless individuals to get the appropriate accommodation they need?

**Kenneth Skates:** Rhybuddiodd adroddiad diweddar gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei fod yn wynebu £350,000 o orwariant ar letya pobl ddigartref yn y sir oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae budd-daliadau'n cael eu cyfrifo a newidiadau lles eraill Llywodraeth y DU. Dywed swyddogion yn y sir eu bod yn disgwyl y bydd nifer y bobl sy’n ofyn am gymorth ynghylch digartrefedd yn treblu eleni o'i gymharu â thair blynedd yn ôl. Mae hyn yn ychwanegol at adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd gan Brifysgol Glyndŵr, a oedd yn dweud bod pobl ddigartref rhwng 16 a 24 oed yn wynebu mwy o risg o buteindra, hunan-niwed a bod yn gaeth i sylweddau yn sgil bod yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwn yn eu bywydau. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gwasanaethau digartrefedd rheng flaen, ac i roi cyngor arbenigol ar dai i gynorthwyo unigolion digartref i gael y llety priodol y mae arnynt ei angen?

**Huw Lewis:** Nothing within the purview of my portfolio fills me with greater concern. It is not just concern, but almost a coming

**Huw Lewis:** Nid oes dim byd o fewn maes fy mhortffolio yn achosi mwy o bryder imi. Nid dim ond pryder, ond teimlad o arswyd

feeling of dread at the continuing increase in homelessness figures. I will be doing everything that I can to help mitigate the effect of UK Government welfare reforms, to name just one of the elements of this toxic cocktail that is causing these figures to rise. Our homelessness grant programme of £7.3 million currently supports over 100 projects aimed at preventing homelessness. This includes £870,000 to fund the specialist housing advice service that Shelter provides across Wales. With the intention of reducing the impact of housing benefit reforms, I have provided an extra £1.4 million to be spent over the next two years for local authorities to work with people who will be affected in the thousands by the changes in UK Government policy. It seems that UK Government policy in this regard is almost designed to cause the perfect storm around homelessness. I worry very much about the future of these statistics and about the real people behind those statistics in Wales.

bron gyda'r cynnydd parhaus yn y ffigurau digartrefedd. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i helpu i leddfu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU, i enwi dim ond un o elfennau'r gymysgedd beryglus hon sy'n achosi i'r ffigurau hyn godi. Ar hyn o bryd, mae ein rhaglen grantiau digartrefedd, sydd werth £7.3 miliwn, yn cefnogi dros 100 o brosiectau sy'n ceisio atal digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys £870,000 i ariannu'r gwasanaeth cyngor arbenigol ar dai a ddarperir gan Shelter ar hyd a lled Cymru. Gyda'r bwriad o leihau effaith y diwygiadau budd-dal tai, rwyf wedi darparu £1.4 miliwn ychwanegol i'w wario dros y ddwy flynedd nesaf i awdurdodau lleol i weithio gyda'r miloedd o bobl y bydd y newidiadau ym mholisi Llywodraeth y DU yn effeithio arnynt. Mae'n ymddangos bod polisi Llywodraeth y DU yn hyn o beth bron wedi'i gynllunio i achosi'r storm berffaith o amgylch digartrefedd. Rwyf yn poeni'n fawr am ddyfodol yr ystadegau hyn, ac am y bobl go iawn sydd wrth wraidd yr ystadegau hynny yng Nghymru.

**Cefnogi’r Sector Tai Cydweithredol**

**Co-Operative Housing Sector**

***7. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i gefnogi’r sector tai cydweithredol yng Nghymru. OAQ(4)0095(HRH)*

***7. Mike Hedges:*** *Will the Minister provide an update on his plans to support the co-operative housing sector in Wales. OAQ(4)0095(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Swansea East for the question. I believe that co-operative housing can deliver solutions for people in housing need and I am considering how it could feature in the housing Bill to support its development in Wales. We are working closely with housing and co-operative practitioners and have already identified a range of potential pioneer co-operative housing projects.

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am y cwestiwn. Credaf y gall tai cydweithredol ddarparu atebion tai ar gyfer pobl ag anghenion tai, ac rwyf yn ystyried sut y gellid eu cynnwys yn y Bil tai i gefnogi eu datblygiad yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr cydweithredol a thai, ac rydym eisoes wedi nodi ystod o brosiectau tai cydweithredol arloesol posibl.

**Mike Hedges:** I thank the Minister for his response. As he is well aware, I am supportive of co-operative housing and its development in Wales. If he is looking at

**Mike Hedges:** Diolch i’r Gweinidog am ei ymateb. Fel y mae'n gwybod yn iawn, rwyf yn gefnogol o dai cydweithredol a'u datblygiad yng Nghymru. Os yw’n edrych ar

future sites, will he consider a site in Swansea to be among the first to be used?

safleoedd at y dyfodol, a wnaiff ystyried safle yn Abertawe i fod ymysg y cyntaf i gael ei ddefnyddio?

**Huw Lewis:** I thank the Member for the question and for his support for the co-operative housing ideal. Such support at a political level will be important as we move towards what is an unfamiliar form of home ownership in Wales. What politicians do and say within their communities in particular will matter very much in terms of ensuring that this succeeds. Among those pioneer co-operative housing areas that I mentioned, there is a range of locations, sizes and community interests involved that I am not in a position to go into quite yet, but I would welcome any proposals coming from the Swansea area.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn ac am ei gefnogaeth i'r ddelfryd o dai cydweithredol. Bydd cymorth o'r fath ar lefel wleidyddol yn bwysig wrth inni symud tuag at ffurf anghyfarwydd o berchentyaeth yng Nghymru. Bydd yr hyn y mae gwleidyddion yn ei wneud a'i ddweud yn eu cymunedau yn benodol yn bwysig iawn o ran sicrhau bod hyn yn llwyddo. Ymhlith yr ardaloedd tai cydweithredol arloesol hynny rwyf wedi sôn amdanynt, ceir amrywiaeth o leoliadau, maint a buddiannau cymunedol nad wyf mewn sefyllfa i'w trafod ar hyn o bryd, ond byddwn yn croesawu unrhyw gynigion o ardal Abertawe.

**Mark Isherwood:** I used to work for a mutual that began its life as a housing co-operative and sat on the board of another on a voluntary basis. Do you agree that in delivering housing supply to tackle the housing supply crisis, we need to pull all the levers on a whole-market, whole-system basis, utilising, among others, the skills of housing associations and building societies, and recognising that new co-operative models alone may be able to make a valuable, small contribution, but cannot be a panacea or a whole-market solution?

**Mark Isherwood:** Roeddwn yn arfer gweithio i fenter gydfuddiannol a ddechreuodd ei hoes fel cydweithrediaeth tai, ac roeddwn yn eistedd ar fwrdd un arall yn wirfoddol. Wrth sicrhau cyflenwad tai i fynd i'r afael â'r argyfwng cyflenwad tai, a ydych yn cytuno bod angen inni ddefnyddio pob dull posibl ar sail y farchnad gyfan a’r system gyfan gan fanteisio, ymysg pethau eraill, ar sgiliau cymdeithasau tai a chymdeithasau adeiladu a chydnabod y gall modelau cydweithredol newydd wneud cyfraniad bach gwerthfawr, ond na allant fod yn ateb i bob problem nac yn ateb i’r farchnad gyfan.

**Huw Lewis:** The Member is quite right. Co-operative housing is not some kind of magical solution that will deliver a silver bullet that will solve our housing problems in Wales. He is absolutely right. We have to continue with our emphasis on housing for social rent and expand the market for homes for intermediate rent, which the Welsh housing partnership, for instance, has been working so hard to deliver. We have to look at the affordability of housing in the private home ownership sector as well—straight purchases through mortgages and so on—and the fact that that is not within the reach of many people. However, I sincerely believe that a co-operative form of ownership is tailor-made for those who aspire to own their own home, but perhaps face difficulties in an economic climate such as this. It also provides us with a robust model of

**Huw Lewis:** Mae'r Aelod yn llygad ei le. Nid yw tai cydweithredol yn rhyw fath o ateb hud a fydd yn darparu un ateb syml i ddatrys ein problemau tai yng Nghymru. Mae'n gwbl gywir. Rhaid inni barhau â'n pwyslais ar dai ar gyfer rhent cymdeithasol ac ehangu'r farchnad ar gyfer cartrefi ar rent canolradd y mae partneriaeth tai Cymru, er enghraifft, wedi bod yn gweithio mor galed i'w chyflawni. Rhaid inni edrych ar fforddiadwyedd tai yn y sector perchentyaeth preifat hefyd—prynu'n uniongyrchol drwy forgeisi ac ati—a'r ffaith nad yw hynny o fewn cyrraedd llawer o bobl. Fodd bynnag, rwyf wir yn credu bod perchnogaeth ar ffurf gydweithredol yn ddelfrydol ar gyfer y rheini sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond y bydd efallai'n wynebu anawsterau mewn hinsawdd economaidd fel hon. Mae hefyd yn rhoi model cadarn o

affordability for the future that no other form of home-ownership supplies.

fforddiadwyedd inni ar gyfer y dyfodol, nad yw unrhyw fath arall o berchentyaeth yn ei ddarparu.

**Simon Thomas:** Minister, given your warm words and encouragement for co-operative methods of home ownership, can you tell us what proportion of Welsh housing stock at the moment is co-operatively owned, what proportion you intend to be co-operatively owned by the time that you leave your current job, and how many property units you intend to see built in Wales?

**Simon Thomas:** Weinidog, o ystyried eich geiriau gwresog a'ch anogaeth ar gyfer dulliau cydweithredol o berchentyaeth, a allwch ddweud wrthym faint o gyfran o stoc tai Cymru sydd o dan berchnogaeth gydweithredol ar hyn o bryd, faint o gyfran rydych yn bwriadu iddi fod o dan berchnogaeth gydweithredol erbyn y byddwch yn gadael eich swydd bresennol, a faint o unedau eiddo rydych yn bwriadu iddynt gael eu hadeiladu yng Nghymru?

**Huw Lewis:** I thank the Member for his question. Warm words they may be, but they are backed up with determination to deliver on this agenda. This is not about warm words; it is about delivery. There will be co-operative homes across Wales by the end of this Assembly term. The Member is really asking what the targets for delivery are in terms of the numbers of co-operative homes, and, as I have repeatedly said in the Chamber, there will be targets, but only when we are in a position to fully understand the impact of the economic downturn and of UK Government policy upon the changed housing landscape that we now survey. My ambition and my intention are that those targets will be part of the White Paper discussions when it is published towards the end of May, and we engage in that all-Wales consultation on the White Paper throughout the summer months.

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod am ei gwestiwn. Efallai eu bod yn eiriau gwresog, ond maent wedi'u hategu gan benderfyniad i gyflawni'r agenda hon. Mae angen mwy na dim ond geiriau gwresog; mae angen cyflawni. Bydd tai cydweithredol ym mhob cwr o Gymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Mewn gwirionedd, mae'r Aelod yn gofyn beth yw'r targedau cyflawni o ran nifer y cartrefi cydweithredol ac, fel rwyf wedi'i ddweud dro ar ôl tro yn y Siambr, byddwn yn cyflwyno targedau, ond dim ond pan fyddwn mewn sefyllfa i ddeall yn llawn effaith y dirywiad economaidd a pholisi Llywodraeth y DU ar y dirwedd tai newidiol rydym yn ei harolygu ar hyn o bryd. Fy uchelgais a fy mwriad yw y bydd y targedau hynny yn rhan o'r trafodaethau Papur Gwyn pan gaiff ei gyhoeddi tua diwedd mis Mai, a’n bod yn ymwneud â’r ymgynghoriad Cymru gyfan hwnnw ynghylch y Papur Gwyn drwy gydol misoedd yr haf.

### Tai Fforddiadwy

### Affordable Housing

***8. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy. OAQ(4)0100(HRH)*

***8. Mark Isherwood***: *Will the Minister outline his plans to increase the supply of affordable housing. OAQ(4)0100(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for North Wales for that question. Improving people’s lives by increasing housing supply is one of my key priorities. I am working with the whole housing sector to maximise the number of affordable homes that can be delivered with and without capital grant and

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiwn hwnnw. Gwella bywydau pobl drwy gynyddu'r cyflenwad tai yw un o fy mhrif flaenoriaethau. Rwyf yn gweithio gyda'r sector tai drwyddo draw i sicrhau'r nifer mwyaf o dai fforddiadwy y gellir eu darparu gyda grant cyfalaf a heb

across all tenures.

grant cyfalaf, ac ar draws pob deiliadaeth.

**Mark Isherwood:** Thank you for that. National House-Building Council figures given to me last week showed that, last year, new home registrations in Scotland were up 9.5%, in England, they were up 0.43%, but in Wales, they were down 16.6%. How do you respond to the concern expressed by leaders of the north Wales construction sector to members at a meeting last month that Wales is trailing behind England and Scotland in kick-starting the construction sector and tackling the housing supply crisis? It was calling, in particular, for the urgent implementation in Wales of a mortgage guarantee scheme, equivalent to the £1 billion fund established in England and a comparable fund in Scotland. It is anticipated that that fund in England alone will allow 100,000 households to access new-build housing.

**Mark Isherwood:** Diolch ichi am hynny. Roedd ffigurau’r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai a roddwyd imi'r wythnos diwethaf yn dangos bod nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yn yr Alban wedi cynyddu 9.5 y cant y llynedd, wedi cynyddu 0.43 y cant yn Lloegr, ond wedi lleihau 16.6 y cant yng Nghymru. Sut ydych yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan arweinwyr sector adeiladu'r gogledd wrth yr aelodau mewn cyfarfod fis diwethaf bod Cymru yn llusgo y tu ôl i Loegr a'r Alban o ran rhoi hwb i'r sector adeiladu a mynd i'r afael â'r argyfwng cyflenwad tai? Roedd yn galw, yn benodol, am weithredu cynllun gwarant morgais ar unwaith yng Nghymru, a fydd yn cyfateb i'r gronfa £1 biliwn a sefydlwyd yn Lloegr a chronfa debyg yn yr Alban. Rhagwelir y bydd y gronfa yn Lloegr yn unig yn caniatáu i 100,000 o gartrefi gael mynediad at dai wedi'u hadeiladu o'r newydd.

**Huw Lewis:** I would concede the Member this point: we are not where we would like to be as regards new housing starts, across any form of tenure, or any sector at all. The economic situation that we are in has had a huge impact on the statistics that we see out there. Despite that, I announced earlier this year that an additional £18 million would be allocated by the Welsh Government in tough financial times, showing our continuing prioritisation of affordable housing. That extra money was added to the social housing grant, taking the total this year to over £87 million, which is a considerable investment in very difficult times. The Member mentioned mortgage guarantees and so on, and the various models that are being trialled across the UK—there are models within Wales that are being undertaken by local authorities at the moment. I am looking at whether these are translatable into a Welsh context, but I will take the Member’s previous point and turn it back at him: we have to realise that mortgage guarantees and assistance with getting on the mortgage ladder can only have a marginal effect on the house-building market, unless we were to

**Huw Lewis:** Byddwn yn ildio i'r Aelod ar y pwynt hwn: nid ydym yn y sefyllfa y byddem yn dymuno bod ynddi o ran cynlluniau tai newydd, ar draws unrhyw fath o ddeiliadaeth, neu unrhyw sector o gwbl. Mae ein sefyllfa economaidd wedi cael effaith enfawr ar yr ystadegau a welwn. Er gwaethaf hynny, cyhoeddais yn gynharach eleni y byddai £18 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru mewn cyfnod ariannol anodd, sy’n dangos ein bod yn parhau i roi blaenoriaeth i dai fforddiadwy. Cafodd yr arian ychwanegol hwnnw ei ychwanegu at y grant tai cymdeithasol, gan wneud cyfanswm eleni yn dros £87 miliwn, sy'n fuddsoddiad sylweddol mewn cyfnod anodd iawn. Soniodd yr Aelod am warantau morgais ac ati, a'r gwahanol fodelau sy'n cael eu treialu ar draws y DU—mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â modelau yng Nghymru ar hyn o bryd. Rwyf yn ystyried a oes modd trosi'r rhain i gyd-destun Cymru, ond derbyniaf bwynt blaenorol yr Aelod a'i droi'n ôl arno: rhaid inni sylweddoli mai dim ond effaith ymylol y gall gwarantau morgais a chymorth i roi troed ar yr ysgol forgais ei chael ar y farchnad adeiladu tai, oni bai y byddem yn

pour enormous resources into that sort of initiative, which has certainly not happened anywhere in the UK.

arllwys lefel enfawr o adnoddau i'r math hwnnw o fenter, ac nid yw hynny'n sicr wedi digwydd unrhyw le yn y DU.

**Leanne Wood:** Minister, the construction industry is one of the many sectors of the economy that is suffering due to a lack of capital investment. Banks are not lending to businesses, which is having an effect on the availability of affordable homes, as you are well aware. The construction industry remains a large employer in Wales, despite the recent slump. How are you planning to fill that financial deficit?

**Leanne Wood:** Weinidog, mae'r diwydiant adeiladu yn un o sawl sector yn yr economi sy'n dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad cyfalaf. Nid yw banciau yn rhoi benthyg i fusnesau, ac mae hynny'n cael effaith ar y tai fforddiadwy a fydd ar gael, fel y gwyddoch yn iawn. Mae'r diwydiant adeiladu yn dal yn gyflogwr mawr yng Nghymru, er gwaethaf y dirywiad diweddar. Sut ydych yn bwriadu llenwi'r bwlch ariannol hwnnw?

**Huw Lewis:** Various talks are under way with housebuilders, the industry and the trade unions. A number of lines of discussion are being actively followed in terms of opening up new flows of capital investment. The Welsh housing partnership was one of these—I cannot claim personal credit for that, but I would like to see it as just the beginning of new types of conversations that we can have about how money can be raised. There are potential investors that are looking for ethical investment in housing out there: they do exist. Pension funds, in particular, are something that we need to attract in terms of investment in the Welsh housing landscape. I hope that the Member will understand that these discussions can be commercially confidential and delicate, but they are ongoing and I am personally involved in a number of them.

**Huw Lewis:** Mae amryw o sgyrsiau'n cael eu cynnal gydag adeiladwyr tai, y diwydiant a'r undebau llafur. Eir ar drywydd sawl trafodaeth o ran cyflwyno dulliau newydd o fuddsoddiad cyfalaf. Roedd partneriaeth tai Cymru yn un o'r rhain—ni allaf hawlio clod am hynny'n bersonol, ond hoffwn weld nad yw hynny ond dechrau mathau newydd o sgyrsiau y gallwn eu cael am sut y gellir codi arian. Ceir buddsoddwyr posibl sy'n chwilio am fuddsoddiad moesegol mewn tai: maent yn bodoli. Mae cronfeydd pensiwn, yn benodol, yn rhywbeth y mae angen inni ei ddenu o ran buddsoddi yn nhirwedd dai Cymru. Gobeithio y bydd yr Aelod yn deall y gall y trafodaethau hyn fod yn sensitif ac yn gyfrinachol o safbwynt masnachol, ond maent yn mynd rhagddynt ac rwyf fi'n ymwneud yn bersonol â nifer ohonynt.

**Leanne Wood:** Minister, I welcome what you have just said about pension funds. Last week, when I quizzed the Minister for Finance on support for Plaid Cymru's Build for Wales policy, she ignored the question and cited the example of local government borrowing, which she said would provide £240 million over 22 years. Of course, that money is to be welcomed, but our Build for Wales programme proposed to source more than double that amount in capital investment. Minister, will you acknowledge that your party was wrong to rubbish the Build for Wales scheme prior to the Assembly elections last spring? Will you now give an undertaking to seriously consider that scheme as a means of boosting the construction industry and meeting the demand for affordable housing in Wales?

**Leanne Wood:** Weinidog, rwyf yn croesawu'r hyn rydych newydd ei ddweud am gronfeydd pensiwn. Yr wythnos diwethaf, pan holais y Gweinidog Cyllid am gefnogaeth ar gyfer polisi Adeiladu i Gymru Plaid Cymru, anwybyddodd y cwestiwn a rhoi'r enghraifft o fenthyca llywodraeth leol, gan ddweud y byddai'n darparu £240 miliwn dros 22 mlynedd. Wrth gwrs, mae'r arian hwnnw i'w groesawu, ond roedd ein rhaglen Adeiladu i Gymru yn cynnig ceisio mwy na dwbl y swm hwnnw mewn buddsoddiad cyfalaf. Weinidog, a wnewch gydnabod bod eich plaid ar fai yn dilorni'r cynllun Adeiladu i Gymru cyn etholiadau'r Cynulliad y gwanwyn diwethaf? A wnewch ymrwymo yn awr i ystyried y cynllun hwnnw o ddifrif fel ffordd o roi hwb i'r diwydiant adeiladu ac ateb y galw am dai fforddiadwy yng

Nghymru?

**Huw Lewis:** The Minister for Finance is right to underscore the importance of local government borrowing. It is a self-evident truth that there is no one particular route towards tapping investment in housing infrastructure, or any other form of infrastructure up and down Wales. We will have to follow multiple paths in that regard.

**Huw Lewis:** Mae'r Gweinidog Cyllid yn iawn i danlinellu pwysigrwydd benthyca llywodraeth leol. Mae'n wirionedd amlwg nad oes un llwybr penodol tuag at ddenu buddsoddiad mewn seilwaith tai, nac mewn unrhyw fath arall o seilwaith ar hyd a lled Cymru. Bydd rhaid inni ddilyn sawl llwybr yn hynny o beth.

**The Presiding Officer:** Question 9, OAQ(4)0093, has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Cafodd cwestiwn 9, OAQ(4)0093, ei dynnu'n ôl.

3.00 p.m.

**Cymryd Rhan mewn Chwaraeon**

**Sports Participation**

***10. Angela Burns:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru wledig. OAQ(4)0101(HRH)*

***10. Angela Burns:*** *Will the Minister outline steps the Welsh Government is taking to increase sports participation in rural Wales. OAQ(4)0101(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire for that question. The Welsh Government works closely with Sport Wales to ensure that people living in rural communities across Wales have opportunities to take part in sport. Recent Sport Wales statistics reveal that the rates of participation in sport, in volunteering and club membership are higher for people in rural areas than for those in urban areas.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Penfro am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru i sicrhau bod pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ledled Cymru yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae ystadegau diweddar gan Chwaraeon Cymru yn dangos bod y cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon, mewn gwirfoddoli ac aelodaeth o glwb, yn uwch ymysg pobl mewn ardaloedd gwledig nag ymysg y bobl hynny mewn ardaloedd trefol.

**Angela Burns:** Thank you for that; I appreciate that answer. Minister, would you be able to take this one step further and conduct a review into how this enables young people and older children to access sports? I am not talking about sports that they might play at school; I am talking about those children and young people in rural areas who do not have access to public transport and whose parents do not have cars to drive them around when they want to take part in sports and belong to teams. Such participation is good for them socially and psychologically, and it is obviously good for them physically,

**Angela Burns:** Diolch ichi am hynny; rwyf yn gwerthfawrogi'r ateb hwnnw. Weinidog, a allech fynd â hyn un cam ymhellach a chynnal adolygiad o sut y mae hyn yn galluogi pobl ifanc a phlant hŷn i gael mynediad at chwaraeon? Nid wyf yn sôn am chwaraeon y gallent eu gwneud yn yr ysgol; rwyf yn sôn am y plant a'r bobl ifanc hynny mewn ardaloedd gwledig nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac nad oes gan eu rhieni gar i'w gyrru i leoedd pan fyddant am gymryd rhan mewn chwaraeon ac yn perthyn i dimau. Mae cymryd rhan yn y ffordd honno yn dda iddynt yn gymdeithasol

but they feel trapped by their situation. Might you be able to take it further and have a look at how it affects that age bracket in particular?

ac yn seicolegol, ac mae'n amlwg yn dda iddynt yn gorfforol, ond maent yn teimlo’n gaeth yn eu sefyllfa. A fyddai modd ichi fynd â'r peth ymhellach a chael golwg ar sut mae'n effeithio ar y grŵp oedran hwnnw yn benodol?

**Huw Lewis:** I would always be alive to the issue of access, particularly when it comes to younger people’s access to services—in this case, to sporting facilities and opportunities. I have just begun reading with interest Sustrans’s recent work on transport difficulties faced by people in communities throughout Wales. I will be asking my officials to take a look at the transport research to see what implications it has for us in terms of sports development in Wales, and I will take a particular and special look at rural Wales and the young people who live in tose areas who do not have access to a car.

**Huw Lewis:** Byddwn bob amser yn effro i'r mater o fynediad, yn enwedig o ran mynediad pobl iau at wasanaethau—yn yr achos hwn, at gyfleusterau a chyfleoedd chwaraeon. Rwyf newydd ddechrau darllen yn eiddgar waith diweddar gan Sustrans ar anawsterau trafnidiaeth y mae pobl mewn cymunedau ledled Cymru yn eu hwynebu. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar yr ymchwil trafnidiaeth i weld beth yw’r oblygiadau i ni o ran datblygu chwaraeon yng Nghymru, a byddaf yn edrych yn benodol ac yn arbennig ar y Gymru wledig a'r bobl ifanc sy'n byw yn yr ardaloedd hynny nad oes ganddynt fynediad at gar.

**Llyr Huws Gruffydd:** Minister, if you are looking for an excellent example of sports participation in rural areas, look no further than the Vale of Clwyd football summer league, which has been running for 85 years. It has a dozen rural communities competing against each other annually, with the wonderful rule that all players have to live within a community to be eligible to play for it. It creates wonderful camaraderie, it draws huge crowds, it creates community spirit, intergenerational involvement and, of course, healthy activity. Given that you are in the mood this afternoon for accepting invitations, would you accept my invitation to come along and watch one of the games, so that you can experience for yourself not only this evening’s higher echelons of football in Wales, but also the real grass-roots stuff? [*Interruption.*]

**Llyr Huws Gruffydd:** Weinidog, os ydych yn chwilio am enghraifft wych o gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd gwledig, nid oes angen ichi edrych ymhellach na chynghrair pêl-droed yr haf Dyffryn Clwyd, sy'n rhedeg ers 85 mlynedd. Mae dwsinau o gymunedau gwledig yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y gynghrair bob blwyddyn, gyda'r rheol wych ei bod yn rhaid i'r holl chwaraewyr fod yn byw yn y gymuned er mwyn bod yn gymwys i chwarae dros y gymuned. Mae'n creu cyfeillgarwch gwych, yn denu torfeydd anferth, yn creu, ysbryd cymunedol, cyfranogiad rhwng y cenedlaethau ac, wrth gwrs, yn weithgaredd iach. O ystyried eich bod mewn hwyliau i dderbyn gwahoddiadau'r prynhawn yma, a fyddech yn derbyn fy ngwahoddiad i ddod draw i wylio un o'r gemau, er mwyn ichi allu cael profiad eich hun o bêl-droed ar y lefel uwch heno yn ogystal â phêl-droed ar lawr gwlad go iawn? [*Torri ar draws.*]

**Huw Lewis:** I cannot quite hear the noises

**Huw Lewis:** Ni allaf glywed dros y sŵn yn y

off, but the Vale of Clwyd football summer league certainly sounds like something not to be missed. I would be very happy to take a look at it if the Member wrote to me with further details.

cefndir, ond mae cynghrair pêl-droed yr haf Dyffryn Clwyd yn bendant yn swnio fel rhywbeth na ddylid ei fethu. Byddwn yn falch iawn o gael cip arno pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda rhagor o fanylion.

**William Powell:** Minister, when talking about sports participation, it is quite natural that we tend to focus on rugby and football. Indeed, we had some good, positive discussion of that earlier in the session. However, it is also important to draw attention to some other sports that are very popular but perhaps enjoy a lower or less glamorous profile. I am thinking of bowls, which is particularly popular in urban and rural Wales. Indeed, to some degree, it could be argued that the Welsh Government, up to this point, has tended to underestimate the value of bowls, both as a sport and in terms of the health and wellbeing agenda. To that end, could you please make a statement on your commitment to the future of bowls in Wales, rural and urban? Also, what strategy would you adopt to encourage further support for the development of the sport?

**William Powell:** Weinidog, wrth siarad am gymryd rhan mewn chwaraeon, mae'n eithaf naturiol ein bod yn tueddu i ganolbwyntio ar rygbi a phêl-droed. Yn wir, cawsom drafodaethau da a chadarnhaol ynghylch hynny yn gynharach yn y sesiwn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at rai chwaraeon eraill sy'n boblogaidd iawn ond sydd â phroffil is neu lai deniadol o bosibl. Rwyf yn meddwl am fowls, sy'n arbennig o boblogaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Yn wir, i ryw raddau, gellid dadlau bod Llywodraeth Cymru wedi tueddu i danbrisio gwerth bowls hyd yma fel camp ac o ran yr agenda iechyd a lles. I'r perwyl hwnnw, a fyddech cystal â gwneud datganiad am eich ymrwymiad i ddyfodol bowls yng Nghymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol? Hefyd, pa strategaeth fyddech yn ei mabwysiadu i annog rhagor o gefnogaeth ar gyfer datblygu'r gamp?

**Huw Lewis:** I thank the Member for that question. Please forgive me if I do not develop a strategy for bowls while on my feet. I am aware that we often refer to sports such as this as minority sports or minority interests when it is often the case that the number of people who enjoy and benefit from them are not in a minority at all; they are very popular and enhance the lives of hundreds of thousands of people.

**Huw Lewis:** Diolch i’r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Maddeuwch imi os na fyddaf yn datblygu strategaeth ar gyfer bowlio tra byddaf ar fy nhraed. Rwyf yn ymwybodol ein bod yn aml yn cyfeirio at chwaraeon fel hyn fel chwaraeon lleiafrifol neu ddiddordebau lleiafrifol pan nad yw nifer y bobl sy'n eu mwynhau ac yn elwa ohonynt yn y lleiafrif o gwbl mewn gwirionedd; maent yn boblogaidd iawn ac yn gwella bywydau cannoedd o filoedd o bobl.

In terms of the way forward for these sports—perhaps ‘less visible sports’ would be a better way of describing them—I am involved in active discussions with Cabinet colleagues about alternative forms of financial support for less visible sports,

O ran y ffordd ymlaen ar gyfer y campau hyn—efallai y byddai 'campau llai gweladwy' yn ffordd well o'u disgrifio—rwyf yn rhan o drafodaethau gweithredol gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet am fathau eraill o gymorth ariannol ar gyfer campau llai

particularly as they relate to younger people. I am hoping that further announcements in that regard will follow.

amlwg, yn enwedig o ran y modd y maent yn berthnasol i bobl iau. Rwyf yn gobeithio y gwneir cyhoeddiadau pellach ynghylch hynny maes o law.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Mewnfuddsoddiad yng Nghymru
### Inward Investment in Wales

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of Peter Black.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dewis gwelliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4924 William Graham*

*Motion NDM4924 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi pwysigrwydd mewnfuddsoddiad i economi Cymru;*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Fewnfuddsoddiad yng Nghymru; a*

*3. Yn cymeradwyo sylwadau'r Athro Brian Morgan a ddywedodd ei bod yn debyg y bydd cau'r WDA a diddymu 'brand WDA' yn cael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaed yng Nghymru mewn cof.*

*1. Notes the importance of inward investment into the Welsh economy;*

*2. Calls on the Welsh Government to address issues highlighted by the Welsh Affairs Select Committee Report into Inward Investment in Wales; and*

*3. Endorses the comments of Professor Brian Morgan that 'The closure of the WDA and the abolition of the "WDA brand" will probably go down in history as the worst policy decision made in Wales in living memory.'*

**Nick Ramsay:** I move the motion.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf y cynnig.

Sometimes, unbelievably, we on this side of the Chamber are accused of looking back through rose-tinted glasses at how the world used to be. I prefer to think that we look forward with blue-tinted glasses. However, whichever side you take, and I appreciate that some Ministers are slow on the uptake in this regard, it is true to say that, across the board, businesses and politicians have been quick to comment in recent years about how inward investment has gradually reduced and disappeared from Wales. While some of the decline over the last 30 years, from a height of 15% of overall UK inward investment in

Yn anhygoel, weithiau rydym ni ar ochr hon y Siambr yn cael ein cyhuddo o edrych yn ôl drwy sbectol rhosliw ar sut yr oedd y byd. Mae'n well gennyf feddwl ein bod yn edrych ymlaen drwy sbectol las. Fodd bynnag, pa un bynnag safbwynt a gymerwch, ac rwy'n gwerthfawrogi bod rhai Gweinidogion yn araf yn ei deall hi yn hyn o beth, mae'n wir dweud bod busnesau a gwleidyddion drwyddi draw wedi bod yn barod iawn i wneud sylwadau dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch sut y mae mewnfuddsoddiad wedi dirywio'n raddol ac wedi diflannu o Gymru. Er y gellir priodoli rhywfaint o'r dirywiad

the mid-1990s down to the current 4%, can be put down to the changing economic climate, we also need to look at what more can be done to attract money into Wales to enable us to better compete with other regions of the UK.

dros y 30 mlynedd diwethaf, o 15% o holl fewnfuddsoddiad y DU yng nghanol y 1990au i lawr i'r 4% presennol, i'r hinsawdd economaidd newidiol, mae angen inni hefyd edrych ar beth mwy y gellir ei wneud i ddenu arian i Gymru er mwyn inni allu cystadlu'n well â rhanbarthau eraill y DU.

I do not think that anyone here would deny that inward investment is a vital component of the Welsh economy. Between 1980 and 1995, £7 billion was brought into the Welsh economy through inward investment. In recent years, we have seen a worrying trend of inward investment declining throughout the UK, but at an even faster rate in Wales. Cardiff Business School has identified this part of the UK as being the only UK area to lose a share of investment between 2003-04 and 2005-10. I know that Welsh Government Ministers frequently enjoy blaming all of Wales's ills on the Westminster Government, but who do they want to blame for that failure, given which parties were in power both here and there, at each end of the M4, during that time? This trend needs to be turned around.

Ni chredaf y byddai unrhyw un yma yn gwadu bod mewnfuddsoddiad yn elfen hanfodol o economi Cymru. Rhwng 1980 a 1995, cyfrannwyd £7 biliwn at economi Cymru drwy fewnfuddsoddiad. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi sylwi ar duedd sy'n peri pryder wrth i fewnfuddsoddiad ddirywio ledled y DU, ond ar gyfradd hyd yn oed yn gyflymach yng Nghymru. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi canfod mai'r rhan hon o'r DU oedd yr unig ardal yn y DU i golli cyfran o fuddsoddiad rhwng 2003-04 a 2005-10. Gwn fod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn aml yn mwynhau beio Llywodraeth San Steffan am holl drallodion Cymru, ond pwy fydd yn cael y bai ganddynt am y methiant hwnnw, o gofio pa bleidiau a oedd mewn grym, yma ac yn y fan honno, bob pen yr M4, yn ystod y cyfnod hwnnw? Mae angen gwyrdroi'r tueddiad hwn.

In 2010, we saw an upturn in the global investment market for the first time since the economic crash of 2008. Wales needs to ensure that it really is 'open for business', as the Labour Party claimed in last year's manifesto for the Assembly elections. The Welsh Conservatives understand this and will continue to put pressure on the Welsh Government to come up with a new strategy, a new focus and a long-term commitment to this vitally important source of future investment. The Welsh Conservatives have highlighted a number of points concerning the current position of Wales, to help identify how it can remain competitive in comparison with other areas of the UK and similar-sized nations throughout Europe and the world. Let us take on board a few key facts of life in relation to the Welsh economy.

Yn 2010, gwelsom gynnydd yn y farchnad fuddsoddi fyd-eang am y tro cyntaf ers y chwalfa economaidd yn 2008. Mae angen i Gymru sicrhau ei bod wir yn 'agored ar gyfer busnes', fel yr honnodd y Blaid Lafur yn y maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y llynedd. Mae Ceidwadwyr Cymru yn deall hyn a byddant yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth newydd, ffocws newydd ac ymrwymiad hir-dymor i'r ffynhonnell hanfodol bwysig hon o fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae Ceidwadwyr Cymru wedi tynnu sylw at nifer o bwyntiau ynghylch sefyllfa bresennol Cymru, er mwyn helpu i nodi sut y gall barhau i fod yn gystadleuol o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU a gwledydd tebyg o ran maint ledled Ewrop a'r byd. Gadewch inni ystyried rhai ffeithiau allweddol mewn cysylltiad ag economi Cymru.

The Welsh market is small. Therefore, Wales inevitably needs to look beyond its borders. We have to look to the wider world. Opportunities for tourism promotion, exports

Marchnad fach yw Cymru. Felly, mae'n anochel bod angen i Gymru edrych y tu hwnt i'w ffiniau. Rhaid inni droi ein golygon at y byd ehangach. Mae cyfleoedd yn bodoli ar

and inward investment exist. However, they are all too often untapped. Tourism supports more than 10% of the Welsh economy. It deserves to be taken seriously by the Welsh Labour Government. We believe that regular tourism data need to be published to ensure that resources are focused on the most promising markets. Repeated Welsh Government reorganisations have, too often, taken attention away from the task of selling Wales to the world. A strong and recognisable brand needs to be built and the Welsh Government needs to take a lead on this. The Welsh Government must listen to the concerns about the abolition of the Welsh Development Agency. It was recognised across the world and was scrapped at great cost to the Wales brand. The Welsh Government should act to ensure that Wales is not in the 'industrial wilderness' for a decade—not a comment that we made but a frequent warning from Sir Roger Jones.

gyfer hyrwyddo twristiaeth, allforion a mewnfuddsoddiad. Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, ni fanteisir ar y cyfleoedd hynny. Mae twristiaeth yn cynnal dros 10% o economi Cymru. Mae'n haeddu cael ei gymryd o ddifrif gan Lywodraeth Lafur Cymru. Credwn fod angen cyhoeddi data twristiaeth yn rheolaidd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y marchnadoedd mwyaf addawol. Yn rhy aml, mae prosesau ad-drefnu parhaus Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw oddi ar y dasg o werthu Cymru i'r byd. Mae angen adeiladu brand cryf ac adnabyddus a rhaid i Lywodraeth Cymru arwain ar hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru wrando ar y pryderon ynghylch diddymu Awdurdod Datblygu Cymru. Roedd yn adnabyddus ledled y byd ac roedd ei ddiddymu'n ergyd drom i frand Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw Cymru yn yr 'anialwch diwydiannol' am ddegawd—nid ni sy'n gwneud y sylw hwn ond rhybudd ydyw a roddir yn aml gan Syr Roger Jones.

Inward investment was in the news again recently following the release of the Welsh Affairs Committee report. I gave evidence to that committee last September. The report identified that Wales's performance within the UK has deteriorated. Both Eluned Parrott and I from the opposition parties gave evidence to that committee, along with Jill Evans, who represents Plaid Cymru in the European Parliament. Mark Drakeford represented Labour backbenchers and gave some powerful evidence to that committee when he said that the effort to bring investment into Wales is not something that the Welsh Government can do by itself. I hope that you do not mind me referrring to that, Mark.

Roedd mewnfuddsoddi yn y newyddion eto yn ddiweddar ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig. Cyflwynais dystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw fis Medi diwethaf. Nodwyd yn yr adroddiad fod perfformiad Cymru yn y DU wedi dirywio. Cyflwynodd Eluned Parrott a finnau o'r gwrthbleidiau dystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw, ynghyd â Jill Evans, sy'n cynrychioli Plaid Cymru yn Senedd Ewrop. Roedd Mark Drakeford yn cynrychioli aelodau meinciau cefn Llafur a rhoddodd dystiolaeth bwerus i'r pwyllgor hwnnw pan ddywedodd nad oedd yr ymdrech i ddod â buddsoddiad i Gymru yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud ar ei phen ei hun. Gobeithio nad oes ots gennych fy mod yn cyfeirio at hynny, Mark.

Clearly, all parties recognise the need for a close working relationship between London and Cardiff. It is not something that one would expect the Welsh Government to do itself. However, we need the Welsh Government to work as closely as it can with the UK Government to ensure that, when economic opportunities arise, their potential is maximised.

Yn amlwg, mae pob plaid yn cydnabod yr angen i gael perthynas waith agos rhwng Llundain a Chaerdydd. Nid yw'n rhywbeth y byddai rhywun yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ei wneud ei hun. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth Cymru weithio mor agos â phosibl gyda Llywodraeth y DU i sicrhau, pan fydd cyfleoedd economaidd yn codi, y gellir manteisio i'r eithaf ar eu potensial.

The Welsh Affairs Committee also welcomed

Roedd y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd

the UK coalition Government's plans to electrify the Great Western line between London and Cardiff as a means of encouraging investment into Wales. Too often in this Chamber, the focus is on where the line does not go. The select committee clearly identified the electrification of that line to Cardiff as a key element in the future of Wales competing with the rest of the UK, particularly when you take into account other transport developments that we have seen in the UK.

yn croesawu cynlluniau Llywodraeth glymblaid y DU i drydaneiddio rheilffordd y Great Western rhwng Llundain a Chaerdydd fel ffordd o annog buddsoddiad i Gymru. Yn rhy aml yn y Siambr hon, canolbwyntir ar y llefydd hynny lle nad yw'r rheilffordd yn cyrraedd. Nododd y pwyllgor dethol yn glir fod trydaneiddio'r rheilffordd honno i Gaerdydd yn elfen allweddol ar gyfer dyfodol Cymru er mwyn cystadlu â gweddill y DU, yn enwedig pan fyddwch yn ystyried y datblygiadau trafnidiaeth eraill rydym wedi'u gweld yn y DU.

**David Rees:** Thank you for giving way. I am pleased that the committee recognised the need to electrify the line to Wales, but Wales extends beyond Cardiff, and for the west Wales area, electrification to Swansea is critical to the development of the economy. Surely you should recognise that the demand is there for pushing it all the way to Swansea, and not simply stopping at Cardiff.

**David Rees:** Diolch am ildio. Rwy'n falch bod y pwyllgor wedi cydnabod yr angen i drydaneiddio'r rheilffordd i Gymru, ond mae Cymru yn ymestyn y tu hwnt i Gaerdydd, ac mae trydaneiddio i Abertawe yn hanfodol i ddatblygiad yr economi yn ardal gorllewin Cymru. Oni ddylech gydnabod bod y galw yno i'w gwthio'r holl ffordd i Abertawe, a pheidio â stopio yng Nghaerdydd.

**Nick Ramsay:** The electrification of the line to Cardiff is of the utmost importance, and it is a shame that your side of the Chamber never recognises the great strides that have been made in electrifying the line to that point. It certainly never happened when we had a Labour Government at UK level. However, I accept what you say; I would like to see the line electrified to Swansea at some point, but a clear business case needs to be made, and I am not convinced that your side has made that case as well as it could.

**Nick Ramsay:** Mae trydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd yn hollbwysig, ac mae'n drueni nad yw eich ochr chi o'r Siambr byth yn cydnabod y camau breision a wnaethpwyd o ran trydaneiddio'r rheilffordd i'r fan honno. Yn sicr, ni wnaeth erioed ddigwydd pan oedd gennym Lywodraeth Lafur ar lefel y DU. Fodd bynnag, rwy'n derbyn yr hyn a ddywedwch; hoffwn weld y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio i Abertawe ar ryw adeg, ond byddai angen cyflwyno achos busnes clir, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi bod eich carfan chi wedi gwneud yr achos hwnnw gystal ag y gallai.

The select committee also welcomed the UK coalition Government's plans to try to improve the skills of young people in key areas. It looked at the Welsh Government's work in this regard and said that more needed to be done here to ensure that those skills were recognised for their part in improving the future economic prosperity of Wales. If the skills issue is not addressed it will contribute, in the long term, to continued economic decline in Wales. Evidence was also heard that Wales has a poor record in capturing research funding. These are all matters on which the Welsh Government has the power to make a difference, and needs to do so in years to come if we are to attract

Roedd y pwyllgor dethol hefyd yn croesawu cynlluniau Llywodraeth glymblaid y DU I geisio gwella sgiliau pobl ifanc mewn meysydd allweddol. Edrychodd ar waith Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, a dywedodd bod angen gwneud mwy yn y maes hwn i sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu cydnabod am eu cyfraniad at wella ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol. Oni roddir sylw i'r mater sgiliau, bydd yn cyfrannu, yn yr hirdymor, at ddirywiad economaidd parhaus yng Nghymru. Clywyd tystiolaeth hefyd fod gan Gymru record wael o ran sicrhau cyllid ymchwil. Mae'r rhain i gyd yn faterion y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i wneud gwahaniaeth yn eu

more inward investment.

cylch, ac mae angen iddi wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf os ydym am ddenu rhagor o fewnfuddsoddiad.

**Julie Morgan** *rose—*

**Julie Morgan** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch dderbyn ymyriad?

**Nick Ramsay:** Not at the moment—sorry, Julie, but I want to make some progress. Witnesses expressed concern over the way in which Wales was promoted overseas, and identified that there had been a lack of focus on marketing Wales in this regard. The Welsh Government has no dedicated trade promotion agency. We keep coming back to the need to market Wales better, and to provide a brand that stands up on the world stage.

**Nick Ramsay:** Nid ar hyn o bryd—mae'n ddrwg gennyf, Julie, ond rwyf am wneud rhywfaint o gynnydd. Mynegwyd pryder gan y sawl a roddodd dystiolaeth am y modd y caiff Cymru ei hyrwyddo dramor, a nodwyd bod diffyg ffocws ar farchnata Cymru yn hyn o beth. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw asiantaeth benodol i hybu masnach. Dychwelwn unwaith eto at yr angen i farchnata Cymru yn well, ac i ddarparu brand sy'n gallu sefyll ar lwyfan y byd.

We need to be properly promoted abroad. The UK Trade and Investment branch in Germany said that there had been little or no contact with Welsh Government representatives, which contrasts with active partnerships with Yorkshire and the west midlands. That is utterly bizarre when you consider the lack of devolution in those parts of the UK. It is difficult to fathom what is going on in this regard. Since we have a devolved settlement, you would expect the Welsh voice to be heard loud and clear, both in the UK and on the European and world stage. We look to the Welsh Government to provide solutions to these problems.

Mae angen inni gael ein hyrwyddo dramor yn briodol. Dywedodd y gangen Masnach a Buddsoddi y DU yn yr Almaen mai prin iawn oedd y cyswllt, os o gwbl, gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, sy’n hollol groes i’r partneriaethau gweithredol gyda Swydd Efrog a gorllewin canolbarth Lloegr. Mae hynny'n gwbl ryfeddol pan ystyriwch y diffyg datganoli yn rhannau hynny'r DU. Mae'n anodd dirnad beth sy'n mynd ymlaen yn hyn o beth. Gan fod gennym setliad datganoli, byddech yn disgwyl y byddai llais Cymru yn cael ei glywed yn glir ac yn groch, yn y DU ac ar y llwyfan Ewropeaidd a'r byd. Trown at Lywodraeth Cymru i ddarparu atebion i'r problemau hyn.

I have mentioned the closure of the Welsh Development Agency. I would say at this point that we accept, as Welsh Conservatives, that that has happened. It was not a wise decision, but it has happened, and I do not think that anyone would call for that agency in its original form to be re-established. Yes, the Welsh Development Agency had its problems and its critics, and when its abolition was first mooted, there seemed to be some arguments in favour of doing something about them. What I had no concept of five years ago was the scale of the weakness of the strategy to market Wales in the absence of the WDA. That is where the Welsh Government has failed. If the WDA

Rwyf wedi sôn am ddirwyn Awdurdod Datblygu Cymru i ben. Ar y pwynt hwn, byddwn yn dweud ein bod fel Ceidwadwyr Cymru yn derbyn bod hynny wedi digwydd. Nid oedd yn benderfyniad doeth, ond mae wedi digwydd, ac nid wyf yn meddwl y byddai neb yn galw am ailsefydlu'r asiantaeth honno yn ei ffurf wreiddiol. Oedd, roedd gan Awdurdod Datblygu Cymru ei phroblemau a'i beirniaid, a phan grybwyllwyd gyntaf am ei ddiddymu, roedd yn ymddangos fel petai rhai dadleuon o blaid gwneud rhywbeth yn eu cylch. Fodd bynnag, nid oedd gennyf syniad bum mlynedd yn ôl pa mor wan oedd y strategaeth i farchnata Cymru yn absenoldeb y WDA. Dyna le mae Llywodraeth Cymru

had been abolished but something better had been put in its place, so be it. However, International Business Wales has certainly failed to step up to the mark in this regard. It has had sufficient time to bed in, so it is time that action was taken to see that IBW really does make the grade.

wedi methu. Petai'r WDA wedi cael ei ddiddymu a bod rhywbeth gwell wedi dod yn ei le, yna dyna fe. Fodd bynnag, nid yw Busnes Rhyngwladol Cymru wedi cyrraedd y nod yn hyn o beth. Mae wedi cael digon o amser i ymsefydlu, felly mae'n bryd i gamau gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod Busnes Rhyngwladol Cymru wir yn cyrraedd y nod.

It is important that we recognise the gap that has been left in the Welsh economy by the moving in-house of the functions of the Welsh Development Agency and the lack of a concerted strategy to make sure that Wales is marketed abroad as we would like it to be done. Cardiff Business School has called for a single agency link, and the Institute of Directors has said that there is a need for an arm’s-length operating agency. I know that the Minister is keen to listen to businesspeople out there, and I know that she has liaised with a number of businesspeople to whom I have introduced her at meetings. It is not just a question of listening now, Minister, but of ensuring that their concerns are taken on board, particularly when it comes to encouraging all-important inward investment into Wales. Professor Brian Morgan, an academic who the Welsh Government is employing to lead a review into business rates, said that:

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y bwlch sydd wedi'i adael yn economi Cymru wrth i swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru gael eu cyflawni'n fewnol, yn ogystal â’r diffyg strategaeth ar y cyd i wneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei marchnata dramor fel y byddem yn dymuno. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi galw am gyswllt drwy un asiantaeth, ac mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr wedi datgan fod angen asiantaeth weithredu hyd-braich. Gwn fod y Gweinidog yn awyddus i wrando ar bobl fusnes allan yna, a gwn ei bod wedi cysylltu â llawer o bobl fusnes rwyf wedi'u cyflwyno iddi mewn cyfarfodydd. Weinidog, nid mater o wrando'n unig yw hi nawr ond o sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hystyried, yn enwedig wrth annog y mewnfuddsoddiad hollbwysig i Gymru. Dywedodd yr Athro Brian Morgan, academydd a gyflogir gan Lywodraeth Cymru i arwain adolygiad o ardrethi busnes:

3.15 p.m.

‘The closure of the WDA and the abolition of the “WDA brand” will probably go down in history as the worst policy decision made in Wales in living memory.’

Bydd cau’r WDA a diddymu'r “brand WDA” yn debygol o gael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaethpwyd yng Nghymru o fewn cof.

This is not about looking back, Minister. A number of mistakes have been made that we would rather had not have been made. It is now important that we move forward and ensure that Wales is capable of responding to the economic challenges that we face over the years to come. That is why I have moved this motion today and I urge Members across the Chamber to support it.

Nid yw hwn yn fater o edrych yn ôl, Weinidog. Mae llawer o gamgymeriadau wedi'u gwneud y byddai'n well gennym pe na baent wedi'u gwneud. Mae'n bwysig yn awr ein bod yn symud ymlaen a sicrhau bod Cymru yn gallu ymateb i'r heriau economaidd a wynebwn dros y blynyddoedd nesaf. Dyna pam fy mod wedi cynnig y cynnig hwn heddiw ac rwy'n annog Aelodau ar draws y Siambr i'w gefnogi.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 1, rhoi ‘cymharol’ar ôl ‘Yn nodi pwysigrwydd…’.*

*In point 1 insert ‘relative’ after ‘Notes the…’.*

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:*

*2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi; a*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies.

Rwyf yn falch o'r cyfle i gynnig y gwelliannau hyn yn enw Jocelyn Davies. Mae'r ddadl hon, fel y dywedodd cynigydd y cynnig, yn seiliedig, i bob pwrpas, ar adroddiad gan bwyllgor y Tŷ Cyffredin—adroddiad cymysglyd iawn sy'n edrych yn ôl i ryw oes aur pan oedd Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am bolisi economi Cymru.

Cydnabyddaf fod y WDA wedi gwneud gwaith da yn ei ddydd, a hynny ar adeg pan oedd dynion, yn bennaf, yn colli gwaith yn gyson wrth i'r diwydiannau trymion grebachu yng Nghymru. Denwyd ffatrïoedd di-rif i Gymru, yn rhannol oherwydd bod gweithlu effeithiol yma, a chyflogau cymharol isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni atgoffa'n hunain o'r math o swyddi oedd yn cael eu creu yma. Roedd y ffatrïoedd, ar y cyfan, yn rhai a oedd yn gosod darnau at ei gilydd, ac ychydig iawn o'r darnau hynny oedd yn cael eu creu yng Nghymru. Yn sicr, nid oedd pencadlysoedd y cwmnïau yng Nghymru nac, fel arfer, yn y Deyrnas Unedig, ac, wrth gwrs, nid oedd gwaith ymchwil a datblygu ynghlwm wrth y ffatrïoedd hynny. Dyna pam y diflannodd cymaint ohonynt i ddwyrain Ewrop a'r dwyrain pell yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.

Mae'n werth imi adrodd hanes cyfarfod a gefais gyda chyn-gadeirydd y WDA, David Rowe-Beddoe—dyn y mae gennyf barch mawr iddo. Wrth iddo ddod i ddiwedd ei gyfnod fel cadeirydd—roeddwn yn arweinydd cyngor ar y pryd, fel mae'n digwydd—galwodd gyfarfod yn cynnwys nifer o bobl debyg i mi, a bwrdd y WDA ei

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Delete points 2 and 3 and replace with:*

*2. Recognises that Wales needs to become a more attractive place to invest; and*

*3. Calls on the Welsh Government to focus on approaches to investment that do not overly rely on direct support to individual businesses.*

**Alun Ffred Jones:** I move amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies.

I am pleased to move these amendments in the name of Jocelyn Davies. This debate, as the proposer of the motion said, is based, to all intents and purposes, on a report by a committee of the House of Commons—a very confused report that looks back to some golden age when the Welsh Development Agency was responsible for economic policy in Wales.

I recognise that the WDA did some good work in its day, at a time when men, mainly, were regularly losing their jobs as the heavy industries shrank in Wales. Numerous factories were attracted to Wales, partly because there was an effective workforce here, and relatively low wages. However, it is important that we remind ourselves of the kinds of jobs that were created here. The factories, for the most part, were putting components together, and very few of those components were manufactured in Wales. The headquarters of the companies were certainly not in Wales and, usually, they were not in the United Kingdom, and, of course, there was no research and development linked to those factories. That is why so many of them have disappeared to eastern Europe and the far east during the last fifteen years.

It is worth telling you the story of a meeting that I had with a former chair of the WDA, David Rowe-Beddoe—a man for whom I have huge respect. When he was coming to the end of his tenure as chair—I was a council leader at the time, as it happens—he called a meeting of a number of people in similar roles to mine and members of the

hun. Rhestrodd lwyddiannau'r WDA, gan nodi faint o gwmnïau a ffatrïoedd a grëwyd yma a faint o fewnfuddsoddiad a ddenwyd, a soniodd am y miloedd a swyddi a grëwyd. Yna, gofynnodd gwestiwn syml iawn: pam nad oedd y llwyddiant hwnnw wedi cynyddu cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng Nghymru? Roedd CMC y pen yn parhau'n rhyfeddol o isel—er y byddai rhai yn dweud ei fod wedi gostwng ers hynny—ac nid oedd y swyddi a grëwyd wedi cynyddu CMC y pen yng Nghymru mewn gwirionedd, a hynny am y rhesymau rwyf eisoes wedi'u hadrodd.

board of the WDA itself. He listed the successes of the WDA, noting the number of companies and factories that had been created and how much inward investment had been attracted, and he mentioned the thousands of jobs created. He then asked a very simple question: why had that success not increased gross domestic product per capita in Wales? GDP per capita was still surprisingly low—although some would say that it has fallen further since then—and the jobs that had been created had not increased GDP per capita in Wales, for the reasons that I have already outlined.

Ei gwestiwn wedyn oedd: beth mae'n rhaid inni ei wneud er mwyn cynyddu CMC y pen? Hynny yw, roedd yn cydnabod, er bod y WDA wedi gwneud gwaith a oedd yn bwysig ar y pryd, nid dyna'r polisi oedd ei angen ar gyfer y dyfodol. Dyna yw'r gwir am yr hen ddyddiau da hynny: denwyd ffatrïoedd gan gyflogau cymharol isel, ond ffatrïoedd heb wreiddiau oeddynt a ddiflannodd pan ddaeth y cyfle i fynd i leoedd â chostau is hyd yn oed na Chymru.

His next question was: what do we need to do to increase GDP per capita? That is, he recognised that although the WDA had done some work that was important at the time, that policy was not suitable for the future. That is the truth about that old golden age: factories were attracted by the relatively low wages, but the factories did not have roots and they disappeared when the opportunity arose to go to places where the costs were even lower than they are in Wales.

Nid wyf yn siŵr, ychwaith, am sail y cynnig. Mae tabl yn yr adroddiad sy'n awgrymu bod Cymru'n perfformio'n waeth na'r Alban a bron y cyfan o ranbarthau Lloegr. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar y swyddi sydd wedi'u creu yng Nghymru drwy fewnfuddsoddiad yn awgrymu bod Cymru'n perfformio'n well na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill, os ydych yn edrych ar gyfnod o wyth i naw mlynedd yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon. Felly, ychydig yn simsan, a dweud y lleiaf, yw sail y ddadl hon. Ar y llaw arall, byddwn yn dweud bod mewnfuddsoddiad yn elfen bwysig o unrhyw strategaeth economaidd, ond rhaid pwysleisio mai elfen yn unig ydyw, ac mai'r gwaith caib a rhaw fydd dilyn rhaglen adnewyddu'r economi er mwyn gwella isadeiledd economaidd Cymru a hybu busnesau cynhenid y genedl a chodi safonau'r gweithlu er mwyn iddynt allu ymdopi nid yn unig ag unrhyw fewnfuddsoddiad, ond hefyd er mwyn creu cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru na fyddant wedyn yn debygol o adael pan fydd gwyntoedd oer yn chwythu.

I am not sure, either, about the basis of the motion. The report includes a table that suggests that Wales is performing worse than Scotland and almost all the English regions. However, the figures for jobs created in Wales through inward investment do suggest that Wales is outperforming most other areas, if you look at a period of eight or nine years in the first decade of this century. Therefore, I believe that the basis of this motion is a little weak, to say the least. I would say, on the other hand, that inward investment is an important element of any economic strategy, but we must emphasise that it is only an element, and that the hard work is done through following the economic renewal programme in order to improve the infrastructure of Wales, to promote indigenous Welsh businesses and to raise standards among the workforce to cope not only with any inward investment but also to create companies that are rooted here in Wales and are not likely to leave when crosswinds blow.

Felly, mae dadleuon i'w cael ynglŷn â sut i farchnata Cymru dramor. Mae cwestiynau

Therefore, there are debates to be had about how best to market Wales abroad. There are

i'w gofyn ynglŷn â pha mor effeithiol y bu'r Llywodraeth yn hynny o beth, ac, yn sicr, mae lle i wella. Wedi dweud hynny, mae'n rhaid inni gael cydbwysedd mewn unrhyw bolisi economaidd a gweld mewnfuddsoddiad fel rhan yn unig o bolisi felly. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar greu cwmnïau ac ysbryd entrepreneuraidd yng Nghymru fel ein bod yn gallu elwa'n llawn o'r llwyddiant hwnnw, yn hytrach na ddibynnu'n llwyr ar fewnfuddsoddiad o dramor.

questions to be asked with regard to how effective the Government has been in that regard, and there is certainly room for improvement. Having said that, we need a balance in any economic policy, and we need to see inward investment as only a part of such a policy. We must concentrate on creating companies and a spirit of entrepreneurship here in Wales, so that we can benefit fully from that success, rather than depend entirely on inward investment from abroad.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru yn well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.*

*Believes that the Welsh Government must deliver improved infrastructure and higher skills levels in addition to better marketing of Wales in order to attract more inward investment.*

**Eluned Parrott:** I move amendment 3 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Peter Black.

I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today. As part of a healthy Welsh economy, we all want to see an equally healthy amount of inward investment in Wales. However, as I have stated on many occasions, I do not believe that attracting inward investment to Wales is a magic bullet that can fix Wales's economic challenges overnight. That said, it is a crucial element.

Diolch i Geidwadwyr Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Fel rhan o economi iach yng Nghymru, mae pob un ohonom am weld cyfran yr un mor iach o fewnfuddsoddiad yng Nghymru. Fodd bynnag, fel rwyf wedi'i ddweud droeon, ni chredaf mai denu mewnfuddsoddiad i Gymru yw'r fwled hud a fydd yn datrys heriau economaidd Cymru dros nos. Wedi dweud hynny, mae'n elfen hanfodol.

The balance between supporting indigenous businesses and attracting inward investment is very much like the balance between the heart and the lungs in the body. They both play a critical role in pumping oxygen around the body, and the patient will never be healthy if either is failing. However, I do not think that we should downplay the importance of either. For that reason, I do not think that the subtle semantics of Plaid amendment's 1 add to the debate today. However, I agree that it is important that Wales is not overly reliant on handouts. Too often in the past, we have seen big companies tempted to Wales by generous grants, but, when the grants stopped, the jobs went too. The simple fact is that the very businesses

Mae'r cydbwysedd rhwng cefnogi busnesau cynhenid a denu mewnfuddsoddiad yn debyg iawn i'r cydbwysedd rhwng y galon a'r ysgyfaint yn y corff. Mae'r ddau'n chwarae rhan hollbwysig yn pwmpio ocsigen o amgylch y corff, ac ni fydd y claf yn iach os bydd un o'r ddau yn methu. Fodd bynnag, ni chredaf y dylem fychanu pwysigrwydd y naill neu'r llall. Am y rheswm hwnnw, ni chredaf fod semanteg cynnil gwelliant 1 Plaid Cymru yn ychwanegu at y ddadl heddiw. Fodd bynnag, cytunaf ei bod yn bwysig nad yw Cymru yn or-ddibynnol ar roddion. Yn rhy aml yn y gorffennol, rydym wedi gweld cwmnïau mawr yn cael eu denu i Gymru gan grantiau hael, ond, pan fydd y grantiau'n dod i ben, mae'r swyddi'n diflannu hefyd. Y ffaith

that were mobile enough to come to Wales when we dangled the proverbial carrot in front of them were mobile enough to leave once they had finished eating it. We now need a much more sophisticated approach that helps us to attract the right kind of investments, and not just any kind of investments: investments that will embed themselves in the local economy, that will develop complex supply chains in Wales, and that rely on specialist skills that we are then able to service locally in Wales. The more embedded those companies become in Wales, and the more reliant they become on the skills, the supply chains and the infrastructure that we offer them, the more difficult and unattractive it will be for them to leave. Therefore, those are the things that we need to focus upon. That is why we have tabled our amendment, to seek to develop the tentacles, if you like, that will bring the businesses to Wales in the first place and that, critically, will keep them here once we have them.

syml yw bod yr union fusnesau hynny a oedd yn ddigon symudol i ddod i Gymru pan oeddem yn siglo'r foronen fondigrybwyll o'u blaen hefyd yn ddigon symudol i adael ar ôl iddynt orffen ei fwyta. Yn awr mae angen agwedd llawer mwy soffistigedig arnom sy'n ein helpu i ddenu'r math cywir o fuddsoddiadau, ac nid unrhyw fath o fuddsoddiadau'n unig: ond buddsoddiadau a fydd yn ymwreiddio eu hunain yn yr economi leol, a fydd yn datblygu cadwyni cyflenwi cymhleth yng Nghymru, ac sy'n dibynnu ar sgiliau arbenigol y gallwn wedyn eu gwasanaethu'n lleol yng Nghymru. Po fwyaf yr ymwreiddir y cwmnïau hynny yng Nghymru, a'r mwyaf dibynnol y byddant ar y sgiliau, y cadwyni cyflenwi a'r seilwaith a gynigwn, y mwyaf anodd ac anatyniadol fydd gadael. Felly, dyna beth sydd angen inni ganolbwyntio arnynt. Dyna pam ein bod wedi cyflwyno ein gwelliant, er mwyn ceisio datblygu'r tentaclau, os y mynnwch, a fydd yn denu'r busnesau i Gymru yn y lle cyntaf ac wedyn, yn allweddol, yn eu cadw yma.

The Welsh Development Agency had a powerful brand that is still recognised today, and I am sure that we will hear more about the opinions of other experts in this regard. However, the truth is that, when we look at the record, International Business Wales has not managed to grow into the space that was left by the WDA. I will give you an example to illustrate this point. I was contacted a few weeks ago by a constituent who had attended a multi-billion dollar trade fair in New York. He was talking about some of the stands that he saw. He saw a big, impressive stand for New Zealand, which is a country with a population of a similar size to that of Wales, and a big, impressive stand for Scotland, which was very busy and had plenty of staff dealing with inquiries from the public and visitors, but he struggled to find Wales’s stand. When he finally found it, he discovered that it was a single table in the corner of a room. On the table was a fluffy dragon and a bowl with a note on it that read, ‘Please leave your business card for a chance to win the fluffy dragon’. Suffice it to say, the bowl was not full and there was not a queue of people around the block waiting to take up the offer. The example is depressing, but, sadly, so are the statistics. [*Interruption.*] Yes, I would quite like a fluffy dragon too,

Roedd gan Awdurdod Datblygu Cymru frand pwerus sy'n cael ei gydnabod hyd heddiw, ac rwy'n siŵr y byddwn yn clywed mwy am farn arbenigwyr eraill yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, y gwir yw, wrth inni edrych ar y record, nid yw Busnes Rhyngwladol Cymru wedi llwyddo i dyfu a llenwi'r bwlch a adawyd gan y WDA. Rhoddaf enghraifft ichi i egluro'r pwynt hwn. Cysylltodd etholwr â mi rai wythnosau'n ôl ar ôl iddo ymweld â ffair fasnach gyda biliynau o ddoleri ynghlwm wrtho yn Efrog Newydd. Roedd yn sôn am rai o'r stondinau a welodd. Roedd gan Seland Newydd stondin fawr drawiadol, ac mae honno'n wlad gyda phoblogaeth debyg i Gymru. Roedd gan yr Alban stondin fawr drawiadol, a oedd yn brysur iawn gyda digon o staff yn delio ag ymholiadau gan y cyhoedd ac ymwelwyr, ond cafodd drafferth dod o hyd i stondin Cymru. Yn y diwedd, pan lwyddodd i'w ddarganfod, gwelodd mai un bwrdd mewn cornel ystafell ydoedd. Ar y bwrdd roedd draig flewog gyda bowlen a nodyn gerllaw gyda'r geiriau, 'Gadewch eich cerdyn busnes i gael cyfle i ennill y ddraig flewog'. Digon yw dweud nad oedd y bowlen yn llawn ac nid oedd ciw o bobl yn disgwyl yn eiddgar i fanteisio ar y cynnig. Mae'r enghraifft yn ddigalon, ond, yn anffodus, felly hefyd yr ystadegau. *[Torri ar draws.]*

but I am not sure that many international business people would be tempted by that generous offer. As I have said, the example is depressing, but, sadly, the statistics are also depressing.

Iawn, byddwn i'n falch iawn o gael draig flewog hefyd, ond nid wyf yn siŵr y byddai llawer o bobl fusnes ryngwladol yn cael eu temtio gan y cynnig hael hwnnw. Fel y dywedais, mae'n enghraifft ddigalon, ond, yn anffodus, mae'r ystadegau hefyd yn ddigalon.

We have to ask the difficult question as to why International Business Wales has not been able to achieve the kind of results, relative to other economies, that the WDA did. So, to the crux of the issue: would I want to see a return to the allegedly halcyon days of the WDA? Actually, I would not if that meant reconstituting it as it was, because we have to recognise that it had significant difficulties and issues. We also have to recognise that the economy today is very different from the one in which the WDA operated. However, we need to actively consider the option of a perhaps more independent and, critically, more business-minded organisation to promote Wales overseas—an organisation that has the talent, the skills and experience to be able to work on an equal level with business people overseas. My concern about International Business Wales is that it has not been able to demonstrate that level of ability. In conclusion, we are generally supportive of the motion. However, I do not think that anyone would want to see a return to the quangos of the past.

Rhaid inni ofyn y cwestiwn anodd, pam nad yw Busnes Rhyngwladol Cymru wedi gallu cyflawni'r un math o ganlyniadau â'r WDA, ar lefel gymharol ag economïau eraill. Felly, gan ddychwelyd at graidd y mater: a fyddwn i am fynd yn ôl i ddyddiau da honedig y WDA? Mewn gwirionedd, na, ni fyddwn am wneud hynny petai'n golygu ei ail-greu fel yr oedd, oherwydd rhaid inni gydnabod bod ganddo anawsterau a phroblemau sylweddol. Rhaid inni hefyd gydnabod bod yr economi heddiw yn wahanol iawn i'r economi yn nyddiau'r WDA. Fodd bynnag, mae angen inni fynd ati i ystyried a ddylid cael sefydliad mwy annibynnol efallai, ac yn allweddol, un sy'n meddwl mwy fel busnes, er mwyn hyrwyddo Cymru dramor—sefydliad sy'n cynnwys y talent, y sgiliau a'r profiad i allu gweithio ar yr un lefel â phobl fusnes dramor. Fy mhryder ynglŷn â Busnes Rhyngwladol Cymru yw nad yw wedi gallu dangos y lefel honno o allu. I gloi, rydym yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni chredaf fod yr un ohonom am weld hen gwangos y gorffennol yn dychwelyd.

**Byron Davies:** I rise to support this motion. This is not the first time that we have tabled a motion asking for a clear and concise economic strategy from the Government. Sadly, I suspect that it will not be the last. Many of the pertinent points were made to the Minister for Business, Enterprise and Technology yesterday, but, given the importance of this issue, I want to tease out more of the detail today and seek further clarification. I want to start by echoing the view stated in ‘Economic Renewal: a new direction’, that there was a need

**Byron Davies:** Codaf i gefnogi'r cynnig hwn. Nid dyma'r tro cyntaf inni gyflwyno cynnig yn gofyn am strategaeth economaidd glir a chryno gan y Llywodraeth. Yn anffodus, rwy'n amau nad hwn fydd y tro olaf ychwaith. Gwnaethpwyd llawer o'r pwyntiau perthnasol i'r Gweinidog Busnes, Menter a Thechnoleg ddoe, ond, o gofio pwysigrwydd y mater hwn, hoffwn geisio cael rhagor o fanylion heddiw a cheisio eglurhad pellach. Rwyf am ddechrau drwy ategu'r farn a nodir yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', sef bod angen

‘to develop a clearer narrative around the business proposition.’

'datblygu naratif cliriach i gyd-fynd â'r cynnig busnes.'

That is the problem in a nutshell: there is no clear narrative for business. To put that comment into context, we are all aware of the role that UK Trade and Investment plays in

Dyna'r broblem yn gryno: nid oes naratif clir ar gyfer busnes. I roi'r sylw hwnnw yn ei gyd-destun, mae pob un ohonom yn ymwybodol o swyddogaeth Masnach a

helping UK-based companies in the global economy.

Buddsoddi y DU o ran helpu cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y DU yn yr economi fyd-eang.

The UKTI treats the UK as a single investment unit, and the Welsh Government handles the marketing of Wales. The two organisations have a formal mechanism for joint working. However, there is some concern that the relationship at ministerial level is not a positive one. Indeed, Mark Drakeford’s comments have already been highlighted by Nick Ramsay. His words are a sound realisation, but the report highlights the concern that the relationship at ministerial level may not be so positive—a damning line from a Select Committee report and one that this Chamber should be concerned about. If only the Minister could have made time in her diary to discuss the Welsh economy, this issue may have been cleared up.

Mae Masnach a Buddsoddi y DU yn trin y DU fel un uned fuddsoddi, a Llywodraeth Cymru sy’n ymdrin â marchnata Cymru. Mae gan y ddau sefydliad fecanwaith ffurfiol ar gyfer cydweithio. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder nad yw'r berthynas ar lefel weinidogol yn un gadarnhaol. Yn wir, mae Nick Ramsay eisoes wedi tynnu sylw at sylwadau Mark Drakeford. Mae ei eiriau'n sylweddoliad cadarn, ond mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y pryder nad yw'r berthynas ar lefel weinidogol mor gadarnhaol â hynny—mae honno'n llinell ddamniol mewn adroddiad Pwyllgor Dethol a dylai'r Siambr hon fod yn poeni amdani hefyd. Petai'r Gweinidog wedi llwyddo i neilltuo amser yn ei dyddiadur i drafod economi Cymru, mae'n bosibl y byddai'r mater hwn wedi'i ddatrys.

In anticipation of a Government response saying that this is a typical Welsh Conservative mantra, let us look at what independent bodies are saying about inward investment. First, Cardiff Business School recommended that a single agency should link together activities. It said that, in the late 1990s, Wales

Gan ragweld ymateb y Llywodraeth yn dadlau bod hwn yn fantra nodweddiadol gan Geidwadwyr Cymru, gadewch inni edrych ar yr hyn mae cyrff annibynnol yn ei ddweud am fewnfuddsoddi. Yn gyntaf, mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn argymell y dylai un asiantaeth ddwyn yr holl weithgareddau ynghyd. Dywedodd hynny yn y 1990au hwyr, sef bod gan Gymru

‘had a greater coherence and consistency in brand message’

mwy o gydlyniad a chysondeb yn neges y brand,

and that

a bod

‘this helped to attract large amounts of inward investment.’

hyn yn helpu i ddenu symiau mawr o fewnfuddsoddiad.

Importantly, the Institute of Directors Wales says that there should be an arm’s-length operating agency to provide direct industry assistance. The lack of an arm’s-length operating agency is creating much confusion.

Yn bwysig, mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr - Cymru yn dweud y dylid cael asiantaeth weithredol hyd-braich i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r diwydiant. Mae diffyg asiantaeth weithredol hyd-braich yn achosi llawer o gymhlethdod.

I would also like to point out some serious issues, as I did yesterday, with some of our funding bodies, such as the Regeneration Investment Fund for Wales. It has been given significant investment of tens of millions of pounds by this Government, but, to date, no investment has been made by RIFW. In fact,

Hoffwn hefyd dynnu sylw at rai materion difrifol, fel y gwnes ddoe, ynghylch rhai o'n cyrff cyllido, fel Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Mae'r corff hwn wedi cael buddsoddiad sylweddol o ddegau o filiynau o bunnoedd gan y Llywodraeth hon, ond, hyd yma, nid yw Cronfa Buddsoddi Cymru mewn

RIFW is acting far worse than a rogue bank, with unrealistic sky-high lending rates and a severe lack of drive and ambition in terms of regenerating Wales. If the Government is indeed serious about economic growth, these funds should all have a common cause, a common theme and should be easily accessed. There are serious concerns around the schemes, with regard to lack of action and transparency regarding public money and the release of public assets. We need to draw these funds, projects, strategies and grants together within an organisation that understands business and its needs and ambitions for Wales. Some cynical people around this Chamber may well think that organisation could resemble the model of the former WDA—perhaps a new business commissar who reports directly to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on the state of our capitalist nation, even.

Adfywio wedi gwneud unrhyw fuddsoddiad. Yn wir, mae'r Gronfa yn gweithredu'n waeth o lawer na banc aneffeithiol, gyda chyfraddau benthyca afrealistig o uchel yn ogystal â diffyg egni ac uchelgais difrifol i adfywio Cymru. Os yw'r Llywodraeth wir o ddifrif am dwf economaidd, dylai'r cronfeydd hyn i gyd weithio tuag at nod cyffredin a thuag at thema gyffredin, a dylid gallu cael mynediad hawdd atynt. Mae pryderon difrifol am y cynlluniau, o ran diffyg gweithredu a thryloywder gydag arian cyhoeddus a rhyddhau asedau cyhoeddus. Mae angen inni dynnu'r cronfeydd, y prosiectau, y strategaethau a'r grantiau hyn at ei gilydd mewn sefydliad sy'n deall busnes a'i anghenion a'i uchelgeisiau ar gyfer Cymru. Efallai y bydd rhai o'r sinigiaid o amgylch y Siambr hon yn credu y gallai'r sefydliad hwnnw ymdebygu i fodel yr hen Awdurdod Datblygu Cymru—efallai comisâr busnes newydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth am gyflwr ein cenedl gyfalafol, hyd yn oed.

However, there is a very serious issue in our debate today: the approach of this Labour Government to our business sector, and indeed the private sector in general, is, in my opinion, the biggest negative when it comes to inward investment and economic growth. You really must bury your political dogma and deliver if we are to create an exciting opportunity for the people of Wales.

Fodd bynnag, mae ein dadl heddiw yn ymdrin â mater difrifol iawn: yn fy marn i, agwedd y Llywodraeth Lafur hon i'n sector busnes, ac yn wir y sector preifat yn gyffredinol, yw’r ffactor negyddol mwyaf o ran mewnfuddsoddiad a thwf economaidd. Mae'n rhaid ichi gladdu eich dogma gwleidyddol a darparu os ydym am greu cyfle cyffrous i bobl Cymru.

**Julie Morgan:** I am grateful for the opportunity to speak in this important debate. Inward investment is a very important function, and there is no denying the market difficulties that Wales has experienced since the fall of the Berlin wall and the rise of China as the world’s most powerful manufacturing country. The eastward shift in Europe has, as has been said already, brought cheaper labour markets, and the Welsh Affairs Committee report highlights this massive shift in the market.

**Julie Morgan:** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon. Mae mewnfuddsoddiad yn swyddogaeth bwysig iawn, ac ni ellir gwadu’r anawsterau yn y farchnad a brofwyd yng Nghymru ers cwymp wal Berlin a thwf Tsieina fel gwlad gweithgynhyrchu fwyaf pwerus y byd. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r symudiad tua'r dwyrain yn Ewrop wedi arwain at farchnadoedd llafur rhatach, ac mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn tynnu sylw at y newid enfawr hwn yn y farchnad.

3.30 p.m.

What that means is that we have to aim at much more high-tech inward investment that cannot so easily move when times change, as

Mae hyn yn golygu bod angen inni anelu at fewnfuddsoddiad llawer mwy uwch-dechnoleg nad yw'n gallu symud mor rhwydd

others have already said. There is a danger that the pursuit of inward investment has been dominated by the short-term goal of getting branch factories set up, as Alun Ffred Jones said, at the expense of seeking more high-tech and value-added jobs. That has happened for many years—long before the Welsh Development Agency came into existence. The Trefforest estate, which is next door to my constituency in Cardiff North, started up with this philosophy in 1929.

wrth i bethau newid, fel y mae pobl eraill eisoes wedi'i ddweud. Fel y dywedodd Alun Ffred Jones, mae perygl fod yr amcan tymor byr o sefydlu ffatrïoedd cangen wedi dominyddu'r gwaith o ddenu mewnfuddsoddiad, a hynny ar draul ceisio cael swyddi mwy uwch-dechnoleg a swyddi sy'n ychwanegu gwerth. Mae hynny wedi digwydd am flynyddoedd lawer—ymhell cyn sefydlu Awdurdod Datblygu Cymru. Sefydlwyd ystâd Trefforest, sydd y drws nesaf i fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd, ar yr athroniaeth hon ym 1929.

The Welsh Affairs Committee report does not make the point that Poland and China did not merely make it harder to attract inward investment, because companies already here, attracted to Wales by the WDA or before the WDA existed, such as Panasonic in Cardiff North, were reversing the gains made by being attracted by cheaper labour markets. It has been worse for Wales because Wales has tended to specialise more in the branch factories without research facilities and without headquarters. There are not enough examples of companies undertaking a lot of scientific research or with intellectual property such as Johnson and Johnson and GE Healthcare, which was formerly Amersham plc.

Nid yw adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn dadlau mai Gwlad Pwyl a Tsieina oedd yr unig reswm pam ei bod yn anoddach denu mewnfuddsoddiad, gan fod y cwmnïau a oedd yma eisoes, a ddenwyd i Gymru gan y WDA neu hyd yn oed cyn i'r WDA gael ei sefydlu, fel Panasonic yng Ngogledd Caerdydd, yn gwrthdroi'r cynnydd a wnaethpwyd wrth iddynt gael eu denu gan farchnadoedd llafur rhatach. Mae Cymru wedi dioddef yn waeth oherwydd bod Cymru wedi tueddu i arbenigo mwy yn y ffatrïoedd cangen yn hytrach na'r cyfleusterau ymchwil a'r pencadlysoedd. Nid oes digon o enghreifftiau o gwmnïau'n cynnal llawer o ymchwil wyddonol neu ag eiddo deallusol fel Johnson and Johnson a GE Healthcare, sef Amersham plc gynt.

I wanted to make a few comments on the Welsh Affairs Committee report because it is weak and very muddled, as many speakers have already said. To begin with, it seems to be trying to rewrite the devolution settlement and to muscle in on something that is a devolved function. It does not get the facts or the perspective right. I have read it through fully and it contains many sheer factual mistakes. It refers to Wales as a 'region' eight times, which may in itself be a small thing, but is certainly not seeking friends in Wales. It talks a great deal about a lack of research funding from the research funding councils, and I wanted to make this point when Nick Ramsay was speaking. However, from what I can see, the committee did not take any evidence from the research councils. It makes a big fuss about saying that there is not enough research funding coming into Wales, but does not try to find out why that is the case. That is a weak point to be making,

Roeddwn am wneud rhywfaint o sylwadau ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig gan ei fod yn wan ac yn ddryslyd iawn, fel y nodwyd eisoes gan lawer o'r siaradwyr. I ddechrau, mae'n ymddangos fel petai'n ceisio ail-ysgrifennu'r setliad datganoli ac yn gwthio'i hun i mewn i swyddogaeth sydd wedi'i datganoli. Nid yw'r ffeithiau na'r persbectif yn gywir. Rwyf wedi'i ddarllen o glawr i glawr ac mae'n cynnwys llawer o gamgymeriadau ffeithiol. Mae'n cyfeirio at Gymru fel 'rhanbarth' wyth gwaith, sydd efallai'n swnio'n bitw yn ei hun, ond yn sicr nid ydynt yn ceisio gwneud ffrindiau yng Nghymru. Mae'n sôn llawer am ddiffyg cyllid tuag at ymchwil gan y cynghorau cyllido ymchwil, a dyma'r pwynt roeddwn am ei wneud pan oedd Nick Ramsay yn siarad. Fodd bynnag, o'r hyn y gallaf ei weld, ni chafodd y pwyllgor unrhyw dystiolaeth gan y cynghorau ymchwil. Mae'n gwneud môr a mynydd o ddweud nad oes digon o arian

because the Welsh Affairs Committee has a legitimate role in trying to get to the bottom of why the research funding is not in the proportion that it should be. The obvious point, rather than saying that Wales cannot attract the funding and bemoaning Wales's predicament, is to ask the research councils to come before the committee and to try to establish why that funding is not at the rate that it should be. That contributes to making it a very weak report. The committee should certainly have questioned the research councils about the boundaries and criteria that they use.

ymchwil yn dod i mewn i Gymru, ond nid yw'n ceisio canfod y rheswm pam. Mae hwnnw'n bwynt gwan i'w wneud, oherwydd mae gan y Pwyllgor Materion Cymreig swyddogaeth ddilys o ran ceisio darganfod pam nad yw cyfran yr arian ymchwil yr hyn y dylai fod. Y pwynt amlwg, yn hytrach na dweud na all Cymru ddenu'r cyllid a chwyno am drafferthion Cymru, yw gofyn i'r cynghorau ymchwil ddod gerbron y pwyllgor er mwyn ceisio canfod pam nad yw cyfradd y cyllid yr hyn y dylai fod. Mae hyn i gyd yn golygu bod yr adroddiad yn wan iawn. Yn sicr, dylai'r pwyllgor fod wedi holi'r cynghorau ymchwil am y ffiniau a'r meini prawf a ddefnyddiant.

Of course, the other, very legitimate, role that the Welsh Affairs Committee has is in questioning UK Trade and Investment or UKTI. One price of devolution, which has often been mentioned, is that many UK bodies regard themselves as English bodies. It is the legitimate role of the Welsh Affairs Committee to discuss UK-wide bodies and ensure that they ensure that Wales remains part of their remit. I did not see any evidence of that sort of questioning when I read through this report. So, this report has not been a great contribution to this debate in a serious way. However, the one important point that it did make was that the German equivalent of UKTI has a duty to push inward investment to poorer areas and there is no such duty on UKTI. Basically, that is something that UK Government Ministers should consider.

Wrth gwrs, swyddogaeth ddilys iawn arall y Pwyllgor Materion Cymreig yw holi Masnach a Buddsoddi y DU. Un o anfanteision datganoli, sydd wedi'i grybwyll yn aml, yw bod llawer o gyrff y DU yn ystyried eu hunain fel cyrff Saesneg. Mae gan y Pwyllgor Materion Cymreig swyddogaeth ddilys i drafod cyrff y DU-gyfan gan sicrhau eu bod nhw'n gwneud yn siŵr bod Cymru yn dal i fod yn rhan o'u cylch gwaith. Ni welais unrhyw dystiolaeth o'r math hwnnw o gwestiynu wrth ddarllen yr adroddiad hwn. Felly, nid yw'r adroddiad hwn wedi gwneud cyfraniad o bwys at y ddadl hon mewn unrhyw ffordd ddifrifol. Fodd bynnag, un pwynt pwysig a wnaethpwyd ynddo oedd bod dyletswydd ar y corff cyfatebol yn yr Almaen i Masnach a Buddsoddi y DU i wthio mewnfuddsoddiad i ardaloedd tlotach. Nid oes dyletswydd o'r fath ar Masnach a Buddsoddi y DU. Yn y bôn, mae hynny'n rhywbeth y dylai Gweinidogion Llywodraeth y DU ei ystyried.

**Mark Isherwood:** The Welsh Affairs Committee report on inward investment in Wales states that Wales has been slow to adapt to changes in the international market for overseas investment. That the Minister declined invitation to meet the committee when it visited the Assembly was a grave discourtesy to the committee and to Parliament. Witnesses complained about a decline in Wales's visibility overseas, and the committee therefore calls for a dedicated trade promotion agency.

**Mark Isherwood:** Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar fewnfuddsoddiad yng Nghymru yn nodi bod Cymru wedi bod yn araf wrth addasu i newidiadau yn y farchnad ryngwladol ar gyfer buddsoddiad tramor. Roedd y Gweinidog yn anghwrtais iawn i'r pwyllgor ac i'r Senedd pan wrthododd wahoddiad i gyfarfod â'r pwyllgor pan oedd yn ymweld â'r Cynulliad. Roedd y sawl a gyflwynodd dystiolaeth yn cwyno bod amlygrwydd Cymru dramor wedi dirywio, ac felly mae'r pwyllgor yn galw am asiantaeth benodol i hyrwyddo masnach.

During the 1980s and early 1990s, the manufacturing industry in Wales, supported by the WDA, encouraged a range of successful inward investments and the establishment of a strong indigenous supply chain to become the envy of other UK nations and regions. In fact, under the last Conservative Government, the Welsh manufacturing sector grew by 31% between 1989 and 1997. When Conservatives left office in 1997, the UK was second only to the US in terms of international inward investment, and relative to its size, Wales during the 1980s and early 1990s was the most successful UK nation or region in attracting inward investment. It is now virtually at the bottom of the list.

Yn ystod y 1980au a dechrau'r 1990au, roedd y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru, gyda chefnogaeth y WDA, yn annog amrediad o fewnfuddsoddi llwyddiannus gyda chadwyn gyflenwi gynhenid gref a oedd yn destun eiddigedd yn rhanbarthau a gwledydd eraill y DU. Yn wir, o dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, tyfodd y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru 31% rhwng 1989 a 1997. Pan ddaeth cyfnod y Ceidwadwyr mewn grym i ben ym 1997, roedd y DU yn ail yn unig i'r Unol Daleithiau o ran mewnfuddsoddiad rhyngwladol, ac o'i gymharu â'i maint, Cymru oedd y rhanbarth a'r genedl fwyaf llwyddiannus yn y DU o ran denu mewnfuddsoddiad yn ystod y 1980au a dechrau'r 1990au. Bellach mae Cymru fwy neu lai ar waelod y rhestr.

As the former head of the WDA said,

Fel y dywedodd cyn-bennaeth y WDA,

‘We have seen expenditure in excess of £100m per annum that has produced next to nothing in the form of outcomes’.

Mae dros £100m y flwyddyn wedi'i wario ond nid yw hynny wedi cynhyrchu'r nesaf peth i ddim o ran canlyniadau.

Thirteen years of devolution have widened the prosperity gap between Wales and its national and regional partners. The industrial south Wales Valleys, west Wales and four out of the six north Wales counties entered the new millennium with EU Objective 1 status, and they now qualify for a third round of European funding, making them comparable with the poorest regions of the European Union. According to the July 2010 ‘Ambition 2020: World Class Skills and Jobs for the UK’ report, Wales was ranked at the bottom of a league table of UK competitiveness and came eleventh out of 12 UK areas in a UK productivity league table.

Mae tair blynedd ar ddeg o ddatganoli wedi ehangu'r bwlch ffyniant rhwng Cymru a'i phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol. Ar drothwy'r mileniwm newydd, roedd cymoedd diwydiannol de Cymru, gorllewin Cymru, a phedair o'r chwe sir yng ngogledd Cymru yn rhan o statws Amcan 1 yr UE, ac maent bellach yn gymwys ar gyfer y trydydd cylch o arian Ewropeaidd, sy'n golygu eu bod ochr yn ochr â rhanbarthau tlotaf yr Undeb Ewropeaidd. Yn ôl adroddiad 'Ambition 2020: World Class Skills and Jobs for the UK' ym mis Gorffennaf 2010, roedd Cymru ar waelod tabl cystadleurwydd y DU a daeth yn 11eg allan o 12 ardal y DU mewn tabl cynhyrchiant y DU.

As Professor Brian Morgan from the Cardiff School of Management has said,
‘over the last few years Wales has been a high-profile loser in the FDI stakes. The Welsh Government introduced radical changes to the inward investment regime in Wales in 2004 when it announced the abolition of the Welsh Development Agency and took its functions inside the civil service...The WDA…certainly needed reform, but what it did not need was merging into a risk-averse, process-driven and

Fel y mae'r Athro Brian Morgan o Ysgol Rheolaeth Caerdydd wedi'i ddweud,
Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi bod yn gollwr uchel ei broffil o ran buddsoddiad uniongyrchol o dramor. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau radical i'r drefn fewnfuddsoddi yng Nghymru yn 2004 pan gyhoeddodd ei bod am ddileu Awdurdod Datblygu Cymru a symud ei swyddogaethau o dan adain y gwasanaeth sifil ...Roedd angen diwygio'r WDA, yn sicr, ond nid oedd angen ei gyfuno ag adran yn y

compliance-focused department of the civil service. Moreover, the merger could have happened without taking the bizarre…commercial decision to abolish the internationally-recognised "WDA brand". Unsurprisingly, the merger failed and within five years the new organisation that took over the inward investment functions of the WDA – International Business Wales (IBW) – was itself closed down. Few people inside Wales, let alone potential investors outside Wales, had ever heard of the new "IBW brand"'.

gwasanaeth sifil sy'n ofni risg, sy'n cael ei gyrru gan brosesau, ac sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio. Ar ben hynny, gellid bod wedi uno heb gymryd y penderfyniad masnachol... rhyfedd i ddiddymu'r "brand WDA" a oedd yn adnabyddus yn rhyngwladol. Nid yw'n syndod bod yr uno wedi methu ac ymhen pum mlynedd roedd y sefydliad newydd y trosglwyddwyd swyddogaethau mewnfuddsoddiad y WDA iddo – sef Busnes Rhyngwladol Cymru – ei hun wedi cau. Prin iawn oedd y bobl yng Nghymru, heb sôn am ddarpar fuddsoddwyr o'r tu allan i Gymru, a oedd erioed wedi clywed am y "brand Busnes Rhyngwladol Cymru" newydd.

Professor Morgan previously warned that

Rhybuddiodd yr Athro Morgan yn flaenorol:

'If by 2012 the trend in Welsh GVA is still on a downward path, then the WDA and WTB will need to be reinvented...as independent public-private partnerships with strict targets for raising GVA...Raising economic prosperity levels in Wales will not solve all our problems, but our aspiration for improving the health service, achieving educational excellence and other social objectives will be much easier on the back of a competitive economy. That is why ensuring that devolution does eventually deliver an economic dividend is so important'.

Os bydd y duedd yng Ngwerth Ychwanegol Crynswth Cymru yn dal yn gostwng erbyn 2012, yna bydd angen ailsefydlu Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru... fel partneriaethau cyhoeddus-preifat annibynnol gyda thargedau llym ar gyfer cynyddu GYC... Ni fydd codi lefelau ffyniant economaidd yng Nghymru yn datrys ein holl broblemau, ond byddai ein dyhead i wella'r gwasanaeth iechyd, ac i gyflawni rhagoriaeth addysgol ac amcanion cymdeithasol eraill, yn llawer haws ar gefn economi gystadleuol. Dyna pam fod sicrhau bod datganoli yn darparu difidend economaidd yn y pen draw mor bwysig.

Prior to being scrapped, the Welsh Development Agency had to report twice a year and publicly announce the fundamentals of the economy—jobs created, jobs saved, jobs lost, and how many new companies there were in Wales and in each sub-region of Wales. The then First Minister said that greater public accountability was one of the reasons for winding up the WDA. However, these figures are no longer publicly announced.

Cyn cael ei ddiddymu, roedd Awdurdod Datblygu Cymru yn gorfod adrodd a chyhoeddi gwybodaeth am hanfodion yr economi ddwywaith y flwyddyn-am y swyddi a grëwyd, y swyddi a arbedwyd, y swyddi a gollwyd, a sawl cwmni newydd oedd yng Nghymru ac ym mhob isranbarth o Gymru. Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd mai un o'r rhesymau dros ddirwyn y WDA i ben oedd er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cael eu cyhoeddi bellach.

The former North Wales Economic Forum chair and former WDA deputy chair said that

Dywedodd cyn-gadeirydd Fforwm Economaidd Gogledd Cymru a chyn-ddirprwy gadeirydd y WDA fod

'Wales led the UK out of the last recession, with jobs, investment, training – but this is not the case now and it's going to get worse'.

Cymru wedi arwain y DU allan o'r dirwasgiad diwethaf, gyda swyddi, buddsoddiad a hyfforddiant – ond nid yw

hynny'n digwydd nawr a bydd pethau'n gwaethygu.

This is where we are today, with Welsh Labour Government based on fear and failure, not fairness and fact. It is time for change. We must build at last real strategic co-operation between the Welsh Government and the voice of business in Wales, built on mutual respect and recognition that both can offer each so much more than they can do alone.

Dyna le'r ydym heddiw, gyda Llywodraeth Lafur Cymru yn seiliedig ar ofn a methiant yn hytrach nag ar degwch a ffeithiau. Mae'n bryd cael newid. O'r diwedd, rhaid inni feithrin cydweithrediad strategol gwirioneddol rhwng Llywodraeth Cymru a llais busnesau yng Nghymru, wedi'i adeiladu ar gyd-barch a gan gydnabod y gall y naill a'r llall gynnig llawer mwy nag y gallant ei wneud ar eu pen eu hunain.

**Llyr Huws Gruffydd:** Cytunaf â llawer o'r sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl hyd yma, ond teimlaf fod tôn y cynnig a'i gyfeiriad at Awdurdod Datblygu Cymru yn wahanol iawn i'r teimladau yr oedd pobl yn eu coleddu tuag at yr awdurdod datblygu ar y pryd. Roedd '*quango*' yn air budr rhyw 10 mlynedd yn ôl; roedd yn gorff anatebol, annemocrataidd, yn cael ei redeg gan *cronies* Llywodraeth y dydd.

**Llyr Huws Gruffydd:** I agree with a great many of the comments made during the course of this debate, but the tone of the motion and its reference to the Welsh Development Agency are very different to how people felt towards the development agency at the time. 'Quango' was a dirty word some 10 years ago; it was an unaccountable and undemocratic body run by the cronies of the Government of the day.

Yn fwy na hynny, roedd y WDA hefyd yn enwog am nifer o sgandalau. Roedd honiadau am wariant anarferol ar dreuliau'r uwch-swyddogion; £300,000 yn cael ei wario ar gynlluniau i gyrchu gwaith yr awdurdod i gwmnïau preifat; swyddogion a oedd yn anhapus gydag arferion yr awdurdod yn cael taliadau a thocynnau ymddeol gwerth dros £0.25 miliwn; gwario bron £1.5 miliwn yn anghyfreithlon ar ddiswyddo unigolion; a phrynu tir am brisiau chwyddedig eithriadol. Wrth gwrs, nid oes neb wedi sôn am LG. Felly, rhaid inni beidio â thwyllo ein hunain a meddwl bod rhyw *panacea* wrth sôn am y WDA. Rwy'n falch bod cydnabyddiaeth—i raddau, beth bynnag—ynglŷn a hynny, ond eto, nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cynnig.

Futhermore, the WDA was famous for many scandals. There were allegations of irregular spend on the expenses of senior officers; £300,000 was spent on schemes to hive off agency work to private companies; officials who were dissatisfied with agency practices received payments and retirement packages worth more than £0.25 million; some £1.5 million was spent unlawfully on sacking individuals; and land was purchased at hugely inflated prices. Of course, we must not kid ourselves and think that talking about the WDA offers some kind of panacea. I am pleased that this has been recognised—to some degree at least—but, even so, that recognition is not reflected in the motion.

Rwy'n cofio trefnu dadl gyhoeddus yn Nhŷ Hywel ryw wythnos neu ddwy cyn i'r WDA ddod yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad, fel oedd bryd hynny. Y siaradwyr oedd yr Athro Kevin Morgan a Gareth Hall a'r teitl oedd '*WDA: A Legacy'*. Beth oedd y *legacy*? Dyna'r cwestiwn. Mewn adeg pan oedd angen adeiladu economi newydd yng Nghymru yn sgîl chwalfa'r diwydiannau trwm a oedd wedi cau, beth ddigwyddodd? Yn anffodus, crëwyd economi a oedd yn

I organised a public debate in Tŷ Hywel a week or so before the WDA was merged into the Assembly Government, as it was known at the time. Professor Kevin Morgan and Gareth Hall took part as speakers in that debate, which was entitled 'WDA: A Legacy'. What was that legacy? That is the question. At a time when we needed to build a new economy following the decimation of heavy industry, what happened? Unfortunately, an economy was created that

llawer rhy ddibynnol ar allu'r WDA i ddwyn mewnfuddsoddiad i Gymru, a hynny ar draul yr angen i ddatblygu isadeiledd a busnesau cynhenid Cymreig. Gallech ddweud mai denu mewnfuddsoddiad oedd unig bolisi economaidd gwirioneddol Cymru cyn datganoli, a chanlyniad yr orddibyniaeth hon oedd trawsnewid Cymru i fod yn economi o gyflogau isel—economi lle'r oedd tâl is y gweithwyr, tir rhad a grantiau'r Llywodraeth yn cael eu gwerthu fel yr asedau gorau oedd gennym.

was far too reliant on the WDA's ability to attract inward ivnestment to Wales, and this happened at the expense of indigenous business and infrastructre development in Wales. You could say that attracting inward investment was the only real economic policy that Wales had prior to devolution, and that the result of this overreliance was the transformation of the Welsh economy into a low-income economy—an economy that saw its low wages, low-cost land and Government grants marketed as our finest assets.

Er bod economi cyflog isel yn aml yn cynnig cyflogaeth i lawer o bobl, y gwir amdani yw bod yr elw a wnaed gan y cwmnïau hynny wedi diflannu o Gymru ac o'r cymunedau a oedd yn creu'r elw hwnnw. Wedyn, nid oedd anogaeth i'r cwmnïau aros yno os oedd gwell cynnig yn dod o rywle arall. Roedd yr anghydbwysedd yn y gorbwyslais hwnnw ar fewnfuddsoddi o'i gymharu â buddsoddi mewn creu economi gynhenid gryfach yn wendid sylfaenol. Er bod dwyn mewnfuddsoddiad yn elfen bwysig o unrhyw strategaeth economaidd—rydym i gyd yn cydnabod hynny—rhaid pwysleisio mai elfen ydyw. Oes, mae cwestiynau i'w gofyn am sut mae Cymru'n cael ei marchnata dramor. Oes, mae lle i wella perfformiad bob amser. Yn sicr, mae angen sicrhau bod gennym record glodwiw o safbwynt cadw'r mewnfuddsoddiad sydd wedi dod. Fodd bynnag, rwy'n teimlo, diolch i raglen adnewyddu'r economi, fod y ffocws nawr ar greu economi mwy cynaliadwy yn seiliedig ar roi mwy o bwyslais ar wella isadeiledd economaidd Cymru a hybu busnesau cynhenid y genedl.

Even though a low-wage economy can often offer employment to a great many people, the fact of the matter is that the profit made by those companies disappeared from Wales and from the communities where that very profit was generated. This all meant that companies were not incentivised to stay in those communities when a better offer was made elsewhere. The imbalance between placing too much of an emphasis on inward investment and not investing in the creation of a stronger indigenous economy was a fundamental weakness. Even though attracting inward investment is an important element of any economic strategy—we would all acknowledge that—we must emphasise that it is only one element. Yes, there are questions as to how Wales is marketed abroad. Yes, there is always room for improvement in performance. We must ensure that we have a laudable record on retaining any inward investment previously secured. However, thanks to the economic renewal programme, I think that the focus has now shifted to the creation of a more sustainable economy based on the need to place more of an emphasis on improving the economic infrastructure of Wales and promoting our indigenous businesses.

Mae angen nodi hefyd y bu lefelau mewnfuddsoddi yn disgyn cyn tranc y WDA. Yn hanesyddol, mae Cymru wedi perfformio'n dda o ran denu buddsoddiad o'r tu allan, gyda thua £7 biliwn wedi'u buddsoddi rhwng 1980 a 1995. Fodd bynnag, erbyn canol yr 1990au, roedd mewnfuddsoddi yng Nghymru wedi dechrau gostwng. Yn 1992, daeth 11.8% o swyddi newydd yn y Deyrnas Unedig i Gymru, ond, erbyn canol y 1990au, daeth lai na hanner y ffigur hwnnw. Mae'n rhy *simplistic* o lawer i

It should be noted that inward investment levels were falling prior to the demise of the WDA. Historically, Wales has performed well in terms of attracting inward investment, with some £7 billion invested between 1980 and 1995. However, by the mid 1990s, inward investment in Wales had started to decrease. In 1992, 11.8% of new jobs in the UK came to Wales, but, by the mid 1990s, that figure had been cut by more than half. It is far too simplistic to link that redcution in the rate of inward investment to the

gysylltu'r cwymp hwnnw yng nghyfradd y mewnfuddsoddiad a ddenwyd i Gymru â diflaniad y WDA—nac, i raddau, â pherfformiad unrhyw gorff dilynol—oherwydd bod y cyd-destun economaidd ehangach yn ffactor allweddol arall na allwn ei anwybyddu.

disappearance of the WDA—or, to some extent, to the performace of any successor body—because the wider economic context is another key factor that we cannot ignore.

Yn yr un cyfnod, rydym wedi gweld newidiadau strwythurol yn y farchnad fyd-eang, gyda gwledydd yn nwyrain Ewrop—a hyd yn oed Tsieina, India a Brasil—yn gallu cynnig cyflogau isel ac, felly, gweithlu rhatach. Taflwch y dirwasgiad byd-eang i mewn hefyd ac mae'n amlwg nad oes modd cymharu tebyg wrth debyg. Tra bod lle, felly, i fewnfuddsoddi mewn unrhyw economi a thra bod cwestiynau i'w gofyn ynglŷn â'r marchnata, fyw inni fynd yn ôl i'r hen ddyddiau hynny pan oedd gormod o ffocws ar ddenu cwmnïau mawr gyda thir rhad, llafur rhad a grantiau mawr—strategaeth a oedd yn sugno adnoddau prin tuag at y flaenoriaeth anghywir. Gwell o lawer yw parhau i flaenoriaethu adnoddau tuag at fuddsoddi mewn isadeiledd o safon dda, ehangu a dyfnhau'r *skills base*—

During the same period, we have seen structural changes in the global marketplace, with eastern European countries—and even China, India and Brazil—able to offer low wages and therefore a cheaper workforce. Combine that with the global recession and it is clear that there is no way of comparing like with like. While there is room for inward investment in any economy and while there are questions to be asked about the marketing, heaven forfend that we should go back to the days of too great a focus on attracting big companies with low-cost land, cheap labour and substantial grants—a stratgey that drew our scarce resources towards the wrong priority. It would be far better to prioritise the use of our resources on investment in high-quality infrastructure, expanding and improving the skills base—

**The Presiding Officer:** Order. Your time is up.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae eich amser wedi dod i ben.

**Llyr Huws Gruffydd:** Ac annog arloesedd fel rhan o'r ymdrechion i greu economi gynhenid, mwy cynaliadwy yng Nghymru.

**Llyr Huws Gruffydd:** And on encouraging innovation as part of the effort to create an indigenous, more sustainable economy in Wales.

**Mohammad Asghar:** Inward investment is a subject that has concerned me for some time. Many of the issues highlighted by the Welsh Affairs Committee would have been addressed by my proposed enterprise Bill, which, sadly, did not receive support from other parties in the Chamber.

**Mohammad Asghar:** Mae mewnfuddsoddiad yn bwnc sydd wedi peri pryder i mi ers peth amser. Byddai fy Mil menter arfaethedig wedi rhoi sylw i lawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt gan y Pwyllgor Materion Cymreig, ond yn anffodus ni chafodd gefnogaeth gan y pleidiau eraill yn y Siambr.

3.45 p.m.

The fact is that Wales is a small nation that needs to compete for inward investment, not only with other nations, but also with other regions of the United Kingdom. For 30 years, this was the responsibility of the Welsh Development Agency. The WDA was established in 1976 and given the task of encouraging business development and

Mae Cymru yn genedl fach, mae honno'n ffaith, ac mae angen iddi gystadlu am fewnfuddsoddiad, nid yn unig yn erbyn gwledydd eraill, ond hefyd yn erbyn rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Dyma oedd cyfrifoldeb Awdurdod Datblygu Cymru am 30 mlynedd. Sefydlwyd y WDA ym 1976 gyda'r dasg o annog datblygiad busnes a

investment in Wales, clearing derelict land and encouraging the growth of local businesses. It did so successfully. As many speakers have already said, £7 billion, over 15 years, was invested in this part of the world and thousands of jobs were created. By the early 1990s, Wales was securing 15% of inward investment into the United Kingdom, and that is a fact. The WDA was an internationally recognised brand.

buddsoddiad yng Nghymru, clirio tir diffaith, ac annog twf busnesau lleol. Gwnaeth hynny'n llwyddiannus. Fel y mae llawer o siaradwyr wedi'i ddweud eisoes, buddsoddwyd £7 biliwn dros 15 mlynedd yn y rhan hon o'r byd a chrëwyd miloedd o swyddi. Erbyn dechrau'r 1990au, roedd Cymru yn sicrhau 15 y cant o'r mewnfuddsoddiad i'r Deyrnas Unedig, ac mae honno'n ffaith. Roedd y WDA yn frand a oedd yn cael ei adnabod yn rhyngwladol.

One of its great strengths was its speed in decision making. One witness told the committee that the WDA's benefits included:

Un o'i gryfderau mawr oedd ei gyflymder wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd un tyst wrth y pwyllgor fod manteision y WDA yn cynnwys:

'agility, its velocity, its ability to get things done quickly.'

ei ystwythder, ei gyflymder, a'i allu i gyflawni pethau yn gyflym.

I recognise that the WDA had weaknesses when it was abolished in 2006. However, as the committee states:

Rwy'n cydnabod fod gan y WDA wendidau pan gafodd ei ddiddymu yn 2006. Fodd bynnag, fel y dywed y pwyllgor:

'The abolition of the Welsh Development Agency has reduced Wales's visibility in the global market place.'

Mae dileu Awdurdod Datblygu Cymru wedi gwneud Cymru yn llai amlwg yn y farchnad fyd-eang.

It adds that:

Mae'n ychwanegu:

'Nearly five years on…the WDA brand remains one of the most recognisable of all Welsh brands.'

Bron pum mlynedd yn ddiweddarach...mae brand y WDA yn dal i fod yn un o'r mwyaf adnabyddus o holl frandiau Cymru.

It also states:

Noda hefyd:

'The Welsh Government must urgently consider how existing recognition of the WDA brand can be used to improve and increase Wales's global identity.'

Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried ar fyrder sut y gellir defnyddio'r adnabyddiaeth bresennol o frand y WDA i wella ac i gynyddu hunaniaeth fyd-eang Cymru.

Since its incorporation into the Welsh Government, there has been a decline in Wales's visibility abroad and, as a result, our performance within the United Kingdom has deteriorated. Many witnesses to the Welsh Affairs Select Committee expressed concerns over the way that Wales is promoted overseas. They complained of a lack of focus on marketing Wales overseas by the Welsh Government. Professor Garel Rhys of Cardiff Business School described the current situation as one of 'complete disarray' and said:

Ers iddo gael ei ymgorffori yn Llywodraeth Cymru, mae amlygrwydd Cymru dramor wedi gostwng ac, o ganlyniad, mae ein perfformiad yn y Deyrnas Unedig wedi dirywio. Roedd sawl un a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi mynegi pryder am y ffordd y caiff Cymru ei hyrwyddo dramor. Roeddent yn cwyno am ddiffyg ffocws gan Lywodraeth Cymru o ran marchnata Cymru dramor. Disgrifiodd yr Athro Garel Rhys o Ysgol Fusnes Caerdydd y sefyllfa bresennol fel anhrefn llwyr a dywedodd:

‘Potential investors all too often feel they are being shunted back-and-forth when they try to establish contact with the Welsh administration, and to no real effect.’

Mae darpar fuddsoddwyr yn teimlo'n rhy aml eu bod yn cael eu gwthio'n ôl ac ymlaen wrth geisio sefydlu cyswllt â gweinyddiaeth Cymru, heb gael unrhyw effaith wirioneddol.

Wales needs a dedicated trade promotion agency to promote inward investment and job creation. We need businesspeople to accompany Welsh Ministers on trips abroad regularly to seek opportunities for trade and investment as happens with all other developing nations.

Mae angen asiantaeth benodedig i hyrwyddo masnach ar Gymru er mwyn hybu mewnfuddsoddiad ac i greu swyddi. Mae angen i bobl fusnes fynd ar deithiau tramor yn rheolaidd gyda Gweinidogion Cymru a cheisio chwilio am gyfleoedd ar gyfer masnach a buddsoddiad fel y mae'r holl wledydd datblygol eraill yn ei wneud.

My proposed enterprise Bill would have created an enterprise Wales council to provide clear guidelines and support for business start-ups and foreign investment in Wales. Independent of Government, it would have set clear targets for Wales’s economic development and provided a fast, efficient and streamlined system of business support.

Byddai fy Mil menter arfaethedig wedi creu cyngor menter i Gymru er mwyn darparu cymorth a chanllawiau clir i fusnesau newydd a buddsoddiad o dramor yng Nghymru. Ac yntau'n annibynnol ar y Llywodraeth, byddai ganddo dargedau clir ar gyfer datblygiad economaidd Cymru a byddai'n cynnig system gyflym, effeithlon a syml o ddarparu cymorth i fusnesau.

Presiding Officer, in recent years, Wales has lost its competitiveness with global trading partners. Past experience has shown what we can achieve and there is no reason why we cannot do it again. I call on the Welsh Government to listen to the findings of the Welsh Affairs Select Committee and to take the urgent action required to secure more inward investment and jobs in Wales. From my own experience of travelling abroad at my own expense, I know that Wales does not get a fair deal from our embassies and high commissions abroad, which do not prioritise the promotion of Wales in the way that we need and deserve. In fact, we need an international airport, because most businesses would like to take the shortest amount of time to come here and invest in this part of this world. An airport and a fast train are great solutions for improving investment in Wales if we are to go further, and I am sure that the Minister will take urgent action along those lines.

Lywydd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi colli'r gallu i gystadlu o safbwynt partneriaid masnachu byd-eang. Mae profiad blaenorol wedi dangos ein bod yn gallu cyflawni ac nid oes rheswm pam na allwn wneud hynny eto. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i wrando ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ac i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol ar fyrder er mwyn sicrhau rhagor o fewnfuddsoddiad a swyddi yng Nghymru. O'm profiad fy hun o deithio dramor ar fy liwt fy hun, gwn nad yw Cymru'n cael chwarae teg gan ein llysgenadaethau na'n huwch-gomisiynau tramor. Nid ydynt yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo Cymru yn y ffordd sydd ei angen arnom nac yn y ffordd rydym yn ei haeddu. Mewn gwirionedd, mae angen maes awyr rhyngwladol arnom, oherwydd byddai rhan fwyaf y busnesau am gyrraedd yma yn yr amser lleiaf posibl er mwyn buddsoddi yn y rhan hon o'r byd. Mae maes awyr a thrên cyflym yn atebion gwych ar gyfer gwella buddsoddiad yng Nghymru os ydym am fynd ymhellach, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gweithredu ar fyrder ar y trywydd hwnnw.

**Mark Drakeford:** I want to contribute briefly to this debate and to suggest that the

**Mark Drakeford:** Hoffwn gyfrannu'n fyr at y ddadl hon ac i awgrymu bod y rheini a

framers of the motion have fallen into the same trap that the Welsh Affairs Select Committee had opened up and fallen into before them. The trap is simply this: to confuse and muddy up two issues that are of very different scale and substance. The important issue is that of inward investment and how it can make a more significant contribution to the future of the Welsh economy. The trivialising point is the one that attempts to link all that to the fate of the Welsh Development Agency. It is a trivialising point for at least two main reasons. First, it ignores the conflicting evidence that the Welsh Affairs Committee received about the record and effectiveness of the WDA. On the very first page, the first witness who gave evidence to the Welsh Affairs Committee on that topic, Dr Ball of Swansea University, reflects on 'the most frustrating 10 years' that he ever spent

wnaeth lunio'r cynnig wedi disgyn i'r un fagl a agorwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ac y disgynnodd y Pwyllgor iddo o'u blaenau. Dyma'r fagl yn syml: i ddrysu ac i gymylu dau fater sy'n wahanol iawn o ran graddfa a sylwedd. Y mater pwysig yw mewnfuddsoddiad a sut y gall wneud cyfraniad mwy sylweddol at ddyfodol economi Cymru. Mae ceisio priodoli hyn i gyd i dynged Awdurdod Datblygu Cymru yn bwynt gwamal. Mae'n bwynt gwamal am ddau brif reswm o leiaf. Yn gyntaf, mae'n anwybyddu'r dystiolaeth anghyson a gafodd y Pwyllgor Materion Cymreig am record ac effeithiolrwydd y WDA. Ar y dudalen gyntaf un, mae'r tyst cyntaf a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar y pwnc hwnnw, Dr Ball o Brifysgol Abertawe, yn edrych yn ôl ar y 10 mlynedd mwyaf rhwystredig iddo erioed eu treulio

'working for the Welsh Development Agency.'

yn gweithio i Awdurdod Datblygu Cymru.

He goes on to say that,

Aiff ymlaen i ddweud:

'it did not have appropriate policies; it was poorly managed and led; it did not have clear objectives'.

nid oedd ganddo bolisïau priodol; roedd yn cael ei reoli a'i arwain yn wael; nid oedd ganddo amcanion clir.

Three months later, Sir Roger Jones made some of the same points,

Tri mis yn ddiweddarach, cododd Syr Roger Jones rai pwyntiau tebyg,

'It was an organisation ready for change. There were some serious flaws in the WDA, and I readily admit that.'

Roedd yn sefydliad a oedd yn barod ar gyfer newid. Roedd rhai diffygion difrifol yn y WDA, ac rwy'n barod i gyfaddef hynny.

It is perfectly possible to take different views on the subject, but the evidence, at the very least, is too ambiguous and contested to support the sort of hyperbolic language used in the motion. The second reason why the WDA point is a trivialising one is because it fails to see the wider context within which the abolition of that organisation took place. By the end of the first Assembly term, and following the publication of the Richard report that followed soon after, it was entirely clear that while political devolution had taken place, there was substantial work still to complete in the democratisation of the administrative state here in Wales. In his statement to the Assembly on 14 July 2004, the then First Minister made it clear that the

Mae'n gwbl bosibl cymryd safbwyntiau gwahanol ar y pwnc, ond mae'r dystiolaeth, o leiaf, yn rhy amwys a dadleuol i gefnogi'r math o iaith hyperbolig a ddefnyddir yn y cynnig. Yr ail reswm pam mae'r pwynt am Awdurdod Datblygu Cymru yn un gwamal yw oherwydd nad yw'n gweld y cyd-destun ehangach adeg diddymu'r sefydliad hwnnw. Erbyn diwedd tymor cyntaf y Cynulliad, ac ar ôl cyhoeddi adroddiad Richard yn fuan wedyn, roedd yn glir iawn, er gwaethaf y datganoli gwleidyddol, fod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran democtrateiddio'r wladwriaeth weinyddol yma yng Nghymru. Yn ei ddatganiad i'r Cynulliad ar 14 Gorffennaf 2004, eglurodd y Prif Weinidog ar y pryd mai'r prif achos a'r cymhelliad

primary and compelling case for reform was to bring the quangocracy in Wales within the new patterns of accountability that this institution represents.

mwyaf dros ddiwygio oedd i sicrhau bod y cwangos yng Nghymru yn gorfod dilyn yr un patrymau o atebolrwydd a gynrychiolir gan y sefydliad hwn.

Lloyd-George said of the then Conservative Prime Minister, Neville Chamberlain, that he looked at politics through the wrong end of a municipal drainpipe. This motion looks at economics through the wrong end of the democratic telescope. I am pleased to repeat what I said in my evidence to the Welsh Affairs Select Committee that, of course, the future of inward investment to Wales is not a matter that lies solely and entirely in the hands of the Welsh Government. There are many other partners that contribute to that. However, the Minister who is responsible for economic development matters and for the responsibilities that were previously discharged through the WDA reports to the Assembly. That is her primary democratic forum in which to be held to account for those responsibilities. The future of inward investment is very important, but we will not shape that future by advocating a return to ways of doing things long left behind by the advent of devolution.

Dywedodd Lloyd-George am Neville Chamberlain, y Prif Weinidog Ceidwadol ar y pryd, ei fod yn edrych ar wleidyddiaeth drwy ben anghywir peipen ddraen drefol. Mae'r cynnig hwn yn edrych ar economeg drwy ben anghywir y telesgop democrataidd. Rwy'n falch o gael ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, sef, wrth gwrs, nad yw dyfodol mewnfuddsoddiad i Gymru yn fater sydd yn llwyr nac yn gyfan gwbl yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae llawer o bartneriaid eraill yn cyfrannu at hynny. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion datblygu economaidd, ac am y cyfrifoldebau a oedd yn cael eu cyflawni gan y WDA yn flaenorol, yn adrodd i'r Cynulliad. Dyna yw ei phrif fforwm democrataidd sy'n ei dal i gyfrif am y cyfrifoldebau hynny. Mae dyfodol mewnfuddsoddiad yn bwysig iawn, ond ni fyddwn yn llunio'r dyfodol hwnnw drwy ddadlau dros ddychwelyd i hen ffyrdd o weithredu cyn dyddiau datganoli.

**Kenneth Skates:** I welcome today’s debate, coming in the wake of the recent reports that we have been discussing. It is a fact that many of the reports looking at inward investment during the 1980s and 1990s rest on a central argument that Wales performed well in that period, attracting investment of around £7 billion between 1980 and 1995. Wales, the reports argue, punched well above its weight, but, beside the fact that I suspect that many of my constituents would not look back at the late 1980s and 1990s as a golden era, I would also suggest that that age of high-profile inward investment projects is not the model that we should be looking to return to as we build an economy for the future.

**Kenneth Skates:** Croesawaf ddadl heddiw, sy'n codi yn sgil yr adroddiadau diweddar rydym wedi bod yn eu trafod. Mae'n ffaith bod llawer o'r adroddiadau sy'n edrych ar fewnfuddsoddi yn ystod y 1980au a'r 1990au wedi'u seilio ar ddadl ganolog fod Cymru wedi perfformio'n dda yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ddenu buddsoddiad gwerth tua £7 biliwn rhwng 1980 a 1995. Mae'r adroddiadau'n dadlau bod Cymru wedi perfformio'n llawer gwell nag y dylai, ond, er gwaethaf y ffaith fy mod yn tybio na fyddai llawer o'm hetholwyr yn edrych yn ôl ar ddiwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au fel oes aur, byddwn hefyd yn awgrymu nad y model ar gyfer yr oes honno o brosiectau mewnfuddsoddiad proffil-uchel yw'r un y dylem geisio dychwelyd ato wrth inni adeiladu economi i’r dyfodol.

That form of instant-hit economic policy came at the expense of more fundamental reform. Not enough was done at the time to reshape the economy radically, and our manufacturing base in particular. While providing a short-term boost, it failed to

Daeth y ffurf honno o bolisi economaidd effaith-ar-unwaith ar draul diwygio mwy sylfaenol. Ni wnaethpwyd digon ar y pryd i ail-lunio'r economi'n radical, a'n sylfaen gweithgynhyrchu'n benodol. Er ei fod yn rhoi hwb tymor byr, methodd â darparu’r model

provide the rooted and long-term model of economic development that we needed then and which we still need today. So, forgive me for not partaking in the nostalgic, blue-tinted trip down memory lane: I simply do not believe that we should we reconstitute the former Welsh Development Agency. Our new model of attracting inward investment should be designed more to encourage investment for the long term than to pay large corporations significant subsidies in the good times, only to become the first margin on the balance sheet to be cut back when times get tough. Many of my constituents paid the price for that mistake in the 1980s; it is not a mistake that we need to replicate today.

hirdymor a diysgog o ddatblygu economaidd a oedd ei angen arnom bryd hynny ac sydd ei angen arnom o hyd heddiw. Felly, maddewch imi am beidio ag ymgolli yn y daith hiraethus, yn hel atgofion ac edrych yn ôl drwy fy sbectol las: yn syml, ni chredaf y dylem ailsefydlu'r hen Awdurdod Datblygu Cymru. Dylai ein model newydd o ddenu mewnfuddsoddiad gael ei lunio gan ganolbwyntio fwy ar annog buddsoddiad yn yr hirdymor yn hytrach na thalu cymorthdaliadau sylweddol i gorfforaethau mawr yn yr amseroedd da, ac yna sylweddoli mai ni yw'r llinell gyntaf yn y fantolen sy'n cael ei thorri pan fydd pethau'n mynd yn anodd. Mae llawer o fy etholwyr wedi talu'r pris am y camgymeriad hwnnw yn y 1980au; nid yw'n gamgymeriad sydd angen inni ei ailadrodd heddiw.

However, I do accept the view that when it comes to the Welsh economy, we are in difficult times. Devolution gives us the opportunity to put that right. A proactive public sector that is driven by a progressive Welsh Government can be a vital component in encouraging and promoting indigenous investment and inward investment, but the one without the other simply will not work.

Fodd bynnag, wrth ystyried economi Cymru, derbyniaf y farn ein bod mewn cyfnod anodd. Mae datganoli yn rhoi cyfle inni unioni hynny. Gall sector cyhoeddus rhagweithiol sy'n cael ei yrru gan Lywodraeth Cymru flaengar fod yn elfen hanfodol wrth annog a hyrwyddo buddsoddiad cynhenid a mewnfuddsoddiad. Ond ni fydd un yn gweithio heb y llall.

Devolution offers the opportunity to integrate skills, employment, economic development and regeneration policies far more closely than can be achieved elsewhere and create the flexible, specialised workforce that we need to succeed. The key to economic competitiveness is in developing the local capacity that we need to remain competitive in a rapidly changing world. Our ability to respond may be limited by the more persistent structural weaknesses in the economy that we must now address. Just this week, the Sustrans report highlighted that more than 1 million people in Wales struggle to afford the costs of running a car, and that the lack of a public transport alternative is holding back the economy, leaving many people—important human capital to our businesses—cut off from jobs in the wider economy.

Mae datganoli'n cynnig cyfle i integreiddio polisïau sgiliau, cyflogaeth, datblygu economaidd ac adfywio yn llawer agosach nag y gellir ei wneud mewn mannau eraill, gan greu'r gweithlu hyblyg, arbenigol sydd ei angen arnom i lwyddo. Mae'r allwedd i gystadleurwydd economaidd yn golygu datblygu'r capasiti lleol sydd ei angen arnom i barhau'n gystadleuol mewn byd sy'n newid yn gyflym. Mae'n bosibl y bydd ein gallu i ymateb yn cael ei gyfyngu gan y gwendidau strwythurol mwy parhaol yn yr economi sy'n rhaid inni roi sylw iddynt yn awr. Yr wythnos hon, mae adroddiad Sustrans yn tynnu sylw at y ffaith bod mwy na 1 miliwn o bobl yng Nghymru yn cael trafferth fforddio costau rhedeg car, ac mae'r diffyg dewis arall o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn dal yr economi yn ôl, sy’n golygu bod llawer o bobl—sy'n gyfalaf dynol pwysig i'n busnesau—wedi’u hynysu o swyddi yn yr economi ehangach.

Ultimately, a low skills base, inadequacies in the infrastructure and economic inactivity are the main barriers to attracting inward

Yn y pen draw, sylfaen sgiliau isel, diffygion yn y seilwaith ac anweithgarwch economaidd yw'r prif rwystrau rhag denu

investment, not the absence of the WDA. Wales has a higher proportion of adults with no qualifications than the UK as a whole.

mewnfuddsoddiad, ac nid absenoldeb y WDA. Mae gan Gymru gyfran uwch o oedolion heb gymwysterau na'r DU yn gyffredinol.

**Nick Ramsay:** I note that during your entire speech, Ken, which I have listened to carefully, you have not mentioned the role of International Business Wales once. Do you at least accept that the WDA had a brand image for Wales abroad, and that we no longer have that?

**Nick Ramsay:** Drwy gydol eich araith gyfan, Ken, ac rwyf wedi gwrando'n astud arni, sylwais na wnaethoch sôn am swyddogaeth Busnes Rhyngwladol Cymru unwaith. Onid ydych o leiaf yn derbyn fod gan y WDA ddelwedd brand ar gyfer Cymru dramor, ac nad oes gennym hwnnw bellach?

**Kenneth Skates:** Brand recognition and respect for a brand are two very different issues, and given the public outcry against the quango when we abolished it, I am not convinced that it had the respect that you suggest it had.

**Kenneth Skates:** Mae adnabyddiaeth o frand a pharch tuag ato yn ddau beth gwahanol iawn, ac o gofio'r ymateb chwyrn yn erbyn y cwango pan gafodd ei ddirwyn i ben, nid wyf wedi fy argyhoeddi fod ganddo'r parch a awgrymwch.

What we need to focus on is the fact that many adults in Wales are struggling with qualifications. This is a big problem that needs addressing; it is bigger than the one set out by the opposition parties today. The investment that came into Wales in the 1980s and 1990s, as we have heard, failed to address this issue, as generous subsidies were not attached to conditions that could and should have facilitated the creation of a value-added economy. Actually, it is an indictment of the policies at that time that the then UK Tory Government stopped counting the number of apprenticeships that were being created. The days when financial carrots were the main attraction for investors are long gone. We need instead to compete on the basis of growing our skills and expanding our knowledge economy. That is why I welcome the 4,000 jobs being created through Jobs Growth Wales, the establishment of enterprise zones, the young recruits initiative, the doubling of the economic growth fund, the £40 million SME fund, reform of further and higher education to meet our future economic needs, and proposals for an inward investment office in London.

Mae angen inni ganolbwyntio ar y ffaith bod llawer o oedolion yng Nghymru yn cael trafferth gyda chymwysterau. Mae hon yn broblem fawr sydd angen rhoi sylw iddi; mae'n fwy o broblem na'r un a amlinellir gan y gwrthbleidiau heddiw. Fel yr ydym wedi clywed, methodd y buddsoddiad a ddaeth i Gymru yn y 1980au a'r 1990au â rhoi sylw i'r mater hwn, oherwydd na roddwyd amodau ynghlwm wrth y cymorthdaliadau hael, a allent ac y dylent fod wedi hwyluso i greu economi sy'n ychwanegu gwerth. A dweud y gwir, mae'n feirniadaeth o'r polisïau bryd hynny fod Llywodraeth Dorïaidd y DU ar y pryd wedi rhoi'r gorau i gyfrif nifer y prentisiaethau a oedd yn cael eu creu. Mae dyddiau'r moron ariannol fel y prif atyniad ar gyfer buddsoddwyr wedi hen fynd. Yn hytrach, mae angen inni gystadlu ar y sail ein bod yn tyfu ein sgiliau ac yn ehangu ein heconomi wybodaeth. Dyna pam fy mod yn croesawu'r 4,000 o swyddi sy'n cael eu creu drwy Twf Swyddi Cymru, sefydlu ardaloedd menter, y cynllun recriwtiaid newydd, dyblu'r gronfa twf economaidd, y gronfa gwerth £40 miliwn i fusnesau bach a chanolig, diwygio addysg bellach ac addysg uwch i ddiwallu ein hanghenion economaidd yn y dyfodol, a'r cynigion ar gyfer swyddfa mewnfuddsoddiad yn Llundain.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I have obviously listened to the concerns expressed today about the relative position of

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Yn amlwg, rwyf wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd heddiw am safle cymharol ein

our inward investment performance, and I agree that Wales must and should do better.

perfformiad o ran mewnfuddsoddiad, ac rwy'n cytuno bod rhaid i Gymru wneud yn well ac y dylai wneud yn well.

Turning first to the amendments, in relation to amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, I think that Alun Ffred's comments in respect of that amendment and amendment 2 indicate where we diverge from the motion. Using all the policy levers at our disposal to make Wales an even more attractive place for businesses to invest in is a fundamental issue, which Alun Ffred and Llyr Huws Gruffydd alluded to. As we are continuing in the direction set by the economic renewal programme, good business conditions are not simply a result of direct financial support to businesses; they rely on a range of other factors, including infrastructure and skills. That goes to the heart of the point made by Ken Skates. It is also about procurement, regulation and planning, and that is what we will try to continue to deliver. Amendment 3, moved by Eluned Parrott, is very important, but it is also important that we promote Wales and the Wales brand. That is a very important issue as well. So, we will be supporting all of the amendments on this particular proposal.

Gan droi yn gyntaf at y gwelliannau. O ran gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, credaf fod sylwadau Alun Ffred mewn cysylltiad â'r gwelliant hwnnw a gwelliant 2 yn dangos lle rydym yn crwydro o'r cynnig. Mae defnyddio'r holl ysgogiadau polisi sydd ar gael inni er mwyn gwneud Cymru yn lle hyd yn oed yn fwy deniadol i fusnesau fuddsoddi ynddo yn fater sylfaenol, a chyfeiriodd Alun Ffred a Llyr Huws Gruffydd at hyn. Wrth inni ddilyn y trywydd a bennwyd gan y rhaglen adnewyddu'r economi, nid yw amodau busnes da yn deillio'n syml o gefnogaeth ariannol uniongyrchol i fusnesau; maent yn dibynnu ar amrediad o ffactorau eraill, gan gynnwys seilwaith a sgiliau. Mae hynny'n mynd at galon y pwynt a wnaed gan Ken Skates. Mae hefyd yn ymwneud â chaffael, rheoleiddio a chynllunio, a dyna beth y byddwn yn ceisio parhau i ddarparu. Mae gwelliant 3, a gynigwyd gan Eluned Parrott, yn bwysig iawn, ond mae'n bwysig ein bod hefyd yn hyrwyddo Cymru a brand Cymru. Mae hwnnw'n fater pwysig iawn hefyd. Felly, byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau i'r cynnig penodol hwn.

4.00 p.m.

Turning to Nick Ramsay, I enjoyed his contribution rather more than the wording of the proposal. In many areas, he was talking about issues about which there is general concern. These issues include the branding of Wales, how we deliver Wales abroad, how we deal with investment and what we have to offer. I think that that is an important agenda.

Gan droi at Nick Ramsay, mwynheais ei gyfraniad ychydig yn fwy na geiriad y cynnig. Mewn sawl maes, roedd yn siarad am faterion y mae pryder cyffredinol yn eu cylch. Mae'r materion hyn yn cynnwys brandio Cymru, sut yr ydym yn darparu Cymru dramor, sut yr ydym yn delio â buddsoddiad a'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Credaf fod hon yn agenda bwysig.

We also have to recognise in the context of this discussion that, over a number of years, the global marketplace has changed rapidly and radically. In some respects, Wales was not fleet enough of foot to keep pace with those developments and fundamental change was needed. The fundamental change that we adopted in the last administration was the economic renewal programme, which recognised that we had to be fleet of foot and that we had to change the direction of travel. It recognised something that, I hope, we can all now agree upon: that the days of inward

Rhaid inni hefyd gydnabod yng nghyd-destun y drafodaeth hon bod y farchnad fyd-eang wedi newid yn gyflym ac yn radical dros nifer o flynyddoedd. Mewn rhai ffyrdd, nid oedd Cymru yn ddigon ystwyth i ddal i fyny â'r datblygiadau hynny ac roedd angen newid sylfaenol. Y newid sylfaenol a fabwysiadwyd gennym yn y weinyddiaeth ddiwethaf oedd rhaglen adfywio'r economi, a oedd yn cydnabod bod yn rhaid inni fod yn fwy ystwyth a bod rhaid inni newid ein cyfeiriad. Roedd yn cydnabod rhywbeth y gallwn i gyd yn awr, rwy'n gobeithio, gytuno arno: bod

investment based on low wages and lost cost operations are over. It is essential, in trying to attract investment now to Wales, that we look to the high end of the market, to companies basing their European headquarters here and to research and development.

dyddiau mewnfuddsoddiad yn seiliedig ar gyflogau isel a gweithredu ar gostau isel drosodd. Mae'n hanfodol, wrth geisio denu buddsoddiad i Gymru yn awr, ein bod yn edrych ar ben uchaf y farchnad, at gwmnïau sy'n lleoli eu pencadlysoedd Ewropeaidd yma ac at ymchwil a datblygu.

If we are serious about improving the Welsh economy, we need to assist companies, indigenous and inward-investors, in a more comprehensive and coherent way. There has to be a balance. I think that Eluned Parrott spoke about the balance that was required. It is a difficult balance to strike, but if you have the right terms and are seen as being welcoming to business, I think that you can secure the right balance. We need to ensure that we get the best help to find the right workforce and locations. We need to get ideas developed in our universities; we need that close link. We can also, of course, benefit from a modern transport and communications infrastructure. I have to say that all businesses agree that electrification to Cardiff is welcome, but going on to Swansea will also be essential, because we cannot cut-off west Wales from the rest of the country. We need the electrification of that line to Swansea. Securing ongoing and responsive support from a department that understands businesses and works hand in hand with them is also important.

Os ydym o ddifrif am wella economi Cymru, mae angen inni helpu cwmnïau, y rhai cynhenid a mewnfuddsoddwyr, mewn ffordd fwy cynhwysfawr a chydlynol. Rhaid cael cydbwysedd. Credaf fod Eluned Parrott wedi sôn am y cydbwysedd sydd ei angen. Mae'n anodd cael y cydbwysedd, ond os oes gennych y telerau cywir ac os cewch eich gweld fel eich bod yn barod eich croeso i fusnesau, credaf y gallwch sicrhau'r cydbwysedd cywir. Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cael y cymorth gorau i ddarganfod y gweithlu a'r lleoliadau cywir. Mae angen inni ddatblygu syniadau yn ein prifysgolion; mae angen y cysylltiad agos hwnnw arnom. Gallwn hefyd, wrth gwrs, elwa o seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu modern. Rhaid imi ddweud fod pob busnes yn cytuno bod trydaneiddio i Gaerdydd i'w groesawu, ond bydd mynd ymlaen i Abertawe hefyd yn hanfodol, oherwydd ni allwn ddatgysylltu gorllewin Cymru o weddill y wlad. Mae arnom angen trydaneiddio'r rheilffordd honno i Abertawe. Mae sicrhau cefnogaeth barhaus ac ymatebol gan adran sy'n deall busnesau ac sy'n gweithio law yn llaw â nhw hefyd yn bwysig.

I was interested in Mohammad Asghar's criticism of the Foreign and Commonwealth Office in terms of how consuls and ambassadors deal with matters, and I will be taking that point forward as a result of this debate. No-one could have foreseen the depth and length of the downturn, and the competition for mobile investment remains acute. We need to work harder and smarter, with more targeted resources and a more flexible and responsive approach. It must be an approach that supports a balanced economy, not so easily exposed to the pressures of global competition from lower-cost countries. That is why we have to concentrate on indigenous SMEs and why we have to look at microbusinesses. Sometimes, you have to protect yourself with businesses that will naturally emerge and survive

Roedd gen i ddiddordeb ym meirniadaeth Mohammad Asghar o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad o ran sut y mae cenhadon a llysgenhadon yn ymdrin â materion, a byddaf yn rhoi sylw i'r pwynt hwnnw o ganlyniad i'r ddadl hon. Ni fyddai unrhyw un wedi gallu rhagweld dyfnder a hyd y dirywiad, ac mae'r gystadleuaeth am fuddsoddiad symudol yn dal yn enbyd. Mae angen inni weithio'n galetach ac yn fwy craff, gyda mwy o adnoddau wedi'u targedu ac agwedd fwy hyblyg ac ymatebol. Rhaid iddo fod yn agwedd sy'n cefnogi economi gytbwys, nad yw mor agored i bwysau cystadleuaeth fyd-eang o wledydd lle mae costau'n is. Dyna pam mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig cynhenid a pham mae'n rhaid i ni edrych ar ficrofusnesau. Weithiau, rhaid ichi ddiogelu eich hun gyda

difficult economic times. That is why we are delivering flexible financial assistance, investment in infrastructure, support for twenty-first century communications and an increased focus on research and development and innovation.

busnesau a fydd yn codi’n naturiol ac yn goroesi cyfnod economaidd anodd. Dyna pam ein bod yn darparu cymorth ariannol hyblyg, yn buddsoddi mewn seilwaith, yn rhoi cymorth ar gyfer dulliau cyfathrebu ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac yn rhoi ffocws cynyddol ar ymchwil a datblygu ac arloesi.

I have established a major projects team to lead on major inward investment projects. It is currently working on a number of highly promising leads that are, of course, commercially in confidence. I will shortly be announcing details of an extensive overseas trade programme for the next financial year. This will provide businesses with the right support and investment to boost exports in our key markets. I was taken by Eluned Parrott’s point about the stand that we use. I hope that the Chamber, in recognising her point, will also recognise that it will be a question of how we resource how we look to the world, sending more people on trade missions, sending delegations and taking the appropriate businesspeople with us as part of Team Wales. Therefore, I trust that I will have your support when I have financial groans about these matters and that I will not face any questions on them.

Rwyf wedi sefydlu tîm prosiectau mawr i arwain ar brosiectau mewnfuddsoddiad mawr. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar nifer o gynigion cychwynnol hynod addawol sydd, wrth gwrs, yn fasnachol gyfrinachol. Cyn hir byddaf yn cyhoeddi manylion rhaglen eang ar fasnach dramor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn rhoi'r cymorth a'r buddsoddiad cywir i fusnesau er mwyn rhoi hwb i allforion yn ein marchnadoedd allweddol. Roedd pwynt Eluned Parrott am y stondin a ddefnyddiwn wedi taro nodyn. Gobeithiaf y bydd y Siambr, wrth gydnabod ei phwynt, hefyd yn cydnabod y bydd yn fater o sut yr ydym yn dyrannu adnoddau ar gyfer sut y mae'r byd yn ein gweld, gan anfon mwy o bobl ar deithiau masnach, anfon dirprwyaethau a gofyn i'r bobl fusnes briodol deithio gyda ni fel rhan o Dîm Cymru. Felly, hyderaf y caf eich cefnogaeth pan fyddaf yn clywed yr ochneidio ariannol am y materion hyn ac na fyddaf yn wynebu unrhyw gwestiynau arnynt.

**Andrew R.T. Davies:** Would you agree that, with this expansion of trade missions that you are outlining this afternoon, one of the key things in attracting businesses is good transport links into Wales? One of the key links to the north American market would be an Atlantic air link to New York, for a start.

**Andrew R.T. Davies:** A fyddech yn cytuno, gydag ehangu'r teithiau masnach rydych yn eu hamlinellu y prynhawn yma, mai un o'r pethau allweddol wrth ddenu busnesau yw cysylltiadau trafnidiaeth da i Gymru? I ddechrau, un o'r cysylltiadau allweddol i farchnad gogledd America fyddai cyswllt awyren dros yr Iwerydd i Efrog Newydd.

**Edwina Hart:** I am very much with you on issues surrounding the airport and the importance of links; we are working hard on those issues currently.

**Edwina Hart:** Rwy'n cytuno â chi'n llwyr ynghylch materion yn ymwneud â'r maes awyr a phwysigrwydd cysylltiadau; rydym ar hyn o bryd yn gweithio'n galed ar y materion hynny.

We have also had the positive announcement of Conduit creating a further 600 jobs in Wales. Our sector teams have drawn upon the advice of the sector panels. I think that I need to stress that, in the main, those on the sector panels are businesspeople who understand the market and what you need to do to attract

Rydym hefyd wedi cael y cyhoeddiad cadarnhaol bod Conduit yn creu 600 o swyddi yng Nghymru. Mae ein timau sector wedi manteisio ar gyngor y paneli sector. Credaf fod angen imi bwysleisio mai pobl fusnes, ar y cyfan, yw'r rheini sy'n eistedd ar y paneli ac maent yn deall y farchnad a'r hyn

investment. We have also recognised the importance of the London market, where opinions, investments and decisions are made. We have to strengthen our position in London, with Wales being identified in the same way as Scotland and Ireland, because that is where money comes in.

sydd angen ichi ei wneud i ddenu buddsoddiad. Rydym hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd marchnad Llundain, lle caiff safbwyntiau, buddsoddiadau a phenderfyniadau eu gwneud. Rhaid inni gryfhau ein safle yn Llundain, gyda Chymru yn cael ei hadnabod yr un fath â'r Alban ac Iwerddon, oherwydd dyna le mae'r arian yn dod i mewn.

Also, where appropriate, we are working with the UK Government and we have excellent links with UKTI. As for Byron Davies’s comments about relationships, I do not recognise his point. Lord Green has been to Wales and will have a further meeting with me shortly. In fact, the First Minister and I have agreed to extend an invitation to him to address the Council for Economic Renewal about what is going on with UKTI, and what we are doing. It is a team approach, so I do not recognise Byron Davies’s comments at all. Last week, a group of 20 UKTI inward investment officials from countries including Australia, Japan, China and Brazil visited Wales so that we could ensure that the work that we were doing in those areas could come together. This is about the activities of the Welsh Government complementing those of the UK Government. All these activities are part of a coherent and credible offer to business.

Hefyd, lle bo'n briodol, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac mae gennym gysylltiadau ardderchog gyda Masnach a Buddsoddi y DU. O ran sylwadau Byron Davies am gysylltiadau, nid wyf yn cydnabod ei bwynt. Mae'r Arglwydd Green wedi bod yng Nghymru a byddwn yn cael cyfarfod pellach cyn bo hir. Yn wir, mae'r Prif Weinidog a finnau wedi cytuno i estyn gwahoddiad iddo annerch Cyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch beth sy'n digwydd gyda Masnach a Buddsoddi y DU, a'r hyn rydym ni yn ei wneud. Rydym am weithio fel tîm, felly nid wyf yn cydnabod sylwadau Byron Davies o gwbl. Yr wythnos diwethaf, daeth grŵp o 20 o swyddogion mewnfuddsoddiad Masnach a Buddsoddi y DU i Gymru o wledydd yn cynnwys Awstralia, Japan, Tsieina a Brasil er mwyn inni sicrhau bod y gwaith a wnawn yn y meysydd hynny'n gallu dod at ei gilydd. Diben hyn yw sicrhau bod gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn ategu gweithgareddau Llywodraeth y DU. Mae'r holl weithgareddau hyn yn rhan o gynnig cydlynol a chredadwy i fusnes.

The issue of a balanced economy is key. A lot of people refer to what happened in the 1980s and 1990s, but we need to recognise that we need a diverse and balanced economy and we have to have a range of companies coming into Wales. It is that balance that will be our greatest strength. I do not want to revisit history. Indeed, after Mark Drakeford’s contribution today, I thought that I would not actually have to say anything in the debate, because he was quite right about devolution. We have political devolution, but you then want to control administrative devolution, which is also important.

Mae economi gytbwys yn allweddol. Mae llawer o bobl yn cyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd yn y 1980au a'r 1990au, ond mae angen inni gydnabod bod arnom angen economi amrywiol a chytbwys ac mae'n rhaid i ni gael ystod o gwmnïau yn dod i mewn i Gymru. Y cydbwysedd hwnnw fydd ein cryfder mwyaf. Nid wyf am ail-fyw'r gorffennol. Yn wir, ar ôl cyfraniad Mark Drakeford heddiw, roeddwn yn meddwl na fyddai'n rhaid i mi ddweud unrhyw beth yn y ddadl, oherwydd ei fod yn llygad ei le ynghylch datganoli. Mae gennym ddatganoli gwleidyddol, ond yna rydych am reoli datganoli gweinyddol, sydd hefyd yn bwysig.

We have to get our act together, and at the end of the day, that is what we are doing.

Rhaid i ni roi trefn ar bethau, ac yn y pen draw, dyna beth rydym yn ei wneud. Dyna

That is why I have announced that the Wales economic growth fund is to double in size, and tomorrow, on St David's Day, I will be taking the message to the City of London that Wales is open for business by hosting an event. We are out there for business, and we are seen to be out there for business. Some of you may wish to revisit the past; I particularly liked the comment about blue-tinted spectacles, but I am wearing red ones.

pam fy mod wedi cyhoeddi y bydd cronfa twf economaidd Cymru yn dyblu o ran maint, ac yfory, ar Ddydd Gŵyl Dewi, byddaf yn cyfleu'r neges i Ddinas Llundain bod Cymru yn agored i fusnes drwy gynnal digwyddiad. Rydym yno ar gyfer busnes, ac rydym yn cael ein gweld ein bod yno ar gyfer busnes. Efallai y bydd rhai ohonoch yn dymuno camu'n ôl i'r gorffennol; roeddwn yn hoff iawn o'r sylw am edrych drwy sbectol las, ond rwyf i yn gwisgo rhai coch.

**Antoinette Sandbach:** I am delighted to be able to sum up in this debate. I am also delighted with the Minister's admission that we need to get our act together. We have had 13 years of devolution. Mark Drakeford is right to say that we cannot look back at the WDA, but there is plenty of accountability to this Chamber for the policies of the last 13 years. It is the absence of marketing and branding identified by Nick Ramsay in his opening contribution that is key. We have to have a consistent and clear message. He spoke about a dialogue, or a theme, that Wales is open for business, and that message has to be sold around the world. I think that everybody recognised from Eluned Parrott's contribution that the description of that trade stand in New York was a sign of the lamentable failure to do that so far.

**Antoinette Sandbach:** Mae'n bleser gennyf grynhoi'r ddadl hon. Mae'n bleser hefyd clywed y Gweinidog yn cyfaddef bod angen inni roi trefn ar bethau. Rydym wedi cael 13 mlynedd o ddatganoli. Mae Mark Drakeford yn llygad ei le wrth ddweud na allwn edrych yn ôl ar y WDA, ond mae digon o atebolrwydd yn y Siambr hon dros bolisïau'r 13 mlynedd diwethaf. Yr hyn sy'n allweddol yw'r diffyg marchnata a brandio a nodwyd gan Nick Ramsay yn ei gyfraniad agoriadol. Rhaid inni gael neges gyson a chlir. Soniodd am ddeialog, neu thema, fod Cymru yn agored i fusnes, a rhaid gwerthu'r neges honno bedwar ban byd. Credaf fod pawb yn cydnabod o gyfraniad Eluned Parrott fod y disgrifiad o'r stondin fasnach honno yn Efrog Newydd yn arwydd o'r methiant truenus i wneud hynny hyd yn hyn.

**Edwina Hart:** Can we count on the support of the Welsh Conservatives in this Chamber for any arrangements to enhance the facilities that we have abroad, the level of trade missions, and the greater expenditure that would be required in those key areas?

**Edwina Hart:** A allwn ddibynnu ar gefnogaeth Ceidwadwyr Cymru yn y Siambr hon ar gyfer unrhyw drefniadau i wella'r cyfleusterau sydd gennym dramor, lefel y teithiau masnach, a'r gwariant uwch a fyddai'n ofynnol yn y meysydd allweddol hynny?

**Antoinette Sandbach:** Certainly, the Welsh Conservatives would support much closer working with UKTI.

**Antoinette Sandbach:** Yn sicr, byddai Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi gweithio llawer agosach gyda Masnach a Buddsoddi y DU.

I will move on to the point made by Byron Davies, about which there are concerns. This Minister for business needs to recognise that, when she is making statements in the Chamber about business in Wales, they are looked at by markets throughout the world, including London. Ministers need to realise that their statements affect finance, the approach of business to Wales, and the way that Wales is thought of. In the committee

Symudaf ymlaen at y pwynt a wnaethpwyd gan Byron Davies, sydd wedi codi pryderon. Mae angen i'r Gweinidog busnes hwn gydnabod, pan fydd yn gwneud datganiadau yn y Siambr am fusnes yng Nghymru, bod marchnadoedd ledled y byd, gan gynnwys Llundain, yn edrych arnynt. Mae angen i Weinidogion sylweddoli bod eu datganiadau yn effeithio ar gyllid, agwedd busnesau tuag at Gymru, a'r ffordd o feddwl am Gymru. Yn

that I have been sitting on, we have heard that the reality is that there has been an inconsistent message going out on energy, and that has not attracted inward investment into Wales. There has been other evidence on other committees—

y pwyllgor rwyf wedi bod yn eistedd ynddo, rydym wedi clywed mai'r realiti yw bod neges anghyson yn cael ei chyfleu ar ynni, ac nad yw hynny wedi denu mewnfuddsoddiad i Gymru. Cafwyd tystiolaeth arall mewn pwyllgorau eraill—

**Julie James** *rose—*

**Julie James** *a gododd—*

**Antoinette Sandbach:** I only have four and a half minutes, so I would like to carry on.

**Antoinette Sandbach:** Pedair munud a hanner yn unig sydd gennyf, felly hoffwn barhau.

As Eluned Parrott said, it is a critical role. There needs to be a balance between inward investment and indigenous business. I was interested to hear the contributions of Ken Skates, Alun Ffred Jones and Llyr Huws Gruffydd in relation to apparent failures of the WDA. Look at what has happened in north-east Wales, and Flintshire in particular, with its enterprise zone—many of the businesses that have stayed there for the long term are manufacturing businesses.

Fel y dywedodd Eluned Parrott, mae'n swyddogaeth hanfodol. Mae angen cael cydbwysedd rhwng mewnfuddsoddiad a busnesau cynhenid. Roedd cyfraniadau Ken Skates, Alun Ffred Jones a Llyr Huws Gruffydd yn ddiddorol parthed methiannau ymddangosiadol y WDA. Edrychwch ar yr hyn a ddigwyddodd yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ac yn Sir y Fflint yn benodol, gyda'i ardaloedd menter—mae llawer o'r busnesau sydd wedi aros yno yn yr hirdymor yn fusnesau gweithgynhyrchu.

Mark Isherwood also highlighted the decline in visibility and the impact of the third round of European funding. I also want to mention Julie Morgan's contribution, which dealt with research. There is clear evidence from Europe that Wales is not attracting Horizon 2020 funding, and that we have much greater opportunity from that funding. I have no doubt that that is within the knowledge of Welsh Members of Parliament, as it is within the knowledge of this Chamber.

Tynnodd Mark Isherwood sylw hefyd at y gostyngiad mewn amlygrwydd ac at effaith y trydydd cylch o arian Ewropeaidd. Hoffwn hefyd sôn am gyfraniad Julie Morgan, a oedd yn delio ag ymchwil. Mae tystiolaeth glir o Ewrop nad yw Cymru yn denu cyllid Horizon 2020, a bod gennym lawer mwy o gyfle o'r cyllid hwnnw. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth fod Aelodau Seneddol Cymru yn gwybod hynny, gan fod y Siambr hon yn gwybod hynny.

I am delighted to hear that the Minister is working on the issue of the international airport, given that it is a key matter, which has been raised by both Mohammad Asghar and Andrew R.T. Davies on a number of occasions. Therefore, that news is welcome.

Roeddwn yn falch iawn o glywed bod y Gweinidog yn gweithio ar fater maes awyr rhyngwladol, o gofio ei fod yn fater allweddol, ac mae Mohammad Asghar ac Andrew R.T. Davies, ill dau, wedi codi'r mater hwn droeon. Felly, mae hynny'n newyddion i'w groesawu.

The message is that there must be a proactive Welsh Government that has a consistent message, and an arm's-length organisation that learns from the failures of the WDA, but takes forward the consistent branding of Wales. We are not saying that we should go back to the past, but look to the future and create that arm's-length organisation, which should be given the space and ability to fly—

Y neges yw bod rhaid cael Llywodraeth Cymru ragweithiol sy'n cyfleu neges gyson, yn ogystal â sefydliad hyd-braich sy'n dysgu o fethiannau Awdurdod Datblygu Cymru, ond sy'n datblygu brand cyson o Gymru. Nid ydym yn dweud y dylem fynd yn ôl i'r gorffennol, ond yn hytrach edrych tua'r dyfodol a chreu'r corff hyd-braich hwnnw. Dylai gael y lle a'r gallu i hedfan—gobeithio

hopefully out of Cardiff Airport via a link to New York. [*Laughter.*]

o Faes Awyr Caerdydd i Efrog Newydd. *[Chwerthin.]*

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Is there any objection? I see that there is, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig heb welliannau. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Rhodri Glyn Thomas) i'r Gadair am 4.11 p.m.*
*The Temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas) took the Chair at 4.11 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Gwasanaethau Cadair Olwyn
### Wheelchair Services

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Peter Black.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendments 1 and 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4925 William Graham*

*Motion NDM4925 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn gresynu wrth adroddiadau diweddar am oedi mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau cadeiriau olwyn ac yn cydnabod yr effaith negyddol y gall y rhain eu cael ar ansawdd bywyd y rheiny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn;*

*1. Regrets recent reports of service delays for wheelchair service users and recognises the negative impact these can have on the quality of life of wheelchair users;*

*2. Yn croesawu'r 'ymchwiliad undydd ar wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru' sydd i'w gynnal gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a*

*2. Welcomes the 'one-day inquiry on wheelchair services in Wales' to be undertaken by the Health and Social Care Committee; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*3. Calls on the Welsh Government to:*

*a) rhoi mwy o flaenoriaeth i fynd i'r afael ag oedi o ran uwchraddio ac atgyweirio, ynghyd â darparu cadair olwyn yn y lle cyntaf, yn enwedig i blant; a*

*a) give a greater priority to tackling upgrade and repair delays, together with the initial provision of a wheelchair, particularly for children; and*

*b) darparu diweddariad cynhwysfawr am y cynnydd at wella gwasanaethau cadeiriau olwyn ers Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles*

*b) provide a comprehensive update on progress towards improving wheelchair services since the Health, Well-being and*

*a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2010.*

*Local Government Committee Report on Wheel Chair Services in Wales was published in 2010.*

**Darren Millar:** I move the motion.

**Darren Millar:** Cynigiaf y cynnig.

A wheelchair is essential to the full and equal participation in everyday life for thousands of people in Wales. Possessing an appropriate wheelchair can give the user the independence and freedom that many of us take for granted. Around 80,000 people in Wales require the use of a wheelchair. The provision, upgrade and repairs of wheelchairs in Wales is a huge task, and it is essential that provision and services work properly.

Mae cadair olwyn yn hanfodol i sicrhau bod miloedd o bobl yng Nghymru’n gallu cymryd rhan lawn a chyfartal mewn bywyd bob dydd. Mae cael cadair olwyn briodol yn gallu golygu bod y defnyddiwr yn cael yr annibyniaeth a'r rhyddid y mae nifer ohonom yn eu cymryd yn ganiatаol. Mae tua 80,000 o bobl yn defnyddio cadair olwyn yng Nghymru. Mae darparu, uwchraddio ac atgyweirio cadeiriau olwyn yng Nghymru yn dasg enfawr, ac mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth a'r gwasanaethau'n gweithio'n iawn.

Two years ago, the Assembly’s Health, Wellbeing and Local Government Committee produced a report that fully exposed the truly shocking state of wheelchair services in Wales. The report found that, while standard referrals were adequately treated, those with complex needs faced long delays. In April 2010, one in five complex referrals had to wait longer than six months for an appropriate wheelchair—having inappropriate equipment or no equipment in the meantime. Specialist wheelchair provision in north Wales was particularly poor, with some patients waiting 18 months to two years through the artificial limb and appliance service in Wrexham.

Ddwy flynedd yn ôl, cynhyrchodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad adroddiad a oedd yn datgelu gwir gyflwr brawychus gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Canfu'r adroddiad, er bod atgyfeiriadau safonol yn cael eu trin yn ddigonol, fod y rheini ag anghenion cymhleth yn wynebu oedi hir. Ym mis Ebrill 2010, roedd yn rhaid i un atgyfeiriad cymhleth o bob pump aros mwy na chwe mis am gadair olwyn briodol—gan orfod defnyddio offer amhriodol neu ddim offer yn y cyfamser. Roedd darpariaeth cadeiriau olwyn arbenigol yng ngogledd Cymru yn arbennig o wael, gyda rhai cleifion yn aros 18 mis i ddwy flynedd drwy'r gwasanaeth aelodau artiffisial a chyfarpar yn Wrecsam.

The children’s national service framework states that a child should be assessed for a wheelchair within six weeks of referral. However, the committee found that some children in north Wales had been waiting for two years simply for an assessment. The committee’s findings rightly caused shock and disbelief. Such delays are completely unacceptable. I am pleased that the then Minister for Health and Social Services recognised that and accepted all of the recommendations in the committee’s report.

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant yn datgan y dylai plentyn gael ei asesu ar gyfer cadair olwyn cyn pen chwe wythnos o'r atgyfeiriad. Fodd bynnag, canfu'r pwyllgor fod rhai plant yng ngogledd Cymru wedi bod yn aros am ddwy flynedd dim ond er mwyn cael asesiad. Achosodd canfyddiadau'r pwyllgor sioc ac anghrediniaeth. Mae oedi o'r fath yn hollol annerbyniol. Rwyf yn falch bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny wedi cydnabod hynny ac wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor.

The all-Wales posture and mobility review continued its work as a result of the findings

Roedd adolygiad Cymru gyfan ar ystum corff a symudedd wedi parhau â'i waith o

in the report, and, a year ago, £2 million in extra funding was announced on an annual basis for wheelchair services, which we welcomed. However, we would not be performing our function as Assembly Members if we passively accepted these actions as solving the problem, which is why there now needs to be a full review into progress in improving wheelchair services. We of course welcome the one-day inquiry into wheelchair services, which will be undertaken by the Health and Social Care Committee next week, to which I am sure that some Members in the Chamber will refer. However, that is not enough and, given the enormity of the issue to the lives of wheelchair users, I am proud to leading this debate today.

ganlyniad i ganfyddiadau'r adroddiad. Flwyddyn yn ôl, cyhoeddwyd £2 miliwn o gyllid ychwanegol ar sail flynyddol ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn, ac roeddem yn croesawu hynny. Fodd bynnag, os byddem yn derbyn y camau gweithredu hyn yn oddefol fel ateb i'r broblem ni fyddem yn cyflawni ein swyddogaeth fel Aelodau'r Cynulliad. Dyna'r rheswm mae nawr angen adolygiad llawn o'r cynnydd o ran gwella gwasanaethau cadeiriau olwyn. Rydym wrth gwrs yn croesawu'r ymchwiliad undydd i wasanaethau cadeiriau olwyn, a gaiff ei wneud gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos nesaf. Rwyf yn siŵr y bydd rhai Aelodau yn y Siambr yn cyfeirio at hynny. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddigon, ac, o ystyried pa mor enfawr yw'r broblem hon i fywydau defnyddwyr cadeiriau olwyn, rwyf yn falch o arwain y ddadl hon heddiw.

Turning briefly to the amendments, I am pleased to say that we are able to support both amendments tabled in the name of Peter Black, and I will shortly expand on the reasons why. There is clearly still a great deal of dissatisfaction surrounding wheelchair services in Wales. The challenge that is posed by the significant cuts to the NHS in Wales, which are the biggest cuts in the history of the NHS and which are far bigger than in any other nation or region of the United Kingdom, it is really important to ensure that we have an efficient service in future.

Gan droi yn fyr at y gwelliannau, rwyf yn falch o ddweud ein bod yn gallu cefnogi'r ddau welliant a gyflwynwyd yn enw Peter Black, a byddaf yn ymhelaethu ar y rhesymau pam maes o law. Mae'n amlwg bod llawer iawn o anfodlonrwydd ynghylch gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru o hyd. Y sialens a ddaw yn sgîl y toriadau sylweddol i'r GIG yng Nghymru, sef y toriadau mwyaf yn hanes y GIG ac sy'n fwy o lawer nag mewn unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y Deyrnas Unedig, mae'n bwysig iawn sicrhau bod gennym wasanaeth effeithlon yn y dyfodol.

4.15 p.m.

In response to this debate, the Minister must tell us why, almost two years after the committee report was published, there are still huge problems in the service. Earlier this month, the cross-party group on neurological conditions, chaired by Mark Isherwood, raised concerns that the pace of progress on this issue had slowed. Key stakeholders such as Shine Cymru, the Wales Neurological Alliance and the MS Society have all expressed concern about how progress is being made. Stakeholders are still making recommendations for improvement. Just yesterday, the Motor Neurone Disease Association published a report, a copy of which I have here. One of the recommendations in the report refers to the

Mewn ymateb i'r ddadl hon, rhaid i'r Gweinidog ddweud wrthym pam, bron i ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, bod problemau enfawr yn dal i fodoli yn y gwasanaeth. Yn gynharach y mis hwn, cododd y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol, a gadeirir gan Mark Isherwood, bryderon bod cyflymder y cynnydd ar y mater hwn wedi arafu. Mae rhanddeiliaid allweddol fel Shine Cymru, Cynghrair Niwrolegol Cymru a'r Gymdeithas MS i gyd wedi mynegi pryder ynghylch sut y caiff cynnydd ei wneud. Mae rhanddeiliaid yn dal i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Dim ond ddoe, cyhoeddodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor adroddiad, y mae copi ohono gennyf yma. Mae un o argymhellion

state of wheelchair services. For the benefit of those Members who have not had the opportunity to look at this report, it states that wheelchair provision is essential for maintaining the independence and mobility of people with MND, but that

yr adroddiad yn cyfeirio at gyflwr gwasanaethau cadeiriau olwyn. Er budd yr Aelodau hynny nad ydynt wedi cael cyfle i edrych ar yr adroddiad hwn, mae'n nodi bod darpariaeth cadeiriau olwyn yn hanfodol ar gyfer cynnal annibyniaeth a symudedd pobl sy'n dioddef o'r cyflwr, ond

‘people with MND often receive wheelchairs late or even after they have died.’

'mae pobl ag MND yn aml yn derbyn cadeiriau olwyn yn hwyr, neu hyd yn oed wedi iddynt farw.'

We should be ashamed of ourselves for allowing that state of affairs to continue in Wales. Shocking case studies are still available. One patient in Powys has been waiting since May 2010 for a suitable powered wheelchair. After one incorrect chair had been received, a second chair finally arrived earlier this month, but fitting checks are still outstanding, so that person cannot use that equipment. I have been contacted by a number of my constituents, one of whom was given a temporary chair after his broke. He was in that temporary chair for 10 months and it was not suitable for his needs and did not even fit him adequately. A young girl aged 16 has had to put up with a chair that has been broken for many months and has not been repaired. The chair is broken in such a way that it falls over in the street, which stops her from being independent and from being able to attend college. It is not good enough. If a car can be repaired within 24 hours, why cannot wheelchairs also be repaired in such a short time?

Dylem fod â chywilydd ohonom ein hunain am adael i'r sefyllfa honno barhau yng Nghymru. Mae astudiaethau achos syfrdanol ar gael o hyd. Mae un claf ym Mhowys wedi bod yn aros er mis Mai 2010 am gadair olwyn bŵer addas. Ar ôl cael un gadair anghywir, daeth ail gadair o'r diwedd yn gynharach y mis hwn, ond mae dal angen gwneud gwiriadau ffitio, felly ni all yr unigolyn hwnnw ddefnyddio'r offer. Mae nifer o'm hetholwyr wedi cysylltu â mi. Cafodd un ohonynt gadair dros dro ar ôl i'w gadair ef dorri. Roedd yn y gadair dros dro honno am 10 mis ac nid oedd yn addas ar gyfer ei anghenion ac nid oedd hyd yn oed yn ei ffitio'n iawn. Roedd yn rhaid i ferch ifanc 16 oed oddef cadair a oedd wedi torri am fisoedd lawer ac nid yw wedi'i thrwsio. Mae'r gadair wedi torri yn y fath fodd ei bod yn disgyn drosodd yn y stryd, sy'n ei hatal rhag bod yn annibynnol a rhag gallu mynd i'r coleg. Nid yw'n ddigon da. Os oes modd trwsio car mewn 24 awr, pam nad oes modd trwsio cadeiriau olwyn mewn cyfnod mor fyr hefyd?

The constituent who had a chair that was the wrong size for him for 10 months eventually got a new wheelchair. However, every time that wheelchair breaks down, he has to wait many weeks, and often many months, for it to be repaired. He has said that there are off-the-shelf parts that he could fit himself were he allowed to do so. In fact, in recent correspondence to me, he has said that it takes typically six weeks to several months even for simple, off-the-shelf parts to be fitted, such as castor wheels, which he could buy himself from a number of companies and have delivered the next day. Therefore, why cannot the NHS get its act together and ensure that these services are adequate?

Yn y pen draw, cafodd yr etholwr a fu'n defnyddio cadair o'r maint anghywir am 10 mis gadair olwyn newydd. Fodd bynnag, bob tro mae'r gadair olwyn honno'n torri, rhaid iddo aros nifer o wythnosau, ac yn aml, nifer o fisoedd, er mwyn iddi gael ei thrwsio. Mae wedi dweud bod darnau parod ar gael y byddai'n gallu eu gosod ei hun petai'n cael gwneud hynny. A dweud y gwir, mewn gohebiaeth ddiweddar ataf, dywedodd ei bod fel rheol yn cymryd chwe wythnos i nifer o fisoedd dim ond er mwyn gosod darnau parod syml ar y gadair, fel olwynion castor. Byddai modd iddo eu prynu ei hun gan nifer o gwmnïau a byddent yn cael eu danfon y diwrnod canlynol. Felly, pam na all y GIG roi trefn ar bethau a sicrhau bod y gwasanaethau

hyn yn ddigonol?

It was cases such as those that I have outlined to you today that the recommendations in the Health, Wellbeing and Local Government Committee’s report were designed to eradicate and consign to the past. All of the recommendations in that report were accepted, and many of them referred to performance monitoring and targets. The all-Wales posture and mobility review proposed 18 quality indicators, including a target of 18 weeks for everyone from referral to the delivery of the appropriate equipment. However, Shine Cymru states that these have not been implemented and it is unclear as to whether or when they will be implemented. The targets contained in the national service framework are supposed to be delivered by March 2012. It does not take a rocket scientist to work out that the beginning of March is tomorrow and the end of March is not too far away either. In spite of the £2 million of funding that was announced last year, we understand that those targets will still not be reached. Worse than that, the Welsh Government does not even have proper monitoring arrangements in place to assess when those targets will be reached. In fact, the Welsh Government admitted to the Welsh Health Specialised Services Committee last July that it does not even know whether its extra funding is sufficient to meet all of the recommendations of the review, and it is not clear whether those recommendations will be fully implemented by the target date for their implementation. That is totally irresponsible. If the funding is not sufficient, then the recommendations will never be fully implemented.

Roedd yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cael eu dylunio i gael gwared ag achosion fel y rheini rwyf wedi'u hamlinellu i chi heddiw a sicrhau eu bod yn perthyn i'r gorffennol. Derbyniwyd pob un o argymhellion yr adroddiad hwnnw, ac roedd nifer ohonynt yn cyfeirio at fonitro perfformiad a thargedau. Roedd adolygiad ar ystum corff a symudedd Cymru gyfan wedi cynnig 18 o ddangosyddion ansawdd, gan gynnwys targed o 18 wythnos ar gyfer pawb, o atgyfeirio at ddanfon yr offer priodol. Fodd bynnag, dywed Shine Cymru nad yw'r rhain wedi cael eu gweithredu ac nad yw'n glir a fyddant yn cael eu gweithredu na phryd. Mae'r targedau yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i fod i gael eu cyrraedd erbyn mis Mawrth 2012. Nid oes angen athrylith i wybod bod mis Mawrth yn dechrau yfory ac nad yw diwedd mis Mawrth yn rhy bell i ffwrdd chwaith. Er gwaethaf y £2 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd y llynedd, cawn ar ddeall na chaiff y targedau hynny eu cyrraedd. Yn waeth na hynny, nid oes gan Lywodraeth Cymru drefniadau monitro priodol ar waith hyd yn oed i asesu pryd y bydd y targedau hynny'n cael eu cyrraedd. A dweud y gwir, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfaddef i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fis Gorffennaf diwethaf nad yw hyd yn oed yn gwybod a yw ei chyllid ychwanegol yn ddigonol i gwrdd â holl argymhellion yr adolygiad, ac nid yw'n glir a fydd yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu'n llawn erbyn y dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu. Mae hynny'n gwbl anghyfrifol. Os nad yw'r cyllid yn ddigonol, ni chaiff yr argymhellion byth eu gweithredu'n llawn.

The WHSSC conceded also that it was unclear what impact the investment and improvement measures would have on waiting times by the end of next month. The Welsh Government seems to have embarked on this with the right heart and attitude in wanting to improve these services, but does not have any idea as how to monitor the progress being made on delivering those services. We hear time and again of examples where cash is put on the table, whether for an NHS service or a service delivered by a third-

Cyfaddefodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru hefyd nad oedd yn glir pa effaith y byddai'r buddsoddiad a'r mesurau gwella yn ei chael ar amseroedd aros erbyn diwedd y mis nesaf. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar hyn gyda'r galon a'r agwedd iawn o ran bod arni eisiau gwella'r gwasanaethau hyn, ond nid oes ganddi unrhyw syniad sut y mae monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflenwi'r gwasanaethau hynny. Dro ar ôl tro rydym yn clywed enghreifftiau o roi arian ar

party organisation, and there has been failure upon failure upon failure by Welsh Government Ministers to ensure that the money is used appropriately.

y bwrdd, boed hynny ar gyfer un o wasanaethau'r GIG neu wasanaeth sy'n cael ei gyflenwi gan sefydliad trydydd parti, a bu methiant ar ôl methiant ar ôl methiant gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Communication has also been cited as something that needs to improve: communication between the NHS and service users about progress in delivering their equipment, and communication between the NHS and stakeholders with regard to how that equipment is being provided in terms of the delivery of necessary improvements. However, the Wales Neurological Alliance has found no evidence that a communications strategy has even been developed, despite that being a recommendation in the Health, Wellbeing and Local Government Committee’s report. It is even more disappointing that stakeholders that participated in previous expert groups were not invited to take part in the all-Wales posture and mobility partnership board.

Dywedwyd hefyd bod angen gwella'r cyfathrebu: cyfathrebu rhwng y GIG a defnyddwyr gwasanaeth am y cynnydd o ran danfon eu hoffer, a chyfathrebu rhwng y GIG a rhanddeiliaid o ran sut y caiff yr offer hwnnw ei ddarparu o ran cyflenwi gwelliannau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw Cynghrair Niwrolegol Cymru wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod strategaeth gyfathrebu hyd yn oed wedi cael ei datblygu, er bod hynny'n argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. Mae'n fwy siomedig byth na chafodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran mewn grwpiau arbenigol blaenorol eu gwahodd i gymryd rhan ym mwrdd partneriaeth ystum corff a symudedd Cymru gyfan.

Another area where we have seen insufficient progress is that of direct payments. Wheelchair users in England can receive a voucher of equal value to the wheelchair that the NHS would have provided to purchase a wheelchair from an accredited supplier, in a way to speed up the process of people getting adequate equipment. That is why we as a party support the Wales Neurological Alliance’s campaign to allow individuals to purchase wheelchairs through direct payments. I know that some of my fellow Assembly Members will talk about that in more detail in a few moments.

Maes arall lle na fu digon o gynnydd yw taliadau uniongyrchol. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn yn Lloegr dderbyn taleb o'r un gwerth â chadair olwyn y byddai'r GIG wedi'i darparu er mwyn iddynt brynu cadair olwyn gan gyflenwr achrededig, i gyflymu'r broses i bobl gael offer digonol. Dyna pam ein bod fel plaid yn cefnogi ymgyrch Cynghrair Niwrolegol Cymru i ganiatáu i unigolion brynu cadeiriau olwyn drwy daliadau uniongyrchol. Gwn y bydd rhai o fy nghyd-Aelodau Cynulliad yn sôn am hynny’n fanylach mewn ychydig funudau.

The fact remains that insufficient progress is being made on this matter. We want a full review of the recommendations and where they are at in terms of implementation. The Welsh Government does not have satisfactory monitoring arrangements in place, and we want to ensure best value for taxpayers from the investment that you have made, Minister. I look forward to hearing from you in the course of the debate.

Erys y ffaith nad oes digon o gynnydd yn cael ei wneud ar y mater hwn. Mae arnom eisiau adolygiad llawn o'r argymhellion a ble maent arni o ran cael eu gweithredu. Nid oes gan Lywodraeth Cymru drefniadau monitro boddhaol ar waith, ac mae arnom eisiau sicrhau'r gwerth gorau i drethdalwyr o'r buddsoddiad rydych wedi'i wneud, Weinidog. Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn ystod y ddadl.

*Gwelliant 1 Peter Black*

*Amendment 1 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i weithredu'n llawn argymhellion adroddiad 2010 y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar wasanaethau cadeiriau olwyn.*

*Regrets the failure of the Welsh Government to fully implement the recommendations of the 2010 Health, Wellbeing and Local Government Committee report on wheelchair services.*

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro ei gwariant ar wasanaethau cadeiriau olwyn i sicrhau bod arian sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.*

*Calls on the Welsh Government to monitor its spending on wheelchair services to ensure that money spent on children and young people is effectively used.*

**Aled Roberts:** I move amendments 1 and 2 in the name of Peter Black.

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Peter Black.

There can be no doubt from the opening remarks that promised improvements in wheelchair provision in Wales have not been delivered. Looking back at the Record of Proceedings, it must be of great concern to us all that we could end up with a virtual repeat of previous debates in today's debate. The speakers may be different, but the words are all too familiar. Despite questions to Ministers, evidence from organisations involved with and representing wheelchair users, an Assembly committee report, statistical data from local health boards and the announcement of additional funding of £2.2 million in March 2011, wheelchair waiting times are failing to meet agreed protocols and targets, particularly for children.

Nid oes unrhyw amheuaeth o'r sylwadau agoriadol nad yw'r gwelliannau a gafodd eu haddo ar gyfer darpariaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru wedi cael eu cyflawni. Wrth edrych yn ôl ar Gofnod y Trafodion, rhaid iddo fod yn destun pryder mawr i bob un ohonom y gallai dadl heddiw fod yn ailadroddiad llwyr bron o ddadleuon blaenorol. Efallai fod y siaradwyr yn wahanol, ond mae'r geiriau'n rhy gyfarwydd o lawer. Er gwaethaf cwestiynau i Weinidogion, tystiolaeth gan sefydliadau sy'n ymwneud â defnyddwyr cadeiriau olwyn ac yn eu cynrychioli, adroddiad gan un o bwyllgorau'r Cynulliad, data ystadegol gan fyrddau iechyd lleol a'r cyhoeddiad ynghylch £2.2 miliwn o gyllid ychwanegol ym mis Mawrth 2011, mae amseroedd aros am gadeiriau olwyn yn methu â diwallu protocolau a thargedau y cytunwyd arnynt, yn enwedig i blant.

The national service framework outlines the standards that families should expect with regard to the performance of our NHS in future years. In November, I asked for information regarding the performance in my own local health board area in north Wales. For the two years up to September 2011, Betsi Cadwaladr University Local Health Board had 62 youngsters who had waited more than the agreed 14 weeks for wheelchairs. One poor youngster had waited 17 months for provision. Regardless of our political persuasion, that is clearly not

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn amlinellu'r safonau y dylai teuluoedd eu disgwyl o ran perfformiad ein GIG yn y dyfodol. Fis Tachwedd, gofynnais am wybodaeth ynghylch y perfformiad yn ardal fy mwrdd iechyd lleol yng ngogledd Cymru. Am y ddwy flynedd hyd at fis Medi 2011, roedd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr 62 o bobl ifanc a oedd wedi aros mwy na'r 14 wythnos y cytunwyd arnynt ar gyfer cadeiriau olwyn. Roedd un unigolyn ifanc druan wedi aros 17 mis am ddarpariaeth. Ni waeth beth yw ein safbwynt

acceptable. Given the committee’s recommendation in the previous Assembly that the Minister should use sanctions where those services are not being provided, on 5 October last year I asked the Minister to clarify whether she was satisfied with the provision of the service and, if not, what sanctions would be taken against those health boards that were clearly failing to meet the protocols. At the time, the Minister’s reply was that they were considering and reviewing that as the LHBs sent in their plans.

gwleidyddol, mae'n amlwg nad yw hynny'n dderbyniol. O ystyried argymhelliad pwyllgor y Cynulliad blaenorol y dylai'r Gweinidog ddefnyddio sancsiynau lle nad yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu, ar 5 Hydref y llynedd gofynnais i'r Gweinidog egluro a oedd yn fodlon ar ddarpariaeth y gwasanaeth ac, os nad oedd, pa sancsiynau byddai'n eu cymryd yn erbyn y byrddau iechyd hynny a oedd yn amlwg yn methu â chwrdd â'r protocolau. Ar y pryd, ateb y Gweinidog oedd eu bod yn ystyried ac yn adolygu hynny, gan fod y Byrddau Iechyd Lleol wedi cyflwyno eu cynlluniau.

We have since received a paper, as commented on by Darren Millar, from the Wales Neurological Alliance that showed the progress on the 23 recommendations. This showed that the project board to which Darren referred has not specified any sanctions for non-compliance to date.

Ers hynny rydym wedi derbyn papur, fel y dywedodd Darren Millar, gan Gynghrair Niwrolegol Cymru a oedd yn dangos y cynnydd gyda'r 23 argymhelliad. Roedd hyn yn dangos nad oedd y bwrdd prosiect y cyfeiriodd Darren ato wedi pennu unrhyw sancsiynau am fethu â chydymffurfio hyd yn hyn.

Why, two years after a comprehensive committee inquiry and the Government’s agreement to every recommendation, are our young people still being treated like this? The committee’s report in May 2010 was comprehensive and the committee took evidence from a number of witnesses. I would be interested to know why, if all of the committee’s 23 recommendations were accepted by the previous Minister for health and an expert reference group was formed, we are still in a position where, on 29 November 2011, the all-Wales posture and mobility partnership board reported that it was unlikely that its national service framework targets would be met by 2012. The partnership board also noted at the same time that the Government expected the NSF standard to be met by March 2012 but that

Pam, ddwy flynedd ar ôl ymchwiliad cynhwysfawr gan bwyllgor ac ar ôl i'r Llywodraeth gytuno i bob argymhelliad, bod ein pobl ifanc yn dal i gael eu trin fel hyn? Roedd adroddiad y pwyllgor ym mis Mai 2010 yn gynhwysfawr a chafodd y pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion. Hoffwn wybod pam, os cafodd pob un o 23 argymhelliad y pwyllgor eu derbyn gan y Gweinidog blaenorol dros iechyd a bod grŵp cyfeirio arbenigol wedi cael ei ffurfio, ein bod yn dal mewn sefyllfa sy'n golygu ar 29 Tachwedd 2011 bod bwrdd partneriaeth ystum corff a symudedd Cymru gyfan wedi dweud ei bod yn annhebyg y byddai ei dargedau fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn cael eu cyrraedd erbyn 2012. Nododd bwrdd y bartneriaeth ar yr un pryd fod y Llywodraeth yn disgwyl y byddai safon y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei bodloni erbyn mis Mawrth 2012 ond

‘this standard has not been adopted as an Referral to Treatment (RTT) target and will not be subject to formal performance monitoring by the Welsh Government.’

nid yw'r safon hon wedi cael ei mabwysiadu fel targed Atgyfeiriad i Driniaeth ac ni fydd yn destun monitro perfformiad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

If we are setting targets and, more importantly, if we are committing Welsh Government expenditure to the NHS, why are we not ensuring that the NHS performs?

Os ydym yn gosod targedau ac, yn bwysicach, os ydym yn ymrwymo gwariant Llywodraeth Cymru i'r GIG, pam nad ydym yn sicrhau bod y GIG yn perfformio?

In evidence to the 2010 inquiry, the north Wales Artificial Limb and Appliance Service, in a paper, criticised the

Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad yn 2010, mewn papur roedd Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar Cymru, yn beirniadu'r

‘lack of formally agreed service standards or key performance indicators for the provision of wheelchair services’

diffyg o ran y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn ffurfiol neu'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cadair olwyn

and noted that:

a nododd:

‘Access targets…do not form part of any National Annual Operating Framework requirement’

Nad yw targedau mynediad...yn rhan o unrhyw ofyniad Fframwaith Gweithredu Blynyddol Cenedlaethol

and that, crucially,

ac, yn hollbwysig,

‘specified access targets for children and young people contained within the Children, Young People and Maternity Services in Wales NSF section 5.17’—

nad yw’r targedau mynediad a bennir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn adran 5.17 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth—

that is, the 14-week standard—

hynny yw, y safon 14-wythnos—

‘have not been made a priority flagged area since their publication in 2004.’

wedi cael eu gwneud yn faes blaenoriaeth ers iddynt gael eu cyhoeddi yn 2004.

That is eight years ago. Yes, the Government has set up a project board and announced funding. However, what assessment has the Government made of the comments from the partnership board and ALAS? What steps is it taking to address our concerns as Assembly Members? As Darren Millar has already pointed out, the Health and Social Care Committee will shortly undertake a one-day inquiry. In some ways, it is a pity—

Hynny yw wyth mlynedd yn ôl. Ydy, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi cyhoeddi cyllid. Fodd bynnag, pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o’r sylwadau gan y bwrdd partneriaeth a'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar? Pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'n pryderon fel Aelodau'r Cynulliad? Fel y dywedodd Darren Millar yn barod, cyn bo hir bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad undydd. Mewn rhai ffyrdd, mae'n drueni—

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Aled, mae dy amser wedi dod i ben.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Aled, your time is up.

**Mark Isherwood:** Although wheelchair provision is essential for maintaining the independence and mobility of people, concerns were raised by Wales Neurological Alliance member organisations at a meeting in January of the cross-party group on neurological conditions, which I chair, about the ongoing review of the Artificial Limb and Appliance Service. As WRVS has told me,

**Mark Isherwood:** Er bod darparu cadeiriau olwyn yn hanfodol ar gyfer cynnal annibyniaeth a symudedd pobl, mynegwyd pryderon gan y sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Niwrolegol Cymru yng nghyfarfod mis Ionawr y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol, rwyf yn gadeirydd arno, am yr adolygiad parhaus o'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Fel y mae

for older people in particular, adapting to life in a wheelchair can have a significant negative impact on wellbeing and quality of life. If the local infrastructure is poor, it can reduce their social circle and, in turn, that can lead to social isolation and loneliness, which have significant knock-on effects on their physical health.

Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched wedi'i ddweud wrthyf, ar gyfer pobl hŷn yn benodol, mae addasu i fywyd mewn cadair olwyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar les ac ar ansawdd bywyd. Os yw'r seilwaith lleol yn wael, gall leihau eu cylch cymdeithasol ac, yn ei dro, gall hynny arwain at ynysu cymdeithasol ac unigrwydd, sydd â sgîl-effeithiau sylweddol ar eu hiechyd corfforol.

In leading the Welsh Conservatives debate on disabled children in July 2009, I stated that:

Wrth arwain dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar blant anabl ym mis Gorffennaf 2009, dywedais:

‘Among the services crying out for greater support are paediatric wheelchair services.’

'Ymhlith y gwasanaethau sy’n awchu am gael mwy o gefnogaeth y mae gwasanaethau cadeiriau olwyn pediatrig.'

Quoting the 2006 Contact a Family survey, ‘Wheelchair Services for Children and Young People in Wales’, I noted that it found that over 80% of families waited longer than the national service framework target of six weeks for an assessment, and that over 60% of families waited longer than the NSF target of eight weeks for delivery. In addition, the review, repair and maintenance of wheelchairs varied from family to family and from area to area, parents highlighted the need for training in the use of wheelchairs for them and their children, there were often difficulties in obtaining the appropriate accessories for wheelchairs, and there was a lack of choice and control.

Gan ddyfynnu o arolwg 2006 Cyswllt Teulu, 'Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru', sylwais iddo ganfod bod dros 80% o deuluoedd wedi aros mwy na tharged y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol o chwe wythnos am asesiad, a bod dros 60% o deuluoedd wedi aros mwy na tharged y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol o wyth wythnos ar gyfer danfon. Ar ben hynny, roedd adolygu, trwsio a chynnal a chadw cadeiriau olwyn yn amrywio o deulu i deulu ac o ardal i ardal, roedd rhieni wedi tynnu sylw at yr angen am hyfforddiant i ddefnyddio cadeiriau olwyn iddynt hwy ac i'w plant, roedd yn aml yn anodd cael yr ategolion priodol ar gyfer cadeiriau olwyn, ac roedd diffyg dewis a rheolaeth.

I was therefore concerned to hear Shine Cymru outline at the last cross-party group meeting the concerns of people living with neurological conditions about the wheelchair service today. Darren referred to the Motor Neurone Disease Association report launched yesterday, but I will quote the statement in full:

Roedd yn achosi pryder i mi felly, wrth glywed Shine Cymru yn amlinellu pryderon y bobl sy'n byw â chyflyrau niwrolegol am y gwasanaeth cadeiriau olwyn heddiw yng nghyfarfod diwethaf y grŵp trawsbleidiol. Cyfeiriodd Darren at adroddiad y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor a lansiwyd ddoe, ond dyfynnaf y datganiad yn llawn:

‘People with MND often receive wheelchairs late or even after they have died. This represents poor quality of life for the individual and poor value for money for the public purse’.

'Fodd bynnag, mae pobl ag MND yn aml yn derbyn cadeiriau olwyn yn hwyr, neu hyd yn oed wedi iddynt farw. Mae’n golygu bod ansawdd bywyd yn wael i’r unigolion sy’n dioddef ac mae’n darparu gwerth gwael am arian i’r pwrs cyhoeddus'.

Despite the Health, Wellbeing and Local Government Committee's having published a critical wheelchair report in May 2010 with 23 recommendations that the Welsh Government accepted, the Wales Neurological Alliance is concerned that very little progress has been made. In her formal response to the committee's report, the then Minister for Health and Social Services set the expert group a deadline of August 2010 to report to her.

Er bod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi adroddiad beirniadol am gadeiriau olwyn ym mis Mai 2010 gyda 23 o argymhellion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn pryderu mai prin iawn yw'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Yn ei hymateb ffurfiol i adroddiad y pwyllgor, rhoddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny ddyddiad cau i'r grŵp arbenigol sef cyflwyno adroddiad iddi erbyn mis Awst 2010.

4.30 p.m.

In October 2010, the expert group published a lengthy report setting out its own recommendations for how the wheelchair services should be reformed. The Minister accepted the recommendations and announced an additional £2.2 million recurring funding to improve waiting times and to provide access to equipment, particularly paediatric wheelchairs, from April 2011. In July 2011, the Welsh Health Specialised Services Committee established the all-Wales posture and mobility partnership board to implement the recommendations, bringing together professionals and a small number of voluntary sector stakeholders. However, almost two years after the committee report, many of the recommendations still have not been implemented.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y grŵp arbenigol adroddiad hir yn nodi ei argymhellion ei hun ar sut y dylid diwygio'r gwasanaethau cadeiriau olwyn. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhellion a chyhoeddodd £2.2 miliwn o gyllid cylchol ychwanegol i wella amseroedd aros ac i ddarparu mynediad i offer, yn enwedig cadeiriau olwyn pediatrig, o fis Ebrill 2011 ymlaen. Ym mis Gorffennaf 2011, sefydlodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fwrdd partneriaeth ystum corff a symudedd Cymru gyfan i roi'r argymhellion ar waith, gan ddwyn ynghyd weithwyr proffesiynol a nifer fach o randdeiliaid o'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, bron i ddwy flynedd ar ôl adroddiad y pwyllgor, mae llawer o'r argymhellion yn dal heb eu gweithredu.

In 2008, the Artificial Limb and Appliance Service confirmed to Wales Neurological Alliance member organisations that a large number of patients had been waiting for a specialist wheelchair for 18 months to two years. It appeared that problems were centred around the artificial limb and appliance centre in Wrexham and that the waiting lists were typically longer the further someone lived from Wrexham. However, I am now informed of cases such as the north Wales resident who has been waiting for an assessment for a new wheelchair since last year. Her current wheelchair is no longer fit for purpose and has pieces falling off it. The north Wales wheelchair service has not provided her with an appointment or a timescale for assessment, stating that it is unable to do so and that she will just have to wait.

Yn 2008, cadarnhaodd y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar i'r sefydliadau a oedd yn perthyn i Gynghrair Niwrolegol Cymru fod nifer fawr o gleifion wedi bod yn aros am gadair olwyn arbenigol am 18 mis i ddwy flynedd. Roedd yn ymddangos bod y problemau'n cael eu canoli o amgylch y ganolfan aelodau artiffisial a chyfarpar yn Wrecsam a bod y rhestrau aros fel rheol yn hirach y pellaf roedd rhywun yn byw o Wrecsam. Fodd bynnag, rwyf nawr wedi cael gwybod am achosion fel yr unigolyn yng ngogledd Cymru sydd wedi bod yn aros am asesiad ar gyfer cadair olwyn newydd ers y llynedd. Nid yw'r gadair olwyn sydd ganddi ar hyn o bryd yn addas at y diben bellach ac mae darnau'n disgyn oddi arni. Nid yw gwasanaeth cadeiriau olwyn gogledd Cymru wedi rhoi apwyntiad iddi nac amserlen ar gyfer asesiad, gan ddweud na all wneud hynny ac y bydd yn rhaid iddi aros.

Other constituents have complained about wheelchairs not being delivered to agreed specification, a lack of wheelchair repair, long waiting times, poor communication with their artificial limb and appliance centre and a detrimental impact on people's health. This is now; not two years ago. Delays and the lack of delivery of services compromise progress towards independence, inhibiting mobility and denying access to equality of opportunity. Delays also create a specific issue for children as they grow and their needs change. Late delivery of a wheelchair impacts on an individual's physical and emotional needs and wellbeing. Delay can also mean that a new assessment is required almost immediately after the delivery of the first wheelchair. The whole time-consuming and stressful process has to start all over again. The Welsh Government must, therefore, turn words into action by prioritising initial wheelchair provision, upgrades and repair delays, which would mean acting at last on those recommendations, rather than simply setting up more bodies to talk about it.

Mae etholwyr eraill wedi cwyno am gael cadeiriau olwyn nad ydynt yn cyd-fynd â'r fanyleb y cytunwyd arni, diffyg atgyweirio cadair olwyn, amseroedd aros hir, cyfathrebu gwael â'u canolfan aelodau artiffisial a chyfarpar ac effaith niweidiol ar iechyd pobl. Mae hyn yn digwydd nawr; nid dwy flynedd yn ôl. Mae oedi a diffyg cyflenwi gwasanaethau'n rhoi'r cynnydd tuag at annibyniaeth yn y fantol, mae'n llesteirio symudedd ac yn atal cyfle cyfartal. Mae oedi hefyd yn creu problem benodol i blant wrth iddynt dyfu ac wrth i'w hanghenion newid. Mae cael cadair olwyn yn hwyr yn effeithio ar anghenion corfforol ac emosiynol a lles yr unigolyn. Gall oedi hefyd olygu bod angen asesiad newydd bron ar unwaith ar ôl danfon y gadair olwyn gyntaf. Rhaid i'r holl broses sy'n cymryd llawer o amser ac sy'n llawn straen ddechrau o'r dechrau eto. Rhaid i Lywodraeth Cymru, felly, roi'r geiriau ar waith drwy flaenoriaethu oedi wrth roi cadeiriau olwyn yn y lle cyntaf, uwchraddio a thrwsio, a fyddai'n golygu gweithredu o'r diwedd ar yr argymhellion hynny, yn hytrach na dim ond sefydlu mwy o gyrff i siarad am y peth.

**Ann Jones:** I was puzzled to see that the Conservatives had chosen today's date for this debate, with the Health and Social Care Committee's inquiry taking place next week. I guess it is because the former Chair of the Health, Wellbeing and Local Government Committee during the last Assembly felt that he needs to reissue this warning about how we look at wheelchair services across Wales. Some progress was made during the period of at that inquiry by the former health committee. I think that the Government invested £2 million in order to improve that service and I believe there were some improvements made to overall delivery and ensuring quicker assessments. However, I am aware that this has not been the experience of every family more recently, and I welcome the fact that the Government now plans to provide a full update on each of the recommendations at the committee's meeting on 8 March.

**Ann Jones:** Cefais fy synnu o weld bod y Ceidwadwyr wedi dewis dyddiad heddiw ar gyfer y ddadl hon, gydag ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn digwydd yr wythnos nesaf. Rwyf yn tybio mai'r rheswm am hyn yw bod cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn ystod y Cynulliad diwethaf yn teimlo bod angen iddo ailgyhoeddi'r rhybudd hwn am y ffordd rydym yn edrych ar wasanaethau cadeiriau olwyn ar draws Cymru. Cafodd rhywfaint o gynnydd ei wneud yn ystod cyfnod yr ymchwiliad hwnnw gan y pwyllgor iechyd blaenorol. Credaf fod y Llywodraeth wedi buddsoddi £2 miliwn er mwyn gwella'r gwasanaeth hwnnw a chredaf fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i gyflenwi cyffredinol a sicrhau asesiadau cyflymach. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol nad dyma fu'r profiad i bob teulu yn fwy diweddar, ac rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth nawr yn bwriadu darparu diweddariad llawn ar bob un o'r argymhellion yng nghyfarfod y pwyllgor ar 8 Mawrth.

A key part of delivery here is represented by

Mae dangosyddion y fframwaith gwasanaeth

the national service framework indicators. Aled Roberts made reference to key action 5.17, which covers standards for wheelchair and specialist seating services, and shows that every local authority area has seen some improvement since 2007. So, there has been some movement there. Although we may not think it is quick enough, we have to acknowledge there has been some movement.

cenedlaethol yn cynrychioli rhan allweddol o gyflenwi yma. Cyfeiriodd Aled Roberts at weithred allweddol 5.17, sy'n cynnwys safonau ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn a seddi arbenigol, ac sy'n dangos bod pob ardal awdurdod lleol wedi gweld rhywfaint o welliant er 2007. Felly, bu rhywfaint o symud yno. Er nad ydym efallai'n meddwl ei fod yn ddigon cyflym, mae'n rhaid i ni gydnabod y bu rhywfaint o symud.

**Darren Millar:** Thank you for taking the intervention. I agree with you. There has been some improvement, but it is not a universal improvement and many people are still experiencing problems. We have brought forward this debate because, on many occasions over the past 12 month, I have asked for an update from the health Minister on this issue and she has yet to provide one. This gives us an opportunity to lay a bit of a foundation for the Health and Social Care Committee review next week. I am aware of your interest in this, having sat on the previous committee.

**Darren Millar:** Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Rwyf yn cytuno â chi. Bu rhywfaint o welliant, ond nid yw'n welliant cyffredinol ac mae llawer o bobl yn dal i gael problemau. Rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon oherwydd, droeon yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd am y mater hwn ac nid wyf wedi cael hynny. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni osod dipyn o sylfaen ar gyfer adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos nesaf. Rwyf yn ymwybodol o'ch diddordeb yn hyn, ar ôl eistedd ar y pwyllgor blaenorol.

**Ann Jones:** Okay. That is off your chest now, so I will carry on.

**Ann Jones:** Iawn. Dyna chi wedi bwrw eich bol ynghylch hynny nawr, felly af ymlaen.

As the previous committee’s report showed, there were clearly specific problems in north Wales and, in my view, reforming the way in which ALAC in north Wales works is crucial to improving services. It cannot stand by; it is part of the issue and part of the problem. I hope that there will be some real progress on this matter as the new committee inquiry looks into this issue.

Fel y dangoswyd gan adroddiad y pwyllgor blaenorol, roedd yn amlwg bod problemau penodol yng ngogledd Cymru ac, yn fy marn i, mae diwygio'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn gweithio yng ngogledd Cymru yn hanfodol i wella gwasanaethau. Ni all sefyll o'r neilltu; mae'n rhan o'r mater ac yn rhan o'r broblem. Gobeithiaf y bydd rhywfaint o gynnydd gwirioneddol ar y mater hwn wrth i ymchwiliad y pwyllgor newydd edrych ar y mater hwn.

With regard to community equipment facilities, it is important to note that positive change has been achieved since the Welsh Government set up formal partnerships and the pooling of some budgets. In practical terms, that has meant less duplication within the NHS and social services in areas such as separate delivery, collection, storage and refurbishment services within the same geographical area. There is still a lot more to do to get this right. This work has been backed up by £12.5 million investment from

O ran cyfleusterau offer cymunedol, mae'n bwysig nodi bod newid cadarnhaol wedi'i gyflawni ers i Lywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau ffurfiol a chyfuno rhai cyllidebau. Yn ymarferol, mae hynny wedi golygu llai o ddyblygu yn y GIG a gwasanaethau cymdeithasol mewn meysydd megis cyflenwi ar wahân, casglu, storio a gwasanaethau adnewyddu yn yr un ardal ddaearyddol. Mae llawer eto i'w wneud i wneud hyn yn iawn. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan fuddsoddiad gwerth £12.5

the Welsh Government to make our services more efficient across Wales.

miliwn gan Lywodraeth Cymru i wneud ein gwasanaethau'n fwy effeithlon ledled Cymru.

We have said on many occasions, at committees both past and present, that access to timely and appropriate wheelchair services is vital to securing equality for disabled children in Wales. I do not disagree with that. No disability should hold a child back from reaching his or her potential, and our services must meet the challenge of delivering that.

Rydym wedi dweud droeon, mewn pwyllgorau yn y gorffennol a'r presennol, bod mynediad at wasanaethau cadeiriau olwyn amserol a phriodol yn hanfodol i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer plant anabl yng Nghymru. Nid wyf yn anghytuno â hynny. Ni ddylai anabledd ddal plentyn yn ôl rhag cyrraedd ei botensial neu ei photensial, a rhaid i'n gwasanaethau ddiwallu'r sialens o gyflawni hynny.

**Janet Finch-Saunders:** I want to start by saying that I fully appreciate the progress made by the Welsh Government since the report of the Health, Wellbeing and Local Government Committee on wheelchair services in Wales. However, given my recent experiences as an Assembly Member of the real problems affecting the wheelchair service in Wales, I felt that I must contribute to this debate.

**Janet Finch-Saunders:** Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn llawn werthfawrogi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried fy mhrofiadau diweddar fel Aelod Cynulliad o'r gwir broblemau sy'n effeithio ar y gwasanaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru, rwyf yn teimlo bod yn rhaid i mi gyfrannu at y ddadl hon.

In 2011-12, an extra £2.2 million of recurrent funding has been invested in the posture and mobility service. As of November 2011, 1,000 therapists have been trained to speed up wheelchair assessments and extra clinics have opened in mid and west Wales. Despite that, real problems are still rife in Wales, particularly with regard to waiting times. That is why I am supporting the Welsh Conservatives’ motion today. Nearly 71,000 people in Wales require the use of a wheelchair, 95% of referrals are standard and the majority of users receive a chair within 21 days. However, 22% of complex referrals were waiting over six months in April 2010. The Health, Wellbeing and Local Government Committee report found that some children in north Wales were waiting up to two years for a wheelchair, which is unacceptable. These long waits, which prevent children from going out to play and socialise, have been criticised by the children’ commissioner as being in breach of their fundamental rights as laid out under article 23 of the United Nations Convention on the Rights of the Child. In April 2010, over 1,150 people in Wales had been referred and were waiting for a complex bespoke

Yn 2011-12, buddsoddwyd £2.2 miliwn o gyllid cylchol ychwanegol yn y gwasanaeth ystum corff a symudedd. Er mis Tachwedd 2011, mae 1,000 o therapyddion wedi cael eu hyfforddi i gyflymu asesiadau cadair olwyn ac mae clinigau ychwanegol wedi cael eu hagor yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Er gwaethaf hynny, mae problemau go iawn yn dal yn rhemp yng Nghymru, yn enwedig o ran amseroedd aros. Dyna pam rwyf yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw. Mae bron i 71,000 o bobl yng Nghymru'n defnyddio cadair olwyn, mae 95% o'r atgyfeiriadau’n safonol ac mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr yn derbyn cadair cyn pen 21 diwrnod. Fodd bynnag, roedd 22% o'r atgyfeiriadau cymhleth yn aros mwy na chwe mis ym mis Ebrill 2010. Canfu adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol fod rhai plant yng ngogledd Cymru'n aros hyd at ddwy flynedd am gadair olwyn, ac mae hynny'n annerbyniol. Mae'r aros hir hyn, sy'n atal plant rhag mynd allan i chwarae a chymdeithasu, wedi cael ei feirniadu gan y comisiynydd plant oherwydd ei fod yn torri eu hawliau sylfaenol fel y pennir o dan erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ym mis Ebrill

wheelchair. Over one in five had been waiting over six months, with 66 users waiting longer than nine months.

2010, roedd dros 1,150 o bobl yng Nghymru wedi cael eu hatgyfeirio, ac yn aros am gadair olwyn gymhleth wedi'i theilwra'n arbennig. Roedd dros un o bob pump wedi bod yn aros dros chwe mis, gyda 66 o ddefnyddwyr yn aros dros naw mis.

One post-polio patient in north Wales has been waiting over three months for a motorised wheelchair, and I have a constituent—it is probably my most difficult piece of casework—who, after 25 years in a chair, following the amputation of both her legs, still experiences difficulties in obtaining a suitable chair. She came into my office with her arms black and blue, because the chair she has is completely unsuitable and is causing her not only a great deal of pain, but terrible anxiety. She has been informed that such a chair, with a three-inch setback, is of specialist design and not readily available from her local accessibility shop.

Mae un claf yng ngogledd Cymru ar ôl cael polio wedi bod yn aros dros dri mis am gadair olwyn fodur, ac mae gennyf un etholwr—mae'n debyg mai dyma fy narn anoddaf o waith achos—sydd, ar ôl 25 mlynedd mewn cadair, yn dilyn colli ei dwy goes, yn dal yn cael anawsterau wrth gael cadair addas. Daeth i mewn i fy swyddfa gyda'i breichiau'n gleisiau drostynt, oherwydd bod y gadair sydd ganddi'n hollol anaddas ac nid yn unig yn achosi llawer o boen iddi, ond pryder ofnadwy. Mae hi wedi cael gwybod bod y fath gadeiriau, gyda'r olwynion wedi'u gosod tair modfedd yn ôl, yn cael eu dylunio'n arbenigol ac nad ydynt ar gael yn rhwydd yn ei siop hygyrchedd leol.

Certain conditions usually necessitate a much faster turnover. Multiple sclerosis, for example, can evolve quickly and, after a long wait, the wheelchair that arrives may no longer be suitable. Wheelchair users in England can be given a voucher that can be used to purchase a suitable wheelchair from an accredited supplier, which slashes waiting times and empowers the user. The Welsh Conservatives support MS Society Cymru’s campaign, which would involve direct payments to give wheelchair users in Wales the same rights.

Mae rhai cyflyrau fel arfer yn golygu bod angen trosiant cyflymach o lawer. Mae sglerosis ymledol, er enghraifft, yn gallu esblygu'n gyflym ac, ar ôl aros am gyfnod hir, efallai na fydd y gadair olwyn sy'n cyrraedd mwyach yn addas. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn yn Lloegr gael taleb mae modd ei defnyddio i brynu cadair olwyn addas gan gyflenwr achrededig, sy'n cwtogi’r amseroedd aros ac yn grymuso'r defnyddiwr. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi ymgyrch Cymdeithas MS Cymru, a fyddai'n cynnwys taliadau uniongyrchol i roi'r un hawliau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yng Nghymru.

My constituent has stressed the need for better understanding by professionals in the health sector that people need appropriate chairs and appropriate waits. There is a real need for those professionals to have a thorough knowledge of those specifications. As a result of her wheels having no grip in the rain, her wheelchair has been fitted with large outer casings on the wheels. These have so severely scraped the skin of my constituent’s thumbs that she can no longer even pick up the kettle to make herself a cup of tea.

Mae fy etholwr wedi pwysleisio'r angen am well dealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol yn y sector iechyd bod ar bobl angen cadeiriau priodol ac amseroedd aros priodol. Mae gwir angen i'r gweithwyr proffesiynol hynny feddu ar wybodaeth drylwyr o'r manylebau hynny. Oherwydd nad yw ei holwynion yn gallu cydio yn y llawr pan fydd yn glawio, mae casynau allanol mawr wedi cael eu gosod ar olwynion ei chadair olwyn. Mae'r rhain wedi crafu croen bawd fy etholwr mor ddifrifol nad yw hi nawr hyd yn oed yn gallu codi'r tegell i wneud paned o de.

The approach of the Welsh Government has

Mae agwedd Llywodraeth Cymru wedi bod

been fragmented, and the previous Minister for health failed to provide the 2010 autumn update on progress that had been promised or the letter setting out how the NHS had taken forward phase 2 recommendations. During the third Assembly, the Health, Wellbeing and Local Government Committee's report on wheelchair services in Wales called on the Welsh Government to draw up a strategic plan to give direction to the service over the coming years. The committee was concerned that a sustained improvement to the service would not be delivered without additional funding—but we will not go there. It was highlighted that an unacceptable and significant number of users with complex needs suffered delays, particularly in north Wales. It recommended that a satellite service should be set up in north-west Wales. The Welsh Government accepted all the recommendations of the committee. However, many of those involved feel that actions have been slow. The All-Wales Posture and Mobility Service has raised concerns that meeting committee targets by March of this year will be challenging, and the Wales Neurological Alliance has voiced its concerns over the Welsh Government's lack of progress.

yn dameidiog, a methodd y Gweinidog blaenorol dros iechyd â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn hydref 2010 am y cynnydd a oedd wedi'i addo, na'r llythyr sy'n nodi sut y mae'r GIG wedi mynd ag argymhellion cam 2 rhagddynt. Yn ystod y trydydd Cynulliad, roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol i roi cyfeiriad i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Roedd y pwyllgor yn pryderu na fyddai'r gwasanaeth yn cael ei wella'n barhaus heb gyllid ychwanegol—ond ni awn i fan honno. Pwysleisiwyd bod nifer annerbyniol a sylweddol o ddefnyddwyr sydd ag anghenion cymhleth yn dioddef oedi, yn enwedig yng ngogledd Cymru. Argymhellodd sefydlu gwasanaeth lloeren yng ngogledd-orllewin Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion y pwyllgor. Fodd bynnag, mae llawer o'r rheini sy'n cymryd rhan yn teimlo bod y camau gweithredu wedi bod yn araf. Mynegodd Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan bryderon y bydd cyrraedd targedau'r pwyllgor erbyn mis Mawrth eleni yn anodd. Mae Cynghrair Niwrolegol Cymru hefyd wedi lleisio ei bryderon ynghylch diffyg cynnydd Llywodraeth Cymru.

Today, I met a representative of the Chartered Society of Physiotherapy, who stressed that improvements were needed around communications and that this issue needs to be put under the spotlight for the next few years at least. Shine Cymru has commented on the all-Wales posture and mobility review's proposed quality indicators, which include a target of 18 weeks from referral to delivery, saying that these have not been implemented and that it is not clear when they will be implemented. Minister, I hope to see all Members in the Chamber today supporting this motion, and I call on you to provide regular updates on this issue.

Heddiw, cefais gwrdd â chynrychiolydd o'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, a bwysleisiodd fod angen gwelliannau yng nghyswllt cyfathrebu a bod angen rhoi'r mater hwn o dan y chwyddwydr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o leiaf. Mae Shine Cymru wedi gwneud sylwadau ar ddangosyddion ansawdd arfaethedig adolygiad Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan, sy'n cynnwys targed o 18 wythnos o atgyfeiriad i ddanfon, gan ddweud nad yw'r rhain wedi cael eu gweithredu ac nad yw'n glir pryd y byddant yn cael eu gweithredu. Weinidog, rwyf yn gobeithio gweld yr holl Aelodau yn y Siambr heddiw'n cefnogi'r cynnig hwn, a galwaf arnoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn yn rheolaidd.

**Lindsay Whittle:** I have the lectern today because I feel the need to preach; I feel the need for a sermon. The message I want to preach is that something must be done. The report from the Health, Wellbeing and Local

**Lindsay Whittle:** Rwyf yn defnyddio'r ddesg ddarllen heddiw oherwydd fy mod yn teimlo bod angen pregethu; rwyf yn teimlo bod angen pregeth. Y neges rwyf am ei phregethu yw ei bod yn rhaid gwneud rhywbeth. Mae

Government Committee in May 2010 concentrated on five issues: delays in getting a wheelchair; the particular needs of children of young people; that services are poorer in north Wales than in south Wales, which surely cannot be right; the problems with getting repairs carried out; and the possibility of pooled budgets to improve resources.

adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ym mis Mai 2010 yn canolbwyntio ar bum mater: oedi wrth gael cadair olwyn; anghenion penodol plant a phobl ifanc; bod gwasanaethau'n waeth yng ngogledd Cymru nag yn ne Cymru, siawns na all hynny fod yn iawn; y problemau o ran gwneud atgyweiriadau, a phosibilrwydd cyllidebau cyfun i wella adnoddau.

I do not want to anticipate what the Health and Social Care Committee will be discussing in its one-day inquiry this week, but some major points need to be preached. First, we need to remind the Assembly that the review of wheelchair services started two years before the committee meeting in 2010. Therefore, it is all the more annoying that, some four years on, some key organisations such as the MS Society and the Wales Neurological Alliance are telling us that there has been virtually no progress in meeting the key target of 18 weeks between the referral and the delivery of a wheelchair. This applies to powered wheelchairs as well as the non-powered types. The distinction between the two types of wheelchair does not feature in the report of May 2010. The committee will be made fully aware of that distinction next week.

Nid wyf am ragweld beth fydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei drafod yn ei ymchwiliad undydd yr wythnos yma, ond mae angen pregethu rhai pwyntiau pwysig. Yn gyntaf, mae arnom angen atgoffa'r Cynulliad bod yr adolygiad o wasanaethau cadeiriau olwyn wedi dechrau ddwy flynedd cyn cyfarfod y pwyllgor yn 2010. Felly, mae'n gwylltio rhywun yn waeth, tua phedair blynedd yn ddiweddarach, bod rhai sefydliadau allweddol megis y Gymdeithas MS a Chynghrair Niwrolegol Cymru yn dweud wrthym na fu fawr ddim cynnydd o ran cyrraedd y targed allweddol o 18 wythnos rhwng yr atgyfeiriad a danfon cadair olwyn. Mae hyn yn berthnasol i gadeiriau olwyn pŵer a'r rhai heb bŵer. Nid yw adroddiad mis Mai 2010 yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gadair olwyn. Bydd y pwyllgor yn cael gwybod yn iawn am y gwahaniaeth hwnnw'r wythnos nesaf.

One group that should be mentioned especially—which was mentioned earlier, and there is no shame in repeating it—is those suffering from motor neurone disease. Half of the people with MND die within 14 months of diagnosis. Rapid access to a wheelchair is therefore all the more vital for those people to maintain their dignity, independence and mobility. We heard passionately from Darren Millar about the stark fact that people receive their wheelchairs late, or sadly die before they receive them. I want to echo every word of his sentiments. How upsetting is that for families when the wheelchair is delivered following the death of their loved ones? People with this life-threatening disease must be given the highest priority. Something must be done. The MS Society has argued the case for wheelchair services to be organised around the seven health boards. Since we are looking at inadequacies in present services, its suggestion—like the proposal I put

Un grŵp y dylid sôn amdano’n benodol—a chafodd y grŵp hwn ei grybwyll yn gynharach, ac nid oes cywilydd mewn ailadrodd hyn—yw'r rheini sy'n dioddef o glefyd niwronau motor. Mae hanner y bobl sydd â chlefyd niwronau motor yn marw cyn pen 14 mis o gael y diagnosis. Mae cael gafael ar gadair olwyn yn gyflym felly'n fwy hanfodol byth i'r bobl hynny gynnal eu hurddas, eu hannibyniaeth a'u symudedd. Clywsom angerdd Darren Millar wrth iddo sôn am y ffaith foel bod pobl yn cael eu cadeiriau olwyn yn hwyr, neu yn anffodus yn marw cyn iddynt eu derbyn. Rwyf am ategu pob un o'i eiriau. Faint o bryder a achosir i deuluoedd pan fydd y gadair olwyn yn cael ei danfon ar ôl iddynt golli eu hanwyliaid? Rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i bobl â'r clefyd hwn sy'n bygwth bywyd. Rhaid gwneud rhywbeth. Mae'r Gymdeithas MS wedi dadlau'r achos dros drefnu gwasanaethau cadeiriau olwyn o amgylch y saith bwrdd iechyd. Gan ein bod yn edrych ar

forward recently about a similar reorganisation of ambulance services—should not be dismissed out of hand.

ddiffygion yn y gwasanaethau presennol, ni ddylid diystyru ei awgrym yn llwyr—fel y cynnig a gyflwynais yn ddiweddar am ad-drefnu tebyg gyda'r gwasanaethau ambiwlans.

One of the 2010 committee recommendations was for a communications strategy between suppliers and service uses to be developed urgently. Why are we still waiting for something to be done? Something must be done. Although the needs of all people who need wheelchairs must be met, I am particularly concerned about the plight of children and young people whose needs, between referral and delivery of a wheelchair, might have changed considerably. Just as important is that young person’s self-image. There was a telling quote in that committee meeting from a student who said:

Un o argymhellion 2010 y pwyllgor oedd datblygu strategaeth gyfathrebu ar frys rhwng cyflenwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Pam ydym yn dal i aros i rywbeth gael ei wneud? Rhaid gwneud rhywbeth. Er bod rhaid diwallu anghenion yr holl bobl y mae angen cadeiriau olwyn arnynt, rwyf yn arbennig o bryderus ynghylch sefyllfa plant a phobl ifanc y mae eu hanghenion efallai wedi newid yn sylweddol rhwng yr atgyfeirio a danfon y gadair olwyn. Mae hunanddelwedd yr unigolyn ifanc hwnnw'r un mor bwysig. Roedd dyfyniad dadlennol yng nghyfarfod y pwyllgor gan fyfyriwr a ddywedodd:

4.45 p.m.

‘I am not taking that piece of junk to university because it does not meet my needs and it does not reflect me as a person.’

Nid wyf am fynd â'r darn hwnnw o sothach i’r brifysgol oherwydd nid yw'n diwallu fy anghenion ac nid yw'n fy adlewyrchu i fel unigolyn.

The design of wheelchairs for young people therefore needs to be a key consideration. Another witness told the committee that if a child does not have an appropriate wheelchair, their mobility, growth and development can be inhibited. I am suggesting that every wheelchair for a young person must be customised, possibly at additional cost if that is what it takes. What I am preaching is that, in providing wheelchairs to young people, their emotional needs, as well as their physical needs, must be met. For young people, wheelchairs should be fun to get into, and not equipment to be made fun of.

Mae angen i ddyluniad y cadeiriau olwyn ar gyfer pobl ifanc felly fod yn ystyriaeth allweddol. Dywedodd tyst arall wrth y pwyllgor, os nad yw plentyn yn cael cadair olwyn briodol, bod hynny'n gallu atal ei symudedd, ei dwf a'i ddatblygiad. Rwyf yn awgrymu bod angen addasu pob cadair olwyn ar gyfer unigolyn ifanc, o bosibl am gost ychwanegol os dyna'r hyn mae ei angen. Yr hyn rwyf yn ei bregethu yw, o ran darparu cadeiriau olwyn i bobl ifanc, bod yn rhaid diwallu eu hanghenion emosiynol yn ogystal â'u hanghenion corfforol. Ar gyfer pobl ifanc, dylai fod yn hwyl eistedd ar gadeiriau olwyn, ni ddylai fod yn offer mae modd gwneud hwyl amdano.

When this matter comes before the committee next week, I shall be seeking assurances that things will start happening within weeks and months, so that we never again let people down who are depending on us to improve their quality of life. At last, let us please try to get something done. That is the end of my preaching.

Pan ddaw'r mater hwn gerbron y pwyllgor wythnos nesaf, byddaf yn gofyn am sicrwydd y bydd pethau'n dechrau digwydd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, fel nad ydym byth eto’n siomi pobl sy'n dibynnu arnom i wella ansawdd eu bywydau. O'r diwedd, gadewch i ni geisio gwneud rhywbeth. Dyna ddiwedd fy mhregeth.

**Suzy Davies:** I welcome this debate and the announcement of the one-day inquiry. I hope that this will put the unresolved issue of the timely provision of wheelchairs back on the Minister’s to-do list. Despite the fact that the majority of today’s contributors come from north Wales, it is far from being a north Wales only problem, Lindsay Whittle. It was very disappointing to see from yesterday’s report by the Motor Neurone Disease Association that while some improvements have been made in the north, there are now considerable gaps, particularly in south Wales. I am sure that the Minister will agree that moving a problem is not the same as solving it. It would be better to take control now and manage a speedy resolution.

**Suzy Davies:** Croesawaf y ddadl a'r cyhoeddiad ynghylch yr ymchwiliad undydd. Gobeithiaf y bydd hyn yn rhoi'r mater hwn nad yw wedi'i ddatrys ynghylch darparu cadeiriau olwyn yn amserol yn ôl ar restr y Gweinidog o bethau i'w gwneud. Er gwaethaf y ffaith bod y mwyafrif o'r cyfranwyr heddiw yn dod o ogledd Cymru, nid dim ond yng ngogledd Cymru mae'r broblem hon o gwbl, Lindsay Whittle. Roedd yn siomedig iawn gweld yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe gan y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor, er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud yn y gogledd, bod bylchau sylweddol yn awr, yn enwedig yn ne Cymru. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno nad yw symud problem yr un fath â'i datrys. Byddai'n well cymryd yr awenau nawr a rheoli ateb cyflym.

As many people who need wheelchairs to improve their quality of life will tell you, some things can only get worse as time passes. With rising demand, further delays will mean a bigger financial headache for the Government in the long term, but for those who have a degenerative disease, further delays mean that some will pay a much higher price.

Fel y bydd nifer o bobl y mae angen cadeiriau olwyn arnynt i wella ansawdd eu bywyd yn ei ddweud wrthych, dim ond yn waeth y bydd rhai pethau'n mynd gyda threigl amser. Gyda chynnydd yn y galw, bydd oedi pellach yn golygu cur pen ariannol mwy i'r Llywodraeth yn y tymor hir, ond i'r rheini sydd â chlefyd dirywiol, mae oedi pellach yn golygu y bydd rhai yn talu pris uwch o lawer.

Minister, I am sure that you understand the frustration felt regarding the delay in the implementation of the 2010 recommendations. I would therefore like to pick up on a point made by Ann Jones and acknowledge that there has been some movement on recommendation 15, which is the focus of my contribution, and recognise that there has been an improvement in joint funding, where working with the British Red Cross is relieving the pressure in the easier cases. The work of the third sector and its organisations in the direct provision of health services and social care in particular cannot be underestimated. That is why they need to be at the heart of designing services, as well as delivering them.

Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod yn deall y rhwystredigaeth a deimlir ynghylch yr oedi o ran gweithredu argymhellion 2010. Felly hoffwn gyfeirio at bwynt a wnaed gan Ann Jones a chydnabod y bu rhywfaint o symudiad gydag argymhelliad 15, sef ffocws fy nghyfraniad, a chydnabod y bu gwelliant o ran cyllido ar y cyd, lle mae gweithio gyda'r Groes Goch Brydeinig yn lleddfu'r pwysau yn yr achosion hawsaf. Nid oes modd tanamcangyfrif gwaith y trydydd sector a'i sefydliadau o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn uniongyrchol yn benodol. Dyna pam mae angen iddynt fod wrth galon y gwaith o ddylunio gwasanaethau, yn ogystal â'u cyflenwi.

However, the issue of joint funding with individuals has not progressed at all, despite recommendation 15. The all-Wales posture and mobility partnership board, which is as ponderous as its title, has not genuinely addressed the question of joint funding with individuals, and it is not clear how much attention the board has given to the idea of

Fodd bynnag, nid yw'r mater o gyllido ar y cyd gydag unigolion wedi symud ymlaen o gwbl, er gwaethaf argymhelliad 15. Nid yw bwrdd partneriaeth ystum corff a symudedd Cymru gyfan, sydd yr un mor glogyrnaidd â'i deitl, wedi mynd i'r afael o ddifrif â'r cwestiwn o gyllido ar y cyd gydag unigolion, ac nid yw'n glir faint o sylw y mae'r bwrdd

direct payments, as mentioned by Janet Finch-Saunders. The idea of direct payments is not mentioned specifically in the 2010 recommendations, but it originated with the Multiple Sclerosis Society as a possible way of meeting the requirements of recommendation 15. It is not just the view of the MS Society; it is the view of the Wales Neurological Alliance, which represents another 25 charities that have an interest in wheelchair provision for their members.

wedi'i roi i'r syniad o daliadau uniongyrchol, fel y crybwyllwyd gan Janet Finch-Saunders. Nid yw'r syniad o daliadau uniongyrchol yn cael ei grybwyll yn benodol yn argymhellion 2010, ond deilliodd o'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol fel ffordd bosibl o fodloni gofynion argymhelliad 15. Nid dim ond y Gymdeithas MS sy'n credu hyn: mae Cynghrair Niwrolegol Cymru, sy'n cynrychioli 25 o elusennau sydd â diddordeb mewn darpariaeth cadeiriau olwyn ar gyfer eu haelodau hefyd o'r un farn.

As we have heard, it can take many months from the time of assessment for a person to receive their wheelchair from the Artificial Limbs and Appliance Service—ALAS is its slightly unfortunate acronym. Indeed, the delay can be so long that the patient’s needs will have changed—well, I think that we all know what the Motor Neurone Disease Association has indicated with regard to circumstances more tragic than that. The Welsh Neurological Alliance believes that there is an alternative to waiting. Direct payments to individuals would give them the ability to purchase their wheelchair from a market provider, if they did not want or could not afford to wait for ALAS to provide one.

Fel yr ydym wedi clywed, gall gymryd misoedd lawer rhwng asesiad unigolyn a derbyn cadair olwyn gan y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar—ALAS yw ei acronym anffodus braidd. A dweud y gwir, gall yr oedi fod mor hir y bydd anghenion y claf wedi newid—wel, credaf ein bod i gyd yn gwybod yr hyn y mae'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor wedi'i ddweud o ran amgylchiadau mwy trist na hynny. Mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn credu bod dewis arall yn lle aros. Byddai taliadau uniongyrchol i unigolion yn eu galluogi i brynu eu cadair olwyn gan ddarparwr ar y farchnad, os nad oedd arnynt eisiau neu os nad oeddent yn gallu fforddio aros i'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar ddarparu un.

The idea that taxpayers’ money can be provided directly to the patient so that they can mould spending to their personal need is not new: it was introduced before devolution for some aspects of social care. It was developed further by the Labour Government at Westminster over the years, not least in the Health and Social Care Act 2001. At its outset, it was hailed as the most successful public policy in the area of social care, and over a decade later, commentators were still calling it a victory for the rights of disabled people. A policy of giving a person a sum of money, or a voucher, equivalent to what it would cost ALAS to provide a wheelchair and allowing that person to buy one from the market more quickly surely needs full attention.

Nid yw'n syniad newydd darparu arian y trethdalwyr yn uniongyrchol i'r claf er mwyn iddo addasu'r gwariant yn ôl ei anghenion personol: cafodd ei gyflwyno cyn datganoli ar gyfer rhai agweddau ar ofal cymdeithasol. Cafodd ei ddatblygu ymhellach gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan dros y blynyddoedd, nid leiaf yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. O'r cychwyn cyntaf, cafodd ei groesawu fel y polisi cyhoeddus mwyaf llwyddiannus ym maes gofal cymdeithasol, a dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae sylwebyddion yn dal yn ei alw yn fuddugoliaeth dros hawliau pobl anabl. Onid oes angen rhoi sylw llawn i bolisi o roi swm o arian i unigolyn, neu daleb, sy'n cyfateb i'r hyn y byddai'n ei gostio i'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar ddarparu cadair olwyn a chaniatáu i'r unigolyn hwnnw brynu un o'r farchnad yn gyflymach.

I can see that there would be a question about

Gallaf weld y byddai cwestiwn ynghylch

the ownership of the wheelchair, especially if an individual wanted to top up the purchase price, and there is also the question of how maintenance and repairs might be dealt with, but neither poses an insurmountable problem. In my view, if you use taxpayers' money to buy a wheelchair, it belongs to the state and is maintained by the state. Others may have different views, but there will be an answer. If users were stakeholders in the ALAS maintenance procurement process, they could ensure that a wide range of models and warranty agreements were dealt with in negotiating that contract, or they could arrange the maintenance for which the taxpayer would pay them back. Again, there will be an answer. So, I urge the health committee to take a look, if it can, at direct payments in its forthcoming inquiry and to give full weight to the views of a considerable number of expert third sector organisations, and not let political positioning stand in the way of an open mind on this.

perchnogaeth y gadair olwyn, yn enwedig os oes ar unigolyn eisiau ychwanegu at y pris prynu, ac mae cwestiwn hefyd ynghylch sut y byddid yn mynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau, ond nid ydynt yn achosi problem anorchfygol. Yn fy marn i, os ydych yn defnyddio arian trethdalwyr i brynu cadair olwyn, mae'n perthyn i'r wladwriaeth a chaiff ei chynnal a'i chadw gan y wladwriaeth. Efallai fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol, ond bydd ateb. Petai defnyddwyr yn rhanddeiliaid ym mhroses gaffael y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar, gallent sicrhau bod ystod eang o fodelau a chytundebau gwarant yn cael sylw wrth negodi'r contract hwnnw, neu gallent drefnu'r gwaith cynnal a chadw a byddent wedyn yn cael ad-daliad gan y trethdalwr. Unwaith eto, bydd ateb. Felly, rwyf yn annog y pwyllgor iechyd i fwrw golwg, os gall, ar daliadau uniongyrchol yn ei ymchwiliad sydd ar ddod a rhoi sylw llawn i safbwyntiau nifer fawr o sefydliadau trydydd sector arbenigol, a pheidio â gadael i safbwyntiau gwleidyddol rwystro meddwl yn agored ynglŷn â hyn.

Alongside that, and as well as requesting regular updates, I also ask the Minister to examine her powers to see whether it might be possible to establish a pilot scheme for direct payments in a part of Wales where delays are highest, but without prior legislation.

Ochr yn ochr â hynny, ac yn ogystal â gofyn am ddiweddariadau rheolaidd, rwyf hefyd yn gofyn i'r Gweinidog edrych ar ei phwerau i weld a fyddai'n bosibl sefydlu cynllun peilot ar gyfer taliadau uniongyrchol mewn rhan o Gymru lle mae'r oedi ar ei waethaf, ond heb ddeddfwriaeth ymlaen llaw.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I welcome this debate today and the opportunity to reaffirm my commitment to ensuring that wheelchair services are recognised as an important service area. That is why the Welsh Government will not be opposing the motion. However, I will not be supporting amendments 1 and 2 tabled by the Welsh Liberal Democrats. An extensive programme of work has been established to implement the Health, Wellbeing and Local Government Committee's recommendation, and as Ann Jones and other Assembly Members have stated, a progress report will be provided to the Health and Social Care Committee to consider at its meeting next week on 8 March.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Croesawaf y ddadl hon heddiw a'r cyfle i ailddatgan fy ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau cadeiriau olwyn yn cael eu cydnabod fel maes gwasanaeth pwysig. Dyna pam na fydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig. Fodd bynnag, ni fyddaf yn cefnogi gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae rhaglen helaeth o waith wedi cael ei sefydlu i weithredu argymhelliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, ac fel y mae Ann Jones ac Aelodau eraill y Cynulliad wedi datgan, bydd adroddiad cynnydd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried yn ei gyfarfod wythnos nesaf ar 8 Mawrth.

**Aled Roberts:** Thank you for taking the intervention. I appreciate that you will be

**Aled Roberts:** Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Rwyf yn gwerthfawrogi y byddwch

updating the health committee on the report, but it is clearly the case that despite your own views, and, I am sure, your own frustration, the target has not been included as a referral-to-treatment target. Therefore, there is no monitoring by the Government. Will you consider including it as a target and, effectively, applying sanctions if these are not met?

yn diweddaru'r pwyllgor iechyd ynghylch yr adroddiad, ond mae'n amlwg yn wir, er gwaethaf eich safbwyntiau eich hun, ac, rwyf yn siŵr, eich rhwystredigaeth eich hun, nad yw'r targed wedi cael ei gynnwys fel targed atgyfeirio i driniaeth. Felly, nid yw’r Llywodraeth yn monitro. A wnewch ystyried ei gynnwys fel targed ac, i bob pwrpas, defnyddio sancsiynau os na chaiff y rhain eu cyrraedd?

**Lesley Griffiths:** I will come to that point later in my speech.

**Lesley Griffiths:** Byddaf yn dod at y pwynt hwnnw yn nes ymlaen yn fy araith.

In relation to spending, health boards working with the Welsh Health Specialised Services Committee fund wheelchair services and are responsible for ensuring that money spent on wheelchair services for children and young people is used effectively. However, I acknowledge that the service has had some problems in the past. I regret any delays in services for users and recognise the negative impact that these delays can have on their quality of life. It was in order to address these concerns that a review of wheelchair provision in Wales was undertaken in 2008. The Health, Wellbeing and Local Government Committee also published its own report in 2010 on the inquiry into wheelchair services in Wales. Both these reviews recommended changes to improve the experience of service users.

Mewn perthynas â gwariant, mae byrddau iechyd, gan weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn cyllido gwasanaethau cadeiriau olwyn ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod arian sy'n cael ei wario ar wasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi cael rhai problemau yn y gorffennol. Rwyf yn gresynu ynghylch unrhyw oedi yn y gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr ac yn cydnabod yr effaith negyddol y gall yr oedi hwn ei chael ar ansawdd eu bywydau. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn y cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru yn 2008. Roedd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol hefyd wedi cyhoeddi ei adroddiad ei hun yn 2010 ar yr ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Roedd y naill adolygiad a'r llall yn argymell newidiadau i wella'r profiad i ddefnyddwyr gwasanaeth.

I am pleased that the debate today has given me the opportunity to highlight the considerable amount of work that has been undertaken since then, including the establishment of work streams that have been set up to consider the key issues and to develop recommendations for actions. This is something that many Members this afternoon, unfortunately, seem not to recognise. These looked in closer detail at the eligibility criteria, quality indicators and key performance indicators, together with a range of actions to ensure provision of an efficient and effective service to both established and new users. The programme of action has been led on an all-Wales basis by the all-Wales

Rwyf yn falch bod y ddadl heddiw wedi rhoi'r cyfle i mi dynnu sylw at y swm sylweddol o waith sydd wedi cael ei wneud ers hynny, gan gynnwys sefydlu ffrydiau gwaith sydd wedi cael eu sefydlu i ystyried y materion allweddol ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer camau gweithredu. Yn anffodus mae'n ymddangos nad oes llawer o Aelodau'n cydnabod hyn y prynhawn yma. Roedd y rhain yn edrych yn fanylach ar y meini prawf cymhwyso, dangosyddion ansawdd a dangosyddion perfformiad allweddol, ynghyd ag amrywiaeth o gamau gweithredu i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol ac effeithlon yn cael ei gyflenwi i'r rheini sy'n defnyddio cadeiriau olwyn ers tro

posture and mobility partnership board. This board is chaired and led by WHSSC as the commissioner of wheelchair services. The partnership board includes service users and service provider representatives to ensure that user views will continue to be integral to service planning and quality monitoring. The board meets quarterly and is due to meet again tomorrow.

byd a'r rheini sy'n eu defnyddio o'r newydd. Mae'r rhaglen o weithredu wedi cael ei harwain ar sail Cymru gyfan gan fwrdd partneriaeth ystum corff a symudedd Cymru gyfan. Mae'r bwrdd hwn yn cael ei gadeirio a'i arwain gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fel comisiynydd gwasanaethau cadeiriau olwyn. Mae'r bwrdd partneriaeth yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr darparwyr gwasanaeth i sicrhau y bydd barn defnyddwyr yn parhau i fod yn rhan annatod o gynllunio gwasanaethau a monitro ansawdd. Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob chwarter a bydd yn cwrdd eto yfory.

As Darren Millar welcomed, we have allocated an additional £2.2 million per year recurring from 2011-12 to increase capacity and to specifically target wheelchair services for children as a priority.

Fel y croesawodd Darren Millar, rydym wedi dyrannu £2.2 miliwn cylchol ychwanegol y flwyddyn o 2011-12 ymlaen i gynyddu gallu ac i dargedu gwasanaethau cadeiriau olwyn i blant fel blaenoriaeth.

**Darren Millar:** On the point of stakeholders and service users, I welcome the fact that service users are included within the scope of the review. However, I wonder how you are able to include the views of young people and children as service users, as part of that ongoing review process. I am not aware that they are involved in submitting their views directly.

**Darren Millar:** Ar y pwynt ynghylch rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth, croesawaf y ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad. Fodd bynnag, tybed sut yr ydych yn gallu cynnwys safbwyntiau pobl ifanc a phlant fel defnyddwyr gwasanaeth, fel rhan o'r broses adolygu barhaus honno. Nid wyf yn ymwybodol eu bod yn cyflwyno eu safbwyntiau'n uniongyrchol.

**Lesley Griffiths:** No, I think that that is something that local health boards, both in north and south Wales, will have to look at.

**Lesley Griffiths:** Nac ydynt, rwyf yn meddwl bod hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i fyrddau iechyd lleol, yng ngogledd ac yn ne Cymru, edrych arno.

The additional £2.2 million has enabled the recruitment of additional staff over the past year and will have a positive impact on service performance in future years. That funding has also been used to develop a service improvement programme, led by relevant health boards, and supported by the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare and the delivery support unit. The improvement programme commenced in September 2010 and has built on work already under way in each of the local wheelchair services.

Mae'r £2.2 miliwn ychwanegol wedi galluogi recriwtio staff ychwanegol dros y flwyddyn ddiwethaf a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r cyllid hwnnw hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglen gwella gwasanaeth, dan arweiniad byrddau iechyd perthnasol, a gyda chefnogaeth yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'r uned cyflawni a chefnogi. Dechreuodd y rhaglen gwella ym mis Medi 2010 ac mae wedi adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo ym mhob un o'r gwasanaethau cadeiriau olwyn lleol.

I now turn to the progress that we have made

Trof yn awr at y cynnydd rydym wedi'i

in some other important areas. Work has been undertaken to develop performance measures to monitor progress towards the provision of a more responsive and timely service, as this has been identified as a key user need. In response to concerns about non-compliance with the key performance indicators, NLIAH and the DSU have been supporting the Artificial Limb and Appliance Service to ensure that waiting times are measured in accordance with referral-to-treatment process measures. To refer to the intervention made by Aled Roberts, performance data will be collected by the Welsh Health Specialised Services Committee from April 2012 onwards, and I will hold health boards to account for delivery of the required performance standards.

wneud mewn rhai meysydd pwysig eraill. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu mesurau perfformiad i fonitro'r cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth sy'n fwy ymatebol ac amserol, gan fod hyn wedi'i nodi fel angen allweddol ymysg defnyddwyr. Mewn ymateb i bryderon ynghylch diffyg cydymffurfiad â'r dangosyddion perfformiad allweddol, mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'r Uned Cyflawni a Chefnogi wedi bod yn cefnogi'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar i sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu mesur yn unol â mesurau proses atgyfeirio i drin. I gyfeirio at ymyriad Aled Roberts, bydd data perfformiad yn cael ei gasglu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o fis Ebrill 2012 ymlaen, a byddaf yn dal byrddau iechyd i gyfrif am fodloni'r safonau perfformiad gofynnol.

With regard to services for children, we have given particular priority to wheelchair services, including the development of standards for maintenance and repair, which are being used by health boards to monitor their own performance. The extra staff funded by the Welsh Government should continue to improve the situation. For example, in north Wales, ALAS will be providing assessments for all children within six weeks of referral by the end of March 2012. While I cannot comment on individual cases, some of the cases that Members have referred to this afternoon make me realise that we need to pay more attention to adult waiting times.

O ran gwasanaethau i blant, rydym wedi rhoi blaenoriaeth arbennig i wasanaethau cadeiriau olwyn, gan gynnwys datblygu safonau ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio, sy'n cael eu defnyddio gan fyrddau iechyd i fonitro eu perfformiad eu hunain. Dylai'r staff ychwanegol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru barhau i wella'r sefyllfa. Er enghraifft, yng ngogledd Cymru, bydd y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn darparu asesiadau ar gyfer pob plentyn cyn pen chwe wythnos o'r atgyfeiriad erbyn diwedd mis Mawrth 2012. Er na allaf roi sylwadau ar achosion unigol, mae rhai o'r achosion y mae Aelodau wedi cyfeirio atynt y prynhawn yma yn gwneud i mi sylweddoli bod angen i ni roi mwy o sylw i amseroedd aros oedolion.

Darren Millar and Mark Isherwood both referred to the motor neurone disease event that we attended yesterday. However, they chose not to mention the good news story, which was that many of the MND sufferers praised the wheelchair services, and I am sure that they spoke to Darren and Mark as much as they spoke to me.

Cyfeiriodd Darren Millar a Mark Isherwood at y digwyddiad clefyd niwronau motor yr oeddem ynddo ddoe. Fodd bynnag, roeddent wedi dewis peidio â sôn am y stori newyddion da, sef bod llawer o'r dioddefwyr clefyd niwronau motor yn canmol y gwasanaethau cadeiriau olwyn, ac rwyf yn siŵr eu bod yn siarad â Darren a Mark cymaint ag oeddent y siarad â mi.

In response to the concerns regarding communication, the Welsh Government has funded a Wales-wide service user engagement work stream with a working group consisting of ALAS and service user

Mewn ymateb i'r pryderon ynghylch cyfathrebu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido ffrwd waith ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth Cymru gyfan gyda gweithgor sy’n cynnwys y Gwasanaeth Aelodau

members to identify effective ways to capture service users' views and experiences. The group is actively gathering a baseline of views and experiences to develop a three-year service user engagement strategy to target continuous improvement in that field. However, I take on board Darren Millar's point regarding children and young people.

Artiffisial a Chyfarpar a defnyddwyr y gwasanaeth i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o gasglu safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r grŵp wrthi'n casglu llinell sylfaen o safbwyntiau a phrofiadau i ddatblygu strategaeth ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth tair blynedd i dargedu gwelliant parhaus yn y maes hwnnw. Fodd bynnag, rwyf yn derbyn pwynt Darren Millar ynghylch plant a phobl ifanc.

We have also accepted the need for better integration of the service with the community, other NHS services and social services. ALAS is now working closely with community staff on an individual basis and providing training for professional groups, such as the tissue viability nurses, across Wales. In relation to Suzy Davies's point, I completely disagree that progress has not been made; local health boards are already undertaking some joint funding with the charity Whizz-Kidz, for example, for seat risers. Self-funded wheelchair modifications that are not required for health purposes can also be carried out, providing these do not compromise safety or the functionality of the wheelchair.

Rydym hefyd wedi derbyn bod angen integreiddio'r gwasanaeth yn well â'r gymuned, gwasanaethau eraill y GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar bellach yn gweithio'n agos gyda staff cymunedol ar sail unigol ac yn darparu hyfforddiant i grwpiau proffesiynol, fel y nyrsys hyfywedd meinwe, ledled Cymru. Mewn perthynas â phwynt Suzy Davies, rwyf yn anghytuno'n llwyr nad oes cynnydd wedi cael ei wneud; mae byrddau iechyd lleol eisoes yn ymgymryd â rhywfaint o gyllid ar y cyd â'r elusen Whizz-Kidz, er enghraifft, ar gyfer codi uchder seddi. Mae hefyd modd gwneud addasiadau i'r cadeiriau olwyn nad oes eu hangen at ddibenion iechyd ac a gyllidir gan yr unigolyn, ar yr amod nad yw'r rhain yn peryglu diogelwch neu ymarferoldeb y gadair olwyn.

To conclude, I welcome the interest of the Health and Social Care Committee in this matter and hope that it will recognise all the hard work that has been put in by both users and NHS staff to improve services. The committee will be provided with a comprehensive update on progress towards improving wheelchair services since the Health, Wellbeing and Local Government Committee report was published in 2010. I am grateful for the views of Members this afternoon, and I am sure that they will help the committee's consideration.

I gloi, rwyf yn croesawu diddordeb y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y mater hwn ac yn gobeithio y bydd yn cydnabod yr holl waith caled sydd wedi cael ei wneud gan ddefnyddwyr a staff y GIG i wella gwasanaethau. Bydd y pwyllgor yn cael diweddariad cynhwysfawr am y cynnydd tuag at wella gwasanaethau cadeiriau olwyn ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn 2010. Rwyf yn ddiolchgar am safbwyntiau'r Aelodau'r prynhawn yma, ac rwyf yn siŵr y byddant yn helpu ystyriaeth y pwyllgor.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Rhodri Glyn Thomas):** Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddadl.

**The Temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas):** I call upon Angela Burns to reply to the debate.

You have four and a half minutes.

Mae gennych bedwar munud a hanner.

**Angela Burns:** Right, I will talk quickly, then. It has been a superbly interesting debate to listen to, and I would like to thank

**Angela Burns:** Iawn, byddaf yn siarad yn gyflym, felly. Rydym wedi cael dadl hynod o ddiddorol, a hoffwn ddiolch i bawb sydd

absolutely everybody who has made a contribution today. Lindsay Whittle, I am really beginning to enjoy some of your sermons, although there was a sting in the tail today, because I for one did not know that half of those who get diagnosed with motor neurone disease die within 14 months. That was an absolute shock. That is not very much time at all. If you have only that much time, do you not want to be out and about, being able to live as much as you can of the life that you have left? Those were points well made, and I appreciate your bringing them to the Chamber today.

wedi cyfrannu heddiw. Lindsay Whittle, rwyf wir yn dechrau mwynhau rhai o'ch pregethau, er bod y gynffon yn pigo heddiw, oherwydd nid oeddwn yn gwybod bod hanner y rheini sy'n cael diagnosis o glefyd niwronau motor yn marw cyn pen 14 mis. Roedd hynny'n sioc lwyr. Nid yw hynny'n fawr o amser o gwbl. Os dyna'r cyfan sydd gennych ar ôl, onid oes arnoch eisiau gallu mynd yma a thraw a byw'r bywyd sydd gennych ar ôl i'r eithaf? Cafodd y pwyntiau hynny eu gwneud yn dda, ac rwyf yn falch eich bod wedi dod â nhw i'r Siambr heddiw.

Everybody who spoke made good points. I know that Ann Jones made a comment about Darren Millar mentioning something that he has said before in this Chamber, but I think that Darren learned a salutary lesson a few months ago, because he had the most awful break to his leg, and he needed a wheelchair. One telephone call to, I believe, the British Red Cross, and that wheelchair was there. That was an impressive service, and we need to thank our third sector organisations for being able to step into the breach.

Roedd pawb a siaradodd wedi gwneud pwyntiau da. Rwyf yn gwybod bod Ann Jones wedi gwneud sylw bod Darren Millar wedi sôn am rywbeth y mae wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr hon, ond credaf fod Darren wedi dysgu gwers lesol ychydig fisoedd yn ôl, oherwydd iddo dorri ei goes yn ddrwg, ac roedd angen cadair olwyn arno. Ar ôl un alwad ffôn i'r Groes Goch Brydeinig, rwyf yn meddwl, ac roedd y gadair olwyn yno. Roedd hwnnw'n wasanaeth da, ac mae arnom angen diolch i'n sefydliadau trydydd sector am allu camu i'r adwy.

5.00 p.m.

The debate is really about how we need to step into the breach to ensure that we give the support that people need. Janet Finch-Saunders's constituent's case was quite horrifying. I remember years ago—I cannot even remember which high street it was that I was strolling down—seeing a very small child in a very big wheelchair and thinking, ‘Wow, that's huge'. However, as the family went by, and I glanced over, I realised that that wheelchair was, in fact, carrying the most enormous life-support system. Therefore, it is not just the person that these wheelchairs have to carry around; some of them must also carry battery packs and, as this child had, a cylinder with oxygen or something in it. Therefore, the wheelchair is vital to being able to move about and to enjoy life.

Mae'r ddadl yn ymwneud â sut y mae angen i ni gamu i'r adwy i sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl. Roedd achos etholwr Janet Finch-Saunders yn eithaf arswydus. Rwyf yn cofio flynyddoedd yn ôl—ni allaf hyd yn oed gofio'r stryd fawr roeddwn yn cerdded ar ei hyd—gweld plentyn bach iawn mewn cadair olwyn fawr iawn a meddwl, 'Bobl bach, dyna gadair enfawr'. Fodd bynnag, wrth i'r teulu gerdded heibio, edrychais draw a sylweddoli bod y gadair olwyn, mewn gwirionedd, yn dal system cynnal bywyd enfawr. Felly, rhaid i gadeiriau olwyn gludo mwy na dim ond yr unigolyn; rhaid i rai ohonynt hefyd gludo pecynnau batri ac, fel yr oedd gan y plentyn hwnnw, silindr a oedd yn cynnwys ocsigen neu rywbeth. Felly, mae'r gadair olwyn yn hanfodol i allu symud o gwmpas ac i fwynhau bywyd.

It is great to hear the Minister reaffirm her commitment and say that she wants to move forward and monitor from 2012 to ensure that

Mae'n wych clywed y Gweinidog yn cadarnhau ei hymrwymiad a dweud ei bod am symud ymlaen a monitro o 2012 ymlaen i

the money is spent and spent wisely. However, I hope that the Health and Social Care Committee considers, next week during its one-day inquiry, what I call 'PIP'—planning, implementation and performance. A lot of money has been given to this, as well as a lot of commitment by everyone in the Chamber. This is a very worthy and necessary right that every human being has. We believe in equality, access and that everyone has the right to a good enjoyment of their life insofar as they possibly can. Yet, there is a group of people that has to fight the system in order to get that life. We need to identify the block and where the hold-up is—is it not enough staff manning a call centre, is it that things are getting lost, that we cannot make enough wheelchairs or that we cannot get them from wherever they come from? We must identify the reasons why this is falling apart and plug that hole, so that we are not letting down the people who are already carrying quite a burden in their lives, without having to take on this added burden.

sicrhau bod yr arian yn cael ei wario a'i wario'n ddoeth. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried cynllunio, gweithredu a pherfformiad yn ystod ei ymchwiliad undydd yr wythnos nesaf. Mae llawer o arian wedi cael ei roi i hyn, yn ogystal â llawer o ymrwymiad gan bawb yn y Siambr. Mae hon yn hawl teilwng iawn ac yn un angenrheidiol i bawb. Rydym yn credu mewn cydraddoldeb, mynediad a bod gan bawb yr hawl i gael mwynhau eu bywyd i'r eithaf. Eto i gyd, ceir grŵp o bobl sy'n gorfod brwydro yn erbyn y system er mwyn cael y bywyd hwnnw. Mae angen i ni ddod o hyd i'r rhwystrau—a oes prinder staff mewn canolfan alwadau, a yw pethau'n cael eu colli, a ydym yn methu â gwneud digon o gadeiriau olwyn neu a ydym yn methu â chael gafael arnynt o ble bynnag y maent yn dod? Rhaid i ni ddod o hyd i'r rhesymau pam mae hyn yn syrthio'n ddarnau a chau'r twll hwnnw, er mwyn sicrhau nad ydym yn siomi pobl sydd eisoes yn cario cryn faich yn eu bywydau, heb orfod ymgymryd â'r baich ychwanegol hwn.

Thank you all for what has been an interesting and useful debate. I also thank the Minister for her positive response. However, we will come knocking again on your door in future to ensure that the situation improves and that we answer the needs of the people of Wales.

Diolch i bawb am yr hyn sydd wedi bod yn ddadl ddiddorol a defnyddiol. Rwyf hefyd yn diolch i'r Gweinidog am ei chyfraniad cadarnhaol. Fodd bynnag, byddwn yn curo ar eich drws eto yn y dyfodol i sicrhau bod y sefyllfa'n gwella a'n bod yn diwallu anghenion pobl Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the motion is agreed

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Ysbytai Cyffredinol Dosbarth
### District General Hospitals

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2 yn enw Peter Black.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4926 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir i iechyd y wlad gan rwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y GIG yn gweithio gyda Chanolfannau Arbenigol rhanbarthol;*

*2. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi methu â chynnal ffydd y cyhoedd a chlinigwyr; a*

*3. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:*

*a) cynnal rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth i sicrhau bod dinasyddion Cymru o fewn pellter diogel i'w gwasanaethau achub bywydau; a*

*b) cyfarwyddo Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Powys i weithio ar draws ffiniau gweinyddol i sicrhau bod anghenion meddygol a llawfeddygol pobl canolbarth Cymru yn cael eu diwallu'n ddiogel ac yn ddigonol gan Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais.*

*Motion NDM4926 Jocelyn Davies*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the valuable contribution made to the health of the nation by a network of NHS District General Hospitals working with regional Specialist Centres;*

*2. Notes that Hywel Dda Health Board has failed to maintain the confidence of the public and clinicians; and*

*3. Calls on the Minister for Health and Social Services to:*

*a) maintain a network of District General Hospitals to ensure that Welsh citizens are within a safe distance of their life-saving services; and*

*b) instruct Hywel Dda Health Board, Betsi Cadwaladr University Health Board and Powys Health Board to work across administrative boundaries to ensure that the surgical and medical needs of the people of mid Wales are safely and adequately met by Bronglais District General Hospital.*

**Elin Jones:** Cynigiaf y cynnig.

Mae argymhellion i ad-drefnu ac israddio gwasanaethau ysbytai mewn sawl ardal, ond heddiw byddaf yn canolbwyntio'n bennaf ar Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Rwyf i a Phlaid Cymru wedi cyflwyno dwy ddadl arall dros y misoedd diwethaf ar ysbytai cyffredinol, ac ar adrannau damweiniau ac achosion brys hefyd. Fodd bynnag, gyda phrotest pobl y canolbarth yma yn y Senedd heddiw, a'r lefel uchel iawn o bryderon yn lleol am argymhellion Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yng nghyd-destun Bronglais, mae'n briodol i roi sylw penodol i'r ysbyty hwnnw ac anghenion pobl y canolbarth.

Os edrychwch ar fap o Gymru, a nodi'r holl ysbytai cyffredinol arno, yna gwelwch fod cyfres o ysbytai ar hyd coridor yr A55, cyfres arall ar hyd coridor yr M4 tua'r gorllewin, ac

**Elin Jones:** I move the motion.

There are recommendations to reorganise or to downgrade hospital services in many areas, but today I will be concentrating mainly on Bronglais General Hospital. I and Plaid Cymru have tabled two other debates in the past few months on general hospitals and on accident and emergency departments. However, given that the people of mid Wales are protesting here in the Senedd today, and given the high level of local concerns about the recommendations put forward by the Hywel Dda Local Health Board in the context of Bronglais, it is appropriate to give specific attention to that hospital and to the needs of the people of mid Wales.

If you look at a map of Wales, and place all of Wales's general hospitals on it, you will see that there is a series of hospitals along the A55 corridor, another series along the M4

un ysbyty'n unig rhwng y ddau goridor yna, sef Bronglais. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cyhoeddi rhai argymhellion ar gyfer ail-gyflunio gwasanaethau yn y tair sir—Ceredigion, sir Benfro a sir Gâr. Mae pedwar ysbyty cyffredinol yn y tair sir yna, ac mae Bronglais ar ffin ogleddol ardal Hywel Dda. Mae rheolwyr Hywel Dda wedi dweud yn glir mai cynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl Ceredigion, sir Gâr a sir Benfro a wnant, ac nad ydynt yn ystyried y dalgylch ehangach a wasanaethir gan Bronglais, megis pobl de Gwynedd, sydd o fewn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a phobl gorllewin Powys, sy'n byw o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys. Mae anghenion y boblogaeth hon o ran gwasanaethau ysbyty wedi cael eu diystyrru'n llwyr, a dyna prif fyrdwn ein cynnig ni heddiw, sef gorfodi Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i weithio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i gynllunio gwasanaethau ysbyty ar gyfer y canolbarth yn ei gyfanrwydd. Mae angen ymgynghori ar ddyfodol Bronglais gyda holl bobl y canolbarth, felly, ac mae angen cynllunio gwasanaethau Bronglais fel yr unig ysbyty sy'n gwasanaethu'r canolbarth, yn hytrach nag fel un allan o bedwar ysbyty sy'n gwasanaethu'r hen Ddyfed.

corridor heading towards the west, and only one hospital between those two corridors, namely Bronglais. The Hywel Dda Local Health Board has announced some recommendations for the reorganisation of services in the three counties—Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire. There are four general hospitals in those three counties, and Bronglais is on the northern border of the Hywel Dda area. The managers of Hywel Dda have made it clear that they are planning services for the people of Ceredigion, Carmarthenshire and Pembrokeshire, and that they are not taking into account the far broader catchment area served by Bronglais, such as the people of south Gwynedd, within the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, and the people of western Powys, within the Powys Teaching Local Health Board area. The needs of this population for hospital services have been completely disregarded, and that is the main burden of our motion today, to force the Hywel Dda Local Health Board to work with the Betsi Cadwaladr University Local Health Board and the Powys Teaching Local Health Board to design hospital services that are appropriate to mid Wales as a whole. There is a need for consultation on the future of Bronglais with all the people of mid Wales, therefore, and services need to be planned at Bronglais as the only hospital serving mid Wales, and not as one of four hospitals serving the former Dyfed.

The proposals by Hywel Dda Local Health Board, which are currently in the pre-consultation phase, involve the removal of colorectal surgery and consultants from Bronglais, and the re-designation of the accident and emergency department into an urgent care centre. This will jeopardise general surgical intervention and emergency obstetric surgical intervention. It will seriously damage Bronglais's ability to recruit consultants even further, and even its ability to train junior doctors. A spiral of decline is being proposed.

Mae'r cynigion gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod cyn ymgynghori, yn cynnwys cael gwared ag ymgynghorwyr a llawdriniaethau'r colon a'r rhefr o Ysbyty Bronglais, ac ail-ddynodi'r adran damweiniau ac achosion brys yn ganolfan gofal brys. Bydd hyn yn peryglu ymyriadau llawfeddygol cyffredinol ac ymyriadau llawfeddygol obstetrig brys. Bydd yn gwneud hyd yn oed mwy o niwed difrifol i allu Bronglais i recriwtio ymgynghorwyr, a hyd yn oed ei allu i hyfforddi meddygon iau. Mae dirywiad graddol yn cael ei gynnig.

I will be generous to the First Minister and say that I agree with some of his words on Bronglais in the Chamber yesterday. He said:

Byddaf yn hael i'r Prif Weinidog a dweud fy mod yn cytuno â rhai o'i eiriau ynghylch Bronglais yn y Siambr ddoe. Dywedodd:

'We, as a Government, will be guided by what doctors say.'

'Caiff y Llywodraeth ei harwain gan yr hyn sydd gan feddygon i'w ddweud.'

Those were his words, and I agree with them. The doctors in Bronglais have spoken clearly: 50 of the 60 medical staff at Bronglais signed a letter saying that they had lost all confidence in Hywel Dda Local Health Board’s commitment to delivering health services in Bronglais. They said that

Dyna oedd ei eiriau, ac rwyf yn cytuno â nhw. Mae'r meddygon yn Ysbyty Bronglais wedi siarad yn glir: mae 50 o'r 60 aelod o staff meddygol ym Mronglais wedi llofnodi llythyr yn dweud eu bod wedi colli pob hyder yn ymrwymiad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i gyflenwi gwasanaethau iechyd ym Mronglais. Maent yn dweud

‘it is frankly dangerous to rely on the availability of an ambulance…for a truly urgent transfer’.

ei bod mewn gwirionedd yn beryglus dibynnu ar argaeledd ambiwlans...i drosglwyddo achosion sydd wir yn rhai brys.

The clinicians believe that transfers from Bronglais would be dangerous. A study by the Medical Care Research Unit at Sheffield University has quantified the relationship between distance to hospital and patient mortality in emergencies. Its conclusion was that a 10 km increase in straight line distance is associated with around a 1% absolute increase in mortality. If access to emergency 24-hour surgery was removed from Bronglais, door-to-door transfer from Bronglais to Glangwili is 74 km, which represents a 7% increase in mortality, and that is only from Bronglais to Glangwili, from door to door. The distances are far greater for those who live north of Aberystwyth. Patient safety depends on access to emergency intervention within the golden hour. If you take out intervention at Bronglais, then most people from Tywyn to Llanidloes to Aberystwyth would not be anywhere near an hour away from emergency surgery.

Mae’r clinigwyr yn credu y byddai trosglwyddo o Fronglais yn beryglus. Mae astudiaeth gan yr Uned Ymchwil Gofal Meddygol ym Mhrifysgol Sheffield wedi mesur y berthynas rhwng y pellter i'r ysbyty a marwolaethau cleifion mewn argyfwng. Ei chasgliad oedd bod cynnydd o 10 km yn y pellter fel yr hed y frân yn gysylltiedig ag oddeutu cynnydd o un y cant absoliwt yn nifer y marwolaethau. Petai mynediad i lawdriniaethau brys 24 awr yn cael ei dynnu o Fronglais, mae trosglwyddo o ddrws Ysbyty Bronglais i ddrws Glangwili yn 74 km, sy'n cynrychioli cynnydd o saith y cant mewn marwolaethau, a dim ond o ddrws Bronglais i ddrws Glangwili yw hynny. Mae'r pellteroedd yn llawer mwy ar gyfer y rheini sy'n byw i'r gogledd o Aberystwyth. Mae diogelwch cleifion yn dibynnu ar fynediad at ymyriadau brys yn ystod yr awr aur. Os byddwch yn tynnu ymyriadau o Fronglais, yna ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl o Dywyn i Lanidloes i Aberystwyth yn agos at fod awr i ffwrdd o lawdriniaeth frys.

There were close to 1,000 colourful people on the steps of the Senedd today. They were not here because some political party has been scaremongering; they are insulted by such accusations and expect and deserve better from their First Minister. They were here because they have lost all confidence in Hywel Dda’s commitment to Bronglais as a life-saving hospital. The proposals, as they stand, are unacceptable to them, just as they are unacceptable to the doctors at Bronglais. Hywel Dda LHB does not turn up to public meetings to explain and justify its proposals. There have been public meetings on Bronglais in Aberystwyth, Tywyn, Machynlleth, Llanidloes and Tregaron, and

Roedd bron i 1,000 o bobl liwgar ar risiau'r Senedd heddiw. Nid oeddent yma oherwydd bod rhyw blaid wleidyddol wedi bod yn codi bwganod; maen nhw wedi cael eu sarhau gan gyhuddiadau o'r fath ac maen nhw'n disgwyl ac yn haeddu gwell gan eu Prif Weinidog. Roeddent yma oherwydd eu bod wedi colli pob hyder yn ymrwymiad Hywel Dda i Fronglais fel ysbyty achub bywyd. Mae'r cynigion, fel y maent, yn annerbyniol iddynt, yn union fel y maen nhw'n annerbyniol i'r meddygon ym Mronglais. Nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn dod i gyfarfodydd cyhoeddus i esbonio a chyfiawnhau ei gynigion. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus ar Fronglais yn

Hywel Dda LHB has not turned up to explain its proposals.

Aberystwyth, Tywyn, Machynlleth, Llanidloes a Thregaron, ac nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi bod yno i esbonio ei gynigion.

Engagement is on Hywel Dda's terms only. A pretty poor DVD was sent to every house—well, nearly every house, as it was not sent to mine. I must have been on a blacklist, as I did not receive my DVD. The health board has also held a handful of drop-in meetings. There are no Hywel Dda board meetings north of Llechryd scheduled for the next 12 months. Its chairman is currently unwilling to meet me in Ceredigion, and insists on meeting me in Haverfordwest. I am sure that the Minister will outline the significant capital spend going to Bronglais. That was started by the One Wales Government before the last election, and was much welcomed by everyone, including me; I live in the shadow of the crane above Bronglais, and I am reminded every day of that investment. Those new facilities will be great, but the services need to be there within those newly painted walls. Elystan Morgan quoted Julius Caesar on the steps of the Senedd this lunchtime:

Dim ond ar delerau Hywel Dda maen nhw'n ymgysylltu. Cafodd DVD eithaf gwael ei anfon i bob tŷ—wel, bron pob tŷ, gan na chafodd ei anfon i fy nhŷ i. Mae'n rhaid fy mod ar restr o bobl wedi'u gwahardd, gan na chefais fy DVD. Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi cynnal llond llaw o gyfarfodydd galw heibio. Nid oes dim un o gyfarfodydd bwrdd Hywel Dda wedi cael ei drefnu i'r gogledd o Lechryd ar gyfer y 12 mis nesaf. Ar hyn o bryd mae ei gadeirydd yn amharod i gwrdd â mi yng Ngheredigion, ac yn mynnu ar gwrdd â mi yn Hwlffordd. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn amlinellu'r gwariant cyfalaf sylweddol sy'n mynd i Fronglais. Cafodd hynny ei ddechrau gan Lywodraeth Cymru'n Un cyn yr etholiad diwethaf, a chafodd groeso cynnes gan bawb, gan gynnwys fi; rwyf yn byw yng nghysgod y craen sydd uwchben Bronglais, ac rwyf yn cael fy atgoffa bob dydd o'r buddsoddiad hwnnw. Bydd y cyfleusterau newydd hynny'n wych, ond rhaid cael y gwasanaethau yno o fewn y muriau a fydd newydd eu peintio. Ar risiau'r Senedd amser cinio heddiw, dyfynnodd Elystan Morgan Iŵl Cesar:

'They create a wasteland and they call it prosperity.'

Maent yn creu tir diffaith ac yn ei alw yn ffyniant.

Today, the Minister will have the opportunity, in responding to the Plaid Cymru motion, to insist that the future of Bronglais is planned to serve the people of mid Wales and that it is not treated as a hospital at the edge of the Hywel Dda area but as a hospital for the whole of mid Wales. That must not be a token gesture or exercise by Hywel Dda in its dealings with the people of Meirionnydd and Powys. It cannot be allowed to just send a DVD to Tywyn or Llanidloes. It has to seriously plan the future of Bronglais to meet the needs of people in mid Wales and to meet their moral and legal right of access to life-saving services.

Wrth ymateb i'r cynnig gan Blaid Cymru heddiw, bydd y Gweinidog yn cael y cyfle i fynnu bod dyfodol Bronglais yn cael ei gynllunio i wasanaethu pobl canolbarth Cymru ac nad yw'n cael ei drin fel ysbyty ar ymyl ardal Hywel Dda ond fel ysbyty ar gyfer canolbarth Cymru i gyd. Rhaid i hynny beidio â bod yn ymarfer arwynebol gan Hywel Dda wrth iddo ddelio â phobl Meirionnydd a Phowys. Ni ellir caniatáu iddo ddim ond anfon DVD i Dywyn neu Lanidloes. Rhaid iddo gynllunio dyfodol Bronglais o ddifrif i ddiwallu anghenion pobl yng nghanolbarth Cymru ac i ddiwallu eu hawl moesol a chyfreithiol i gael mynediad at wasanaethau achub bywyd.

We oppose the Government's amendment today. There is nothing particularly innovative about sending bland DVDs

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant y Llywodraeth heddiw. Nid oes dim byd hynod o arloesol am anfon DVDs di-ffrwt drwy

through everyone’s post boxes. I will be supporting Peter Black’s amendment commending the work of the local campaign group in Aberystwyth, aBer. I am a member of that group, and I reckon that this amendment is the closest that I will ever get to a compliment from Peter Black. [*Laughter*.]

flychau post pawb. Byddaf yn cefnogi gwelliant Peter Black yn canmol gwaith y grŵp ymgyrchu lleol yn Aberystwyth, aBer. Rwyf yn aelod o'r grŵp hwnnw, ac rwyf yn credu mai'r gwelliant hwn fydd y peth agosaf a gaf at ganmoliaeth gan Peter Black byth. [*Chwerthin*.]

I will finish with the words from one of those colourful banners on the steps of the Senedd. It reminded this Assembly that Bronglais is a hospital that reaches the parts other hospitals cannot reach.

Rwyf am orffen gyda geiriau un o'r baneri lliwgar ar risiau'r Senedd. Roedd yn atgoffa'r Cynulliad hwn bod Bronglais yn ysbyty sy'n cyrraedd y mannau na all ysbytai eraill eu cyrraedd.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl ‘Dda’ a rhoi yn ei le:*

*In point 2, delete all after ‘Board’ and replace with:*

*‘yn gweithio’n arloesol ac yn eang, er bod ganddo waith i’w wneud eto, i ymgysylltu ac egluro dyfodol gwasanaethau’r GIG i’r cyhoedd a chlinigwyr yn ei ardal leol; a’*

*‘is working innovatively and widely, but still has work to do, in engaging and explaining the future of NHS services to the public and clinicians in its locality; and’*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu fel pwynt 3 newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Add as new point 3 and renumber accordingly:*

*3. Yn nodi ac yn llongyfarch y gwaith gwerthfawr a wneir gan ‘The aBer Group’ o ran cryfhau cyfranogiad y cyhoedd yn nyfodol Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais; a*

*3. Notes and congratulates the invaluable work undertaken by ‘The aBer Group’ in strengthening public participation in the future of Bronglais District General Hospital; and*

**William Powell:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

**William Powell:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

I am very grateful to be taking part in this important debate today. As Elin Jones said, it is the closest thing that she has had to a compliment from Peter. Nevertheless, take it in the spirit that it is intended. For months and indeed years, the aBer group has been active, consistently representing the views of clinicians and, as was evident today, the general public on the future of health provision in mid Wales. It is evident that this Assembly should pay the group the respect that it deserves. Only yesterday, as we heard

Rwyf yn falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Fel y dywedodd Elin Jones, dyma’r peth agosaf a gafodd erioed i ganmoliaeth gan Peter. Serch hynny, cymerwch hynny yn yr ysbryd y cafodd ei fwriadu. Ers misoedd ac, yn wir, blynyddoedd, mae'r grŵp aBer wedi bod yn weithgar, gan fynd ati’n gyson i gynrychioli barn clinigwyr ac, fel oedd yn amlwg heddiw, y cyhoedd ar ddyfodol darpariaeth iechyd yng nghanolbarth Cymru. Mae'n amlwg y dylai'r Cynulliad hwn roi'r parch

earlier and as we heard for ourselves, the First Minister responded to some justified criticism of the board by stating that health boards and, indeed, the Welsh Government will listen to clinical staff. The key members of the aBer group are active and retired clinicians—people with real expertise in this field. As such, it is essential that we recognise the fact that the group represents a huge proportion of the staff members: 50 of the 60 senior clinicians have signed up to a letter.

haeddiannol i'r grŵp. Ddoe ddiwethaf, fel y clywsom yn gynharach ac wrth i ni glywed drosom ein hunain, ymatebodd y Prif Weinidog i rai o'r beirniadaethau cyfiawn ynghylch y bwrdd drwy ddweud y bydd byrddau iechyd ac, yn wir, Llywodraeth Cymru yn gwrando ar staff clinigol. Mae aelodau allweddol grŵp aBer yn glinigwyr sy’n gweithio ar hyn o bryd ac yn glinigwyr sydd wedi ymddeol—pobl a chanddynt arbenigedd gwirioneddol yn y maes hwn. O'r herwydd, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod y ffaith bod y grŵp yn cynrychioli cyfran enfawr o'r aelodau o staff: Mae 50 o'r 60 o uwch glinigwyr wedi llofnodi llythyr.

In that letter they say that they have lost all confidence in Hywel Dda health board’s commitment to supporting them in delivering the services needed. Close to 1,000 residents and staff members, including trade unionists—there were Unison banners there as well as other colourful banners—were calling upon us to recognise that there are serious shortcomings in the way that the Hywel Dda health board has been conducting the process up to this point. These need to be addressed. For that reason, my party cannot accept the Government’s amendment, which in practical terms is seeking to remove the valid criticism. It also acts to diminish the views of clinicians and residents across the region and well beyond Ceredigion, as Elin Jones has correctly stated.

Yn y llythyr hwnnw maent yn dweud eu bod wedi colli pob hyder yn ymrwymiad bwrdd iechyd Hywel Dda i'w cefnogi i gyflenwi'r gwasanaethau y mae eu hangen. Roedd bron i 1,000 o drigolion ac aelodau staff, gan gynnwys undebwyr llafur—roedd baneri Unsain yno yn ogystal â baneri lliwgar eraill—yn galw arnom i gydnabod bod diffygion difrifol yn y ffordd y mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi bod yn cynnal y broses hyd yn hyn. Mae angen mynd i’r afael â'r rhain. Am y rheswm hwnnw, ni all fy mhlaid dderbyn gwelliant y Llywodraeth sydd, yn ymarferol, yn ceisio cael gwared â’r feirniadaeth ddilys. Mae hefyd yn bychanu barn clinigwyr a thrigolion ar draws y rhanbarth a thu hwnt i Geredigion, fel y mae Elin Jones wedi'i ddweud yn gywir.

5.15 p.m.

However, when talking about the failings of Hywel Dda health board, it is important to remember that it is not just about the future of Bronglais. Residents and staff across the wider region fear for their jobs and their health services as centralisation and the downgrading of specific services loom larger on the horizon. I am aware of the discomfort of colleagues opposite about this.

Fodd bynnag, wrth siarad am fethiannau bwrdd iechyd Hywel Dda, mae'n bwysig cofio bod hyn yn ymwneud â mwy na dim ond dyfodol Bronglais. Mae trigolion a staff ar draws y rhanbarth ehangach yn pryderu am eu swyddi a'u gwasanaethau iechyd wrth i ganoli ac israddio gwasanaethau penodol lechu ar y gorwel. Rwyf yn ymwybodol o anghysur cyd-Aelodau gyferbyn am hyn.

In such terms, it is also essential to note that many of those who truly care about the future of health services in the whole of Mid and West Wales understand that the current situation is unsustainable. Candace Imison, the deputy director of policy at the King’s Fund and the author of the briefing ‘Reconfiguring hospital services’, dated

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n hanfodol nodi hefyd bod llawer o'r rheini sydd wir yn poeni am ddyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru drwyddo draw yn deall nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Dywedodd Candace Imison, y dirprwy gyfarwyddwr polisi yn y King's Fund ac awdur *'Reconfiguring hospital*

September 2011, has said:

‘Changes to the way hospital services are organised in some parts of the country are now a necessity, not an option, if the NHS is to deliver safe, high-quality care. With the NHS facing growing financial pressures and difficulties in recruiting staff with the right skills, politicians must grasp the nettle on this—not to do so risks allowing the continuation of poor-quality and potentially unsafe services.’

*services’*, dyddiedig Medi 2011:

Mae newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau ysbytai eu trefnu mewn rhai rhannau o'r wlad nawr yn angenrheidiol, nid yn opsiwn, os yw'r GIG am gyflenwi gofal diogel, o ansawdd uchel. Gyda'r GIG yn wynebu pwysau ariannol ac anawsterau cynyddol o ran recriwtio staff sydd â'r sgiliau cywir, rhaid i wleidyddion fynd i'r afael â'r mater—gallai peidio â gwneud hynny olygu parhad gwasanaethau o ansawdd gwael ac sydd o bosibl yn anniogel.

However, the reduction of unsafe services must form a central pivot of a much more nuanced and sophisticated debate that recognises the reality of healthcare needs in rural Wales. That must never be at the cost of residents, whose needs are not even considered. We must not produce a second-tier health service for Welsh residents who happen to live some distance from the M4 corridor and the A55. That has been the case with health boards in mid Wales.

Fodd bynnag, rhaid i leihau gwasanaethau anniogel fod yn ganolog i ddadl sy'n fwy soffistigedig a chynnil sy'n cydnabod realiti anghenion gofal iechyd yng Nghymru wledig. Rhaid i hynny beidio byth â bod ar draul trigolion, na chaiff eu hanghenion eu hystyried hyd yn oed. Rhaid i ni beidio â chreu gwasanaeth iechyd ail-haen ar gyfer trigolion Cymru sy'n digwydd bod yn byw gryn bellter o goridor yr M4 a'r A55. Dyna fu'r achos gyda byrddau iechyd yng nghanolbarth Cymru.

Returning to Bronglais, we know that the catchment area spans three health boards. I know from conversations that we have had with the Hywel Dda LHB that cross-boundary issues have not been appropriately and adequately considered in this regard. In looking at Bronglais and the wider healthcare needs in rural Wales, we must remember the populations of Montgomeryshire and south Gwynedd. I travelled down from mid Wales on a bus that had started its journey this morning in Llanidloes—

Gan ddychwelyd at Fronglais, rydym yn gwybod bod y dalgylch yn ymestyn dros dri bwrdd iechyd. Gwn o sgyrsiau rydym wedi'u cael gyda BILl Hywel Dda nad yw materion trawsffiniol wedi cael eu hystyried yn briodol nac yn ddigonol yn hyn o beth. Wrth edrych ar Fronglais ac anghenion gofal iechyd ehangach yng Nghymru wledig, rhaid i ni gofio poblogaethau Sir Drefaldwyn a de Gwynedd. Teithiais i lawr o ganolbarth Cymru ar fws a oedd wedi dechrau ar ei daith y bore yma yn Llanidloes—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. William, we do not have time to follow that particular journey. [*Laughter.*] Your time has come.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. William, nid oes gennym amser i ddilyn y daith benodol honno. [*Chwerthin.*] Mae eich amser wedi dod i ben.

**William Powell:** I will conclude my remarks.

**William Powell:** Dof â'm sylwadau i ben.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** No, I have just concluded your remarks. You are over your time.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Na wnewch, rwyf fi newydd ddod â'ch sylwadau i ben. Rydych wedi mynd dros eich amser.

Dylwn egluro bod 10 person wedi mynegi dymuniad i siarad yn y ddadl hon, ac nid yw hynny’n cynnwys y Gweinidog na siaradwr yr araith gloi. Felly, gofynnaf i bawb gadw at

I should explain that 10 people have an expressed an interest in speaking in this debate, and that does not include the Minister or the closing speaker. Therefore, I ask

dri munud yn hytrach na phum munud, ac yna gallaf alw pob un ohonoch. Yn anffodus, os yw pobl yn mynnu defnyddio eu pum munud, bydd yn rhaid imi beidio â galw rhai siaradwyr. Rwyf yn siŵr y bydd Alun Ffred yn rhoi arweiniad ar gyfer y rhai sy'n ei ddilyn.

everyone to keep to three minutes rather than five, and then I will be able to call all of you. Unfortunately, if people insist on using their five minutes, I will not be able to call some speakers. I am sure that Alun Ffred will set an example for those who will follow him.

**Alun Ffred Jones:** Byddaf mor gyflym ag y gallaf. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir yn y Cynulliad nad yw aros yn yr unfan yn ddewis o gwbl i'r gwasanaeth iechyd. Ei geiriau oedd

**Alun Ffred Jones:** I will be as quick as I can. The Minister has stated clearly in the Assembly that remaining as it is is not an option for the health service. Her words were:

'the status quo is not an option'.

nid yw'r status quo yn opsiwn.

Felly, mae hi'n gwybod beth nad yw'n dderbyniol yn y sefyllfa bresennol. Yn anffodus, nid yw'n barod i rannu'r syniadau hyn â ni a phobl eraill a dyna ran o'r broblem. Hyd y gwelaf, yr hyn y mae'n ei wneud yw cuddio y tu ôl i'r byrddau iechyd lleol. Dyma ni, bron i flwyddyn ers yr etholiad, yn dal i ddisgwyl gweld y cynlluniau hynny—yn sicr, dyna'r sefyllfa yn y gogledd. Mae'r cwestiwn yn amlwg iawn: pam nad ydym yn cael cyfle i weld y cynlluniau hynny ar ôl bron i flwyddyn o drafodaethau mewnol?

Therefore, she knows what is not acceptable in the current situation. Unfortunately, she is not willing to share these ideas with us and others and that is part of the problem. As far as I can see, what she is doing is hiding behind the local health boards. Here we are, almost a year since the election, still waiting to see those plans—certainly, that is the situation in the north. The question is obvious: why are we not being given an opportunity to see those plans after almost a year of internal discussions?

Mae rhywun braidd yn sinigaidd yn dechrau amau mai'r bwriad yw cuddio'r rhain tan y bydd yr etholiadau lleol allan o'r ffordd. Os yw hynny'n wir, mae'n waradwyddus. Yr unig beth y mae'n ei wneud yw creu mwy o amheuon a mwy o drafod, â neb yn gwybod beth yn union yw'r cynigion sydd i ddod ger ei bron. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn galw ar y byrddau iechyd i gyhoeddi eu cynlluniau cyn gynted â phosibl fel ein bod yn cael cyfle i wyntyllu'r awgrymiadau sydd ynddynt.

A somewhat cynical person might begin to suspect that the intention is to hide these until the local elections are out of the way. If that is true, it is disgraceful. The only thing that it does is to create more doubt and discussion, with no-one knowing exactly what the proposals that will be put before us are. I think that it is important that we call on health boards to publish their plans as soon as possible so that we have an opportunity to discuss the suggestions made in them.

Roedd y Prif Weinidog ddoe yn barod iawn i daflu'r cyhuddiad *scaremongering* o gwmpas y Siambr ac yn codi cwestiynau ynglŷn â motif pawb sydd wedi bod yn rhan o unrhyw ymgyrch i warchod gwasanaethau yn eu hardaloedd. Dylai gael gair gyda'r Aelod dros Lanelli, sydd wedi bod yn gwneud mwy o *scaremongering,* am wn i, na neb arall yn y Siambr. Fodd bynnag, mae'n debyg bod hynny'n iawn am ryw reswm.

The First Minister yesterday was very quick to make an accusation of scaremongering in the Chamber and to question the motives of anyone who had been part of a campaign to safeguard services in their areas. He should have a word with the Member for Llanelli, who has been doing more scaremongering, as far as I am aware, than anyone else in the Chamber. However, it seems that that is fine for some reason.

I ddychwelyd at y sefyllfa yn y gogledd, rwyf

To return to the situation in north Wales, I

wedi cael dau gyfarfod gyda'r bwrdd iechyd, gyda'r cadeirydd a'r prif weithredwr. Manteisiaf ar y cyfle i ddymuno'n dda i'r prif weithredwr—gobeithio y bydd yn cael adferiad llwyr a buan. Fodd bynnag, ar ôl y cyfarfodydd hynny, ni wn beth fydd yn cael ei gynnig. Yn wir, yn ôl un aelod o'r bwrdd iechyd, nid yw'r bwrdd ei hun yn gwybod beth fydd yn cael ei gynnig. Felly, mae'n anodd gwybod pwy sy'n gyrru'r broses, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau yn y pen draw ac yn enw pwy y cânt eu gwneud. Rwy'n credu bod yr amser wedi dod inni gael gweld y cynlluniau hyn yn llawn fel ein bod yn cael gwybod beth yw'r dadleuon o blaid unrhyw newid.

have had two meetings with the health board, with the chair and the chief executive. I take this opportunity to wish the chief executive well—I hope that she will have a speedy recovery. However, after those meetings, I do not know what will be proposed. Indeed, according to one member of the health board, the board itself does not know what will be proposed. Therefore, it is hard to know who is driving the process, who will ultimately make the decisions and in whose name they will be made. I think that the time has come for us to see these plans in full so that we can know what the arguments are in favour of any change.

Er mwyn cadw at ddymuniad y dirprwy lywydd dros dro, nid wyf yn mynd i wneud achos dros Ysbyty Gwynedd. Yr un dadleuon sy'n berthnasol i Fronglais ydynt i ryw raddau, oherwydd y pellteroedd mae pobl yn gorfod teithio i'r ysbyty hwnnw o ogledd sir Fôn ac o ben draw Llŷn. Mae peryglon amlwg os nad ydych yn cael y gwasanaethau a'r arbenigeddau yn yr ysbyty hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod anawsterau ynghylch cael arbenigwyr mewn ysbytai yn y gorllewin ac un ateb i hwnnw yw rhywbeth rwyf wedi pregethu drosodd a throsodd yn y lle hwn, sef yr angen i gael ysbyty hyfforddi llawn yng ngogledd Cymru, wedi'i gyfuno gyda'r arbenigeddau sydd ym Mhrifysgol Bangor yn arbennig, ond hefyd yr arbenigeddau sydd, yn ddiau, ym Mhrifysgol Glyndŵr. Felly, mae cyfleoedd yn y fan honno i newid y tirlun. Rwyf am orffen drwy ddweud nad wyf yn ofni newidiadau o fewn y gwasanaeth iechyd. Rwy'n credu eu bod yn anochel i ryw raddau. Fodd bynnag, mae angen eglurder ac mae angen inni weld yn union sut y bydd nid yn unig yr ysbytai, ond y meddygon teulu lleol, yn dod yn rhan annatod o unrhyw gynlluniau felly er mwyn gwella iechyd ein pobl yn gyffredinol.

In order to keep to the request of the temporary deputy presiding officer, I will not make the case for Ysbyty Gwynedd. They are the same arguments that are relevant to Bronglais to some extent, because of the distances that people have to travel to that hospital from the north of Anglesey and from the end of the Llŷn peninsula. There are clear dangers if you do not have the services and specialisms in that hospital. However, I acknowledge that there are difficulties in attracting specialists to hospitals in the west and one answer to that is something that I have preached about time and again in this place, and that is the need to have a full training hospital in north Wales, along with the specialisms in Bangor University in particular, but also the specialisms that are, without doubt, in Glyndŵr University. Therefore, there are opportunities there to change the landscape. To conclude, I am not afraid of change within the health service. I think that it is inevitable to some extent. However, we need clarity and we need to see exactly how not only the hospitals, but the local GPs, will be an integral part of any such plans in order to improve the health of our people in general.

**Joyce Watson:** I did not actually hear the previous speaker mention Bronglais at all, but there we go.

**Joyce Watson:** Ni chlywais y siaradwr blaenorol yn cyfeirio at Fronglais o gwbl, ond dyna ni.

Like everyone here, I am particularly interested in, and care about, the health service in mid Wales. That is a fact that no-one here would dispute. Therefore, I very much welcome the First Minister's robust

Fel pawb yma, mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y gwasanaeth iechyd yng nghanolbarth Cymru ac mae'n bwysig i mi. Mae hynny'n ffaith na fyddai neb yn ei wadu. Felly, rwyf yn croesawu amddiffyniad

defence of his Government's commitment to Bronglais made in the Chamber yesterday—others have also welcomed that. In restating the fact that Bronglais will not be closed or downgraded—we heard that yet again in the opening statement—and that it will continue to be a district general hospital, the First Minister has put paid to the misinformation. There is an awful lot of misinformation out there. I will not repeat the points about the investment that has been made because I do not want to use up time—the investment has been alluded to by the Plaid Cymru Member for Ceredigion—but that investment is critical. Any investment in the health service is critical, because the point about investment is that it is an underlying statement and commitment to the particular location and the particular services in that location. That is what that statement and that investment says.

grymus y Prif Weinidog o ymrwymiad ei Lywodraeth i Fronglais a wnaed yn y Siambr ddoe—mae pobl eraill wedi croesawu hynny hefyd. Wrth ailadrodd y ffaith na fydd Bronglais yn cael ei gau na'i israddio—clywsom hynny unwaith eto yn y datganiad agoriadol—ac y bydd yn parhau i fod yn ysbyty cyffredinol dosbarth, mae'r Prif Weinidog wedi rhoi diwedd ar y wybodaeth anghywir. Mae llawer iawn o wybodaeth gamarweiniol yn bodoli. Nid wyf am ailadrodd y pwyntiau am y buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud gan nad wyf yn dymuno defnyddio amser—mae aelod Plaid Cymru Ceredigion wedi sôn am y buddsoddiad—ond mae'r buddsoddiad hwnnw'n hollbwysig. Mae unrhyw fuddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd yn hollbwysig, oherwydd y pwynt am fuddsoddiad yw ei fod yn ddatganiad ac yn ymrwymiad sylfaenol i leoliad penodol a'r gwasanaethau penodol yn y lleoliad hwnnw. Dyna'r hyn y mae'r datganiad hwnnw a'r buddsoddiad hwnnw'n ei ddweud.

I was at the meeting this afternoon, which the Minister agreed to attend. It was a very fruitful meeting at which politicians did not do any of the speaking; we allowed those people who had travelled with the people who were lobbying to speak on their behalf. Very serious and pertinent issues were raised in that room and I would like to pick up on some of those, rather than restate all those things that I have read about and heard about. First, I ask the Minister if she would look into the disputed figures for colorectal procedures. Two figures have been bandied about, one by the local health board and one by the practitioners. Therefore, it is critical that we get the right information and that we do a service to people by ensuring that that is the case.

Roeddwn yn y cyfarfod y prynhawn yma, yr oedd y Gweinidog wedi cytuno i ddod iddo. Roedd yn gyfarfod ffrwythlon iawn ac nid y gwleidyddion oedd yn siarad; roeddem wedi caniatáu i'r bobl hynny a oedd wedi teithio gyda'r bobl a oedd yn lobïo i siarad ar eu rhan. Cafodd materion difrifol a pherthnasol iawn eu codi yn yr ystafell honno a hoffwn fynd ar drywydd rhai ohonynt, yn hytrach nag ailadrodd yr holl bethau rwyf wedi darllen ac wedi clywed amdanynt. Yn gyntaf, gofynnaf i'r Gweinidog os byddai'n edrych ar y ffigurau dadleuol ar gyfer llawdriniaethau'r colon a'r rhefr. Mae dau ffigur wedi cael eu taflu yma a thraw, un gan y bwrdd iechyd lleol ac un gan yr ymarferwyr. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cael y wybodaeth gywir a'n bod yn gwneud cymwynas â phobl drwy sicrhau bod hynny'n wir.

The other point that I would like to make is a more general point about how health services are delivered in a rural setting, and, again, it was picked up at the meeting. It is relevant beyond Bronglais, because it relates to Betsi Cadwaladr and to Powys LHBs as well as to Hywel Dda LHB. We have heard a lot about the golden hour, and I will not rehearse all of that today, but I would like the Minister to agree to an equivalent consideration being given to patients who need regular treatment

Mae'r pwynt arall yr hoffwn ei wneud yn bwynt mwy cyffredinol am sut y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cyflenwi mewn lleoliad gwledig, ac, unwaith eto, cafodd hyn ei godi yn y cyfarfod. Mae'n berthnasol y tu hwnt i Fronglais, oherwydd ei fod yn ymwneud â Byrddau Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr a Phowys yn ogystal â BILl Hywel Dda. Rydym wedi clywed llawer am yr awr aur, ac nid wyf am ailadrodd hynny i gyd heddiw, ond hoffwn i'r Gweinidog

over time for ongoing chronic conditions. It is a simple question of fairness and of quality of life for patients and their families, and it is as important as people receiving critical care in a given time that they have care in their communities within a given time. Whether services are delivered at a hospital, or in the community and closer to home, the time that it takes people to access those services is at the heart of this issue, and I feel strongly that it requires special consideration.

gytuno i roi ystyriaeth gyfatebol i gleifion y mae angen triniaeth reolaidd arnynt dros gyfnod ar gyfer cyflyrau cronig parhaus. Mae'n fater syml o degwch ac o ansawdd bywyd i gleifion a'u teuluoedd, ac mae'r un mor bwysig â bod pobl yn derbyn gofal critigol mewn cyfnod penodol eu bod yn cael gofal yn eu cymunedau mewn cyfnod penodol. Boed y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi mewn ysbyty, neu yn y gymuned ac yn nes at gartref, mae'r amser y mae'n cymryd i bobl gael gafael ar y gwasanaethau hynny wrth wraidd y mater hwn, ac rwyf yn teimlo'n gryf bod angen ystyried hynny'n arbennig.

**Russell George:** I am pleased to have the opportunity to lead in this debate today. I do so because the situation that currently exists is very serious with regard to the threats of reorganisation in Mid and West Wales. As Elin Jones has already quite rightly pointed out, the network of district general hospitals is an integral part of the Welsh NHS. I am sure that we all agree with the first point of Plaid's motion, namely that the health of the nation has been served well by the network of district general hospitals over the decades.

**Russell George:** Rwyf yn falch o'r cyfle i arwain yn y ddadl hon heddiw. Rwyf yn gwneud hynny oherwydd bod y sefyllfa ar hyn o bryd yn un ddifrifol iawn o ran y bygythiadau o ad-drefnu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Fel y mae Elin Jones eisoes wedi'i ddweud yn iawn, mae'r rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth yn rhan annatod o GIG Cymru. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn cytuno â phwynt cyntaf cynnig Plaid, sef bod iechyd y genedl wedi cael ei wasanaethu'n dda gan y rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth dros y degawdau.

Today, we saw over 500 people on the steps of the Senedd, but I do not think that they were ill-informed people or people trying to scaremonger. They were people concerned about the future of their health service in mid Wales. As one speaker said today, it was the second largest protest that the Assembly has ever seen—the largest was 12 months ago and was also by people from mid Wales. Do you think that we as politicians are being sent a message today? I very much hope, Minister, that you will send the message to the people of mid Wales that you will listen to them and, more importantly, that you will deliver for them.

Heddiw, gwelsom dros 500 o bobl ar risiau'r Senedd, ond nid wyf yn meddwl eu bod yn bobl a oedd wedi'u camarwain nac yn bobl sy'n ceisio codi bwganod. Roeddent yn bobl sy'n poeni am ddyfodol eu gwasanaeth iechyd yng nghanolbarth Cymru. Fel y dywedodd un siaradwr heddiw, dyma'r ail brotest fwyaf i'r Cynulliad erioed ei weld—roedd y mwyaf 12 mis yn ôl, a phobl o ganolbarth Cymru oedd yn hwnnw hefyd. A ydych yn credu ein bod ni fel gwleidyddion yn cael neges heddiw? Mawr obeithiaf, Weinidog, y byddwch yn cyfleu'r neges i bobl canolbarth Cymru y byddwch yn gwrando arnynt ac, yn anad dim arall, y byddwch yn cyflenwi ar eu cyfer.

Alarm bells should be ringing for Hywel Dda health board and for the Government when clinicians—fundamental stakeholders—lose confidence in the organisation and what the organisation is trying to do. That is exactly what has happened, as can be seen from the very open and public letter that we heard Elin

Dylai clychau larwm fod yn canu i fwrdd iechyd Hywel Dda ac i'r Llywodraeth pan fydd clinigwyr—rhanddeiliaid sylfaenol—yn colli hyder yn y sefydliad a'r hyn y mae'r sefydliad yn ceisio ei wneud. Dyna'n union beth sydd wedi digwydd, fel y gwelir oddi wrth y llythyr agored iawn a chyhoeddus a

Jones talk about, which 50 out of the 60 senior medical staff at Bronglais signed, stating that they no longer had confidence in the health board or its proposals to deliver local patient-centred services in the future. The most telling line in that letter was:

glywsom Elin Jones yn siarad amdano, mae 50 o'r 60 aelod o uwch staff meddygol ym Mronglais wedi'i lofnodi, gan ddweud nad oes ganddynt hyder mwyach yn y bwrdd iechyd na'i gynigion i gyflenwi gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar gleifion yn y dyfodol. Y llinell fwyaf trawiadol yn y llythyr hwnnw oedd:

'The proposal to remove any service is at odds with the ethos of keeping care local, and will have multiple repercussions.'

Mae'r cynnig i gael gwared ag unrhyw wasanaeth yn mynd yn groes i'r ethos o gadw gofal yn lleol, a bydd i hynny nifer o oblygiadau.

We should all be concerned as politicians when NHS staff lose confidence in the very health board that employs them. Yet how does the Government respond? The Minister did not want to acknowledge this loss of confidence at first and then she told the chair of the health board that it must do more to listen and engage.

Fel gwleidyddion dylai pob un ohonom fod yn pryderu pan fydd staff y GIG yn colli hyder yn yr union fwrdd iechyd sy'n eu cyflogi. Ond sut y mae'r Llywodraeth yn ymateb? Nid oedd ar y Gweinidog eisiau cydnabod bod yr hyder hwn wedi cael ei golli i ddechrau ac yna dywedodd wrth gadeirydd y bwrdd iechyd bod yn rhaid iddo wneud mwy i wrando ac ymgysylltu.

**Lesley Griffiths:** What I said was that I had not had had sight of that letter, and, at the time, I had not had sight of that letter. I did not say that I did not recognise it.

**Lesley Griffiths:** Yr hyn a ddywedais oedd nad oeddwn wedi gweld y llythyr hwnnw, ac, ar y pryd, nid oeddwn wedi gweld y llythyr hwnnw. Nid oeddwn yn dweud nad oeddwn yn ei gydnabod.

**Russell George:** Thank you, Minister; I accept that point. The whole rationale behind the local health boards was that they were to be rooted in the areas that they served so that they could be made responsive to local concerns and needs. When the Government did its last round of reorganisation, it emphasised that in moving to fewer LHBs the new organisations would retain a strong community focus and would have the ability to connect effectively with the communities that they serve. However, the way that Hywel Dda health board has conducted itself during the whole process and has treated staff and the patients who use Bronglais has questioned those core principles.

**Russell George:** Diolch, Weinidog; rwyf yn derbyn y pwynt hwnnw. Y rhesymeg y tu ôl i'r byrddau iechyd lleol oedd eu bod i gael eu gwreiddio yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu er mwyn iddynt fod yn ymatebol i bryderon ac i anghenion lleol. Pan gynhaliodd y Llywodraeth yr ad-drefnu diwethaf, pwysleisiodd y byddai symud i lai o Fyrddau Iechyd Lleol llai yn cadw ffocws cymunedol cryf ac y byddai ganddynt y gallu i gysylltu'n effeithiol â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cynnal ei hun yn ystod y broses gyfan a'r ffordd y mae wedi trin y staff a'r cleifion sy'n defnyddio Bronglais wedi codi cwestiynau ynghylch yr egwyddorion craidd hynny.

5.30 p.m.

The last point from me, as someone living in Montgomeryshire and representing its people, and it is a very important one, is that while the views expressed by some groups in the sector favour the centralisation of services

Y pwynt olaf gennyf i, fel rhywun sy'n byw yn Sir Drefaldwyn ac sy'n cynrychioli ei phobl, ac mae'n bwynt pwysig iawn, yw er bod y safbwyntiau a fynegwyd gan rai grwpiau yn y sector o blaid canoli

to larger units for urban area, such plans have to be tempered by the unique and challenging realities faced in rural areas. That is why Hywel Dda health board cannot undertake the reorganisation on its own. There are simply too many communities beyond its boundaries that are affected. Minister, you seemed to be defending the health board, saying that no decision has yet been made, and that you have encouraged people to engage in the pre-consultation exercise. How? What has angered me and those living in towns like Machynlleth and Llanidloes is that the health board has refused to hold any pre-consultation meetings in Powys, effectively disenfranchising a large patient group in the west of Montgomeryshire, who rely on the services that Bronglais hospital provides. For me, that is unacceptable. Is that acceptable to you, Minister? Will you make representations on that point?

gwasanaethau i unedau mwy ar gyfer ardal drefol, rhaid i gynlluniau o'r fath gael eu lleddfu gan y gwirionedd unigryw a heriol a wynebir mewn ardaloedd gwledig. Dyna pam na all bwrdd iechyd Hywel Dda ymgymryd â'r ad-drefnu ar ei ben ei hun. Mae'n effeithio ar ormod o gymunedau y tu hwnt i'w ffiniau. Weinidog, mae'n ymddangos eich bod yn amddiffyn y bwrdd iechyd, gan ddweud nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto, a'ch bod wedi annog pobl i gymryd rhan yn yr ymarfer cyn ymgynghori. Sut? Yr hyn sydd wedi fy ngwylltio i a'r rheini sy'n byw mewn trefi fel Machynlleth a Llanidloes yw bod y bwrdd iechyd wedi gwrthod cynnal unrhyw gyfarfodydd cyn ymgynghori ym Mhowys, i bob pwrpas mae hyn yn ymddieithrio grŵp mawr o gleifion yng ngorllewin Sir Drefaldwyn, sy'n dibynnu ar y gwasanaethau mae ysbyty Bronglais yn eu darparu. Mae hynny'n annerbyniol i mi. A yw hynny'n dderbyniol i chi, Weinidog? A wnewch chi gyflwyno sylwadau ar y pwynt hwnnw?

I can also confirm to Elin Jones that I have not received the DVD that has been mentioned either, and I live in a postcode within Bronglais hospital's catchment area. In fact, I do not think that anyone in my constituency has had that DVD delivered to their home.

Gallaf hefyd gadarnhau wrth Elin Jones nad wyf innau wedi derbyn y DVD sydd wedi cael ei grybwyll, ac rwyf yn byw mewn cod post o fewn dalgylch ysbyty Bronglais. A dweud y gwir, nid wyf yn credu bod neb yn fy etholaeth wedi cael y DVD i'w cartref.

Three weeks ago, I attended a public meeting in Aberystwyth on the health board's proposals. A total of 547 people attended. Person after person spoke out—they were not politicians, they were members of the public. They were not scaremongering; they were just saying how concerned they are about their future care provision. There was a motion at the end of the meeting that had unanimous support. The second part of that motion called on the Minister to deliver a specific mid-Wales health service plan. It was not politicians who were proposing that; it was the voice of the people of mid Wales.

Dair wythnos yn ôl, bûm mewn cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth ar gynigion y bwrdd iechyd. Roedd 547 o bobl yn bresennol. Roedd unigolyn ar ôl unigolyn yn siarad yn gyhoeddus—nid gwleidyddion oeddent, aelodau o'r cyhoedd oeddent. Nid oeddent yn codi bwganod; roeddent yn dweud pa mor bryderus oeddent am eu darpariaeth gofal yn y dyfodol. Roedd cynnig ar ddiwedd y cyfarfod a dderbyniodd gefnogaeth unfrydol. Roedd ail ran y cynnig hwnnw'n galw ar y Gweinidog i gyflenwi cynllun gwasanaeth iechyd penodol ar gyfer canolbarth Cymru. Nid gwleidyddion oedd yn cynnig hynny; llais pobl canolbarth Cymru oedd hyn.

**Leanne Wood:** The focus of the debate has rightly been the proposals for future health service provision in the Hywel Dda health board area, and Bronglais hospital in particular. However, there are concerns in other parts of the country too and I would

**Leanne Wood:** Yn briodol, mae ffocws y ddadl wedi bod ar y cynigion ar gyfer gwasanaeth iechyd yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda yn y dyfodol, ac ysbyty Bronglais yn benodol. Fodd bynnag, ceir pryderon mewn rhannau eraill o'r wlad hefyd a hoffwn

like to focus my contribution on those.

ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y rheini.

Over Christmas, accident and emergency services and minor injuries units in Pembrokeshire were closed so that staff could be used at Withybush hospital. Minor injuries units in the Rhondda, Monmouth and Torfaen have closed. The neo-natal unit in Swansea's Singleton Hospital closed and services in Blaenau Ffestiniog have been lost, as have services at Prince Philip hospital in Llanelli and in Pwllheli. We are told that these decisions were taken due to recruitment problems that are being addressed, but we have no idea by when that will happen. Minister, there is not a great deal of faith that these services will be reinstated. In fact, many people believe that the real reason for these temporary downgrades is a financial one.

Dros y Nadolig, cafodd gwasanaethau unedau damweiniau ac achosion brys a mân anafiadau yn Sir Benfro eu cau er mwyn gallu defnyddio'r staff yn ysbyty Llwynhelyg. Mae unedau mân anafiadau yn y Rhondda, Trefynwy a Thor-faen wedi cau. Mae'r uned newydd-anedig yn Ysbyty Singleton Abertawe wedi cau ac mae gwasanaethau ym Mlaenau Ffestiniog wedi cael eu colli, yn yr un modd â gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli ac ym Mhwllheli. Dywedir wrthym fod y penderfyniadau hyn wedi cael eu gwneud o ganlyniad i broblemau recriwtio sy'n cael eu datrys, ond nid oes gennym unrhyw syniad erbyn pryd y bydd hynny'n digwydd. Weinidog, nid oes llawer iawn o ffydd y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu hadfer. Mewn gwirionedd, mae llawer o bobl yn credu mai rheswm ariannol yw'r gwir reswm am yr israddio dros dro hwn.

In Plaid Cymru, we would accept that there is evidence that shows that centralisation can improve services in some cases, for rare and complex conditions, like neurosurgery, rare cancers and paediatric surgery. However, that argument does not apply to accident and emergency departments, minor injuries units or maternity services. In fact, there is no evidence to suggest that specialist units for accident and emergency services and maternity services will improve outcomes. By definition, accident and emergency departments see patients who require treatment quickly. Poor public transport links, low car-ownership levels and the rising price of fuel are additional matters that must be taken into consideration. Fuel prices are increasing rapidly and we all know that they are unlikely to be reduced. The cost of travelling to services that are further and further away from populations of people who have reducing incomes does not bode well for a sustainable system in the long term.

Ym Mhlaid Cymru, byddem yn derbyn bod tystiolaeth sy'n dangos bod canoli'n gallu gwella gwasanaethau mewn rhai achosion, ar gyfer cyflyrau prin a chymhleth, fel niwrolawdriniaeth, canserau prin a llawdriniaethau pediatrig. Fodd bynnag, nid yw'r ddadl honno'n berthnasol i adrannau damweiniau ac achosion brys, unedau mân anafiadau na gwasanaethau mamolaeth. Mewn gwirionedd, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y bydd unedau arbenigol ar gyfer gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau mamolaeth yn gwella canlyniadau. Yn ôl ei ddiffiniad, bydd adrannau damweiniau ac achosion brys yn gweld cleifion y mae angen triniaeth arnynt yn gyflym. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael, lefelau perchnogaeth ceir isel a phris cynyddol tanwydd yn faterion ychwanegol y mae'n rhaid eu hystyried. Mae prisiau tanwydd yn codi'n gyflym ac rydym i gyd yn gwybod eu bod yn annhebyg o ddod i lawr. Nid yw cost teithio i wasanaethau sydd ymhellach ac ymhellach i ffwrdd o boblogaethau o bobl sydd ag incymau sy'n disgyn yn argoeli'n dda ar gyfer system gynaliadwy yn y tymor hir.

Therefore, we in Plaid Cymru yet again make this appeal to the Government: please, be honest and open about your plans for the

Felly, rydym ym Mhlaid Cymru unwaith eto yn apelio ar y Llywodraeth: os gwelwch yn dda, byddwch yn onest ac yn agored am eich

future of our health services. You have a chance to build a consensus and support for any changes to the health service. You have not started well—many people do not trust your motives already—but you have a chance to put that right this afternoon, Minister, by making a clear statement undertaking to properly and genuinely consult on concrete proposals. You have a chance to put it right by undertaking to publish LHB plans now, instead of waiting until after the local elections are out of the way before doing so. If you do not give that undertaking, people will remain cynical and you will find it difficult to make the changes without the backing of the people who ultimately own the health service, and therefore have a right to say how their service will look in the future.

cynlluniau ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau iechyd. Mae gennych gyfle i greu consensws a chefnogaeth i unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth iechyd. Nid ydych wedi dechrau'n dda—mae nifer o bobl yn amheus o'ch cymhellion yn barod—ond mae gennych gyfle i unioni hynny'r prynhawn yma, Weinidog, drwy wneud datganiad clir yn ymrwymo i ymgynghori'n briodol ac yn wirioneddol ar gynigion pendant. Mae gennych gyfle i unioni'r sefyllfa drwy ymgymryd i gyhoeddi cynlluniau BILl yn awr, yn hytrach nag aros nes bydd yr etholiadau lleol o'r ffordd cyn gwneud hynny. Os na fyddwch yn gwneud yr ymrwymiad hwnnw, bydd pobl yn parhau i fod yn sinigaidd a byddwch yn ei chael yn anodd gwneud y newidiadau heb gefnogaeth y bobl sydd, yn y pen draw, yn berchen ar y gwasanaeth iechyd, ac felly mae ganddynt hawl i ddweud sut y bydd eu gwasanaeth yn edrych yn y dyfodol.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** There are six people waiting to speak in this debate, so I again ask Members to keep their comments as short they can so that I can call each of them. Otherwise, unfortunately, I will not be able to call everybody.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae chwech o bobl yn aros i siarad yn y ddadl hon, felly unwaith eto rwyf yn gofyn i'r Aelodau gadw eu sylwadau mor fyr â gallant er mwyn i mi allu galw pob un ohonynt. Fel arall, yn anffodus, ni fyddaf yn gallu galw pawb.

**Darren Millar:** I welcome the fact that we have a debate on this issue, because it reflects the very real concern that is out there, throughout Wales, about the future direction of the NHS in this country. It is taking an increasingly centralist direction, which is certainly not something that we in my party welcome. Of course, the focus of this debate is much more on the situation at Bronglais hospital. Anybody who stepped out to the front of the building earlier today and saw the huge crowd out there, and the passion of the crowd in trying to protect local health services, would realise that there are genuine concerns that must be addressed with regard to the way in which the Welsh NHS engages with the public.

**Darren Millar:** Croesawaf y ffaith fod gennym ddadl ar y mater hwn, gan ei fod yn adlewyrchu'r gwir bryder sy'n bodoli, ledled Cymru, am gyfeiriad y GIG yn y wlad hon yn y dyfodol. Mae ei fryd ar ganoli mwy a mwy, ac yn sicr nid yw hynny'n rhywbeth rydym yn ei groesawu yn fy mhlaid. Wrth gwrs, mae ffocws y ddadl hon ar y sefyllfa yn Ysbyty Bronglais. Byddai unrhyw un a gamodd i flaen yr adeilad yn gynharach heddiw a gweld y dyrfa enfawr yno, ac angerdd y dorf wrth geisio amddiffyn gwasanaethau iechyd lleol, yn sylweddoli bod gwir bryderon y mae'n rhaid eu hystyried o ran y ffordd y mae GIG Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Fortunately, we were able to hear what Joyce Watson had to say in this Chamber, but we were not so fortunate earlier, on the steps of the Senedd, because she was drowned out by boos. The reason she was drowned out is because, unfortunately, Joyce epitomises what people are concerned about, which is

Yn ffodus, roedd modd i ni glywed beth oedd gan Joyce Watson i'w ddweud yn y Siambr hon, ond nid oeddem mor ffodus yn gynharach, ar risiau'r Senedd, oherwydd iddi gael ei boddi gan y gweiddi. Roedd pobl yn gweiddi ar ei thraws oherwydd, yn anffodus, mae Joyce yn cynrychioli'r hyn y mae pobl

that their concerns are not listened to. The fact of the matter is that Joyce says that there is no proposal to downgrade hospitals and so on, but if you remove services from hospitals, particularly the critical services that people care passionately about, such as the life-changing services that Elin talked about, or if there is any whisper or suggestion that those services might be taken away—and there are proposals on the table to suggest that those services could be removed—[*Interruption.*] Wait a minute; there are suggestions on the table that some of those services could be removed, so of course people are going to get down to the Senedd to make those representations and make their views known.

**Joyce Watson** *rose*—

**Darren Millar:** I do not have time, Joyce, and we have heard enough from you already in this debate. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

The Labour Party might want to dismiss—

**Joyce Watson** *rose*—

**Darren Millar:** I said 'no'.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Joyce, Darren Millar has said that he is not taking an intervention. It is a matter for him.

**Darren Millar:** Thank you. I have very little time left, Joyce, and I want to allow enough time for other people to contribute to this debate.

The fact of the matter is that, unfortunately, not only has the Hywel Dda health board lost the confidence of the public, it has also lost the confidence of the consultants who work for it, particularly those at Bronglais hospital, as we heard a few moments ago. The real problem that we have in Wales is that we need to ensure that there is a definitive suite of services that every district general hospital should have. We need hallmarks of district general hospitals to be defined, if necessary, by the Government in terms of the minimum levels of service that will be available in

yn poeni amdano, sef nad yw eu pryderon yn cael eu clywed. Y gwir amdani yw bod Joyce yn dweud nad oes bwriad i israddio ysbytai ac yn y blaen, ond os ydych yn tynnu gwasanaethau o ysbytai, yn enwedig y gwasanaethau hanfodol y mae pobl yn eu cefnogi'n frwd, fel y gwasanaethau sy'n newid bywydau yr oedd Elin yn siarad amdanynt, neu os oes unrhyw si neu awgrym y gallai'r gwasanaethau hynny gael eu symud i ffwrdd—ac mae cynigion ar y bwrdd i awgrymu y gallai'r gwasanaethau hynny gael eu symud—[*Torri ar draws*.] Arhoswch funud; ceir awgrymiadau ar y bwrdd y gallai rhai o'r gwasanaethau hynny gael eu symud, felly, wrth gwrs, mae pobl yn mynd i fynd i lawr i'r Senedd i wneud y sylwadau hynny a mynegi eu barn.

**Joyce Watson** *a gododd*—

**Darren Millar:** Nid oes gennyf amser Joyce, ac rydym wedi clywed digon gennych chi yn y ddadl hon yn barod. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

Efallai fod ar y Blaid Lafur eisiau diystyru—

**Joyce Watson** *a gododd*—

**Darren Millar:** Dywedais 'na'.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Joyce, mae Darren Millar wedi dweud nad yw'n derbyn ymyriad. Mae'n fater iddo ef.

**Darren Millar:** Diolch. Ychydig iawn o amser sydd gennyf ar ôl, Joyce, ac rwyf am ganiatáu digon o amser i bobl eraill gyfrannu at y ddadl hon.

Y gwir amdani yw, yn anffodus, nid yn unig y mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi colli hyder y cyhoedd, mae wedi colli hyder yr ymgynghorwyr sy'n gweithio iddo hefyd, yn enwedig y rheini yn Ysbyty Bronglais, fel y clywsom rai eiliadau yn ôl. Y gwir broblem sydd gennym yng Nghymru yw bod angen i ni sicrhau bod cyfres bendant o wasanaethau a ddylai fod ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth. Mae angen diffinio nodweddion ar gyfer ysbytai cyffredinol dosbarth, os oes angen, gan y Llywodraeth o ran y lefelau isaf o wasanaeth a fydd ar gael ym mhob un.

every single one.

I think that it is inappropriate, frankly, for the Government to try, as it has in the past, to impose urban levels of service on rural Wales. We need a rural Wales solution for the health needs of rural Wales. It is inappropriate to make people travel ridiculous distances to access life-changing services. There is so much more that I could say, but time is against me. I would encourage everybody in this Chamber to think carefully about supporting this motion. It is not meant to be partisan; it is about protecting—[*Interruption.*] People can laugh if they do not want to take this matter seriously, but this is about lives at the end of the day, and that is why we will support the motion before us.

A dweud y gwir rwyf yn credu ei bod yn amhriodol i'r Llywodraeth geisio, fel y mae wedi'i wneud yn y gorffennol, gosod lefelau trefol o wasanaeth yng Nghymru wledig. Mae angen ateb Cymru wledig arnom ar gyfer anghenion iechyd Cymru wledig. Nid yw'n briodol gwneud i bobl deithio pellteroedd chwerthinllyd i gael gafael ar wasanaethau sy'n newid bywydau. Gallwn ddweud llawer mwy, ond mae amser yn fy erbyn. Byddwn yn annog pawb yn y Siambr hon i feddwl yn ofalus am gefnogi'r cynnig hwn. Nid bod yn bleidiol yw ei fwriad; mae'n ymwneud ag amddiffyn—[*Torri ar draws.*] Gall pobl chwerthin os nad ydynt am gymryd y mater hwn o ddifrif, ond mae hyn yn ymwneud â bywydau yn y pen draw, a dyna pam byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron.

**Keith Davies:** Rwy’n credu y gwnaf i’r un peth ag Elin a siarad yn Saesneg. Elin a Russell, os ydych chi eisiau copi o’r DVD, mae copi gen i gartref a dof ag ef i mewn yr wythnos nesaf i chi gael ei weld.

**Keith Davies:** I think that I will follow Elin and speak in English. Elin and Russell, if you want a copy of the DVD, I have a copy at home and I will bring it in next week so that you can view it.

I would like to acknowledge the valuable contribution made by the Welsh national health service to the lives of ordinary people throughout Wales. Our health service is fast becoming an object of admiration among health professionals in England, who are concerned that, under the Tories, the NHS there is being torn apart. Welsh Labour is standing up for the NHS in Wales, working to create a world-class health service that we can all be proud of. An important part of that is the staff. I want to place on record my thanks to all those who work at Prince Philip Hospital in my own constituency and look after my needs and those of my wife and my children.

Hoffwn gydnabod y cyfraniad gwerthfawr sydd wedi cael ei wneud gan wasanaeth iechyd gwladol Cymru i fywydau pobl gyffredin ledled Cymru. Mae ein gwasanaeth iechyd yn prysur ennill edmygedd ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol yn Lloegr, sy’n poeni bod y GIG yn fan honno’n cael ei rwygo’n ddarnau dan y Torïaid. Mae Llafur Cymru yn sefyll yn gadarn dros y GIG yng Nghymru, gan weithio i greu gwasanaeth iechyd gyda’r gorau yn y byd a gwasanaeth gallwn i gyd fod yn falch ohono. Rhan bwysig o hynny yw’r staff. Mae arnaf eisiau rhoi fy niolch ar gofnod i bawb sy’n gweithio yn Ysbyty’r Tywysog Philip yn fy etholaeth sy’n gofalu am fy anghenion ac anghenion fy ngwraig a’m plant.

Some people may believe that the current situation and my position, as Alun Ffred said earlier, regarding Llanelli’s Prince Philip Hospital need no introduction. However, I thought that I should stand up this afternoon and tell people where I stand. Having heard the stories and read reports, some believe that the future of services at the hospital has already been decided, and that the decisions on service reconfiguration to be made by the

Efallai fod rhai pobl yn credu nad oes angen rhoi cyflwyniad ynghylch y sefyllfa bresennol a’m safbwynt i, fel y dywedodd Alun Ffred yn gynharach, ynghylch Ysbyty’r Tywysog Philip yn Llanelli. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl y dylwn sefyll i fyny’r prynhawn yma a dweud wrth bobl lle rwyf yn sefyll. Ar ôl clywed y straeon a darllen yr adroddiadau, mae rhai yn credu bod penderfyniad ynghylch dyfodol

Hywel Dda health board have already been taken. The reality of the situation is quite different. No decisions have yet been taken; any proposals at the minute are exactly that, they are just proposals. As the Minister for health has made clear on several occasions, services need to be accessible, safe and sustainable.

gwasanaethau yn yr ysbyty eisoes wedi cael ei wneud, a bod y penderfyniadau ynghylch ad-drefnu gwasanaethau sydd i'w gwneud gan fwrdd iechyd Hywel Dda eisoes wedi cael eu gwneud. Y gwir amdani yw bod y sefyllfa yn dra gwahanol mewn gwirionedd. Nid oes dim penderfyniadau wedi cael eu gwneud; mae unrhyw gynigion yn gynigion ac yn ddim byd arall ar hyn o bryd. Fel y mae'r Gweinidog iechyd wedi egluro droeon, mae angen i wasanaethau fod yn hygyrch, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

My concern with regard to the current engagement process is a matter of public record, both here and at meetings in my own constituency. The NHS is important to us in Wales. It is important to me, my family and the people that I represent. That is why, since Hywel Dda health board presented suggested proposals to reconfigure local services in west Wales, I have been engaging in debate with my communities, their representatives and the management of the health board to get a clearer understanding of what they propose and the processes that they will undertake. Both the First Minister and the Minister for health are aware of how concerned my constituents are, concerned that the Hywel Dda health board is ignoring the needs of the Llanelli area—a concern fuelled by unashamed electioneering by Plaid Cymru candidates, who are using their position to confuse and to scare voters into believing that the Welsh Labour Government is about to close Prince Philip Hospital. That is the concern that people in Llanelli share with me, that the Labour Government is going to close Prince Philip Hospital. That is their concern, but, obviously, no decisions have been taken. How many more times must they be told that Prince Philip Hospital will not be closed? I want to assure my constituents that I am working on their behalf to maintain accessible and safe services close to the people of Llanelli.

Mae fy mhryder ynghylch y broses ymgysylltu bresennol yn fater sydd ar gofnod cyhoeddus, yma ac mewn cyfarfodydd yn fy etholaeth. Mae'r GIG yn bwysig i ni yng Nghymru. Mae'n bwysig i mi, i fy nheulu ac i'r bobl rwyf yn eu cynrychioli. Dyna pam, ers i fwrdd iechyd Hywel dda gyflwyno cynigion a awgrymir i ad-drefnu gwasanaethau lleol yng ngorllewin Cymru, rwyf wedi bod yn cymryd rhan yn y ddadl gyda fy nghymunedau, eu cynrychiolwyr a rheolwyr y bwrdd iechyd i gael dealltwriaeth gliriach o'r hyn maent yn ei gynnig a'r prosesau y byddant yn eu dilyn. Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd yn gwybod pa mor bryderus yw fy etholwyr. Maent yn bryderus bod bwrdd iechyd Hywel Dda yn anwybyddu anghenion ardal Llanelli—pryder sy'n cael ei waethygu drwy ymgyrchu digywilydd ymgeiswyr Plaid Cymru, sy'n defnyddio eu sefyllfa i ddrysu ac i ddychryn pleidleiswyr i gredu bod Llywodraeth Lafur Cymru ar fin cau Ysbyty'r Tywysog Philip. Dyna'r pryder y mae pobl yn Llanelli yn ei rannu â mi, bod y Llywodraeth Lafur am gau Ysbyty'r Tywysog Philip, Dyna eu pryder, ond, yn amlwg, nid oes dim penderfyniadau wedi cael eu gwneud. Sawl gwaith eto y mae'n rhaid dweud wrthynt na fydd Ysbyty'r Tywysog Philip yn cau? Mae arnaf eisiau sicrhau fy etholwyr fy mod yn gweithio ar eu rhan i gynnal gwasanaethau hygyrch a diogel yn agos at bobl Llanelli.

Cadw beth sydd gennym yn barod ac nid cau'r ysbyty yw'r bwriad.

The intention is to retain what we have now and not close the hospital.

Last Friday, I met management and staff at Prince Philip Hospital. I saw first-hand how investment in community services kept 420 people out of hospital last year. These were 420 people who, otherwise, would have

Ddydd Gwener diwethaf, cefais gyfarfod â staff a rheolwyr yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Gwelais â'm llygaid fy hun sut yr oedd buddsoddiad mewn gwasanaethau cymunedol wedi cadw 420 o bobl allan o'r ysbyty'r

ended up in the hospital system, away from their families and unable to look after their children, and some of whom would have been forced to live in a care home because, for some people, a lengthy stay in hospital can be detrimental to their long-term prognosis.

llynedd. Fel arall, byddai'r 420 hyn wedi mynd i'r system ysbyty, i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd a heb allu gofalu am eu plant, a byddai rhai ohonynt wedi cael eu gorfodi i fyw mewn cartref gofal oherwydd, i rai pobl, gall arhosiad hir mewn ysbyty achosi niwed i'w prognosis tymor hir.

Hywel Dda health board must now take the views of Llanelli residents seriously. Its engagement process must be fair and transparent. It must talk to service users in a meaningful way and its representatives must go out of their way to meet people and not hide behind a process, as that will only further erode public confidence. Minister, I ask two things of you today: that you affirm your commitment to district general hospitals like Llanelli, and that you again remind Hywel Dda management that they must engage now, and consult fully and openly when the time comes, and work with the community health council, not against it, to access the views of communities in my constituency of Llanelli and across the wider health region.

Rhaid i fwrdd iechyd Hywel Dda nawr gymryd sylwadau trigolion Llanelli o ddifrif. Rhaid i'w broses ymgysylltu fod yn deg ac yn dryloyw. Rhaid iddo siarad â defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd ystyriol a rhaid i'w gynrychiolwyr fynd allan o'u ffordd i gwrdd â phobl a pheidio â chuddio tu ôl i broses, oherwydd y cyfan a wnaiff hynny fydd lleihau hyder y cyhoedd ymhellach. Weinidog, rwyf yn gofyn dau beth i chi heddiw: eich bod yn cadarnhau eich ymrwymiad i ysbytai cyffredinol dosbarth fel Llanelli, a'ch bod unwaith eto yn atgoffa rheolwyr Hywel Dda bod yn rhaid iddynt ymgysylltu nawr, ac ymgynghori'n llawn ac yn agored pan ddaw'r amser, a gweithio gyda'r cyngor iechyd cymuned, nid yn ei erbyn, i gael safbwyntiau cymunedau yn fy etholaeth Llanelli ac ar draws y rhanbarth iechyd ehangach.

**Paul Davies:** Fel arfer, hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar fy mwrdd iechyd lleol, sef Hywel Dda, a phwysigrwydd gwasanaethau iechyd yn ysbyty Llwynhelyg i gymunedau yn fy etholaeth. Mae darparu gwasanaethau iechyd mewn ardal wledig yn heriol ac mae gan fyrddau iechyd lleol waith aruthrol i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Mae rhan 2 o'r cynnig sydd o'n blaenau ni'r prynhawn yma yn nodi bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi colli hyder y cyhoedd a chlinigwyr. Mae'n rhaid cyfaddef bod hon yn neges rwyf yn ei chlywed yn gynyddol gan fy etholwyr. Credaf eu bod nhw'n teimlo felly oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

**Paul Davies:** As usual, I want to concentrate my comments on my own local health board, which is Hywel Dda, and the importance of health services in Withybush hospital to communities in my constituency. The provision of health services in a rural area is challenging and local health boards are facing a huge challenge in meeting the needs of people who live in those areas. Section 2 of the motion before us this afternoon notes that Hywel Dda Local Health Board has lost the confidence of the public and clinicians. I must admit that this is a message that I am hearing increasingly from my constituents. I think that they feel that because of what has happened in the past.

Ni fyddai'r bwrdd iechyd yn llunio dogfen fel 'Strategaeth Gwasanaethau Iechyd: Cynllun Gwario i Arbed' yn 2010 wedi helpu i fagu hyder pobl leol. Mae'r ddogfen honno yn amlwg yn sôn am ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ac y mae'n debyg i'r ddogfen ynghylch cyflenwi gwasanaethau aciwt yn ysbytai canolbarth a gorllewin Cymru a luniwyd chwe blynedd yn

The health board drawing up a document such as 'The Rural Health Services Strategy: Spend to Save Plan' in 2010 would not have helped to engender confidence in local people. That document obviously mentions centralising services away from Withybush General Hospital and it is similar to the document on the provision of acute services in the hospitals of mid and west Wales that

ôl.

was drawn up six years ago.

5.45 p.m.

Rwyf yn derbyn bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn awr yn rhagymgynghori, ond mae'n rhaid imi ddweud bod yr etholwyr yr wyf wedi siarad â hwy yn amheus iawn o'r broses hon. Yr hyn y mae pobl yn fy ardal eisiau ei glywed yw bod y bwrdd iechyd yn edrych i wella gwasanaethau iechyd, yn edrych i uwchraddio ysbytai fel Bronglais a Llwyn Helyg, ac nid yn edrych i ganoli gwasanaethau. Fel rwyf wedi dweud o'r blaen, mae'n rhaid i'r Llywodraeth sylweddoli nad yw'r dull un-maint-i-bawb yn addas i bob ardal, oherwydd yn naturiol mae cymunedau gwledig yn ddi-os yn wahanol i ardaloedd trefol. Dyna pam mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn darparu canllawiau hyblyg i'r byrddau iechyd lleol er mwyn iddynt allu datblygu modelau sy'n berthnasol i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

I accept that Hywel Dda Local Health Board is now pre-consulting, but I have to say that the constituents that I speak with are very suspicious of this process. What people in my area want to hear is that the health board is looking to improve health services, is looking to upgrade hospitals such as Bronglais and Withybush, and not looking to centralise services. As I have said in the past, the Government has to realise that the one-size-fits-all approach is not suitable for every area, because, quite naturally, rural communities are without doubt different to urban areas. That is why it is crucial that the Government provides flexible guidelines to local health boards so that they can develop models that are appropriate to the areas that they serve.

Rhaid inni beidio anghofio bod llywodraethau'n cael eu hethol gan bobl a'u bod yn atebol i bobl am eu penderfyniadau. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd y ddadl hon yn arwain y Llywodraeth at wneud y penderfyniadau cywir ynghylch dyfodol ysbytai cyffredinol dosbarth, oherwydd mae'r ysbytai hyn yn darparu gwasanaethau hynod o bwysig yn fy etholaeth i ac mewn ardaloedd eraill drwy Cymru.

We must not forget that governments are elected by people, and that they are accountable to people for their decisions. I very much hope that this debate will lead the Government to make the right decisions on the future of district general hospitals, because these hospitals provide extremely important services in my constituency and in other areas throughout Wales.

**Rebecca Evans:** It has to be safety first, second and third. None of us here would support services that are not safe, and that is a given. The issue of the golden hour is a complicated one. On the one hand, it is an emotive and evocative phrase that captures our imaginations and can make us fearful. On the other, medical literature casts doubt on the validity of the golden hour, as it appears to lack a scientific basis. This uncertainty is unhelpful to the debate, so I would be grateful if the Minister would seek definitive guidance from the national clinical forum or other appropriate experts on the concept of the golden hour, and if the Minister would share that advice with the Assembly so that we can all have some much needed clarity on this.

**Rebecca Evans:** Rhaid rhoi diogelwch yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd. Ni fyddai neb ohonom yma'n cefnogi gwasanaethau anniogel, afraid yw dweud hynny. Mae mater yr awr aur yn un cymhleth. Ar un llaw, mae'n ymadrodd emosiynol ac atgofus sy'n dal ein dychymyg ac yn gallu codi ofn arnom. Ar y llaw arall, mae llenyddiaeth feddygol yn taflu amheuaeth ar ddilysrwydd yr awr aur, gan ei bod yn ymddangos nad oes sail wyddonol iddi. Nid yw'r ansicrwydd hwn yn helpu'r ddadl, felly byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn gofyn am arweiniad pendant gan y fforwm clinigol cenedlaethol neu arbenigwyr priodol eraill ar y cysyniad o'r awr aur, ac os byddai'r Gweinidog yn rhannu'r cyngor hwnnw â'r Cynulliad er mwyn i ni gyd allu cael rhywfaint o eglurder mawr ei angen ar hyn.

I do not think that anyone would disagree that an individual should get care as quickly as possible, but it also has to be the right person giving the right treatment. While Wales does not have medical staffing issues across the board, there are acute recruitment difficulties in some specialties in some geographical areas, and recruitment and retention are key to the issues facing the service in Hywel Dda LHB. It is fair to say that UK Government immigration rules have exacerbated recruitment difficulties. I recognise that the Welsh Government has taken a number of steps to improve matters—for example, the junior doctor review group is working with the BMA to improve Wales's attractiveness to junior doctors, providing free accommodation for foundation year 1 doctors and promoting the attractiveness of a medical career in Wales with a newly launched marketing campaign. I am also pleased that the deanery is reconfiguring a number of its training programmes to improve training quality and thereby improve their attractiveness. I welcome the new work that the Minister is doing on workforce planning so that vacancies do not persist into the future.

Nid wyf yn meddwl y byddai neb yn anghytuno y dylai'r unigolyn gael gofal cyn gynted ag y bo modd, ond rhaid hefyd cael yr unigolyn iawn yn rhoi'r driniaeth iawn. Er nad oes gan Gymru broblemau staffio meddygol yn gyffredinol, mae anawsterau recriwtio acíwt mewn rhai meysydd arbenigol mewn rhai ardaloedd daearyddol, ac mae recriwtio a chadw staff yn allweddol i'r materion sy'n wynebu'r gwasanaeth yn BILl Hywel Dda. Mae'n deg dweud bod rheolau mewnfudo Llywodraeth y DU wedi gwaethygu anawsterau recriwtio. Rwyf yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i wella pethau—er enghraifft, mae'r grŵp adolygiad meddygon iau yn gweithio gyda Chymdeithas Feddygol Prydain i wneud Cymru'n fwy deniadol i feddygon iau, gan ddarparu llety am ddim i feddygon sylfaen blwyddyn 1 a gwneud gyrfa feddygol yng Nghymru yn fwy atyniadol drwy ymgyrch farchnata sydd newydd gael ei lansio. Rwyf yn falch hefyd bod y ddeoniaeth yn ad-drefnu nifer o'i rhaglenni hyfforddiant i wella ansawdd hyfforddiant a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol. Rwyf yn croesawu'r gwaith newydd y mae'r Gweinidog yn ei wneud ar gynllunio'r gweithlu fel na fydd swyddi gwag yn parhau yn y dyfodol.

The question is about what all this means for Hywel Dda Local Health Board in the here and now and into the future. I would be grateful if the Minister would comprehensively outline how the Government expects its initiatives to impact on service delivery in the Mid and West Wales region. Although the health board has indicated its intention to employ two general surgeons at Bronglais, there is real concern among the public as to whether the health board will be able to recruit to these posts. Given the overall lack of available surgeons, and the level of public concern surrounding the hospital, I would be grateful if the Minister would outline what extra assistance the Welsh Government may be able to offer Hywel Dda in terms of recruiting to these posts. What assurances can the Minister give to potential candidates for the roles? I would suggest that it would be important to highlight to applicants that the NHS in Wales could support their specialist interests. Bronglais does not work in isolation. There

Mae'r cwestiwn yn ymwneud â beth mae hyn i gyd yn ei olygu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn rhoi amlinelliad cynhwysfawr o sut y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'w mentrau effeithio ar gyflenwi gwasanaeth yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Er bod y bwrdd iechyd wedi nodi ei fod yn bwriadu cyflogi dau lawfeddyg cyffredinol ym Mronglais, ceir gwir bryder ymhlith y cyhoedd ynghylch a fydd y bwrdd iechyd yn gallu recriwtio i'r swyddi hyn. O ystyried y prinder cyffredinol o lawfeddygon sydd ar gael, a'r lefel o bryder cyhoeddus ynghylch yr ysbyty, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn amlinellu pa gymorth ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i Hywel Dda o ran recriwtio i'r swyddi hyn. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i ddarpar ymgeiswyr am y swyddi? Byddwn yn awgrymu ei bod yn bwysig tynnu sylw ymgeiswyr at y ffaith y gallai'r GIG yng Nghymru gefnogi eu diddordebau arbenigol.

are networks of specialists developing their specialisms right across Hywel Dda LHB area and beyond.

Nid yw Bronglais yn gweithio ar ei ben ei hun. Ceir rhwydweithiau o arbenigwyr yn datblygu eu harbenigeddau ar draws ardal BILl Hywel Dda a thu hwnt.

On that note, I was pleased to see representatives from the Powys and Betsi Cadwaladr health boards at the meeting at Aberystwyth last week. I welcome the assurances provided by the Minister that meetings are taking place to discuss the provision of services across boundaries. I would welcome any comment from the Government on how it is further ensuring and enabling the cross-boundary working that is so important.

Ar y nodyn hwnnw, roeddwn yn falch o weld cynrychiolwyr o fyrddau iechyd Powys a Betsi Cadwaladr yn y cyfarfod yn Aberystwyth yr wythnos diwethaf. Rwyf yn croesawu'r sicrwydd sy'n cael ei roi gan y Gweinidog bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod cyflenwi gwasanaethau ar draws ffiniau. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gan y Llywodraeth ar sut y mae'n sicrhau ac yn galluogi’r gwaith traws-ffiniol ymhellach gan fod hyn mor bwysig.

I have one final request of the Minister. At the Hywel Dda LHB forum last week in Aberystwyth, and listening to campaigners today, we heard concerns from the public that the national clinical guidelines and standards and Royal College guidelines were drawn up to serve an urban model, and that they are simply not appropriate for a rural area. I would very much welcome some comment from the Minister on that too.

Mae gennyf un cais olaf i'r Gweinidog. Yn fforwm BILl Hywel Dda yr wythnos diwethaf yn Aberystwyth, ac wrth wrando ar ymgyrchwyr heddiw, rydym wedi clywed pryderon gan y cyhoedd bod y canllawiau a'r safonau clinigol cenedlaethol a chanllawiau'r Coleg Brenhinol wedi cael eu llunio i wasanaethu model trefol, ac nad ydynt yn briodol ar gyfer ardal wledig. Byddwn yn croesawu sylwadau gan y Gweinidog am hynny hefyd.

**Angela Burns:** I will be brief, as I know we have a very short time left in this debate. I am delighted that this debate has been brought forward, and I thank Plaid Cymru for that. I want to specifically talk about point 2, which

**Angela Burns:** Byddaf yn gryno, gan fy mod yn gwybod nad oes llawer o amser ar ôl yn y ddadl hon. Rwyf wrth fy modd bod y ddadl hon wedi cael ei chyflwyno, ac rwyf yn diolch i Blaid Cymru am hynny. Mae arnaf eisiau siarad am bwynt 2 yn benodol, sy'n

‘notes that Hywel Dda Health Board has failed to maintain the confidence of the public and clinicians’.

'nodi bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi methu â chynnal ffydd y cyhoedd a chlinigwyr'.

Indeed, it has failed to maintain my confidence too, even though I meet with it regularly. In the past few months, and indeed in the past year, we have seen an awful lot of services disappear from Withybush hospital, and altered throughout the patch. In fact, Joyce Watson and I were at a meeting just before Christmas when we both stood up and said publicly to some 100 people that we were appalled by the lack of consultation leading up to the closure of a minor injuries unit. What I get back from Hywel Dda LHB is that it is trying its best, that it has learned the lessons of consultation, that it is still bearing those crosses and scars from the last

A dweud y gwir, mae wedi methu â chynnal fy ffydd innau hefyd, er fy mod yn cwrdd ag ef yn rheolaidd. Dros y misoedd diwethaf, ac yn wir y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld llawer iawn o wasanaethau'n diflannu o ysbyty Llwynhelyg, ac yn newid drwy'r ardal. Mewn gwirionedd, roedd Joyce Watson a minnau mewn cyfarfod ychydig cyn y Nadolig pan safodd y ddwy ohonom a dweud ar goedd wrth oddeutu 100 o bobl ein bod wedi cael ein syfrdanu gan y diffyg ymgynghori a arweiniodd at gau'r uned mân anafiadau. Yr hyn rwyf yn ei gael yn ôl gan BILl Hywel Dda yw ei fod yn gwneud ei orau glas, ei fod wedi dysgu gwersi ynghylch

time it was doing this, and that it will not make that mistake again. The First Minister said yesterday,

ymgynghori, ei fod yn dal yn dwyn rhai beichiau a chreithiau o'r tro diwethaf roedd yn gwneud hyn, ac na fydd yn gwneud y camgymeriad hwnnw eto. Dywedodd y Prif Weinidog ddoe,

‘I cannot accept that Hywel Dda Local Health Board has not consulted: it has done so at length and painfully, from its point of view.’

‘Ni allaf dderbyn nad yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi ymgynghori: yn ei farn ef mae wedi gwneud hynny yn faith ac yn boenus.’

Do you know what? I do not care if it is painful; it is about asking people what they want and need out of their health board, and talking to them properly, not rushing it. I will end my comments by saying this: when I said to the chair of Hywel Dda health board, ‘Will you please ensure that when the proper consultation—not the listening and engagement exercise that is currently ongoing—happens, please ensure that it is not in the summer when everyone is away and no-one’s mind is focused on it. Make it happen when people can be focused and concentrate’, he said—and Paul Davies was there—‘That slippage will cost us millions of pounds.’ It sounds to me that it already knows what it is doing. Therefore, if it is finding this uncomfortable and difficult, all I have to say to it is: if you cannot stand the heat, get out of the kitchen.

Ydych chi'n gwybod beth? Nid wyf yn malio os yw'n boenus; mae'n ymwneud â gofyn i bobl beth mae arnynt ei eisiau a’i angen gan eu bwrdd iechyd, a siarad â nhw'n iawn, peidio â rhuthro pethau. Rwyf am gloi fy sylwadau drwy ddweud hyn: pan ofynnais i gadeirydd bwrdd iechyd Hywel Dda, 'A fyddech cystal â sicrhau, pan fydd yr ymgynghoriad iawn yn digwydd—nid yr ymarfer gwrando ac ymgysylltu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd—gwnewch yn siŵr na chaiff ei gynnal yn ystod yr haf pan mae pawb i ffwrdd ac nad oes neb yn canolbwyntio arno. Cynhaliwch ef pan fydd pobl yn gallu ffocysu a chanolbwyntio', dywedodd—ac roedd Paul Davies yno—'Bydd y llithriant hynny'n costio miliynau o bunnoedd i ni.' Mae'n swnio i mi ei fod eisoes yn gwybod beth mae'n ei wneud. Felly, os yw hyn yn anghyfforddus ac yn anodd iddo, y cyfan sydd gennyf i’w ddweud yw: os nad ydych yn gallu dioddef y gwres, ewch allan o'r gegin.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** This debate provides all of us with an opportunity to look honestly at the challenges that the NHS faces and how we can develop the NHS in the coming years. In my role as Minister for Health and Social Services, I cannot and will not allow people to be treated by services that are anything less than safe and of a high quality. On this point I am immovable, and I make no apologies for that.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle i bob un ohonom edrych yn onest ar yr heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu a sut y gallwn ddatblygu'r GIG yn y blynyddoedd i ddod. Yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ni allaf ac ni fyddaf yn caniatáu i bobl gael eu trin gan wasanaethau sydd yn ddim llai na gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel. Rwyf yn ddiwyro ar y pwynt hwn, ac nid wyf yn ymddiheuro am hynny.

To ensure that this is the case, we need to act now to ensure that NHS care is the best and safest it can be. No-one can pretend that preserving the status quo is a sustainable option. Everyone—public and politicians alike—has accepted evidence that has stated

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae angen i ni weithredu nawr i sicrhau bod gofal y GIG y gorau a'r mwyaf diogel y gall fod. Ni all neb esgus bod cadw'r status quo yn opsiwn cynaliadwy. Mae pawb—y cyhoedd a gwleidyddion fel ei gilydd—wedi derbyn

that change is both necessary and inevitable. The future must be about doing different things, not about doing the same things differently. I fully understand how strongly people feel about their local hospital, particularly in rural areas. I understand the fears and anxieties experienced by the populations around Bronglais General Hospital in the face of proposed service change, and I want to reassure them that I want what they want: high-quality, accessible services that are there when they or their families need them.

tystiolaeth sydd wedi datgan bod newid yn angenrheidiol ac yn anochel. Rhaid i'r dyfodol olygu gwneud pethau gwahanol, nid gwneud yr un pethau'n wahanol. Rwyf yn deall pa mor gryf mae pobl yn teimlo am eu hysbyty lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rwyf yn deall yr ofnau a'r pryderon a brofir gan y poblogaethau o gwmpas Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn wyneb y newid arfaethedig i wasanaethau, ac rwyf am eu sicrhau bod arnaf i eisiau'r hyn y mae arnyn nhw ei eisiau: gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel, sydd yno pan mae eu hangen arnyn nhw neu ar eu teuluoedd.

In recent weeks, I have received letters from concerned residents who have been told, among other things, that the accident and emergency department at Bronglais is to be closed; that the maternity unit is to be closed; that all operating theatres are to close; and that the hospital itself will be downgraded. At times, I have been deeply shocked and dismayed by some of these letters, because it clearly shows that people are receiving misleading information that is causing unnecessary concern and unease among the people who Bronglais serves. This is dangerous mischief making.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi derbyn llythyrau gan drigolion pryderus sydd wedi cael gwybod, ymysg pethau eraill, y bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Bronglais yn cael ei chau; y bydd yr uned mamolaeth yn cael ei chau; y bydd yr holl theatrau llawdriniaethau'n cael eu cau; ac y bydd yr ysbyty ei hun yn cael ei israddio. Ar adegau, rwyf wedi cael fy siomi a'm synnu gan rai o'r llythyrau hyn, oherwydd ei fod yn dangos yn glir bod pobl yn derbyn gwybodaeth gamarweiniol sy'n achosi pryder ac anesmwythyd diangen ymysg y bobl y mae Bronglais yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn gwneud drygioni peryglus.

**Elin Jones** *rose*—

**Elin Jones** *a gododd*—

**Lesley Griffiths:** I am not taking any interventions. You have had your time; it is time for me to put my views forward so that the people of Wales can hear them.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn derbyn unrhyw ymyriadau. Rydych chi wedi cael eich amser ac mae'n hen bryd i mi gyflwyno fy safbwyntiau er mwyn i bobl Cymru eu clywed.

This Government is concerned with the safety of patients, not political point-scoring. Do any of the Members in this Chamber want to stand up and say that they will support services that are unsafe?

Diogelwch y cleifion sy'n bwysig i'r Llywodraeth hon nid sgorio pwyntiau gwleidyddol. A oes unrhyw un o'r Aelodau yn y Siambr hon am sefyll i fyny a dweud y byddant yn cefnogi gwasanaethau anniogel?

**Alun Ffred Jones** *rose*—

**Alun Ffred Jones** *a gododd*—

**Lesley Griffiths:** I want to make it perfectly clear today—[*Interruption*.]

**Lesley Griffiths:** Mae arnaf eisiau ei gwneud yn gwbl glir heddiw—[*Torri ar draws.*]

**Alun Ffred Jones:** Will you take an intervention?

**Alun Ffred Jones:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Lesley Griffiths:** I am not taking any

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn derbyn unrhyw

interventions.

ymyriadau.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Alun Ffred Jones, the Minister has said that she is not taking interventions. Therefore, in order to keep to time, would Members please not attempt to intervene?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Alun Ffred Jones, mae'r Gweinidog wedi dweud nad yw'n derbyn ymyriadau. Felly, er mwyn cadw at yr amser, a fyddai Aelodau'n peidio â cheisio ymyrryd os gwelwch yn dda?

**Lesley Griffiths:** I want to make it perfectly clear today, as the person who sets the overall strategic direction for the NHS in Wales, there are no plans to close Bronglais hospital; no plans to downgrade Bronglais hospital; no plans to downgrade accident and emergency services; no plans to downgrade maternity services; and no plans to close all operating theatres. District general hospitals like Bronglais will continue to be district general hospitals. No district general hospitals will close during the course of this Government. Our commitment to Bronglais is clear and reinforced by the £38 million investment that we have made in the hospital over the past few years. A question has been asked as to how I can state that no services will be downgraded, when I have said that any future plans are the responsibility of local health boards, and that, as yet, these plans are yet to be fully developed. The answer is simple: as Minister, I am in continual contact with my chairs, and I met the chair of Hywel Dda LHB on Monday, who told me that the direction of travel in terms of the future plans and that the services I have listed and on which I have received correspondence are fundamental to the future of Bronglais hospital and are not a part of wider service change plans in Hywel Dda LHB.

**Lesley Griffiths:** Mae arnaf eisiau ei gwneud yn gwbl glir heddiw, fel y sawl sy'n gosod y cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y GIG yng Nghymru, nad oes dim cynlluniau i gau ysbyty Bronglais; dim cynlluniau i israddio ysbyty Bronglais; dim cynlluniau i israddio'r gwasanaethau damweiniau ac achosion brys; dim cynlluniau i israddio gwasanaethau mamolaeth; a dim cynlluniau i gau'r holl theatrau llawdriniaethau. Bydd ysbytai cyffredinol dosbarth fel Bronglais yn parhau i fod yn ysbytai cyffredinol dosbarth. Ni fydd dim ysbytai cyffredinol dosbarth yn cau yn ystod oes y Llywodraeth hon. Mae ein hymrwymiad i Fronglais yn glir a chafodd ei atgyfnerthu gan y buddsoddiad gwerth £38 miliwn rydym wedi'i wneud yn yr ysbyty dros y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut y gallaf ddweud na fydd gwasanaethau'n cael eu hisraddio, pan rwyf wedi dweud mai byrddau iechyd lleol fydd yn gyfrifol am unrhyw gynlluniau yn y dyfodol, a, hyd yn hyn nad yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu datblygu'n llawn. Mae'r ateb yn syml: fel Gweinidog, rwyf mewn cysylltiad parhaus â'm cadeiryddion, a chefais gyfarfod â chadeirydd BILl Hywel Dda ddydd Llun, a ddywedodd wrthyf fod y cyfeiriad o ran y cynlluniau i'r dyfodol a bod y gwasanaethau rwyf wedi'u rhestru ac rwyf wedi derbyn gohebiaeth yn eu cylch yn hanfodol i ddyfodol Ysbyty Bronglais ac nid ydynt yn rhan o gynlluniau newid gwasanaethau ehangach BILl Hywel Dda.

However, the future of the NHS in rural mid Wales, and in the rest of Wales, cannot and should not be focused solely on hospitals. Some 90% of all health contacts take place in the community. The services that people rely on from day to day for the majority of their care are provided by the GP, the pharmacist, the optician and many other health professionals. It is therefore essential that we talk about and invest in appropriate GP and community services alongside any changes that are made to hospital services. That is the

Fodd bynnag, ni all ac ni ddylai dyfodol y GIG yng nghanolbarth gwledig Cymru, ac yng ngweddill Cymru, ganolbwyntio ar ysbytai'n unig. Mae tua 90% o'r holl gysylltiadau iechyd yn digwydd yn y gymuned. Mae'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt o ddydd i ddydd ar gyfer y rhan fwyaf o'u gofal yn cael eu darparu gan y meddyg teulu, y fferyllydd, yr optegydd a llawer o weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Mae'n hanfodol felly ein bod yn siarad am ac yn buddsoddi mewn meddygon teulu a

message I have given to all health boards.

gwasanaethau cymunedol priodol ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau a wneir i wasanaethau ysbytai. Dyna'r neges rwyf wedi'i rhoi i bob bwrdd iechyd.

I have also told the local health boards that the future development of NHS services cannot be constrained by LHB boundaries. I have instructed the health boards to work together to find collective solutions to the challenges they face. I can assure Members that Hywel Dda Local Health Board, Betsi Cadwaladr University Local Health Board and Powys Teaching Local Health Board are engaging with each other in developing their plans.

Rwyf hefyd wedi dweud wrth y byrddau iechyd lleol na all ffiniau BILl gyfyngu ar ddatblygiad gwasanaethau'r GIG yn y dyfodol. Rwyf wedi cyfarwyddo'r byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion ar y cyd i'r heriau sy'n eu hwynebu. Gallaf sicrhau'r Aelodau bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn ymgysylltu â'i gilydd wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Campaigns whipped up by political parties that focus exclusively on local hospitals may generate publicity, but can also present a misleading picture to the public about the nature and future of the services that will be provided. This is not acceptable or responsible behaviour. There is a powerful set of arguments, put forward by clinicians, which says that services can and must be better than they are. Choosing not to change services because it is the populist and easy option will not address the issues faced by the NHS. We must transform services. If we do not, we will never attract world-class clinical staff and tackle deep-seated patterns of health inequality.

Efallai fod ymgyrchoedd sy'n cael eu creu gan bleidiau gwleidyddol ac sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ysbytai lleol yn cael cyhoeddusrwydd, ond gallant hefyd gyflwyno darlun camarweiniol i'r cyhoedd o natur a dyfodol y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu. Nid yw hyn yn ymddygiad derbyniol na chyfrifol. Ceir set gref o ddadleuon, a gyflwynwyd gan glinigwyr, sy'n dweud bod modd i wasanaethau fod yn well a bod yn rhaid iddynt fod yn well nag ydynt. Ni fydd dewis peidio â newid gwasanaethau oherwydd mai dyna yw'r dewis poblogaidd a hawdd yn mynd i'r afael â'r materion y mae'r GIG yn eu hwynebu. Rhaid i ni drawsnewid gwasanaethau. Os na wnawn ni hynny, ni fyddwn byth yn denu staff clinigol o safon fyd-eang ac ni fyddwn yn mynd i'r afael â'r patrymau o anghydraddoldeb iechyd sydd wedi hen wreiddio.

The wider debate about the future of the NHS must be about more than political point-scoring. I have to reiterate my deep disappointment that some people are using moves to develop safe, sustainable services as a platform for scaremongering and worrying the public unnecessarily. The people of Wales expect and deserve more from us. Service changes have to reflect local circumstances and need. In Bronglais, these changes will reflect the rural and dispersed nature of the population it serves.

Rhaid i'r ddadl ehangach am ddyfodol y GIG fod yn ymwneud â mwy na sgorio pwyntiau gwleidyddol. Rhaid i mi ailadrodd fy siom fawr bod rhai pobl yn defnyddio symudiadau i ddatblygu gwasanaethau diogel a chynaliadwy fel llwyfan ar gyfer codi bwganod a pheri pryder diangen i'r cyhoedd. Mae pobl Cymru yn disgwyl ac yn haeddu mwy gennym. Rhaid i newidiadau i wasanaethau adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol. Ym Mronglais, bydd y newidiadau hyn yn adlewyrchu natur wledig a gwasgaredig y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

I would like now to clarify what is currently happening regarding service change in Hywel

Hoffwn nawr egluro'r hyn sy'n digwydd ynghylch newid i wasanaethau yn BILl

Dda LHB and elsewhere. However, before I do, I would like to say, Elin, that I understand that Chris Martin has agreed to meet you in Aberystwyth, either on 30 March or 2 April, but that you have not accepted as yet. If that is not the case, please come back to me.

Hywel Dda ac mewn mannau eraill. Fodd bynnag, cyn i mi wneud hynny, hoffwn ddweud, Elin, fy mod yn deall bod Chris Martin wedi cytuno i gwrdd â chi yn Aberystwyth, naill ai ar 30 Mawrth neu 2 Ebrill, ond nad ydych wedi derbyn hyd yma. Os nad yw hynny'n wir, dewch yn ôl ataf os gwelwch yn dda.

I wish to reassure Members that consultation will begin in the coming months, when they will be able to view the plans and put forward their views. We cannot publish plans that are in development. Health boards have been reviewing the services they inherited and looking for opportunities to strengthen and improve them. Each has been preparing a service plan to ensure that services are sustainable and meet the needs of local patients. Where service changes are planned, the national clinical forum that I have set up will provide clinical advice to health boards, through their chief executives, on their proposals. Rebecca Evans mentioned the golden hour, and I can confirm that that will be looked at as part of the case for change as every health board puts forward its plans. It is the time at which appropriate treatment is started rather than the time of arrival at the hospital that affects the outcomes.

Hoffwn sicrhau'r Aelodau y bydd yr ymgynghoriad yn dechrau yn y misoedd nesaf, pan fyddant yn gallu gweld y cynlluniau a rhoi eu barn. Ni allwn gyhoeddi cynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae byrddau iechyd wedi bod yn adolygu'r gwasanaethau a etifeddwyd ganddynt ac yn chwilio am gyfleoedd i'w cryfhau a'u gwella. Mae pob un wedi bod yn paratoi cynllun gwasanaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy ac yn diwallu anghenion cleifion lleol. Os oes newidiadau wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau, bydd y fforwm clinigol cenedlaethol rwyf wedi'i sefydlu yn darparu cyngor clinigol i fyrddau iechyd ar eu cynigion, drwy eu prif weithredwyr. Soniodd Rebecca Evans am yr awr aur, a gallaf gadarnhau y bydd honno'n cael ei hystyried fel rhan o'r achos dros newid wrth i bob bwrdd iechyd gyflwyno ei gynlluniau. Yr adeg y mae'r driniaeth briodol yn cael ei dechrau yn hytrach na'r adeg y mae rhywun yn cyrraedd yr ysbyty sy'n effeithio ar y canlyniadau.

Health boards are in constant communication with the local community and their community health council. We must not confuse Hywel Dda LHB’s current listening and engagement exercise with formal consultation. This is the first step on a journey and the health board has told me that it has gained a great deal from meeting and discussing issues with its staff and members of the public at local meetings. I believe that Hywel Dda LHB is working very hard in difficult circumstances to maintain the confidence of the public and clinicians in its area. However, there is still much work to do. I can also clarify evidence given by Hywel Dda LHB in relation to numbers, which Joyce Watson mentioned. That is something that I will take up following the meeting today.

Mae byrddau iechyd yn cyfathrebu'n gyson â'r gymuned leol a'u cyngor iechyd cymuned. Rhaid i ni beidio â drysu rhwng ymarfer gwrando ac ymgysylltu presennol BILl Hywel Dda ac ymgynghoriad ffurfiol. Dyma'r cam cyntaf ar daith ac mae'r bwrdd iechyd wedi dweud wrthyf ei fod wedi ennill llawer iawn drwy gwrdd a thrafod materion â staff ac aelodau o'r cyhoedd mewn cyfarfodydd lleol. Credaf fod BILl Hywel Dda yn gweithio'n galed iawn o dan amgylchiadau anodd i gynnal hyder y cyhoedd a'r clinigwyr yn ei ardal. Fodd bynnag, mae llawer o waith eto i'w wneud. Gallaf hefyd egluro tystiolaeth a roddwyd gan BILl Hywel Dda mewn perthynas â rhifau, a grybwyllwyd gan Joyce Watson. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei godi yn dilyn y cyfarfod heddiw.

I do, of course, recognise and understand the

Rwyf, wrth gwrs, yn cydnabod ac yn deall y

concerns raised by the public and the people who have come here today to register their concerns about the future of services in the Bronglais area. I shall be supporting the Welsh Liberal Democrats' amendment because, in the coming weeks, strong, robust and reasoned public participation will be needed. I have been assured that all interested parties will be offered every opportunity to comment on future service developments put forward by Hywel Dda LHB, and its current listening and engagement exercise still has a number of weeks to run. Change must and will come. Therefore, let us all be open and honest with the people we represent and work together to find solutions to the problems that our NHS will face in the months and years ahead.

pryderon a godwyd gan y cyhoedd a'r bobl sydd wedi dod yma heddiw i gofrestru eu pryderon am ddyfodol gwasanaethau yn ardal Bronglais. Byddaf yn cefnogi gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru oherwydd, dros yr wythnosau nesaf, bydd angen cyfranogiad cryf, cadarn a rhesymedig gan y cyhoedd. Rwyf wedi cael fy sicrhau y bydd pawb sydd â diddordeb yn cael cynnig pob cyfle i wneud sylwadau ar ddatblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol a gyflwynir gan BILl Hywel Dda, ac mae wythnosau eto i fynd ar ei ymarfer gwrando ac ymgysylltu cyfredol. Rhaid cael newid a bydd newid. Felly, gadewch i ni i gyd fod yn agored ac yn onest gyda'r bobl rydym yn eu cynrychioli a gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion i'r problemau y bydd ein GIG yn eu hwynebu yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

6.00 p.m.

**Simon Thomas:** I am very pleased to respond to this debate. It has been a wide-ranging debate. We have gone from misquoting Tacitus—and I will come to that later—to high-tech DVDs, and we now know that the Minister for health is able to organise the diary of the Member for Ceredigion. These are all useful to know, but the main focus of this debate has been driven by the hundreds who came down today to demonstrate their support for Bronglais hospital as the mid Wales district general hospital serving the communities of Ceredigion, west Montgomeryshire and south Gwynedd. I will focus on the comments made on that in particular and touch on some of the issues that were raised.

**Simon Thomas:** Rwyf yn falch iawn o ymateb yn y ddadl hon. Mae wedi bod yn ddadl eang. Rydym wedi mynd o gamddyfynnu Tacitus—a byddaf yn dod i hynny yn nes ymlaen—i DVDs uwch-dechnoleg a nawr rydym yn gwybod bod y Gweinidog iechyd yn gallu trefnu dyddiadur Aelod Ceredigion. Mae'n ddefnyddiol iawn cael gwybod hyn i gyd, ond mae prif ffocws y ddadl hon wedi cael ei yrru gan y cannoedd a ddaeth i lawr heddiw i ddangos eu cefnogaeth i ysbyty Bronglais fel ysbyty cyffredinol dosbarth canolbarth Cymru yn gwasanaethu cymunedau Ceredigion, gorllewin Sir Drefaldwyn a de Gwynedd. Byddaf yn canolbwyntio ar y sylwadau a wnaed ar hynny yn arbennig ac yn cyffwrdd â rhai o'r materion a godwyd.

When we were challenged by the Minister for health to stand up for unsafe services, no-one would do so, of course—although Alun Ffred had a go. [*Laughter.*] Neither did anyone stand up to say that the services being provided now at Bronglais hospital are unsafe. I would like to know what unsafe services are being provided to my constituents today. I invite the Minister to stand up to say what services, currently provided at Bronglais hospital, are unsafe.

Pan gawsom ein herio gan y Gweinidog iechyd i sefyll dros wasanaethau anniogel, ni wnaeth neb hynny, wrth gwrs—rhoddodd Alun Ffred gynnig arni. [*Chwerthin.*] Ni safodd neb i fyny i ddweud bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn awr yn ysbyty Bronglais yn anniogel. Hoffwn wybod pa wasanaethau anniogel sy'n cael eu darparu i fy etholwyr heddiw. Rwyf yn gwahodd y Gweinidog i sefyll i fyny i ddweud pa wasanaethau, a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty Bronglais, sy'n anniogel.

**Lesley Griffiths:** I did not say that any

**Lesley Griffiths:** Nid oeddwn yn dweud bod

services provided at Bronglais hospital were unsafe, but our services are stretched; we all recognise that fact. If we do not take action now, we will have unsafe services.

unrhyw wasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Bronglais yn anniogel, ond mae ein gwasanaethau dan bwysau; rydym i gyd yn cydnabod y ffaith honno. Os na fyddwn yn gweithredu nawr, bydd gennym wasanaethau anniogel.

**Simon Thomas:** I am grateful for that clarification, because it helps us to concentrate on the fact that this debate should be about evidence-based planning in the health service and not financial-based planning, which is what we have heard in the comments here regarding the closure of minor injuries units over the last few months. That should be based on a considered clinical view, which means that the letter by 50 of the 60 clinicians at Bronglais hospital is unprecedented in the history of the NHS in Wales. I cannot think of any other time when 50 of 60 clinicians in one district general hospital have stood up to say that they oppose the proposals—sorry, the ‘listening exercise’—being made by Hywel Dda Local Health Board for their area. That represents a lack of trust and confidence, coupled with the fact that what we are dealing with is planning for the future. We are not calling services available today unsafe—I am glad to hear that—because the colorectal service at Bronglais hospital has won awards and plaudits for its standard of care.

**Simon Thomas:** Rwyf yn ddiolchgar am yr eglurhad hwnnw, oherwydd ei fod yn ein helpu i ganolbwyntio ar y ffaith y dylai'r ddadl hon edrych ar gynllunio ar sail tystiolaeth yn y gwasanaeth iechyd ac nid cynllunio ar sail cyllid, sef yr hyn rydym wedi’i glywed yn y sylwadau yma ynghylch cau unedau mân anafiadau yn ystod y misoedd diwethaf. Dylai hynny fod yn seiliedig ar farn glinigol ystyriol, sy'n golygu bod y llythyr gan 50 o'r 60 o glinigwyr yn ysbyty Bronglais yn torri tir newydd yn hanes y GIG yng Nghymru. Ni allaf feddwl am unrhyw adeg arall pan mae 50 o’r 60 o glinigwyr mewn un ysbyty cyffredinol dosbarth wedi sefyll i fyny i ddweud eu bod yn gwrthwynebu'r cynigion—mae'n ddrwg gennyf, yr 'ymarfer gwrando'—sy'n cael eu gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar gyfer eu hardal. Mae hynny'n dangos diffyg ymddiriedaeth a hyder, ynghyd â'r ffaith mai cynllunio ar gyfer y dyfodol ydym yn delio ag ef. Nid ydym yn dweud bod y gwasanaethau sydd ar gael heddiw yn anniogel—rwyf yn falch o glywed hynny—oherwydd bod gwasanaeth y colon a'r rhefr yn Ysbyty Bronglais wedi ennill gwobrau a chlod am safon ei ofal.

What have been clearly elucidated in this debate are the changes being proposed by Hywel Dda Local Health Board. They are not couched as a formal consultation, but as a listening exercise, but they mean changes to surgery. Surgeons are retiring at Bronglais hospital and new posts are advertised elsewhere; that is a decision made by Hywel Dda Local Health Board—that is not a listening exercise, but a decision.

Yr hyn sydd wedi cael ei esbonio'n glir yn y ddadl hon yw'r newidiadau sy'n cael eu cynnig gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Nid ydynt yn cael eu mynegi fel ymgynghoriad ffurfiol, ond fel ymarfer gwrando, ond maent yn golygu newidiadau i lawdriniaeth. Mae llawfeddygon yn ymddeol yn Ysbyty Bronglais ac mae swyddi newydd yn cael eu hysbysebu mewn mannau eraill; mae hynny'n benderfyniad sydd wedi cael ei wneud gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda—nid ymarfer gwrando yw hynny, ond penderfyniad.

We have been presented with a listening exercise on changing the accident and emergency department at Bronglais hospital to an urgent care centre. That happened in Llanelli, but the people of Llanelli were not

Rydym wedi cael ymarfer gwrando ar newid yr adran damweiniau ac achosion brys yn ysbyty Bronglais yn ganolfan gofal brys. Digwyddodd hynny yn Llanelli, ond ni chafodd pobl Llanelli wybod am hynny.

told about it. We are told about changes to maternity services, but not exactly told yet how they will pan out; however, there will be changes. In the ordinary parlance—and not as a clinical term—of the people using Bronglais hospital, that is perceived as downgrading their services. That has been touched on by most speakers. Elin, as she set out the arguments behind this debate, called into question in particular the increasing evidence that shows that centralisation does not necessarily lead to better clinical outcomes. The work done, for example, in Sheffield on distance travelled and the effect on mortality is a key issue, as is the work of Sustrans, witnessed by Assembly Members this week, on transport poverty in many parts of rural Wales. Paul Davies also mentioned this in terms of the centralisation that is happening in and around Withybush hospital at the moment.

Dywedir wrthym am newidiadau i wasanaethau mamolaeth, ond nid ydym wedi cael gwybod yn iawn sut y bydd y rhain yn gweithio allan; fodd bynnag, bydd newidiadau. Yn iaith arferol—ac nid termau meddygol—y bobl sy'n defnyddio ysbyty Bronglais, caiff hynny ei weld fel israddio eu gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr wedi sôn am hynny. Wrth iddi gyflwyno'r dadleuon y tu ôl y ddadl hon, yn benodol cwestiynodd Elin y dystiolaeth gynyddol sy'n dangos nad yw canoli o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau clinigol gwell. Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, er enghraifft, yn Sheffield ar y pellter a deithir a'r effaith ar farwolaethau yn fater allweddol, yn yr un modd â gwaith Sustrans, a welwyd gan Aelodau'r Cynulliad yr wythnos hon, ar dlodi trafnidiaeth mewn sawl rhan o Gymru wledig. Roedd Paul Davies hefyd wedi crybwyll hyn o ran y canoli sy'n digwydd yn ysbyty Llwynhelyg a'r ardal ar hyn o bryd.

It is appropriate for us to accept the Liberal Democrat amendment moved by William Powell, in which the Liberal Democrats congratulate the aBer group, but it is also important to underline that this motion today is based on the motion passed in the meeting that Russell George mentioned in Aberystwyth, called by the aBer group. That meeting put together the ideas underpinning this motion today. So, I hope that those who want to support the aBer group and the amendment will also support the motion, which stems directly from its work.

Mae'n briodol i ni dderbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol a gynigiwyd gan William Powell, lle mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn llongyfarch y grŵp aBer, ond mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod y cynnig hwn heddiw'n seiliedig ar y cynnig a basiwyd yn y cyfarfod a grybwyllwyd gan Russell George yn Aberystwyth, a gafodd ei alw gan y grŵp aBer. Roedd y cyfarfod hwnnw'n dod â'r syniadau sy'n sail i gynnig heddiw ynghyd. Felly, gobeithio y bydd y rheini sy'n awyddus i gefnogi'r grŵp aBer a'r gwelliant hefyd yn cefnogi'r cynnig, sy'n deillio'n uniongyrchol o'i waith.

Alun Ffred was careful to ensure that Gwynedd, as a centre for a teaching hospital, got a good outing under the general title of district general hospitals; I am sure that we support him in that.

Roedd Alun Ffred yn ofalus i sicrhau bod Gwynedd, fel canolfan ar gyfer ysbyty addysgu, yn cael sylw dan o dan y teitl cyffredinol ysbyty cyffredinol dosbarth; rwyf yn siŵr ein bod yn ei gefnogi ef yn hynny.

There was more in common between Joyce Watson and Darren Millar than initially met scrutiny. Both called for rural aspects of healthcare to be taken into account. Although the Minister made passing reference to this, I note that she did not respond formally to the concerns raised by Joyce Watson or Rebecca Evans about how rural appropriateness will be taken into account when these plans are brought forward. [*Interruption.*] I do not think

Roedd mwy yn gyffredin rhwng Joyce Watson a Darren Millar na’r hyn a welwyd ar yr olwg gyntaf. Roedd y naill a'r llall yn galw am ystyried agweddau gwledig gofal iechyd. Er bod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn, nodaf nad oedd wedi ymateb yn ffurfiol i'r pryderon a godwyd gan Joyce Watson na Rebecca Evans am sut y bydd priodoldeb gwledig yn cael ei ystyried pan fydd y cynlluniau hyn yn cael eu dwyn ymlaen.

that she did. [*Interruption*.] I do not think that she responded fully at all. Let the Record stand on that. I invite people to read the Record.

[*Torri ar draws.*] Nid wyf yn credu iddi wneud hynny. [*Torri ar draws.*] Nid wyf yn credu ei bod wedi ymateb yn llawn o gwbl. Gadewch y Cofnod fod yn brawf o hynny. Rwyf yn gwahodd pobl i ddarllen y Cofnod.

Leanne Wood reminded us that so many minor injuries units have been closed without any kind of pre-consultation. She also made it clear that, if we are to see plans and proposals, they need to be firm, realistic and concrete ones. That point was underlined, I think, by Angela, in terms of proper consultation going forward. Russell spoke for many people, I am sure, in Montgomeryshire who have not been consulted about changes to Bronglais. I am pleased that he supported that. He underlined how much people rely on these services. For those who do not know, 40% of patients treated at Bronglais do not come from the Ceredigion area—they come from Montgomeryshire and south Gwynedd. They have not been consulted at all; they have not had a piece of Latin or a DVD. They have not been told what will be happening in their area.

Cawsom ein hatgoffa gan Leanne Wood bod cynifer o unedau mân anafiadau wedi cael eu cau heb unrhyw fath o gyn ymgynghori. Dywedodd hefyd, os ydym am weld cynlluniau a chynigion, mae angen iddynt fod yn gadarn, yn realistig ac yn bendant. Cafodd y pwynt hwnnw ei danlinellu, gan Angela rwyf yn meddwl, o ran ymgynghori priodol wrth symud ymlaen. Siaradodd Russell dros nifer o bobl, rwyf yn siŵr, yn Sir Drefaldwyn na ymgynghorwyd â nhw am y newidiadau i Fronglais. Rwyf yn falch ei fod yn cefnogi hynny. Tanlinellodd cymaint y mae pobl yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn. I'r rheini nad ydynt yn gwybod, nid yw 40% o'r cleifion sy'n cael eu trin ym Mronglais yn dod o ardal Ceredigion—maent yn dod o Sir Drefaldwyn a de Gwynedd. Ni ymgynghorwyd â nhw o gwbl; nid ydynt wedi cael darn o Ladin na DVD. Nid ydynt wedi cael gwybod beth fydd yn digwydd yn eu hardal.

In conclusion, the Minister called strongly for safe services. We believe that the services at present are safe. We believe that we have to plan for safe services in the future. There is a need for specialised services to be made available in different parts of Wales. Rural Wales demands treatment that is different to urban Wales. Rural mid Wales demands a safe and secure district general hospital with proper maternity services, a full accident and emergency department and general surgery services. I hope that the Government will deliver that for the people of mid Wales.

I gloi, galwodd y Gweinidog yn gryf am wasanaethau diogel. Rydym yn credu bod y gwasanaethau'n ddiogel ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod gennym gynllun ar gyfer gwasanaethau diogel yn y dyfodol. Mae angen i wasanaethau arbenigol fod ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae Cymru wledig yn gofyn am driniaethau sy'n wahanol i ardaloedd trefol Cymru. Mae canolbarth gwledig Cymru yn mynnu ysbyty cyffredinol dosbarth diogel a sicr sydd â gwasanaethau mamolaeth priodol, adran damweiniau ac achosion brys lawn a gwasanaethau llawdriniaeth gyffredinol. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn cyflenwi hynny ar gyfer pobl canolbarth Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn felly yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

A oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly, symudwn ymlaen at y cyfnod pleidleisio.

Do three Members wish for the bell to be rung? I see that there are not, so we will move directly to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4924: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 37.*
*Motion NDM4924: For 14, Abstain 0, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Whittle, Lindsay

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4924: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 16.*
*Amendment 1 to NDM4924: For 35, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron

Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4924: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4924: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina

Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4924: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM4924: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie

Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4924 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi pwysigrwydd cymharol mewnfuddsoddiad i economi Cymru;*

*2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi;*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol; a*

*4. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru'n well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.*

*Motion NDM4924 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes the relative importance of inward investment into the Welsh economy;*

*2. Recognises that Wales needs to become a more attractive place to invest;*

*3. Calls on the Welsh Government to focus on approaches to investment that do not overly rely on direct support to individual businesses; and*

*4. Believes that the Welsh Government must deliver improved infrastructure and higher skills levels in addition to better marketing of Wales in order to attract more inward investment.*

*Cynnig NDM4924 fel y'i diwygiwyd: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4924 as amended: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4924 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4924 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4926: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Motion NDM4926: For 24, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice

Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4926: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 24.*
*Amendment 1 to NDM4926: For 27, Abstain 0, Against 24.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4926: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4926: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4926 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir i iechyd y wlad gan rwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y GIG yn gweithio gyda Chanolfannau Arbenigol*

*Motion NDM4926 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the valuable contribution made to the health of the nation by a network of NHS District General Hospitals working with regional Specialist Centres;*

*rhanbarthol;*

*2. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithio'n arloesol ac yn eang, er bod ganddo waith i'w wneud eto, i ymgysylltu ac egluro dyfodol gwasanaethau'r GIG i'r cyhoedd a chlinigwyr yn ei ardal leol; a*

*2. Notes that Hywel Dda Health Board is working innovatively and widely, but still has work to do, in engaging and explaining the future of NHS services to the public and clinicians in its locality; and*

*3. Yn nodi ac yn llongyfarch y gwaith gwerthfawr a wneir gan 'The aBer Group' o ran cryfhau cyfranogiad y cyhoedd yn nyfodol Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais; a*

*3. Notes and congratulates the invaluable work undertaken by 'The aBer Group' in strengthening public participation in the future of Bronglais District General Hospital; and*

*4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:*

*4. Calls on the Minister for Health and Social Services to:*

*a) cynnal rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth i sicrhau bod dinasyddion Cymru o fewn pellter diogel i'w gwasanaethau achub bywydau; a*

*a) maintain a network of District General Hospitals to ensure that Welsh citizens are within a safe distance of their life-saving services; and*

*b) cyfarwyddo Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Powys i weithio ar draws ffiniau gweinyddol i sicrhau bod anghenion meddygol a llawfeddygol pobl canolbarth Cymru yn cael eu diwallu'n ddiogel ac yn ddigonol gan Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais.*

*b) instruct Hywel Dda Health Board, Betsi Cadwaladr University Health Board and Powys Health Board to work across administrative boundaries to ensure that the surgical and medical needs of the people of mid Wales are safely and adequately met by Bronglais District General Hospital.*

*Cynnig NDM4926 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 24.*
*Motion NDM4926 as amended: For 24, Abstain 0, Against 24.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon

Rathbone, Jenny
Rees, David
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4926 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4926 as amended agreed.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Cuts Watch Cymru

**Mark Drakeford:** I am happy to offer a minute each during this short debate to Aled Roberts and Leanne Wood.

**Mark Drakeford:** Rwyf yn fodlon cynnig munud yr un yn ystod y ddadl hon i Aled Roberts a Leanne Wood.

Yesterday, Cuts Watch Cymru, a new coalition of organisations in Wales, published its first report. The alliance came together to trace and track the impact of changes in the benefits system on people who live in Wales. Its report concludes that the impact of benefit changes is only just beginning to be felt across the United Kingdom. Almost 90% of the cuts are yet to come, and, over the next four years, their impact will be felt by hundreds of thousands of people in Wales, whether they are the one in five people of working age who receive a Department for Work and Pensions benefit or one of the 0.25 million people receiving housing benefit.

Ddoe, cyhoeddodd Cuts Watch Cymru ei adroddiad cyntaf. Mae Cuts Watch Cymru yn glymblaid newydd o sefydliadau yng Nghymru. Daeth y cynghrair ynghyd i ddilyn ac i olrhain effaith y newidiadau yn y system budd-daliadau ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae ei adroddiad yn dod i'r casgliad mai megis dechrau teimlo effaith y newidiadau i fudd-daliadau yr ydym ar draws y Deyrnas Unedig. Mae bron i 90% o'r toriadau eto i ddod, a, dros y pedair blynedd nesaf, bydd cannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru yn teimlo eu heffaith, boed nhw yn un o bob pump o'r bobl oed gweithio sy'n derbyn budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu yn un o'r 0.25 miliwn o bobl sy'n cael budd-dal tai.

Underpinning the changes is a desperate drive to force people off welfare and into work. Lone parents will be obliged to seek work once their youngest child is five years old and they will be required to do so within a 90-minute commute of their home. People with disabilities will be subject to fitness-for-work procedures, which we already know are both flawed in application and distressing in prospect. At the same time, changes in housing benefit will mean that almost all tenants are worse off: people with a so-called spare bedroom and those under 35 who live alone face the prospect of a forced move. More than 1.2 million Welsh pensioners will, this winter, experience reductions in their winter fuel allowance—a benefit that, because of rising prices, has already seen its real value fall from 63% of fuel bills in 2008

Yn sail i'r newidiadau hyn ceir ymgyrch orffwyll i orfodi pobl oddi ar fudd-daliadau lles ac i waith. Bydd yn rhaid i unig rieni chwilio am waith pan fydd eu plentyn ieuengaf yn bump oed a bydd yn rhaid iddynt wneud hynny o fewn siwrnai 90 munud i'w cartref. Bydd yn rhaid i bobl ag anableddau fynd drwy weithdrefnau ffit i weithio. Rydym eisoes yn gwybod bod y rhain yn ddiffygiol o ran sut y cânt eu rhoi ar waith ac maent yn peri pryder. Ar yr un pryd, bydd newidiadau i fudd-daliadau tai yn golygu llai o arian i bron bob tenant: bydd pobl sydd â'r hyn a ystyrir yn ystafell sbâr a'r rheini o dan 35 oed ac yn byw ar eu pen eu hunain yn wynebu cael eu gorfodi i symud. Y gaeaf hwn bydd dros 1.2 miliwn o bensiynwyr Cymru yn gweld gostyngiadau yn eu lwfans tanwydd gaeaf. Oherwydd cynnydd mewn prisiau mae'r

to only 50% this last winter.

budd-dal hwn eisoes wedi gweld ei wir werth yn disgyn o 63% o filiau tanwydd yn 2008 i ddim ond 50% y gaeaf diwethaf.

6.15 p.m.

All of this will be happening at a time when demand for public housing to rent is at an all-time high, as repossessions of owner-occupied houses broke through the 5,000 barrier in Wales in the last calendar year, and the number of people accepted as being statutorily homeless was 13% higher in the first quarter of 2011 than in the same quarter of 2010. It is also all happening at a time when unemployment is rising and jobs are in ever shorter supply.

Bydd hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan mae’r galw am dai cyhoeddus i’w rhentu’n uwch nag erioed o’r blaen, pan mae’r achosion o adfeddiannu tai perchen-feddiannwyr wedi cyrraedd dros 5,000 yng Nghymru yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf, a phan roedd nifer y bobl a gafodd eu derbyn yn statudol ddigartref 13% yn uwch yn ystod chwarter cyntaf 2011 na’r un chwarter yn 2010. Mae hyn i gyd hefyd yn digwydd ar adeg pan mae diweithdra’n codi a swyddi’n brin.

The answer of the Westminster coalition is that jobs will be created in the private sector, and yet official figures show that, between July and September last year, for every job in the private sector 13 jobs were lost in the public sector. Indeed, were it not for a statistical quirk, whereby jobs in Lloyds TSB and the Royal Bank of Scotland are now listed by the ONS as public sector employment, the number of jobs in the private sector in the UK economy would actually have been recorded as shrinking over that quarter. It is hardly surprising then that, since 2008, a derisory 3.5% of lone parents with their youngest child aged between 12 and 15, let alone five, forced to switch to jobseeker’s allowance, have actually found a job.

Ateb clymblaid San Steffan yw y bydd swyddi’n cael eu creu yn y sector preifat. Er hynny mae’r ffigurau swyddogol yn dangos, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi’r llynedd, ar gyfer pob swydd yn y sector preifat cafodd 13 swydd ei cholli yn y sector cyhoeddus. A dweud y gwir, oni bai am hynodrwydd ystadegol, sy’n golygu bod swyddi yn Lloyds TSB a’r Royal Bank of Scotland nawr yn cael eu rhestru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel cyflogaeth sector cyhoeddus, byddai nifer y swyddi yn y sector preifat yn economi’r DU wedi disgyn dros y chwarter hwnnw. Nid yw’n syndod felly, er 2008, mai 3.5% gwarthus o’r unig rieni â’u plentyn ieuengaf rhwng 12 a 15, heb sôn am bump, a orfodwyd i newid i lwfans ceisio gwaith, a ddaeth o hyd i swydd mewn gwirionedd.

The Cuts Watch Cymru report contains a wealth of detail and from all of that two key conclusions stand out with a new force. First, although the impact of cuts is almost always discussed in terms of separate benefits, their impact is cumulative at the level of the individual and the family. Put simply, it is the same people who will have their incomes reduced right across the range of benefit cuts. It is the same people who are losing £690 in cancelled pregnancy and maternity grants and finding their child benefit and working tax credits frozen, who are dealing with cuts in help towards childcare costs and who are having to work longer hours to qualify for tax credits, and that on top of cuts in housing benefit. It is the same people who are facing

Mae adroddiad Cuts Watch Cymru yn cynnwys toreth o fanylion ac mae dau gasgliad allweddol yn neidio allan o’r holl fanylion hynny â grym newydd. Yn gyntaf, er bod effaith toriadau bron bob amser yn cael ei drafod o ran budd-daliadau ar wahân, mae eu heffaith yn gronnol ar lefel yr unigolyn a’r teulu. Yn syml, yr un bobl a fydd yn gweld eu hincymau’n disgyn ar draws yr ystod o doriadau budd-daliadau. Yr un bobl sy’n colli £690 mewn grantiau beichiogrwydd a mamolaeth sy’n cael eu canslo. Yr un bobl sy’n gweld eu budd-dal plant a chredyd treth gwaith yn cael eu rhewi. Yr un bobl sy’n delio â thoriadau mewn help at gostau gofal plant ac sy’n gorfod gweithio mwy o oriau i gymhwyso i gael credydau treth, ac mae

these cuts in each and every part of their lives.

hynny ar ben toriadau i fudd-dal tai. Yr un bobl sy'n wynebu'r toriadau hyn ym mhob rhan o'u bywydau.

Secondly, all of these different changes not only coalesce in the lives of individuals and families but have a hidden but strongly cumulative effect on particular places. Time and again, the Cuts Watch Cymru report demonstrates the fact that, in terms of simple job-seeking unemployment, for example, some local authorities have almost four times as many of their population in that position as others do. Those with the highest rates of claimants include, as we would all expect, Blaenau Gwent with 6.6%, Merthyr Tydfil with 5.6% and Newport with 5.1%. Other local authorities have less than half that rate. When it comes to long-term sickness and disability, the same pattern of uneven distribution occurs. Once again, some of the most deprived local authorities have twice as many claimants in that category as the more advantaged areas do. Unsurprisingly, the same pattern can be found again in relation to housing benefit. Here, claimants are concentrated in social rented housing, with 82% of housing benefit claimants in that situation in Torfaen and 74% in Blaenau Gwent.

Yn ail, bydd yr holl newidiadau gwahanol hyn yn dod ynghyd ym mywydau unigolion a theuluoedd ond bydd ganddynt hefyd effaith gudd a chronnol iawn ar lefydd penodol. Dro ar ôl tro mae adroddiad Cuts Watch Cymru yn dangos y ffaith, o ran diweithdra ceisio gwaith syml, er enghraifft, bod gan rai awdurdodau lleol bron i bedair gwaith gymaint o'u poblogaeth yn y sefyllfa honno nag awdurdodau eraill. Mae'r rheini sydd â'r lefel uchaf o hawlwyr yn cynnwys, fel y byddem i gyd yn ei ddisgwyl, Blaenau Gwent gyda 6.6%, Merthyr Tudful gyda 5.6% a Chasnewydd gyda 5.1%. Mae gan awdurdodau eraill lai na hanner y gyfradd honno. Wrth edrych ar salwch ac anabledd tymor hir, mae'r un patrwm o ddosbarthiad anwastad i'w weld. Unwaith eto, mae gan rai o'r awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig bron i ddwywaith cynifer o hawlwyr yn y categori hwnnw â'r ardaloedd mwyaf breintiedig. Nid yw'n syndod bod modd gweld yr un patrwm eto mewn perthynas â budd-dal tai. Yma, mae'r hawlwyr mewn tai rhent cymdeithasol gan fwyaf, gyda 82% o'r hawlwyr budd-dal tai yn y sefyllfa honno yn Nhor-faen a 74% ym Mlaenau Gwent.

Gareth Morgan, a leading analyst of the social security system has concluded that, cumulatively across Wales, more than £2 billion will be lost though benefit cuts over a four-year period. As a result, more than £37 million will be sucked out of the local economy of Merthyr Tydfil and £46 million out of Blaenau Gwent. Those are some of most fragile economies in Wales, and when you lose 20% of the purchasing power from a high street in a fragile economy of that sort it is not just people on benefits who suffer as a result; it is everybody who depends upon the shops and services that will not be able to trade or operate when that purchasing power is no longer there to support them.

Mae Gareth Morgan, dadansoddwr blaengar o'r system nawdd cymdeithasol wedi dod i'r casgliad yn gronnol ledled Cymru bydd dros £2 biliwn yn cael ei golli drwy doriadau i fudd-daliadau dros gyfnod o bedair blynedd. O ganlyniad i hynny, bydd dros £37 miliwn yn cael ei sugno allan o economi leol Merthyr Tudful a £46 miliwn allan o Blaenau Gwent. Dyna rai o economïau mwyaf bregus Cymru, a phan fyddwch yn colli 20% o'r pŵer prynu o'r stryd fawr mewn economi fregus o'r fath nid dim ond y bobl ar fudd-daliadau fydd yn dioddef; mae'n effeithio ar bawb sy'n dibynnu ar y siopau a'r gwasanaethau na fyddant yn gallu masnachu neu weithredu pan na fydd y pŵer prynu hwnnw yno mwyach i'w cynnal.

In my view, these issues demand a radical response across all levels of government in Wales. There needs to be a new prominence to the work going on within the Welsh Government to respond to the impact of

Yn fy marn i, mae'r materion hyn yn galw am ymateb radical ar draws bob lefel mewn llywodraeth yng Nghymru. Mae angen rhoi amlygrwydd newydd i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i ymateb i

welfare reform. Minister, we were grateful for your statement yesterday on the work of the Cabinet's task and finish group on welfare reform, and I have been reading with dismay the research that you have published that demonstrates, as Cuts Watch Cymru has done, the impact of these reforms on families, including families that are already in the most difficult of circumstances and families with children. I think that that Cabinet task and finish group will want to work with organisations represented in Cuts Watch Cymru to assess the impact of the changes about to happen, drilling down to the local level to establish key facts about the likely loss of income to those areas, and the number of people who might be forced to seek rehousing. We then need to follow that analysis with a new focus on possible programmes of support for such communities. As well as mobilising the different services available through the Welsh Government and local authorities, that could identify and draw upon the major contribution of social partners and third sector organisations. Workfare schemes as organised by the Westminster coalition have rightly and recently come under fire, and it is very good to see today's latest victory, which means that the threat of losing your benefit if you did not take part in such a scheme has been withdrawn by Westminster. Even so, the creation of meaningful opportunities for work and training remain essential if young people in particular are to come through the next four years without a permanent blight on their futures. There is no shortage of worthwhile work to be done in Wales, from community-wide environmental improvement programmes to housing stock improvement to tackle fuel poverty.

effaith diwygio lles. Weinidog, roeddem yn ddiolchgar am eich datganiad ddoe ar waith grŵp gorchwyl a gorffen y Cabinet ar ddiwygio lles, ac rwyf wedi bod yn darllen â siom yr ymchwil rydych wedi'i gyhoeddi sy'n dangos, fel y mae Cuts Watch Cymru wedi'i wneud, effaith y diwygiadau hyn ar deuluoedd, gan gynnwys y teuluoedd sydd eisoes yn yr amgylchiadau anoddaf a theuluoedd â phlant. Rwyf yn meddwl y bydd ar grŵp gorchwyl a gorffen y Cabinet eisiau gweithio gyda sefydliadau a gynrychiolir yn Cuts Watch Cymru i asesu effaith y newidiadau sydd ar fin digwydd, gan edrych ar y lefel leol i ganfod y ffeithiau allweddol am yr incwm mae'n debyg a gollir o'r ardaloedd hynny, a nifer y bobl a allai orfod chwilio am dŷ arall. Mae arnom wedyn angen dilyn y dadansoddiad hwnnw â ffocws newydd ar raglenni cymorth posibl ar gyfer cymunedau o'r fath. Yn ogystal â chynnull y gwasanaethau gwahanol sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gallai hynny ganfod a defnyddio cyfranogiad enfawr partneriaid cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector. Yn ddiweddar ac yn briodol mae cynlluniau Workfare a drefnir gan glymblaid San Steffan wedi cael eu beirniadu, ac mae'n braf iawn gweld buddugoliaeth ddiweddaraf heddiw, sy'n golygu bod San Steffan wedi diddymu'r bygythiad o golli eich budd-dal os nad oeddech yn cymryd rhan mewn cynllun o'r fath. Er hynny, mae creu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer gwaith a hyfforddiant yn dal yn hanfodol os yw pobl ifanc yn benodol am allu dod drwy'r pedair blynedd nesaf. Nid oes prinder o waith gwerth chweil i'w wneud yng Nghymru, o raglenni gwella'r amgylchedd cymunedol i wella'r stoc tai er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

When we have done that, the scale of the problems demands that the response should go beyond the range of tools that have been deployed in Wales to date. We need to be prepared to implement directly and quickly initiatives that have already been worked up in other parts of the United Kingdom and which, up until now, we have perhaps felt that we did not need to draw upon. Two examples must suffice to illustrate this argument. In May of this year a local currency will come into use in Bristol, the Bristol pound, which will go beyond the

Pan fyddwn wedi gwneud hynny, mae graddfa'r problemau'n golygu y dylai'r ymateb fynd y tu hwnt i'r ystod o becynnau cymorth sydd wedi cael eu defnyddio yng Nghymru hyd yn hyn. Mae arnom angen bod yn barod i roi mentrau sydd eisoes wedi cael eu datblygu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar waith yma yn uniongyrchol ac yn gyflym. Efallai nad oeddem yn teimlo bod angen i ni ddefnyddio'r mentrau tan nawr. Rhaid i ddwy enghraifft wneud y tro i ddangos y ddadl hon. Ym mis Mai eleni bydd math o arian lleol yn cael ei ddefnyddio ym

experiments already attempted in other towns and cities, such as Brixton and Lewes. Local currencies fill the gap in places where goods and services are available, but the conventional means of exchange—money—is in short supply. The Bristol pound goes beyond previous examples to form a new partnership between voluntary effort and the local state, because traders accepting the local currency in payment for goods and services will be able to use those Bristol pounds to pay for their business rates, for example.

Mryste, punt Bryste, a fydd yn mynd tu hwnt i'r arbrofion sydd eisoes wedi cael eu gwneud mewn trefi a dinasoedd eraill, fel Brixton a Lewes. Mae arian lleol yn llenwi'r bwlch mewn llefydd lle mae nwyddau a gwasanaethau ar gael, ond mae'r dull cyfnewid confensiynol—arian—yn brin. Mae punt Bryste yn mynd ymhellach nag enghreifftiau blaenorol i greu partneriaeth newydd rhwng ymdrechion gwirfoddol a'r wladwriaeth leol, oherwydd bydd masnachwyr sy'n derbyn yr arian lleol am nwyddau a gwasanaethau'n gallu defnyddio'r punnoedd Bryste hynny i dalu eu hardrethi busnes er enghraifft.

The Dumfries food train is of longer duration, having been founded in 1996. It provides a grocery shopping, befriending and household support service for older people, assisting and enabling them to live at home independently for as long as possible. From very modest beginnings, the scheme has, a decade later, made more than 15,000 deliveries to nearly 600 participating households in the Dumfries area.

Mae trên bwyd Dumfries wedi bod ar waith yn hirach gan iddo gael ei sefydlu ym 1996. Mae'n darparu gwasanaeth siopa groser, cyfeillio a chymorth yn y cartref i bobl hŷn, gan eu helpu a'u galluogi i fyw gartref yn annibynnol cyn hired ag sy'n bosibl. O ddechrau bach iawn, dros ddegawd mae'r cynllun wedi danfon nwyddau groser ar dros 15,000 o achlysuron i bron i 600 o gartrefi sy'n cymryd rhan yn ardal Dumfries.

Running through all of this is the need to generate radical community-wide approaches to do whatever is possible to minimise the impact of changes that have already begun and which will be driven through before the next general election. Local resilience will be the key to survival over the next three years, supported by national action and sustained by political determination to stand up for the interests of those who most need that solidarity. The first Cuts Watch Cymru report demonstrates the scale of that challenge; now is also the time to demonstrate the strength of our response.

Drwy hyn oll ceir yr angen i gynhyrchu dulliau gweithredu radical mewn cymunedau i wneud beth bynnag sy'n bosibl i leihau effaith y newidiadau sydd eisoes wedi dechrau ac a fydd yn cael eu gweithredu cyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Bydd gwytnwch lleol yn allweddol er mwyn goroesi dros y tair blynedd nesaf, gyda chefnogaeth gweithredu lleol a phenderfyniad gwleidyddol i sefyll i fyny dros fuddiannau'r rheini y mae angen yr undod hwnnw arnynt fwyaf. Mae adroddiad cyntaf Cuts Watch Cymru yn dangos graddfa'r sialens honno; mae'n amser nawr hefyd i ddangos cryfder ein hymateb.

**Aled Roberts:** I thank Mark Drakeford for allowing me to speak even though I am a member of a party represented in the Westminster coalition. I welcome the publication of the report yesterday. There is a need for a mature debate in Britain because, as I said yesterday, the current welfare reforms are part of a policy agenda that has been pursued by successive Westminster Governments, although I accept that the pace and scale of the reform now goes far beyond that under the previous Government. There

**Aled Roberts:** Rwyf yn diolch i Mark Drakeford am ganiatáu i mi siarad er fy mod yn aelod o blaid a gynrychiolir yng nghlymblaid San Steffan. Rwyf yn croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd ddoe. Mae angen dadl aeddfed ym Mhrydain oherwydd, fel y dywedais ddoe, mae'r diwygiadau lles presennol yn rhan o agenda polisi sydd wedi cael ei dilyn gan Lywodraethau olynol yn San Steffan, er fy mod yn derbyn bod cyflymder a graddfa'r diwygio nawr yn mynd ymhellach o lawer

are issues that I support. Universal credit gives us an opportunity to change the benefits system. The detail needs to be worked out, but it will allow, for example, a tapering of benefit entitlements according to the degree of work, and, as you know, at the moment there are big issues regarding the 16-hour work commitment.

nag o dan y Llywodraeth flaenorol. Ceir materion rwyf yn eu cefnogi. Mae credyd cynhwysol yn rhoi cyfle i ni newid y system budd-daliadau. Mae angen gweithio ar y manylion, ond bydd hynny'n caniatáu, er enghraifft, tapro hawliadau budd-daliadau yn ôl graddfa'r gwaith, ac, fel y gwyddoch, ar hyn o bryd ceir materion mawr ynghylch yr ymrwymiad gwaith 16 awr.

In the time that I am allowed, all I can say is that, within the Assembly, and, in fact, within my party, what I think that I will need to do, in being uncomfortable with some of the suggestions, in the same way as you might have been with some of suggestions put forward by your own Ministers in the previous Government, is to ensure that the most vulnerable are not affected disproportionally in what will be a very difficult period.

Yn yr amser sydd wedi'i neilltuo i mi, y cyfan gallaf ei ddweud yw, yn y Cynulliad, ac, a dweud y gwir, yn fy mhlaid, yr hyn rwyf yn meddwl y bydd angen i mi ei wneud, gan fod yn anghyfforddus gyda rhai o'r awgrymiadau, yn yr un modd â byddech chi wedi bod gyda rhai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan eich Gweinidogion eich hun yn y Llywodraeth flaenorol, yw sicrhau na effeithir yn anghymesur ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed mewn cyfnod a fydd yn arbennig o anodd.

**Leanne Wood:** I thank Mark Drakeford for raising this debate and for allowing me to make a contribution. The Cuts Watch Cymru report is an important piece of work, which deserves our attention. I never thought that, when I first became an Assembly Member, part of my role would involve handing out food vouchers to people who did not have enough money to pay for their food. For me, that is nothing short of a scandal. Food vouchers are now being given out by official Government benefits advisers. That is where we have got to, and it is nothing short of awful.

**Leanne Wood:** Rwyf yn diolch i Mark Drakeford am godi'r ddadl hon a chaniatáu i mi gyfrannu. Mae adroddiad Cuts Watch Cymru yn ddarn pwysig o waith sy'n haeddu ein sylw. Pan gefais fy ethol yn Aelod Cynulliad am y tro cyntaf ni feddyliais erioed y byddai rhan o'm swyddogaeth yn cynnwys rhoi talebau bwyd i bobl heb ddigon o arian i dalu am eu bwyd. I mi mae hynny'n sgandal llwyr. Mae talebau bwyd nawr yn cael eu rhoi gan gynghorwyr budd-daliadau swyddogol y Llywodraeth. Dyna'r sefyllfa rydym ynddi, ac mae hynny'n hollol erchyll.

There has been a 38% increase in the number of people applying for crisis loans since 2007, and a 40% increase in the number of people using loan sharks. All the years of hard work that the Government here has put in to reducing child poverty looks likes it will be wiped out by these cuts. As Mark Drakeford said, this is just the tip of the iceberg; we know that it will get worse.

Bu cynnydd o 38% yn nifer y bobl sy'n gwneud cais am fenthyciadau argyfwng er 2007, a chynnydd o 40% yn nifer y bobl sy'n defnyddio benthycwyr arian didrwyddedd. Mae'n ymddangos y bydd y toriadau hyn yn chwalu'r holl flynyddoedd o waith caled y mae'r Llywodraeth yma wedi'i wneud i leihau tlodi plant. Fel y dywedodd Mark Drakeford, dim ond y dechrau yw hyn; rydym yn gwybod y bydd pethau'n gwaethygu.

I agree with the points that Mark made about resilience and local currencies. In fact, they are similar to the proposals that I put forward in 'A Greenprint for the Valleys', which you may have heard about. I thank Mark for using

Rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaeth Mark am wytnwch ac arian lleol. A dweud y gwir, maent yn debyg i'r cynigion roeddwn wedi'u cyflwyno yn 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', efallai eich bod wedi clywed amdano. Rwyf

his debate to highlight the Cuts Watch Cymru report. You can count on Plaid Cymru's support to ensure that this work remains in the spotlight and on our support for the introduction of measures that will reduce the impact of these cuts on the worst-off in Wales.

yn diolch i Mark am ddefnyddio'i ddadl i dynnu sylw at adroddiad Cuts Watch Cymru. Gallwch ddibynnu ar gefnogaeth Plaid Cymru i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau i gael lle amlwg a gallwch ddibynnu ar ein cefnogaeth i gyflwyno mesurau a fydd yn lleihau effaith y toriadau hyn ar y bobl dlotaf yng Nghymru.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I thank Mark Drakeford, the Member for Cardiff West, for the opportunity to discuss, again, the issues that have been raised by the Cuts Watch Cymru report. We touched on those issues during my statement yesterday. The Member, in introducing this debate, made reference to the fact that 90% of the cuts are still to come and that the work done by the Cuts Watch Cymru coalition has illustrated the nature of the specific benefit cuts that are occurring in local areas. However, it does something beyond that as well, which is that it starts to articulate the human stories that underlie the different benefit cuts that are taking place. Part of what we have been looking for as the ministerial task and finish group, with regard to our relationships with the third sector and other bodies, has been precisely that kind of narrative and stories from people who are being affected by the cuts as they fall. Many of us, as Assembly Members, as I said yesterday, are already dealing with people who have experienced cuts, whether to disability benefit or housing benefit and so on.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwyf yn diolch i Mark Drakeford, aelod Gorllewin Caerdydd, am y cyfle i drafod, unwaith eto, y materion sydd wedi cael eu codi gan adroddiad Cuts Watch Cymru. Roeddem wedi crybwyll y materion hynny yn ystod fy natganiad ddoe. Wrth gyflwyno'r ddadl hon cyfeiriodd yr Aelod at y ffaith bod 90% o'r toriadau eto i ddod a bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y glymblaid Cuts Watch Cymru wedi dangos natur y toriadau penodol i fudd-daliadau mewn ardaloedd lleol. Fodd bynnag, mae'n gwneud mwy na hynny hefyd, sef mae'n dechrau rhoi llais i'r straeon dynol sydd wrth wraidd y toriadau gwahanol i fudd-daliadau. Rhan o'r hyn rydym wedi bod yn chwilio amdano yn y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol, yng nghyswllt ein perthynas â'r trydydd sector a chyrff eraill, fu'r union fath o naratif a straeon gan y bobl y mae'r toriadau'n effeithio arnynt wrth iddynt gael eu gweithredu. Mae nifer ohonom, fel Aelodau'r Cynulliad, fel y dywedais ddoe, eisoes yn delio â phobl sydd wedi wynebu toriadau, boed hynny i fudd-dal anabledd neu fudd-dal tai ac ati.

We have repeatedly expressed serious concerns about what the UK Government is doing and the cumulative impact of its welfare reforms. In the statement yesterday, I fleshed out many of those concerns, and Members can read the first stage of the assessment that we have commissioned. That was established in direct response to our concerns about the UK Government's welfare reforms. Our group will continue to meet as we progress to assess and monitor the cumulative impact of all of the welfare changes.

Rydym wedi mynegi pryderon difrifol droeon ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud ac effaith gronnol ei diwygiadau lles. Yn y datganiad ddoe, ymhelaethais ar nifer o'r pryderon hynny, a gall Aelodau ddarllen cam cyntaf yr asesiad rydym wedi'i gomisiynu. Cafodd hynny ei sefydlu fel ymateb uniongyrchol i'n pryderon am ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU. Bydd ein grŵp yn parhau i gwrdd wrth i ni symud ymlaen i asesu a monitro effaith gronnol yr holl newidiadau lles.

6.30 p.m.

I have to say to Aled Roberts that there are still so many uncertainties around universal

Rhaid i mi ddweud wrth Aled Roberts fod cymaint o ansicrwydd yn dal i fodoli o ran

credit and the passporting of benefits that there are very big questions that need to be asked. One of the issues alongside the general concern about the level of expenditure that is being reduced in some of our poorest communities and families is the question as to how these different forms will hang together. There is still an alarming gap in certainty around some of the measures that are being proposed.

credyd cynhwysol a chynlluniau pasbortau ar gyfer budd-daliadau bod angen gofyn cwestiynau mawr. Un o'r materion ochr yn ochr â'r pryder cyffredinol ynghylch lefel y gwariant sy'n cael ei leihau yn rhai o'n cymunedau a'n teuluoedd tlotaf yw'r cwestiwn ynghylch sut y bydd y mathau gwahanol hyn yn plethu â'i gilydd. Ceir bwlch dychrynllyd o hyd mewn sicrwydd ynghylch rhai o'r mesurau sy'n cael eu cynnig.

Stage 2 of our analysis as a Government is now under way. This will look not only at the immediate financial implications of the UK Government's welfare reform, but people's behavioural responses to that. The intention is that findings from this study will be available later this year. However, our most recent figures tell us that poverty levels in Wales remain stubbornly high and the progress that we made during the first part of the last decade has now stalled. One in three children is now living in poverty in Wales. The Member for South Wales Central Leanne Wood was right to stress the difficulties that that will pose in terms of trying to reach our targets on child poverty in future. She was also right to stress the way in which many people are now being driven to take up loans at very high rates of interest. As I said yesterday, we will continue to support the credit union movement to provide a viable alternative for people in relation to sources of loans.

Mae Cam 2 ein dadansoddiad fel Llywodraeth nawr yn mynd rhagddo. Bydd hyn nid yn unig yn edrych ar y goblygiadau ariannol ar unwaith yn sgîl diwygiadau lles Llywodraeth y DU, ond bydd hefyd yn edrych ar sut y mae pobl yn ymateb i hynny. Y bwriad yw y bydd y canfyddiadau o'r astudiaeth hon ar gael yn nes ymlaen eleni. Fodd bynnag, mae ein ffigurau diweddaraf yn dweud wrthym fod lefelau tlodi yng Nghymru yn dal yn ystyfnig o uchel ac mae'r cynnydd roeddem wedi'i wneud yn ystod rhan gyntaf y degawd diwethaf bellach wedi stopio. Mae un plentyn o bob tri nawr yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Roedd Leanne Wood, Aelod Canol De Cymru, yn iawn i bwysleisio'r anawsterau a ddaw yn sgîl hynny o ran ceisio cyrraedd ein targedau ar dlodi plant yn y dyfodol. Roedd hi'n iawn hefyd i bwysleisio'r ffordd y mae nifer o bobl nawr yn cael eu gorfodi i gael benthyciadau ar gyfraddau llog uchel iawn. Fel y dywedais ddoe, byddwn yn parhau i gefnogi'r mudiad undeb credyd i ddarparu ffynhonnell ymarferol arall o fenthyciadau i bobl.

Our concern is that the reforms currently being undertaken by the UK Government will drive people into greater poverty, particularly families and disabled people. While it is important to recognise that these are the reforms of the UK Government and they lie without our ability to affect, aside from the representations that we can make, we have opportunities through our responses in certain specific areas—not only in terms of credit unions, but our response on the council tax benefit reform and in respect of housing—to try to turn some of these things around. Our programme for government sets out the key actions that we are taking to tackle poverty, with a particular focus on the three strategic objectives set out in the 2011 child poverty

Ein pryder yw y bydd y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yn gwthio pobl i fwy o dlodi, yn enwedig teuluoedd a phobl anabl. Er ei bod yn bwysig cydnabod mai diwygiadau Llywodraeth y DU yw'r rhain ac nad ydym yn gallu dylanwadu arnynt, ar wahân i'r sylwadau gallwn ni eu gwneud, mae gennym gyfleoedd drwy ein hymatebion mewn meysydd penodol—nid yn unig o ran undebau credyd, ond ein hymateb ar ddiwygio budd-dal y dreth gyngor ac yng nghyswllt tai—i geisio gwyrdroi rhai o'r pethau hyn. Mae ein rhaglen lywodraethu yn rhoi'r prif gamau gweithredu rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi, gyda ffocws penodol ar y tri amcan strategol yn

strategy for Wales, based around reducing worklessness, improving skills and improving the health and educational outcomes of children, young people and families living in poverty. We will seek to mitigate the adverse impact of the changes, but we do not believe that we should carry the financial burden of changes that are being introduced from Westminster.

strategaeth tlodi plant 2011 Cymru, sy'n seiliedig ar leihau diweithdra, gwella sgiliau a gwella'r canlyniadau iechyd ac addysg i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Byddwn yn ceisio lliniaru effaith andwyol y newidiadau, ond nid ydym yn credu y dylem ysgwyddo baich ariannol newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o San Steffan.

We welcome very much the contribution of Cuts Watch Cymru and the publication that it has released in the last 24 hours. The third sector will have a key role in the response to welfare reform. In order to work effectively with the third sector, we established the third sector partnership council in 2007, which is chaired by the Minister for Local Government and Communities. That includes 25 representatives from the third sector representing distinct areas of interest. That partnership council has established a work stream to look at the impact of UK Government decisions on Wales. Once again, Cuts Watch Cymru's work will have a very direct relationship to the organisations working on delivering that work stream.

Rydym yn croesawu cyfraniad Cuts Watch Cymru a'r adroddiad a gyhoeddodd yn ystod y 24 awr diwethaf. Bydd gan y trydydd sector ran allweddol i'w chwarae yn yr ymateb i'r diwygiadau lles. Er mwyn gweithio'n effeithiol gyda'r trydydd sector, roeddem wedi sefydlu cyngor partneriaeth y trydydd sector yn 2007, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae hwnnw'n cynnwys 25 o gynrychiolwyr o'r trydydd sector yn cynrychioli meysydd diddordeb penodol. Mae'r cyngor partneriaeth hwnnw wedi sefydlu ffrwd waith i edrych ar effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU ar Gymru. Unwaith eto, bydd gan waith Cuts Watch Cymru berthynas uniongyrchol iawn â'r sefydliadau sy'n gweithio ar gyflenwi'r ffrwd waith honno.

That gives us a vehicle to discuss methods for ensuring that Wales's voice is better heard and heard collectively in the representations that we will continue to need to make about the impact of the UK Government's changes. In addition, the ministerial task and finish group will take on a new prominence in the way that the Member for Cardiff West requested. In March, we will meet stakeholders to hear first-hand how they feel the UK Government reforms are impacting on individuals and communities in Wales. I know that the third sector partnership council is gathering evidence from different organisations on the impacts of the current reforms. That will be discussed in its meeting on 31 May.

Mae hynny'n rhoi cyfrwng i ni drafod dulliau ar gyfer sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn well ac yn cael ei glywed ar y cyd yn y sylwadau y byddwn yn parhau i'w gwneud ynghylch effaith newidiadau Llywodraeth y DU. Ar ben hynny, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol yn cael amlygrwydd newydd yn y ffordd y gofynnodd Aelod Gorllewin Caerdydd. Ym mis Mawrth byddwn yn cwrdd â rhanddeiliaid i glywed ein hunain sut y maent yn teimlo y mae diwygiadau Llywodraeth y DU yn effeithio ar unigolion ac ar gymunedau yng Nghymru. Gwn fod cyngor partneriaeth y trydydd sector yn casglu tystiolaeth gan sefydliadau gwahanol ynghylch effeithiau'r diwygiadau presennol. Caiff hynny ei drafod yn ei gyfarfod ar 31 Mai.

Therefore, there are a number of different ways in which we, as a Government, are responding to that. We will not respond on our own; we want to work with social partners, whether they be in the third sector,

Felly, ceir nifer o ffyrdd gwahanol rydym ni, fel Llywodraeth, yn ymateb i hynny. Ni fyddwn yn ymateb ar ein pen ein hunain; mae arnom eisiau gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol, boed nhw yn y trydydd sector,

whether they be coalitions such as Cuts Watch Cymru, or whether they be the Wales TUC or other trade unions in Wales that have important experience to bring to this debate.

boed nhw yn glymbleidiau fel Cuts Watch Cymru, neu boed nhw yn TUC Cymru neu undebau llafur eraill yng Nghymru sydd â phrofiad pwysig i'w gyfrannu at y ddadl hon.

I suspect that this will not be the only time that we will debate this during a short debate in the Assembly, sadly. I suspect that we will need to return to these issues very shortly, as new changes to the benefits system and other changes associated with those, including developments in the work programme, are implemented. I want to assure Members that this issue is very actively being pursued. We have brought together the four Ministers in the task and finish group and the next task for us is to continue the engagement externally with the widest possible range of stakeholders in Wales.

Rwyf yn tybio nad yma'r unig adeg i ni ddadlau hyn yn ystod dadl fer yn y Cynulliad, yn anffodus. Rwyf yn tybio y bydd angen i ni ddychwelyd at y materion hyn cyn bo hir, wrth i newidiadau newydd i'r system budd-daliadau a newidiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r rheini, gan gynnwys datblygiadau yn y rhaglen waith, gael eu rhoi ar waith. Mae arnaf eisiau sicrhau Aelodau yr eir ar drywydd y mater hwn yn weithgar iawn. Mae'r pedwar Gweinidog wedi dod ynghyd yn y grŵp gorchwyl a gorffen a'r gorchwyl nesaf i ni yw parhau i ymgysylltu'n allanol â'r ystod ehangaf bosibl o randdeiliaid yng Nghymru.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 p.m.*
*The meeting ended at 6.35 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)

Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)